



William Rosser
is the true owner
of this Book 1829
Wm Rosser



600090429U

108 f. 29

Xero

W. Rosser

W. Rosser

1-10-0

do hyn
stvil 9.

Br from R.G. Booth

DYFROEDD SILOAM,

YN CERDDED YN ARAF, AC YN WYNEBU AR YR HOLL
GENHEDLOEDD:

SEP

MYFYRDODAU A SYLWIADAU

AR Y PETHAU CANLYNOL:

- I. Sylwiadau ar, ac Addysgiadau oddiwrth, amryw
o Enwau a Geiriau Ysgrythyrol.
- II. Sylwiadau ar amrywiol o'r Cyffelybjaethau Ys-
grythyrol.
- III. Sylwiadau ar Hanesion Ysgrythyrol.
- IV. Sylwiadau ar wahanol Droion Duw yn ei Rag-
luniaeth at ddyinion yn y byd,
- V. Sylwiadau ar Gwyp Babilon fawr.
- VI. Sylwiadau ar Alwad yr Iuddewon.
- VII. Sylwiadau ar Ogoniant y Mil Blynnyddoedd.
- VIII. Sylwiadau ar Ddirywiad yr Eglwys yn y dydd-
iau diweddaf, a Gwrthryfel Gog a Magog.

A HYMNAU YN CANLYN Y MYFYRDODAU.

GAN AZARIAH SHADRACH,
GWEINIDOG YR EFENGYL YN ABERYSTWYTH.

"Ac fe fydd pysgod lawer iawn, o herwydd dyfod y dyfroedd hyn
yno." EzEC. xlvii. 9.

ABERYSTWYTH,

Argraffwyd gan Esther Williams.

1827.

FY ANWYL GYFPELLION A'M CYD-WLADWYR,

YR YDWYF yn eich hanerch unwaith etto, a'r gyfran hon o'm Myfyrdodau. Chwi fuasech yn eu cael yn gynt, oni buasai llawer o drafferthion bliin, a nychdod a gwendid corphorol, a llesgedd yn y ty o bridd: ond yr wyf yn gobeithio y byddant o fendith i chwi etto, i'ch dwyn i fyfyrion llawer yn ngair y gwirionedd. Y mae yn sicr y gallwn dynu addysgiadau buddiol oddiwrth yr haul, a'r lleuad, a'r ser, a'r planedau mawrion, ag sydd yn troi yn eu cylchoedd yn y ffurfafen ehang sydd uwch ein penau; ac hefyd oddiwrth y môr a'i donnau; yr afonydd a'r ffynonau dyfroedd; ac oddiwrth bob llysieun sydd yn tyfu trwy'r ddaear, a'r holl flodau sydd yn harddu wneb y maesydd: ond y Bibl yw'r llyfr y gwedda i ni fyfyrion ynddo ddydd a nos: y Gair yn unig sydd yn dangos pa fodd y mae i bechadur euog gael maddeuant; a pha fodd y mae i enaid noeth gael ei wisgo; i gydwybod euog gael ei thawelu; ac i bechadur aflan gael ei olchi yn lân. 'Gwaed Iesu Grist, ei Fab ef, sydd yn glanhau oddiwrth bob peched.'—Yr wyf yn gobeithio y bydd yr ychydig Fyfyrdodau hyn yn foddion i'ch dwyn i ymhyfrydu yn y Gair, i barchu Crist y Cyfryngwr, ac i ogoneddu'r Arglwydd a'i wasanaethu yn fwy gwresog. Hyn yw dymuniad eich cyd-yndeithydd tua'r bedd a byd o sylwedd,

AZARIAH SHADRACH.

ABERYSTWYTH, }
Ebrill 4ydd, 1827. }

DYFROEDD SILOAM.

I. MYFYRDODAU AR AMRYW O EIRIAU AC ENWAU YSGRYTHYROL.

AARON. [Ystyr y gair yw *uchelwr, bryn, mynydd, eadernid, neu ddysgawdwr.*] Efe oedd archoffeiriad cyntaf yr Iuddewon, Exod. iv. 14. ac yr oedd yn gysgod neillduolo Grist, ein harchoffeiriad mawr ni:

1. Mae Crist yn anfeidrol uchel; sef o ran ei Dduw-dod ac o ran ei sefyllfa fel Cyfryngwr; y mae yn preswyllo tragywyddoldeb a goruchelder y cysegr, ac wedi esgyn goruwch yr holl nefoedd. Y mae yn uchel o ran ei enw a'i awdurdod, ac hefyd efe a â yn uchel iawn o ran ei deyrnas, ei eglwys, a'i achos, trwy'r holl fyd, cyn diwedd amser; pan y byddo nefoedd newydd a daear newydd wedi cael eu creu, yn y rhai y bydd cyfiawnder yn cartrefu; a Jerusalem yn ben moliant ar y ddaear, ac yn enwog ac yn glodfawr yn nhir ei gwarth; a phan byddo'r Jehofa yn gwneud Jerusalem yn orfoledd ac yn llawenydd i'r holl genhedlaethau. Esay lvii, 15. Rhuf. ix, 5. Eph. i. 20, 21. Eph. iv, 10. Phil. ii, 9, 10. Math. xxviii, 18. Esay lii, 13. 2. Mae Crist yn anfeidrol gadarn; er i'r mynyddoedd neidio fel wyn defaid, a'r bryniau symud o'u lle, y mae Crist yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd. Y mae yn anfeidrol gadarn o ran ei Berson: efe yw Craig yr oesoedd; y mae yn gysgod craig fawr mewn tir sychedig; ac nid fel ein Craig ni yw eu craig hwynt, a bydded ein gelypion yn farnwyr. Ie, y mae Crist yn gadarn o ran ei arfaeth; y mae yn gadarn o ran ei gyfamod; y mae yn gadarn o ran ei orseddfaine; ac hefyd o ran ei frenhiniaeth. Esay ix, 6. Salm xxxiii, 11. Esay liv. 10. Heb. i, 8. Dan. ii, 44. 3. Mae Crist yn ddysgawdwr, Mat.

xi, 29. Y mae Crist yn dysgu dynion i adnabod ewyllys Duw, i weled drwg pechod, manyldra'r gyfraith yn ei gofyniadau, ac annigonolrwydd eu cyflawnderau eu hunain i'w cymeradwyo ger bron Duw: ie, y mae yn dysgu dynion i weled y cyflawnder sydd ynddo ef ar gyfer eu hangen, a'r angenhreidrwydd o waith yr Yspryd Glân i sancteiddio pechadur. Y mae Crist hefyd yn dysgu dynion i weled gwagter y byd, gwerth enaid, a gogoniant crefydd a duwioldeb. Nid oes neb yn dysgu fel efe; ac ni lefarodd neb erioed fel y gwr hwn; a phwy bynag ni wrandawo ar lais y proffwyd yma a lwyr ddifethir o blith y bobl. Luc vii, 16. Act. iii, 22, 23. 4. Yr oedd Aaron yn archoffeiriad, felly y mae Crist yn Archoffeiriad mawr ar dŷ Dduw, ac y mae offeiriadaeth dragywyddol ganddo; ac y mae yn rhagori ar bawb yn y nefoedd ac ar y ddaear. Heb. iv, 14, 15.

1. Fe gafodd Aaron ei eneinio âg olew; felly fe gafodd Crist ei eneinio â'r Yspryd Glân, sef *ag olew gorfoledd tu hunt i'w gyfeillion*. Mae'r Yspryd Glân yma yn cael ei gydmaru i olew, ac y mae yn cael ei alw olew llawenydd, neu olew gorfoledd: y mae yn ffynon gorfoledd a llawenydd ynddo ei hun; y mae yn gweini gorfoledd a diddanwch i'r saint yn nghanol gorthrymderau; ac efe a'u tywys i wlad o dragywyddol orfoledd yn y diwedd. Fe gafodd Crist ei eneinio â'r Yspryd Glân, sef â'r olew nefol hwn. Exod. xxix, 7. Lef. xvi. 4. Heb. i, 9. Act. x. 38.

2. Yr oedd gwisgoedd gogoneddus gan Aaron; felly y mae Crist yn hardd yn ei wisg, ac yn ymdaith yn amllder ei rym; dywedir ei fod wedi ymwisgo â gwisg laes hyd ei draed, ac wedi ymwregysu yn nghylech ei fronau â gwregys aur; y mae Crist yn gwisgo cyflawnder, fel llurig, a helm iachawdwriaeth am ei ben: ie, gwisgodd zêl fel cochl. Exod. xxviii. 2. Esay lxiii. 2. Dat. i, 13. Esay lix, 19.

3. Yr oedd enwau deuddeg llwyth Israel ar ddwyfroneg Aaron, yr archoffeiriad, pan y byddai ef yn myned i mewn i'r cysegr sancteiddiolaf, i ymddangos ger bron yr Arglywydd, ar ddydd mawr y cymod; felly

y mae enwau'r holl saint ar galon Iesu yn y nefoedd, megis wedi eu bysgrifenu â llythyrenau o waed, ac y maent byth mewn coffadwriaeth ger bron Dduw; ac nis collir yr un o honynt, oblegid fe roddes Iesu ei hun yn aberth drostynt ar Galfaria; ac y mae efe, ar sail yr aberth hwnw, yn eiriol drostynt yn y nef. Can. viii, 6. Esay xlix. 14, 15, 16.

4. Yr oedd yr Urim a Thummim ar ddwyfroneg Aaron yr archoffeiriad; felly y mae goleuni a pherffeithrwydd tegwch a sancteiddrwydd yn Nghrist, ein barchoffeiriad mawr ni. Y mae Crist yn cael ei alw yn Haul y cyfiawnder; efe yw goleuni'r byd; ie, *goleuni i oleuo y cenhedloedd, a gogoniant dy bobl Israel*; ac y mae yn llawn o bob perffeithrwydd, tegwch, sancteiddrwydd, a gogoniant: a phan adeilado yr Arglwydd Sion, fe'i gwelir yn ei ogoniant. Exod. xxvii, 30. Luc ii, 32. Ioan i, 4, 5.

5. Yr oedd Aaron i offrymu aberthau dros y bobl; felly y mae Crist wedi ei offrymu ei hun dros ei bobl. Fe'i rhoddes ei hun, gorph ac enaid, yn aberth dros bechod: fe'i rhoddes ei hun drosom, yn offryw ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd. Syned nef, syned daear; fe'i rhoddes ei hun drosom.—nid angel, nid cerub, nid seraph; fe'i rhoddes *ei hun* drosom, sef i fod yn iawn dros ein pechodau! Diolch iddo yn oes oesoedd. Eph. v, 2. Heb. viii, 3. Heb. ix, 28.

6. Yr oedd Aaron i daenellu'r gwaed ar y llyfrau ac ar y bobl, i ddangos fod yn rhaid i gyfiawnder gael gwaed i fod yn iawn; a bod yn rhaid i'r gyfraith gael gwaed i'w hanrhydeddu ac i ddiffodd ei melltithion; ac i ddangos fod yn rhaid i'r gwaed gael ei daenellu ar ein cydwybodau ninnau, cyn y caffom dawelwch cyfreithlon yn y dyn oddi mewn; ie, mae'n rhaid puro ein cydwybodau oddiwrth weithredoedd meirwon cyn y delom i wasanaethu y gwir a'r bywiol Dduw, mewn yspryd a gwiriennedd. Heb. ix. 13, 14. Heb xii, 24.

7. Yr oedd Aaron, yr archoffeiriad, i fyned unwaith bob blwyddyn i mewn i'r cysegr sancteiddiolaf, a gwaed ganddo, i wneuthur eymod dros bechodau'r bobl: felly

y mae Crist wedi myned i'r nesoedd, trwy ei waed ei hun, gan gael i ni dragywyddol ryddhad; ac y mae efe yno yn ymddangos ger bron Duw drosom ni, ac yn eiriol dros y troseddwyf. Heb. ix, 12, 24.

8. Aaron, yr archoffeiriad, oedd i offrymu yr arogl-darth peraidd ger bron yr Arglwydd; felly Crist yn unig sydd i eiriol ger bron Duw dros bechaduriaid; ac nid oes un weddi yn myned yn gymeradwy ger bron Duw ond yn enw a thrwy eiriolaeth Crist, ein harchoffeiriad gogoneddus ni. Dat. viii, 3.

9. Yr oedd Aaron i ganu mewn udgorn arian, i gynnwll y gynnulleidfa yn nghyd, i gyhoeddi'r gwyliau arbenig, ac i rybuddio y bobl i ymbarottoi i ryfel; felly y mae Crist yn udganu yn udgorn mawr yr 'efengyl, i alw ei etholedigion yn nghyd i wledda ar ddanteithion ei dŷ, ac yn eu rhybyddio i ymbarottoi i ryfela yn erbyn byd, cnawd, a diafol; ac fe gân yr archangel, yn moreu mawr y farn, i alw holl drigolion y ddaear yn nghyd i roddi cyfrif ger bron Duw. Esay xxvii, 13. 1 Thes. iv, 16. 1 Cor. xv, 52.

10. Aaron oedd i farnu yn nghylch plâ y gwahanglwyf, ac i gyhoeddi'r gwahanglwyfus yn lân; felly Crist sydd i farnu cyflyrau pechaduriaid, ac efe yn unig a all eu glanhau. Lef. xiii, 10. Mat. viii, 2, 3.

11. Yr oedd Aaron yn gadael ei wisgoedd gogoneddus ar ol i'w feibion: felly y mae Crist yn gwisgo ei blant â gwisgoedd iachawdwriaeth, ac â mantell cyfiawnder. Esay lxi, 10.

12. Yr oedd Aaron yn dysgu, ac yn bendithio y bobl, yn enw'r Arglwydd; felly y mae Crist yn dysgu miloedd o bechaduriaid, ac yn eu gwneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, ac yn eu bendithio â bendithion tragywyddol. Lef. x, 11. Num. vi, 23. Mat. v, 2. Luc xxiv, 51.

13. Yr oedd Aaron i drefnu y lampau ar y canwyll-brea pur bob amser; felly y mae Crist yn trefnu gweinidogion addas a goleuni i'w eglwys bob amser, ac yn trefnu olew gras i bawb o'i blant. Lef. xxiv, 3, 4.

14. Yr oedd Aaron yn gosod bara ar y bwrdd bob

Sabbath, yn y tabernacl; felly y mae Crist yn gwneuthur gwledd ddanteithiol i'w blant, yn wythnosol ac yn sabbathol. *Arglwydd y lluoedd a wna, yn y mynydd llun, wledd o basgedigion breision ac o loyw wni pur-edig.* Lef. xxiv, 5, 6, 7, 8. Esay xxv, 6.

15. Yr oedd marwolaeth yr archoffeiriad gynt yn rhyddhau'r llofrudd o'r ddinas noddfa; felly y mae Crist, trwy farw ar Galfaria, yn rhyddhau miloedd o'r pechaduriaid gwaethaf a fu yn y byd erioed: mae yn etu rhyddhau o afael condemniol deddf a chyfiawnder, ac hefyd o garchar pechod a diafol. Num. xxxv, 28. Gal. iii, 13. Ioan viii, 36.

Mae Crist, ein Harchoffeiriad mawr ni, yn rhagori llawer ar Aaron a'r archoffeiriad Iuddewig. 1. Nid oedd Aaron ond dyn yn unig; ond y mae Crist yn Emmanuel, Duw a dyn yn yr un Person. *Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd.* 1 Tim. iii, 16. Ioan i, 14. 2. Yr oedd pechod a llygredd yn Aaron, am hyny yr oedd yn rhaid iddo yn gyntaf aberthu drosto ei hun; ond y mae Crist yn Archoffeiriad diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid, wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd, y mae yn weddus i ni. Heb. vii, 26, 27. 3. Fe gafodd Aaron ei wneuthur yn archoffeiriad heb lw, ond Crist trwy lw. Heb. vii, 21. 4. Yr oedd yn rhaid i Aaron offrymu yn fynych; ond Crist, wedi offrymu un aberth, dros bechodau, a eisteddodd ar ddeheulaw Duw. Heb. x, 11, 12, 14. 5. Anifeiliaid oedd Aaron yn offrymu ac yn aberthu; ond fe ddarfu i Grist offrymu ei hun, gorph ac enaid, yn aberth dros bechod. Heb. x, 10. Esay liii, 10. 6. Nid oedd yr aberthau Iuddewig yn glanhau neb oddiwrth halogrwydd moesol; ond y mae gwaed Iesu Grist, ei Fab ef, yn glanhau oddiwrth bob pechod. 1 Ioan i, 7. 7. Adgoffa pechod bob blwyddyn yr oedd yr aberthau Iuddewig; ond y mae aberth Crist yn tynu ymaith bechodau llaweroedd. Heb. ix, 28. 8. Yr oedd yr archoffeiriad Iuddewig yn marw ac yn diflanu; ond Crist, am ei fod yn aros yn dragywydd, sydd âg offeiriadaeth dragywyddol ganddo. Heb. vii, 24. 9.

Ni byddai Duw ddim yn ymhyfrydu yn yr aberthau Iuddewig, pan y byddai dynion yn ymorphwys ynddynt ac arnynt mewn modd ffurfiol; ond y mae aberth Crist yn arogl peraidd i Dduw yn wastadol. Esay i, 11. Eph. v, 2. 10. Dros y genedl Iuddewig yn unig yr oedd Aaron yn offrymu; ond fe offrymodd Crist aberth dros Iuddewon a chenhedloedd. 1 Ioan ii, 2. Ioan i, 29.

Addysg 1. Rhyfeddwn gariad y Tad yn anfon ei Fab i'r byd, i offrymu ei hun yn aberth, i fod yn iawn dros ein pechodau ni: 1 Ioan iv, 10. 2. Cofiw'n yn wastadol, nad oes un aberth a'n diogela rhag y llid a fydd ond aberth Crist. Heb. x, 26. 3. Dysgw'n nesau yn hyderus at orseddfainc y gras, yn enw'r Archoffeiriad mawr hwn: efe yw y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd, ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall. Heb. iv, 15, 16. 4. Ymddiriedwn yn ei aberth am bob bendith i'n heneidiau. *Amen.* Eph. i, 7.

1 Crist yw'r Archoffeiriad ffyddlon, a ddiodeffodd angen loes, i gymodi Duw a dynion, trwy ei loesion ar y groes;

Fe roes aberth ar Galfaria, dan yr hoelion garwa'u rhyw, i wneud myrdd o hen elynion, yn gyfeillion pur i Dduw.

2 Fe aeth Iesu trwy ei aberth, mewn i'r etifeddiaeth fry, Mae'n cyslawnu ei ffeiriadaeth, mewn eiriolaeth drosom ni; Y mae'r clychau heddy'n canu, wrth ei odre'n beraidd iawn, Sef efyngyl y cyhoeddi iachawdwriaeth fawr ei dawn.

ABADON. [Arwyddocâd y gair yw *dinystrydd.*] Dat. ix, 11. *Ac yr oedd ganddynt frenin arnynt, sef angel y pyderw diwaelod: ei enw ef yn Hebraeg ydyw Abadon.* Y Pab o Rhufain, fe ddichon, a feddylir wrtho; neu'r gau broffwyd Mahomet: ond y mae y diafol yn aml yn cael ei alw yn dywysog ac yn dduw'r byd hwn. 1. Y mae y rhan fwyaf o'r byd o dan ei lywodraeth, ac yn milwrio o'i blaid, ac yn ufudd ddeiliaid iddo. Ioan xii, 31. a xiv, 30. Eph. ii, 2. 2. Ei orseddfainc, ei neuadd, a'i eisteddfod benaf yw calon dyn annuwiol. Luc xi, 21, 22. Mat: xii, 29. 3. Ei arfogaeth yw anwybodaeth, anghrediniaeth, rhagfarn at Crist a'i achos, cariad at bechod, malais at sancteiddrwydd, cydwybod gysgilyd, ewyllys gyndyn, a serchiadan daearol dynolryw. 4. Y mae y diafol, fel tywysog, yn gwrthryfela y

barhaus yn erbyn Crist a'i aelod yma yn y byd; ond fe wna'r Emmanuel ennill y fuddugoliaeth yn gyflawn cyn b'o hir. 1 Cor. xv, 25. 5. Mae yn briodol iawn galw y diafol yn ddinystrydd: fe ddinystriodd heddwch y greadigaeth, ac fe ddistodd derfysg i holl lywodraeth y Jehofa; fe ddinystriodd y ddelw hardd oedd ar ddyn yn y greadigaeth gyntaf; fe ddinystriodd eneidiau miloedd o bechaduriaid, trwy eu denu i ddilyn ffyrdd annuwïol ac i gofleidio cyfeiliornadau; ac hefyd y mae yn dinystrio llawer o gysuron y duwiolion goreu, trwy eu temptio i hechu yn erbyn yr Arglwydd, a'u rhwydo yn ei faglau dirgel. O gwiliwn yn wastadol, a gwrthwynebwn ddi-afol yn gadarn yn y ffydd, ac efe a ffyddiwrthym; a chymerwch darian y ffydd, a'r hon y gellwch ddistodd holl bicellau tanlyd y fall. 6. Cofiwch annuwïolion, a phawb ag sydd yn gwasanaethu diafol, nad oes ganddo ddim gwell lle i chwi yn y ddiwedd na phwll diwaelod. Y mae uffern yn cael ei galw yn *bydew diwaelod*, i ddangos y bydd y damnedigion yn suddo fel yn ddyfnach ddyfnach mewn tloedi, galar, a thristwch diddiwedd: ie; byddant yn suddo ddyfnach ddyfnach mewn bythol anobaith, a than lid y Duw Hollalluog, i dragywyddoldeb. O! sobred yr Arglwydd y torfeydd lluosog ag sydd yn teithio bob dydd tua'r wlad annedydd hono. Amen.

ABARIM. [*Arwyddocâd y gair yw mynediad dros-odd.*] Deut. xxxii, 49. *Esgyn i'r mynydd Abarim hwn, sef mynydd Nebo, yr hwn sydd yn nhir Moab, ar gyfer Jericho; ac edrych ar wlad Canaan, yr hon yr ydwyf yn ei rhoddi yn etifeddiaeth i feibion Israel.*

I. Y mae gan Dduw etifeddiaeth ar fedr ei blant tu draw i angeu. 1. Etifeddiaeth rad iddynt hwy: "Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hyny nid o honoch eich hunain: rhodd Duw ydyw. Nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni; eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni, trwy olchiad yr adenedigaeth ac adnewyddiad yr Yspryd Glân. Yr hwn a'n hachubodd ni, ac a'u galwodd â galwedigaeth

sanctaidd; nid yn ol ein gweithredoedd ni, eithr yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, yr hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu cyn dechreu'r byd." Eps. ii, 8. Tit. iii, 5. 2 Tim. i, 9. 2. Etifeddiaeth gyflawn o bob peth daionus ydyw; sef cyflawnder o rydd-did, o heddwch, goleuni, a mwynhad o Dduw, dros fyth. 1 Cor. ii, 9. 3. Etifeddiaeth sanctaidd, barhaus, a thragywyddol ydyw. 1 Pedri, 4.

II. Mae'n rhaid esgyn i fynu, mewn ffydd a myfyrodau nefolaidd, i fynydd cymundeb â Duw, cyn cael golwg ar yr etifeddiaeth hon. O! gwynfyd y bobl sydd yn gallael dywedyd oddiar brofiad, fel Ioan, Ein cymdeithas ni yn wir sydd gydâ'r Tad, a chydâ'i Fab ef Iesu Grist: ac fel y dywed Dafydd, Pan ddefrowyf gydâ thi yr ydwyf yn wastad. Ond i chwi, fy nghyfeillion, nesu digon yn mlaen o swm y byd i gymdeithas â Duw, chwi gollwch eich golwg ar wagedd y byd; a chwi a ddeuwch yn fuan i olwg eang faesydd gwlad sancteiddrwydd, ac i olwg bryniau dedwyddwch, a ffrwythau toreithiog gwlad anfarwoldeb.

III. Mae'n rhaid myned drosodd cyn mwynhau yr etifeddiaeth dragywyddol. 1. Mae'n rhaid myned drosodd o'r cyfamod o weithredoedd i'r cyfamod gras. 2. Mae yn rhaid myned drosodd o fryn balchder i ddyffryn gostyngeddwrwydd. 3. Mae'n rhaid myned drosodd o ddyffryn llawenydd cnawdol i ddyffryn o edifeirwch gwirioneddol. 4. Mae'n rhaid myned drosodd o hunan gyfiawnder i gyfiawnder Crist. 5. Mae'n rhaid myned drosodd o'r byd i'r eglwys. 6. Mae'n rhaid myned drosodd o'r ddaear, trwy afon angeu, i'r nefoedd, cyn mwynhau'r etifeddiaeth yn gyflawn. *Gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych mewn dammeg; ond yna wyneb yn wyneb.* 1 Cor. xiii, 12.

Addysg. 1. Gan fod y fath etifeddiaeth ar fedr y duwiolion, peidiwn a chynfigenu wrth lwyddiant yr annuwiol. 2. Gwelwn y fath sail sydd genym i fod yn foddlon mewn gorthymderau. 3. Mor lleied o achos sydd genym i alaru yn anghymedrol ar ol ein perthynasau ag sydd yn marw yn dduwiol; y maent wedi my-

ned drosodd i'w hetifeddiaeth gyflawn a gogoneddus. Addfedrwydd i ni oll i'r aneddle lonydd, trwy Grist. *Amen.*

ABDIEL. [*Gwas Duw yw ystyr y gair.*] 1 Cron. v, 15. Gweision Duw yw pob peth: gwas Duw yw'r môr mawr llydan, i gario ei efengyl a chenhadau hedd at yr holl genhedloedd; y mae'r gwyntoedd a'r môr yn ufuddhau iddo: gweision Duw yw'r haul, a'r lleuad, a'r holl blanedau; y maent i gyd wrth ei lywodraeth: mae holl angylion y nefoedd yn weision iddo; ac y mae Crist, fel Cyfryngwr, yn was i'r Tad, (Esay lii. 13.) ond, mewn modd neillduol, y mae yr holl dduwiolion yn weision iddo. Esay liv, 17. 1. Fel gweision, y mae cytundeb cyfamodol wedi cymeryd lle rhyngddynt â Duw. 2. Fel gweision, mae Duw wedi ymddiried llawer i'w gofal. Mat. xxv, 14. 3. Fel gweision, hwy ddylent garu, parchu, ac ofni yr Arglwydd, eu Meistr mawr. Mal. i, 6. 4. Fel gweision, hwy ddylent ufuddhau i orchymynion eu Meistr. Esay i, 19. 5. Dylent fod yn ffyddlon, diwyd, ac onest, yn ngwaith eu Meistr. Mat. xxv, 48. 6. Fel gweision, dylent fod yn foddlon i ddanteithion a rheolau tŷ eu Meistr. Salm xxvii, 4. 7. Fel gweision, dylent amddiffyn enw ac anrhydedd eu Meistr. Dan. iii, 16, 17, 18. 8. Aros yn ngwaith eu Meistr, a myned yn amyneddgar trwy bob gorchwyl caled, a'u golwg ar y wobr. 2 Tim. iv, 6, 7, 8. Heb. xi, 25, 26, 27. O! gwneier ni oll yn weision ffyddlon. *Amen.*

ABDON. [*Gwas neu gwmwl cyfiawnder.*] Barn. xii, 15. Un o farnwyr Israel ydoedd. Y mae llawer o bethau yn cael eu cyffelybu i gymylau, yn y Bibl sanctaidd. 1. Rhagrithwyr a gau athrawon. 1 Pedr ii, 17. 2. Mae pechodau dynion yn erbyn yr Arglwydd yn cael eu cyffelybu i gymylau; y maent yn aml iawn yn cario ynddynt gafodydd o farnedigaethau dychrynlyd, ac yn cuddio rhyngom a llewyrch disglair yr haul nefol. Esay xlv, 22. 3. Mae bywyd dyn ar y ddaear yn cael ei gyffelybu i gwmwl neu darth. Job. vii, 9. Iago iv, 14.

4. Mae cystuddiau a gorthrymderau yn cael eu cyffelybu i gymylau. Galar. ii, 1. 5. Y mae gorchwyliaethau rhyfedd rhagluniaeth yn cael eu cyffelybu i gymylau. Salm xcvi, 2. 6. Gweinidogion ac ordinhadau r'efengyl. Esay v, 6. 7. Y duwiolion yn gyffredinol. Esay lx, 8. Heb. xii, 1. Y maent yn uchel ac yn nesolaidd o ran eu meddwl, ac y maent yn derbyn eu cyflawnder o fôr cariad Duw, ac y maent yn cael eu cario yn gyflym gan awelon yr Yspryd Glân.—*Cwmwl cyfiawnder.*—Y mae gan y Cristion gyfiawnder triphlyg. 1. Cyfiawnder cyfrifol Crist am yr enaid. 2. Cyfiawnder egwyddorol yn yr enaid. 3. Cyfiawnder ymarferol yn y fuchedd. O! gwnefer ni oll yn gymylau dyfradwy a bendithiol i'n cymydogath. *Amen.*

ABEDNEGO. [*Gwas y goleuni.*] Dan. i, 7. Y mae llawer o bethau yn cael eu galw yn oleuni yn y Gair, heblaw goleuni naturiol. 1. Duw tragwyddoldeb. 1 Ioan i, 4, 5. 2. Gair Duw yn gyffredinol; ac yn neillduol athrawiaeth yr efengyl. Salm cxix, 109. Ioan iii, 20, 21. Act. xxvi, 23. 3. Gweinidogion ffyddlon yr efengyl. Mat. y, 14. 4. Duwiolion yn gyffredinol. Eph. v, 8. 5. Gweithredoedd da, neu sanctaidd ymddugiad. Mat. v, 16. 6. Cysur a llawenydd. Est. viii, 16. 7. Gwynfyd a gogoniant y saint yn y nef. Col. i, 12. 8. Mae Crist yn cael ei alw y *gwir Oleuni*; a *Goleuni y byd*. Fel goleuni, y mae yn hyfryd, yn datguddio ac yn egluro pethau; y mae yn rhad, yn dreiddiol, ac yn ymlid y tywyllwch ffwrdd o'i flaen. Gwynfyd pawb ag sydd yn gwir wasanaethu Iesu Grist; fe fydd eu llwybr fel y goleuni, yr hwn a lewyreha fwy fwy hyd ganol dydd.

ABEL. [*Tarth neu wagedd.*] Gen. iv, 4. Mab Adda ydoedd. Fe ddiflanodd yn fuan fel cysgod, ac a wywododd fel blodeuyn y glaswelltyn. 1. Tart h neu wagedd yw einioes pob dyn, ac yn cilio fel cysgod, ac ni saf. *Diau mai crobl wagedd yw pob dyn, pan fo ar y gorau.* Salm xxxix, 5. 2. Tart h a gwagedd yw holl lawenydd yr annwiliolion. *Oni wyddost ti hyn er dded; er pan*

osodwyd dyn ar y ddaear, mai byr yw gorfoledd yr annuwiolion, a llawenydd y rhagrithwyr dros funud awr? Job xx, 5. Preg. xi, 10. Diar. xiv, 13. Preg. ii, 2. 3. TARTH a gwagedd yw cyfoeth a holl ogoniant y byd. Diar. xxi, 6. Esay xl, 17. *Yr holl genkedloedd ydynt megys diddym ger ei fron ef; yn llai na dim, ac na gwagedd, y cyfrifwyd hwynt ganddo.* Ond y mae Crist yn peri i'r sawl a'i carant etifeddu sylwedd. Diar. viii, 21.

- 1 Byd yw hwn sy'n llawn o adfyd, blinfyd, gofid o bob rhyw; Ond y mae gorffwysfa nefol, etto'n ol i bobl Dduw, Yn yr etifeddiaeth lonydd, draw ar faesydd Canaan wlad, Lle cant ganu byth heb dewi, am eu goléhi yn y gwa'd.
- 2 Mewn gotenni heb dywyllwch, mewn cyflawnder heb ddim trai, Mewn sancteiddrwydd glân dibeched, heb ddim nyched nac un bai, Yno'n canu eu telynuau; yn llawn hwyllau oll ar dân; Concwest Iesu ar Galfaria, fydd eu hanthem a'u holl-gân.
- 3 Fe fydd Abel yno'n canu, byth heb dewi trwy'r hir oes, Am ei gadw yn dra boren, trwy rinweddau gwaed y groes; Iachawdwriaeth wedi ei gorphen, fydd yr Anthem faith ei hyd, 'R Oen fu farw rhwng y lladron, gaiff y goron oll i gyd.

ABELBETHMAACHA. [*Galar i dŷ Maacha.*] I Bren. xv, 20. 2 Bren xv, 29. Enw lle ydyw. Y mae llawer o bethau yn achos galar mawr i deuluoedd ac i bersonau neillduol yma yn y byd presennol. 1. Colli cyfeillion a pherthynasau caruaid, hawddgar, a hoff; diau fod Mar a Martha yn galaru ar ol eu brawd Lazarus, ac yr oedd yr Iuddewon yn galaru yn fawr ar ol Josiah dduwiol. Ioan xi, 19. 2. Colli'r cyfoeth a'r meddianau, fel Job. 3. Mae cam-ymddygiad rhai o'r teulu, yn achos galar mawr weithiau i deuluoedd: megys gwaith meibion Jacob yn gwerthu Joseph i'r Aipht; a gwaith Reuben yn dringo gwely ei dad; a gwaith Dina, merch Jacob, yn myned allan i edrych ar ferched y wlad, a chael ei halogi gan Sichem; (Gen. xxxiv, 1, 2, 3, 4, 5) diau fod y pethau hyn wedi bod yn achos gofid a galar mawr yn nheulu Jacob dduwiol. 4. Y peth mwyaf o'r cwbl ag sydd yn achos gofid a galar i'r duwiol ydyw llygredd ei galon ei hun, aflwyddiant Sion, a cholli gwedd wyneb yr Arglwydd. Rhuf. vii, 24. Jer. ix, 1. Job xxiii, 3. Ond y mae yn dda i'r duwiol gofio

mai dros brydnawn yr erys wylofain, ac erbyn y boreu y bydd gorfoledd:—godd, weddant lawenydd a hyfrydwch, cystudd a galar a ffy ymaith.

ABELMAIM. [*Galar y dyfroedd.*] Un o ddinasoedd Naphtali. 2 Cron. xvi, 4. Y mae torfeydd lluosog o ddynion yn cael eu galw yn *ddyfroedd* yn y gair. Dat. xvii, 15. Esay viii, 7. a xvii, 12. Y mae yn sicr fod galar a gofid yn perthyn i ddynion yn gyffredinol; y mae dyn wedi ei eni i flinder, fel yr eheda'r wreichionen i fynu: ond y mae llawer yn galaru yn anghymedrol ar ol eu plant a'u perthynasau. Cofiwch, y mae galar anghymedrol yn niweidiol ac yn bechadurus. 1. Mae yn gwanhau y cynheddfau, ac yn anmharu'r corph. Diar xv, 13. 2 Cor. vii, 10. 2. Mae'n anfoddloni ac yn digio'r Arglwydd. 1 Cor. x, 5. 1 Pedr iii, 4. Ond, rhag i chwi alaru yn anghymedrol ar ol eich perthynasau sydd yn marw, ystyriwch y pethau canlynol:

1. Ystyriwch mai dynion i farw yw pob un o honom; *Pa wr a fydd byw, ac ni wel farwolaeth? a wared efe ei enaid o law y bedd?* Ffordd yr holl ddaear yw marw, ac y mae'r bedd yn dŷ rhagderfyndedig i bob dyn byw; y mae y patriarchiaid, y proffwydi, a'r apostolion wedi marw; a phob dyn a dyn ar eu hol, megys yr aeth aneirif o'u blaen. Salm lxxxix, 48. Jos. xxiii, 14. 1 Bren, ii, 2. Job xxx, 23. Preg. viii, 8. a xii, 7. Job xxi, 33.

2. Ystyriwch mai Duw a'u rhoddodd hwynt i chwi, ei eiddo ef oeddynt, ac nid oeddynt ond benthg i chwi. 1 Cron. xxix, 14. Iago i, 17. Gen. xxxiii, 5. Salm cxxvii, 3.

3. Ystyriwch fod gan yr Arglwydd Dduw doeth law neillduol yn eu marwolaeth; efe sydd yn lladd ac yn hywchau; ac, fel y dywed Job dduwiol, *Yr Arglwydd a roddodd, yr Arglwydd a gymerodd ymaith; bendigedig fyddo enw'r Arglwydd.* 1 Sam. ii, 6. Job i, 21. a xiv, 5.

4. Ystyriwch fod yr Arglwydd yn gyfiawn ac yn dda yn ei holl ymddygiadau: mae efe yn cymeryd ein plant

a'n perthynasau oddi wrthym weithiau mewn ffordd o gerydd arnom, am ein bod yn eu caru yn ormodol, ac yn rhagofalu yn anghymedrol drostynt; ond fe gaiff pob peth gydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw. Yr oedd mêl ar wialen Jonathan, ac fe gafodd Sampson fel yn ysgerbwd y llew; felly y mae mêl ar holl wialenodau Duw i'w blant, ac ni allwn ninnau dynu mêl o addysgiadau buddiol oddiwrth farwolaeth ein perthynasau. Salm cxix, 68, 75. a cxlv, 17. 1 Sam. xiv, 27. Barn xiv, 8, 9.

5. Ystyriwch fod yr Arglwydd etto'n fyw, ac y mae efe wedi addo bod gyda'i bobl, ac yn gymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder; ac y mae efe yn ddigon i wneud pob colled i fynu. Salm xlv, 1. Phil. iv, 19.

6. Ystyriwch eich bod wedi haeddu colledion llawer mwy a chroesau llawer trymach: yr ydych wedi haeddu colli yr efengyl, a cholli eich eneidiau i dragywyddoldeb. *Pa ham y grwynach dyn byw, gwyr am gosp-edigaeth ei bechod?* Nid ydyw tân digofaint wedi cynneu etto yn gyfattetol i danwydd ein pechodau ni. *Dioddefaf ddig yr Arglwydd, canys pechais i'w erbyn.* Galar. iii, 39. Ezra ix, 13. Job xi, 6. Salm ciii, 10. Michah vii, 9.

7. Ystyriwch yn ddirifol faint o drugareddau y mae yr Arglwydd wedi gyfranu i chwi; er i chwi gollu plant a pherthynasau, y mae gan lawer o honoch blant a pherthynasau etto; gellir dywedyd wrthy'ch fel y dywedodd Jonadab wrth Ddafydd, *Na thybied fy arglwydd iddynt hwy ladd yr holl langciau, sef meibion y brenin: Amnon yn unig a fu farw.* 2 Sam. xiii, 32. O peidiwn âg anghofio trugareddau lluosog Duw tuag atom; na fydded fod trugareddau mawr Duw yn suddo mewn anghof genym, a gofidiau bychain yn nosio ar wyneb ein meddwl: na rwgnachwn, fel Jona, ar ol y cicaion, a ninnau wedi cael ein gwaredu fel o fol uffern. Jona iv, 8, 9.

8. Ystyriwch anfuddioldeb eich galar ar ol eich perthynasau: diau pe byddech yn wylo afonydd a moroedd o ddagrau, a thristau pes y byddai eich cnawd yn curio

ac yn gwanhau, ni wnaï hyny godi neb oddiwrth y meirw, neu ddattod rhwymau marwolaeth. Job vii, 9, 10. Job x, 21. a xvi, 22.

9. Ystyriwch fod marw yn elw mawr i'r duwiolion, a gwyn fvd y meirw ag sydd yn marw yn yr Arglwydd. Phil. i, 21. Dat. xiv, 13.

ABELMEHOLAH. [*Tristwch a gwendid.*] Enw lle ydyw. Barn. vii, 22. Y mae tristwch a gwendid yn perthyn i holl ddynolryw. 1. Y maent yn wan iawn mewn ystyr foesol, fel nad oes mewn dyn wrth natur ddim tuedd i garu Duw, na newid ei egwyddor, na dyfod at Grist i gael bywyd. Rhuf. v, 6. a viii, 7. Jer. xiii, 23. 2. Mae dyn yn llawn o wendid naturiol: *Pob cnawd sydd wellt, a'i holl odidogrwydd fel blodeuyn y maes.* Esay xl, 6. 3. Mae'r dyn duwiol yn wan iawn ar lawer o olygiadau: y mae ei ffydd, ei gariad, a'i obaith yn wan iawn yn aml, (Ioan xv, 5) ac y mae sylfaen tristwch tragywyddol yn nghyflwr pob dyn wrth natur; ond y mae rhai trwy drugaredd yn cael eu dwyn i dristau yn dduwiol. 2 Cor. vii, 11. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng tristwch duwiol a phob tristwch arall. 1. Y mae pob tristwch arall yn cadw'r enaid a Christ oddiwrth eu gilydd. 2. Mae tristwch arall yn cadw'r pechadur a'r addewid oddiwrth eu gilydd. 3. Mae pob tristwch arall yn anghymwysu dyn at ei ddyledswyddau. 4. Y mae pob tristwch arall yn llenwi'r enaid o feddyliau caledion am Dduw, ac yn ei yru y mhellach oddi wrtho. 5. Y mae tristwch y byd yn distrywio pob llawenydd, ond nid yw tristwch duwiol byth yn eflyni i lawenydd ysprydol. 6. Y mae afiechyd a marwolaeth yn aml yn nglyn â thristwch y byd, ond y mae iechyd a bywyd tragywyddol yn gysylltedig â thristwch duwiol. 7. Y mae tragywyddol dristwch yn canlyn pob tristwch arall, ond y mae llawenydd tragywyddol yn canlyn tristwch duwiol.

ABELMISRAIM. [*Galar yr Aiphtiaid.*] Gen. i, 11. Y mae cydmariaeth rhwng dynion annuwiol a'r Aiphtiaid gynt. 1. Yr oedd yr Aiphtiaid yn dywyll ac yn

eilun-addolgar; felly y mae'r annuwiolion wedi myned i garu'r creadur yn fwy na'r Creawdwr. 2. Yr oedd yr Aiphtiaid yn rhai creulon a gorthrymus; felly y mae yr annuwiolion yn lled gyffredin. 3. Yr oedd yr Aiphtiaid yn agored-i blâau a barnau trymion yr Arglwydd; felly y mae yr holl rai annuwiol, ac *oni ddychwel yr annuwiol, efe a hoga ei gleddyf*. 4. Nid oedd yr Aiphtiaid ddim dan arwydd y gwaed, ac fe ddarfuo i'r angel dinystriol eu taro, ac yr oedd gwaeddi mawr yn yr Aipht y noswaith hono; felly nid yw'r annuwiolion yn Nghrist, ac nid ydynt yn ymwneud trwy fydd â gwaed y groes; am hyny hwy a gânt eu taro yn ddychrynlyd gan gleddyf cyflawnder yn moreu mawr y farn, a hwy a fyddant yn gwaeddi yn wylofus iawn y diwrnod hwnw; ac, O! y galar mawr a fydd yn eu meddiannu yn uffern am dragywyddoldeb. 1. Am iddynt gam-dreulio eu hamser yn y byd. 2. Am iddynt wrando ar lais y diafol yn lle ar lais hyfryd yr efengyl. 3. Am iddynt ddewis gwagedd y byd yn lle sylwedd crefydd. Ond y mae llawenydd tragywyddol yn aros y duwiol yn y nefoedd. Fe fydd llawenydd y saint yn tarddu oddiar yr olwg ryfedd a gânt yno. 1. Gweled cyfraith Duw wedi ei chyflawn anrhydeddu gan Grist, eu Priod a'u hanwyl Feichiau. 2. Gweled yr holl briodoliaethau yn tywynu yn eu gogyfuwch ogoniant yn eu cadwedigaeth hwy; er mor anheilwng. 3. Gweled Iesu yn ogoneddus, a'i goron yn ddisglair ar ei ben, fel haul yn mhlith y Hu. 4. Gweled eu hunain wedi cael eu hachub, er iddynt haeddu bod yn golledig byth. 5. Ystyriaeth o'r tywydd garw y cadwodd achubol ras hwy'n fyw ynddo, a'u gwaredu mewn chwech neu saith o gyfyngderau. 6. Golwg ar helaethrwydd a chyflawnder eu hetifeddiaeth. 7. Golwg ar eu holl elynion wedi eu gorchfygu am byth.

- 1 Byd yw hwn sy'n llawn o dristwch, a thywyllwch dudew'r nos; Ond 'r wy'n caisod rhwng y bryniau, y wawr ya oleu tua'r gro's, Ac 'r wy'n credu cwyd yr haulwen, cyn b'o hir yn ddisglair iawn, Ni gawn niunau foreu hyfryd, heb un gofid na phrydnawn.
- 2 Y mae yma yn dymhestlog, a chymylog iawn yn wir, Ond fe dderfydd y gofidiau, ac fe ddaw yn oleu clir;

Ac fe dderfydd gorthrymderau, a gridd'auau'r saint i gyd.
 Canu fydd eu gwaith trag'wyddol, 'nol myn'd mewn i'r nefol fydd.
 § Ffarwel yfed dyfroedd Mara, ffarwel auaf, ffarwel nos,
 Ond trag'wyddol fydd y canu, am ein prynu ar y gro's;
 Bydd pob telyn mewn hwyl hyfryd, yn y tawel fywyd maith,
 Pawb yn canmol yno'n gyson, o'r un galon a'r un iaith.

ABIAH. [*Duw yw fy nhad.*] Ail fab Samuel, ac un o farnwyr Israel ydoedd. 1 Sam. viii, 2. Y mae Duw yn Dad i'r saint. 1. Trwy greadigaeth. Mal. ii, 10. 2. Trwy ail-enedigaeth. Ioan i, 13. a iii, 3. 1 Pedr i, 3. 3. Y mae Duw yn Dad i'r saint trwy fabwysiad. Ioan i, 12. 1 Ioan iii, 1. Gal. iii, 26. Y mae Duw yn ymddwyn at ei blant fel tad yn y pethau canlynol. 1. Trwy ofalu yn dirion am danynt. 1 Pedr v, 7. 2. Trwy eu dysgu a'u cyngori. Salm xxxii, 8. Esay liv, 13. 3. Trwy eu ceryddu, er lles a daioni iddynt. Heb. xii, 6; 7. 4. Trwy dosturio wrthyt a'u harbed. Salm ciü, 13. Mat. iii, 17. 5. Trwy eu cysuro a'u diddanu. 2 Cor. i, 4, 5. Esay li, 12. 6. Trwy wrando ar eu Hef a'u deisyfiadan. 1 Ioan v, 14, 15. Mat. vii, 8, 11. 7. Trwy gofio yn barhaus am danynt. Esay xlix, 15. 8. Trwy barottoi yn helaeth ar eu cyfer. 1 Cor. ii, 9.

ABIALBON. [*Tad synwryol, neu benaeth yr adeilad.*] Un o gedyrn y brenin Dafydd ydoedd. 2 Sam. xxiii, 31. Peth dymunol a gwerthfawr iawn yw tad synwryol. 1. Fe wna tad synwryol ymdrechu dwyn ei blant at Grist a'u cyflwyno iddo. Marc x, 13, 14. 2. Fe wna tad synwryol roddi esiamplau da o flaen ei blant. Diar. xx, 7. Salm cxii, 1, 2. 3. Fe wna tad synwryol hyfforddi ei blant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Deut. iv, 9. Diar. xxii, 6. Eph. vi, 4. 4. Fe wna tad synwryol weddio llawer dros ei blant. Job i, 5. 2 Sam. xii, 16. 5. Fe wna tad synwryol geryddu ei blant yn brydlawn er lleshad iddynt. Diar. xiii, 24. a xix, 18. a xxii, 15. a xxiii, 13, 14. a xxix, 15, 17. 6. Fe wna tad synwryol ymdrechu dwyn ei blant i fynu mewn rhyw alwedigaeth gyfreithlon. Gen. iv, 2. 7. Fe wna tad synwryol ymdrechu priodi ei blant â theulu'r ffydd. Gen. xxiv, 3, 4. Ond y mae Duw yn

anfeidrol synwryol, ac y mae efe yn Benaeth ar holl adeilad fawr yr eglwys i gyd. Diolch iddo. *Amen.*

ABIAM. [*Tad y moroedd.*] Un o frenhinoedd Juda ydoedd, 1 Bren. xv, 1. Ond Duw tragywyddoldeb yw Tad y moroedd. 1, Efe yw Tad y moroedd naturiol. Salm cxlvi, 6. Jonah i, 9. Act. xiv, 15. 2, Efe yw Tad moroedd yr iachawdwriaeth; y mae efe yn Dad y trugareddau ac yn Dduw pob diddanweh, ac oddi wrtho ef, fel ffynon y dyfroedd byw, y mae yr holl iachawdwriaeth i gyd yn deilliaw. 1, Y mae cyflawnder yn y môr, felly yn yr iachawdwriaeth. 2, Y mae rhinwedd bureiddiol a glanhaol yn y môr, felly yn yr iachawdwriaeth. 3, Y mae rhinwedd feddyginiaethol yn y môr, felly fe wna'r iachawdwriaeth fawr feddyginiaethu miloedd oddiwrth glwyfau ac afiechyd pechod. 4, Y mae'r môr yn ddefnyddiol i drosglwyddo pethau o un wlad i'r llall, felly fe drosglwydda'r iachawdwriaeth filoedd o fyd o wae i fyd o dragywyddol orfoledd.

ABIATHAR. [*Tad rhagorol.*] Archoffeiriad yr Iuddewon ydoedd. Marc ii, 26. Nid yw pob tad yn dad rhagorol: nid yw y di-weddi, y tyngwr, y meddwyn, y twyllwr, y lleidr, a'r torwr Sabbath, yn dad rhagorol; ond tad rhagorol yw'r hwn sydd yn dysgu ei blant yn mhethau yr Arglwydd, ac yn eu rhybyddio, ac yn gofalu yn neillduol am eu heneidiau: ond y mae Duw'r nefoedd yn Dad ag sydd yn rhagori ar bawb yn y nefoedd ac ar y ddaear. 1, Y mae Duw yn Dad rhagorol o ran ei ddoethineb, 1 Tim. i, 17. 2, Y mae yn Dad rhagorol o ran ei gariad, 1 Ioan iv, 16. 3, Y mae efe yn Dad rhagorol o ran ei gyfoeth a'i drysorau, Eph. ii, 4, a iii, 8. 4, Mae efe yn Dad rhagorol o ran ei fod yn llawn o bob perfeithrwydd. Mat. v, 48. 5, Mae'n Dad rhagorol am ei fod yn anfarwol ae i fyw byth, 1 Tim. vi, 16.

ABIDA. [*Tad gwybodaeth.*] Mab Midian ac wŷr Abraham ydoedd; (Gen. xxv, 4) ond y mae pob gwir wybodaeth yn deillio oddiwrth Dduw: o bydd ar neb eisiau doethineb, gofyned gan Dduw; efe yw'r Ffynon

fawr; y mae efe yn llawn gwybodaeth, ac yn Dad holl-wybodol. 1, Y mae yn holl-wybodol o bob dirgelwch ag sydd yn ei hanfod ei hun: *yr Yspryd sydd yn chwilio pob peth; ie, dyfnion bethau Duw hefyd*, 1 Cor. ii, 10. 2, Y mae yn holl-wybodol o bob peth sydd wedi myned heibio, *Esay xlvi, 22*. 3, Mae yn holl-wybodol o bob peth sydd yn bresennol, *Heb. iv, 14*. 4, Y mae yn holl-wybodol o bob peth sydd etto i ddyfod, *Esay xlvi, 10*. *Act. xv, 18*.

ABIEZER. [*Fy nhad yw fy nghymhorth.*] *Jos. xvii, 2*. *Barn. vi, 34*. Y mae Duw yn Dad i'r saint, ac yn gymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder: 1, Y mae Duw yn gymhorth i'r saint yn wyneb gorthrymderau'r byd. 2, Y mae'n gymhorth iddynt yn wyneb dwfn argyhoeddiad a dychrynfeydd yn y gydwybod. 3, Mae yn gymhorth iddynt yn wyneb temptasiynau y diafol. 4, Mae'n gymhorth iddynt yn wyneb ofnau ac amheuan. 5, Mae yn gymhorth iddynt yn wyneb cystudd a henaint. 6, Fe fydd yn gymhorth iddynt yn wyneb angeu a'r farn a fydd.

ABIEL. [*Fy nhad yw Duw.*] Tad Cis, a thaid Saul brenin cyntaf Israel ydoedd, 1 *Sam. ix, 1*. Braint anfeidrol yw cael Duw'r nefoedd yn Dad i ni; ac, O! am gael yspryd mabwysiad i lefain Abba, Dad: y mae y rhai sydd yn meddu ar yspryd mabaidd, 1, O egwyddor o garad yn dymuno boddloni Duw yn mhob peth, *Gal. v, 6*. *Col. i, 10*. *Ioan xiv, 15, 21*. 2, Y mae'r hwn sydd yn meddu ar yspryd mabaidd yn golygu gogoniant Duw yn y cyflawniad o bob dyledswydd, 1 *Pedr iv, 11*. 1 *Cor. x, 31*. *Eph. i, 12*. 3, Mae'r hwn ag sydd yn meddu ar yspryd mabwysiad yn myned yn hyderus at orsedd gras, fel plentyn at ei dad. *Heb. iv, 16*. *Eph. iii, 12*, *Heb. x, 19, 21, 22*. 4, Mae yr hwn sydd yn feddiannol ar yspryd mabwysiad yn boddloni ac yn ymostwng yn dawel i holl drefn rhagluniaeth ei dirion Dad, *Heb. xii, 5, 11*. 5, Mae'r hwn sydd yn meddu ar yspryd mabaidd yn ymddiried yn yr Arglwydd, fel ei Dad a'i Dduw mewn cyfamod, o dan bob am-

gylchiad, Diar. xvi, 3. Salm lv, 22. 6, Mae'r hwn ag sydd yn meddiannu ar yspryd mabwysiad yn ymdrechgu i fod yn debyg i Dduw ei Dad yn mhob peth, Mat. v, 45. Eph. v, 1.

ABIGAIL. [*Llawenydd y tad.*] Gwraig Nabal: yr oedd yn wraig synwryol iawn; ac wedi marw Nabal, hi aeth yn wraig i Dafydd, brenin Israel, (1 Sam. xxv, 24) ond peth mawr yw cael plant a fyddo yn llawenydd i'w tad, ac yn gysur i'w rhieni: ond mewn trefn i blant fod yn llawenydd i dad duwiol, 1, Mae'n rhaid iddynt ufuddhau iddo yn mhob peth cyfreithlon ac addas, Col. iii, 20. Jer. xxxv, 18, 19. 2, Ymddwyn yn ostyngedig ac yn barchus tuag atto, Eph. vi, 2, 3. 3, Mewn trefn i blant fod yn llawenydd i'w tad, mae yn ofynol iddynt ei sawrhau mewn henaint, a'i ymgeleddu os bydd angen arno, 1 Tim. v, 4. 4, Mewn trefn i blant fod yn llawenydd i'w tad, y mae yn ofynol iddynt ymddwyn yn ddoeth ac yn gyfiawn tuag atto, Diar. xxiii, 24, a x, 1. 5, Mewn trefn i blant fod yn llawenydd i'w tad, y mae yn ofynol iddynt ymgynghori âg ef yn ngylch pob achos o bwys, Num. xxx, 5. Barn. xiv, 2.

ABIDAN. [*Fy nhad sydd farnwr.*] Un o lwyth Benjamin ydoedd, Num. i, 11. Y mae'n gysur mawr i'r Cristion i feddwl mai ei Dad ne'ol yw Barnwr pawb, ac y mae yn rhagori yn mhell ar holl farnwyr y byd. 1, Y mae yn Farnwr holl-wybodol, fel nas gall gamsynied, Ioan xxi, 17. 2, Barnwr holl-alluog, na ddi-chon neb ei wrthsefyll, Dat. i, 8. 3, Barnwr cyfiawn ac uniawn, ac nis derbyn wyneb neb, Rhuf. ii, 11. 1 Pedr i, 17. 4, Barnwr penawdurdodol, fel nas gellir anturio at neb a fyddo uwch, Mat. xxviii, 18. 5, Barnwr manwl a chywir, Preg. xii, 12. 6, Barnwr anghyfnewidiol, fel nas gellir newid ei feddwl, Heb. xiii, 8.

ABIMELECH. [*Fy nhad sydd frenin.*] Un o frenhinoedd y Philistiaid: yr oedd yn trigo yn Gerar, (Gen. xx, 2) ond gwreiddyn Dafydd a Blaguryn o gyff Jesse yw Brenin y saint, sef Iesu Grist, Brenin y breninoedd ac Arglwydd yr arglwyddi: y mae efe yn rhagori ar bob

brenin arall: 1, Mae'n adnabod ei holl ddeiliaid yn berffaith. Ioan x. 14. 2, Mae yn rhagori o ran ei gariad at ei ddeiliaid, Ioan xiii, 1. 3, Mae yn gwneud ei holl ddeiliaid i gyd yn freninoedd, Dat. i, 6. 4, Mae yn rhagori ar bawb ereill o ran ei gyfoeth a'i dysorau, Eph. iii, 18. 5, Mae yn rhagori ar bawb ereill o ran natur ei frenhiniaeth, Ioan xviii, 36. 6, Mae yn rhagori ar bawb ereill o ran helaethrwydd a pharhad ei frenhiniaeth: *Efe a lywodraetha o for hyd for.* Luc i, 33. Dan. ii, 44. Heb. xii, 28.

ABISAL. [*Anrheg fy nhad.*] Nai Dafydd ydoedd, (1 Sam. xxvi, 9, 1 Cron. ii, 16) Ond cofwch, y mae ein Tad nefol wedi rhoddi llawer o roddion ac anrhegion i'w blant ef yma yn y byd: 1, Y mae efe wedi rhoddi ei Fab a phob cyflawnder ynddo iddynt, Ioan iii, 16, Rhuf. viii, 32. 2, Y mae yn rhoddi ei Yspryd iddynt, i'w goleuo, i'w hargyhoeddi, i'w harwain, a'u tywys i bob gwirionedd, ac i'w diddanu yn eu holl orthrynderau, Luc xi, 13, Ioan xvi, 8, 13, a xiv, 26. 3, Y mae yn rhoddi ei air iddynt, yr hwn sydd yn well na miloedd o aur ac arian, Salm lxviii, 11, xix, 10, a cxix, 127. 4, Y mae efe yn rhoddi athrawon addas i'w dysgu hwynt, Jer. iii, 15, Eph. iv, 11. 5, Y mae yn rhoddi etifeddiaeth a theyrnas dragywyddol iddynt, Luc xii, 32. Ioan x, 28.

ABINOAM. [*Tad y tegwch.*] Barn. v, 12. Y mae Duw, fel Tad, Mab, ac Yspryd Glân, yn anfeidrol deg a hawddgar yn ei holl briodoliaethau; sef yn ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, ei ddoethineb, ei wirionedd, ei ffyddlondeb, ei ddaioni, a'i drugaredd; ac y mae anfeidrol degwch yn ei holl weithrediadau: efe yw Tad tegwch yr haul, y lleuad, a'r holl blanedau mawrion ag sydd yn troi yn eu cylchoedd yn y ffurfafen ardderchog; efe yw Tad holl degwch ehediaid yr awyr, a physg y moroedd; ie, efe yw Tad tegwch pob llysieuyn ag sydd yn tyfu trwy'r ddaear, a phob blodeuyn ag sydd i'w weled ar hyd wyneb y maesydd: ie, efe yw Tad holl degwch yr eglwys, a'r holl dduwiolion yn

mhob oes; efe yw Awdwr cyfiawnhad, sancteiddiad a gogoneddiad ei bobl. Heb. v, 9, a xii, 2.

ABISALOM. [*Tangnefedd y tad.*] 1 Bren. xv, 2. Y mae pawb wrth natur yn elynion i Dduw; ond y mae Duw yn Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau. 2 Cor. v, 19. Y mae yn cael ei alw yn Dduw'r heddwoch ac yn Dduw'r tangnefedd yn y Bibl, Rhuf. xv, 33, a xvi, 20. 1, Y mae wedi trefnu heddwoch, Esay xxvi, 12. 2, Y mae yn rhoddi heddwoch, Heb. xiii, 20, 21, Esay liv, 13, a liii, 5. 3, Mae'n cyhoeddi heddwoch, Esay lvii, 19.

ABISUA. [*Iachawdwriaeth fy nhad.*] 1 Cron. vi, 4. Mae pawb wrth natur mewn cyflwr o golledigaeth; ond y mae Duw, ein Tad nefol, wedi trefnu iachawdwriaeth addas ar gyfer pechaduriaid: 1, Mae'r iachawdwriaeth hon yn iachawdwriaeth fawr; sef o ran ei Threfnwyr, ei Phwrcaswr, a'i Chymbwyswr; yn fawr o ran ei chyflawnder a'i helaethrwydd, ac yn fawr o ran y trueni y mae yn gwaredu o hono, ac uchder y gogoniant y mae yn derchafu iddo. Heb. iii, 2, 3. 2 Sam. xxiii, 10. 1, Y mae iachawdwriaeth Duw yn derchafu, Job v, 11, Salm lxxix, 29. 2, Mae iachawdwriaeth Duw yn achos gorfoledd, Salm xx, 5, a li, 12. 3, Mae'r iachawdwriaeth yn werth disgwyl wrthi, Galar. iii, 16, Salm cxix, 166. 4, Mae'r iachawdwriaeth yn gwisgo dynion a phrydferthwch sancteiddrwydd, Salm cxxxii, 16, a cxlix, 4, Esay lxi, 10. 5, Mae iachawdwriaeth Duw yn werth ymofyn am dani, 1 Pedr i, 10. 6, Mae'r iachawdwriaeth yn rhad i bawb a'i caffo, Hos. xiv, 4, Titus iii, 5, 2 Tim. i, 9. 7, Mae iachawdwriaeth Duw yn cael ei dangos i bechaduriaid gwlad efengyl, Salm xci, 16. 8, Mae iachawdwriaeth Duw yn dwyn dynion yn frwythlon yn ngwinllan Duw, Esay xlv, 8. 9, Mae iachawdwriaeth Duw i gael ei chyhoeddi, Esay li, 7. 10, Nid oes iachawdwriaeth ond trwy Grist, Act. iv, 12. 11, Mae iachawdwriaeth Duw yn cael ei hesgeuluso gan lawer, Heb. ii, 3. 12, Mae iachawdwriaeth Duw yn dwyn gogoniant mawr i ddynion, Salm xxi, 5.

3, Mae iachawdwriaeth Duw yn dragywyddol, Esay
biv, 17, a li, 6—8.

ABISUR. [*Fy nhad sydd uniawn.*] 2 Cron. 2, 28. Nid oes un tad naturiol yn uniawn wrth natur; ond y mae y duwiol yn uniawn ar yr ystyriaethau canlynol: 1, Mae yn uniawn o ran egwyddor ac anian. 2, Mae yn uniawn o ran diben a dymuniad. 3, Mae yn uniawn o ran cyfiawnder cyfrifol Crist am yr enaid. Ond y mae ein Tad nefol yn uniawn o ran ei hanfod a'i holl ymddygiadau; *y mae yn gyfiawn yn ei holl ffyrdd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd*: y mae yn uniawn tuag atto ei hun, tuag at ei Fab, tuag at dduwiolion, a thug at annuwiolion hefyd.

ABITAL. [*Tad y gwllith.*] 2 Sam. iii, 4. Mae llawer o bethau yn cael eu galw yn wlith yr ysgrhythrau: 1, Lluosogrwydd o dduwiolion yn amser y llwyddiant mawr yn y mil blynnyddoedd, Salm cx, 3. 2, Undeb a brawdgarwch y saint, Salm cxxxiii, 1, 2, 3. 3, Mawrion ddiodeffiadau Crist dros ei eglwys, Can. v, 2. 4, Athrawiaeth yr efengyl, Deut. xxxii, 2. 5, Bendithion ysprydol.—1, Mae'r gwllith yn disgyn yn ddirgelaidd ac yn anweledig, felly y mae bendithion ysprydol. 2, Y mae y gwllith yn ddefnyddio iawn i ffrwythloni ac i ireiddio y ddaear, felly y mae bendithion ysprydol yn ireiddio ac yn ffrwythloni pechaduriaid: ac oddiwrth Dduw, ein Tad nefol, y mae y bendithion hyn oll yn dyfod.

ABIHUD. [*Gogoniant fy nhad.*] Mat. i, 13. Mae anfeidrol ogoniant yn perthyn i Dduw, ein Tad nefol: y mae yn ogoneddus yn ei briodoliaethau, ei nodwedd- iadau, a'i holl weithredoedd i gyd: *y mae'r nefoedd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwyllaw ef.*

ABNER. [*Canwyll y tad.*] 1 Sam. xiv, 50, 51. Y mae llawer o bethau yn cael eu galw yn *ganwyll* yn y Bibl: 1, Bendithion a phresenoldeb yr Arglwydd gydâ'i bobl, Job xxix, 3. 2, Llwyddiant a hawddfyd

tymhorol, Job xviii, 5, 6. 3, Goleuni cydwybod, D. xx, 27. 4, Doniau gweinidogaethol, Mat. v, 15. Cyfraith yr Arglwydd, Diar. vi, 23. 6, Gobaith yr annuwiolion, Job xxi, 17.

ABIHU. [*Efe yw fy nhad.*] Exod. vi, 23. Gwyn eu byd pawb a allant ddywedyd hyn am Dduw, oddiar wir adnabyddiaeth o'u hawl ynddo, *Ein Tad yr hwn wyt yn y nesoedd.*

ABISAG. [*Anwybodaeth fy nhad.*] 1 Bren. i, 3. Y mae anwybodaeth mawr yn perthyn i lawer tad naturiol: fe all llawer o blant ddywedyd fel y canlyn; 1, Anwybodaeth fy nhad a barodd iddo beidio rhoddi rhagor o ddsgeidiaeth i mi. 2, Anwybodaeth fy nhad a barodd iddo beidio fy ngheryddu'n brydlawn, yn ofn yr Arglwydd. 3, Anwybodaeth fy nhad a barodd iddo beidio gofalu mwy am fy sefyllfa dragywyddol nag am fy sefyllfa dymhorol yma yn y byd.

ABRAM. [*Abraham, Tad derchafedig, tad lluaws mawr.*] Gen. xvii, 5.

ABREC. [*Plygwch y glin.*] Gen. xli, 43. Enw a orchymynodd Pharaoh ei gyhoeddi o flaen Joseph, er anrhydedd a pharch iddo. Yr oedd Joseph yn gysgod neillduol o Grist, ac y mae yn gweddu i bawb blygu ac ymostwng i Grist, a'i gyffesu yn Arglwydd pawb oll: *O herwydd paham Duw a'i tra-derchafodd ynteu, fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion bethau.* Phil. ii, 9, 10.

ACELDAMA. [*Maesygwaed.*] Fe brynwyd y maes hwn i fod yn gladdfa dieithriaid, am yr arian a gafodd Judas fradwr am fradychu gwaed Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau'r byd: yr oedd yn agos i Jerusalem; yr un ydyw a maes y pannwr. Act. i, 19. Esay vii, 3. Zec. xi, 12.

ACHAIA. [*Helbul, blinder.*] Talaeth yn ngwlad y Groegiaid; ei phrif ddinas oedd Corinth. Act. xix, 21. y mae'r saint yn cael llawer iawn o helbul yma yn y byd,

3, Helbul o gystuddiau chwerwon, Salm cxvi, 10. 2, Helbul o golledion bydol, Job i, 14, 15, 16, 17. 3, Helbul o ofnau ac amheuon, 1 Sam. xxii, 2. Diar. xviii, 14. Esay lvii, 15. 4, Helbul o orthrymder ac erlid yr annuwiol, Gen. xv, 14. Ond, *Dros brydnawn yr erys wylofain, erbyn y boreu y bydd gorfoledd.*

ACHAN. [*Trallodydd.*] Jos. vii, 18. Y mae llawer o bechodau yn ngwersyll y saint ag sydd yn dwyn trallodau dirfawr arnynt; megys balchder, cybydd-dod, malais, anghariad, meddwdod, godineb, &c. Y mae y pethau hyn, fel Achan, yn eu trallodi yn fawr: 1, Trwy dynu barnau tymhorol ac ysprydol arnynt. 2, Trwy archolli eu cydwybodau. 3, Trwy fod yn achos i Dduw guddio gwedd ei wyneb oddi wrthynt. 4, Trwy beri iddynt syrthio o flaen eu gelynion, a'u rhwystro i fyned yn mlaen yn hwylus yn eu gyrfa ysprydol: ac oddieithr i ni labyddio yr Achan o bechodau anwyllaf, fe wna ein pechodau ein damnio dros byth, cyn b'o hir.

ACHOR. [*Gofid, blinder.*] Enw a roddwyd ar ddyffryn yn agos i Jericho, o herwydd y gofid a'r trallod a ddaeth ar Israel oblegid pechod Achan. Y mae y Cristion yn cyfarfod â llawer dyffryn trallod a gofid yma yn y byd: 1, Dyffryn argyhoeddiad ac edifeirwch am bechod. 2, Dyffryn gofid oblegid colli perthynasau a chyfeillion hawddgar a hoff. 3, Dyffryn gofid o siomedigaethau mewn cyfeillion. 4, Gofid o drafferthion y byd. 5, Dyffryn gofid o gystuddiau a thlodid mawr, Jos. vii, 25. Hos. ii, 15. Ond y mae drws gobaith yn mhob gofid ar y ddaear; ond fe ddeil gofid tragywyddol yr annuwiol yn uffern, lle na bydd un drws gobaith iddynt dros byth.

ACSA. [*Trwsiadus.*] Merch Caleb, Jos. xv, 16. Ond nid oes neb mor drwsiadus ag eglwys Dduw; y mae *oll yn ogoneddus o fewn; gemwaith aur yw ei gwisg hi; mewn gwaith edau a nodwydd y dygir hi at y Brenin: y mae wedi ei gwisgo a'r haul, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren.* Y mae yr eglwys wedi

ei gwisgo yn nghyfiawnder Crist, ac yn cael ei hadu
urno â sancteiddrwydd yr Yspryd Glân.

ADAH. [*Cynnulleidfa.*] Gwraig Lamech. Gen.
iv, 19. Fe sonia'r Bibl, yn 1, Am gynulleidfa sanct-
aidd, Num. xvi, 3. 2, Cynnulleidfa'r rhagrithwyr,
Job xv, 34. 3, Cynnulleidfa'r drygionus, Salm xxii,
16. 4, Cynnulleidfa gyfreithlon, Act. xix, 39. 5,
Cynnulleidfa'r offeiriaid, Hos. vi, 9. 6, Cynnulleidfa
y rhai cyntafanedig, Heb. xii, 23. 7, Cynnulleidfa'r
meirw, Diar. xxi, 16. Fe fydd pawb o honom yny gyn'll-
eidfa hono'n fuan, sef yn y bedd ac yn aros yn y pentwr.

ADAIAH. [*Tyst yr Arglwydd.*] 2 Bren. xxii, 1.

ADALIA. (*Gwehnydd dwfr.*) Y mae yn gweddu i
ninnau dynu dwfr o ffynonau yr iachawdwriaeth: 1,
O ffynon cariad tragwyddol y Jehofa. 2, O ffynon
y cyfammod gras. 3, O ffynon haeddiant y Cyfryngwr
bendigedig. 4, O ffynon yr ordinhadau, ac addewid-
ion mawr a rhadlawn yr efengyl, Esay xii, 3.

ADBEEL. (*Tarth neu gwmwl Duw.*) Mab Ismael.
Gen. xxv, 13.

ADIEL. (*Tyst Duw.*) 1 Cron. iv, 35. Y mae
llawer o bethau yn cael eu galw yn *Dyst* yn y Bibl:
1, Y mae Crist yn cael ei alw yn *Dyst i'r bobl*, ac yn
Dyst ffyddlon a chywir, Esay lv, 4. Dat. iii, 14. Mae
efe yn dyst o fawr gariad Duw at bechaduriaid, ac
hefyd o fawr ddrwg pechod, ac o ffyddlondeb yr Ar-
glwydd i'w addewidion. 2, Mae yr Yspryd Glân hefyd
yn dyst, ac yn cyd-dystiolaethu â'n hyspryd ni, ein bod
ni yn blant i Dduw, Rhuf. viii, 16. 3, Y mae cydwy-
bod hefyd yn dyst, ein bod ni ar y bai neu ar yr uniawn,
Rhuf. ix, 1. 4, Mae y duwiolion yn dystion yr Ar-
glwydd, Esay xliii, 10.

ADMATHA. [*Cwmwl angeu.*] Un o dywysogion
Persia, Est. i, 14. Y mae angeu yn sier o ddyfod i'n
cyfarfod ni oll yn fuan; ac hi fydd yn dywyll ac yn
gymylog iawn ar lawer yn nyffryn cysgod angeu. O!

3. gymylog a thywyll y bydd hi ar lawer o'r duwiol-
 yn angeu, oblegid canlyn o hirbell a bod yn ddi-
 wyth yn ngwaith yr Arglwydd; ac fe ddeil cwmwl a
 thywyllwch tragwyddol yr annuwiolion yn wyneb
 angeu. O! sobrer ni oll wrth fyned yn mlaen ar ein
 gyrfa.

ADNA. [*Gorphwysfa dragwyddol.*] Enw dyn, Ezra
 x, 30. *Y mae gan hyny orphwysfa etto yn ol'i bobl*
Dduw: fe fydd hon, 1, Yn orphwysfa dawel a diddos,
 ni ddaw dafn o wlaw gofidiau, melltithion, na digofaint
 ar y saint yn yr orphwysfa hon. 2, Gorphwysfa gyf-
 lawn o bob peth dymunol. 3, Gorphwysfa lawen a
 gorfoleddus. 4, Gorphwysfa barhaus a thragywyddol.

ADONIAH. (*Duw yw fy Meistr.*) Mab Haggith.
 2 Sam. iii, 4. Y mae Duw yn Feistr cyfiawn, cyfoeth-
 og, doeth, da, a haelionus: ac y mae efe yn dirion iawn
 wrth bawb o'i weision.

ADONICAM. (*Duw a'm derchafodd.*) Ezra ii, 13.
 Y mae Duw yn derchafu y tlawd o'r llwch, a'r angenus
 o'r tomenau; mae yn derchafu ei bobl i'r berthynas
 uchaf, i'r gymdeithas foneddigeiddiaf; ac efe a'u der-
 chafa yn fuan i'r gwynfyd a'r gogoniant mwyaf, ac
 uwchlaw cyrhaedd pob gofid am byth.

ADONIRAM. (*Duw sydd oruchaf.*) 1 Bren. iv, 6.
 Y mae Duw'r nefoedd goruwch pawb oll: 1, Mae yn
 uwch na neb o ran gallu ac awdurdod. 2, Mae'n uwch
 na neb o ran dedwyddwch a gogoniant.

ADONIZEDEC. (*Cyfiawnder yr Arglwydd.*) Un o
 frenhinoddd Jerusalem, Jos. x, 1. Y mae cyfiawnder
 yn hanfodol yn Nuw: *cyfiawn yw'r Arglwydd yn ei*
holl ffyrdd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd, Salm
 cxlv, 17. 1, Mae Duw yn gyfiawn yn ei arfaeth, Rhuf.
 ix, 11, 15. 2, Yn holl orchwyliaethau ei ragluniaeth,
 Dan. iv, 37. Dat. xv, 3. 3, Yn ei farnedigaethau,
 2 Thes. i, 6. 4, Wrth faddeu pechodau, Rhuf. iii, 26.
 1 Ioan i, 9. 5, Yn ei waith yn cerýddu ei blant am
 eu beiau, Mica vii, 9. 6, Yn nghospedigaeth pechod

1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12
13
14
15
16
17
18
19
20
21
22
23
24
25
26
27
28
29
30
31
32
33
34
35
36
37
38
39
40
41
42
43
44
45
46
47
48
49
50
51
52
53
54
55
56
57
58
59
60
61
62
63
64
65
66
67
68
69
70
71
72
73
74
75
76
77
78
79
80
81
82
83
84
85
86
87
88
89
90
91
92
93
94
95
96
97
98
99
100

101
102
103
104
105
106
107
108
109
110
111
112
113
114
115
116
117
118
119
120
121
122
123
124
125
126
127
128
129
130
131
132
133
134
135
136
137
138
139
140
141
142
143
144
145
146
147
148
149
150
151
152
153
154
155
156
157
158
159
160
161
162
163
164
165
166
167
168
169
170
171
172
173
174
175
176
177
178
179
180
181
182
183
184
185
186
187
188
189
190
191
192
193
194
195
196
197
198
199
200

mor gymylog a thywyll y bydd hi ar lawer o'r duwiolion yn angeu, oblegid canlyn o hirbell a bod yn ddi-fwrwyth yn ngwaith yr Arglwydd; ac fe ddeil cwmwl a thywyllwech tragwyddol yr annuwiolion yn wyneb angeu. O! sobrer ni oll wrth fyned yn mlaen ar ein gyrfa.

ADNA. [*Gorphwysfa dragwyddol.*] Enw dyn, Ezra x, 30. *Y mae gan hyny orphwysfa etto yn ol i bobl Dduw:* fe fydd hon, 1, Yn orphwysfa dawel a diddos, ni ddaw dafn o wlaw gofidiau, melltithion, na digofaint ar y saint yn yr orphwysfa hon. 2, Gorphwysfa gyflawn o bob peth dymunol. 3, Gorphwysfa lawen a gorfoleddus. 4, Gorphwysfa barhaus a thragywyddol.

ADONIAH. (*Duw yw fy Meistr.*) Mab Haggith. 2 Sam. iii, 4. *Y mae Duw yn Feistr cyfiawn, cyfoethog, doeth, da, a haelionus:* ac y mae efe yn dirion iawn wrth bawb o'i weision.

ADONICAM. (*Duw a'm derchafodd.*) Ezra ii, 13. *Y mae Duw yn derchafu y tlawd o'r llwch, a'r angenus o'r tomenau; mae yn derchafu ei bobl i'r berthynas uchaf, i'r gymdeithas foneddigeiddiaf; ac efe a'u derchafa yn fuan i'r gwynfyd a'r gogoniant mwyaf, ac uwchlaw cyrhaedd pob gofid am byth.*

ADONIRAM. (*Duw sydd oruchaf.*) 1 Bren. iv, 6. *Y mae Duw'r nefoedd goruwch pawb oll:* 1, Mae yn uwch na neb o ran gallu ac awdurdod. 2, Mae'n uwch na neb o ran dedwyddwch a gogoniant.

ADONIZEDEC. (*Cyfiawnder yr Arglwydd.*) Un o frenhinoedd Jerusalem, Jos. x, 1. *Y mae cyfiawnder yn hanfodol yn Nuw: cyfiawn yw'r Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd,* Salm cxlv, 17. 1, Mae Duw yn gyfiawn yn ei arfaeth, Rhuf. ix, 11, 15. 2, Yn holl orchwyliaethau ei ragluniaeth, Dan. iv, 37. Dat. xv, 3. 3, Yn ei farnedigaethau, 2 Thes. i, 6. 4, Wrth faddeu pechodau, Rhuf. iii, 26. 1 Ioan i, 9. 5, Yn ei waith yn ceryddu ei blant am eu beiau, Mica vii, 9. 6, Yn nghospedigaeth pechod

yn nghorph y Cyfryngwr, Rhuf. iii, 25. 7, Yn ei waith yn gwobrwyo ei bobl yn y nefoedd, 2 Tim. iv, 8. 8, Yn ei ymddygiadau at bawb yn y farn ddiweddaf, Act. xvii, 31.

ADORAM. [*Eu moliant.*] 2 Sam. ii, 24.

ADramelech. [*Mawredd y brenin.*] 2 Bren. xvii, 31.

ADRAMYTTIUM. [*Llys angeu.*] Dinas yn Asia.

ARCTURUS. (*Cyd-gynnulliad.*) Enw ser neu seren, Job xxxviii, 32. Y mae yn gweddu i bob eglwys i gyd-ymgydd i addoli Duw, i wrando'r gair, i gynghori eu gilydd, i ganu mawl i Dduw, ac i gyfranogi o ordinadau yr efengyl; a bod fel ser dysglaer yn ffurfafen yr eglwys.

ARIEL. (*Allor, neu Oleuni, neu Lew Duw.*) Esay xlix, 1, 2. Enw a gafodd ei roddi i Jerusalem, i ddangos ei bod yn addoli Duw, a bod allor i'r Duw byw ynddi, a'i bod yn gadarn ac yn ddychrynlyd i'w gelynyon. Y mae'r Cristion yn cael ei gyffelybu i'w, Diar. xxviii, 1. 1, Mae'n gadarn. 2, Yn galonog: 3, Yn ddychryn i'w elynion. 4, Yn fuddugoliaethus, ac fe sathra ei holl elynion dan ei draed yn fuan.

AREOPAGUS. [*Bryn Mawrth.*] Y llys uchaf yn Athen, lle yr ymgynnullai y pen-swyddwyr, Act. xvii, 19. Ond fe fydd yn rhaid i ni ymddangos mewn llys a fo yn uwch yn fuan, sef yn llys y farn fawr: dyma lys a esyd defyn tragwyddol ar holl gamfarnau y byd.

ADULAM. [*Eu haddurn.*] Gen. xxxviii, 1.

ADDA. (*Priddlyd, daearol, daear goch.*) Y dyn cyntaf. Y mae pawb wrth natur yn dwyn delw y daearol: pridd ydym ni, ac i'r pridd y dychwelwn ni yn fuan.

AGARUS. (*Gorfoledd y tad.*) Act. xi, 28.

AGRIPPA. (*Trwy boen y ganwyd ef.*) Act. xxv, 13. Fe ddywedir fod Paul wedi ei ennill o fewn ychydig i fod yn Gristion, Act. xxvi, 28. Gall dynion fyned yn mlaen yn mhell iawn gyda chrefydd yn allanol, ac etto

Cristionogion o fewn i ychydig: 1, Gallant gael gwybodaeth a doniau mawr fel Baalam. 2, Gallant gael zel fawr, fel Jehu. 3, Gallant lawenhau o dan y gair, fel yr had ar y graig. 4, Gallant edifarhau, fel Judas, a gwneuthur profes fawr, fel y morwynion ffol a dysgyblion y torthau, ac etto Crist nogion o fewn i ychydig.

AGUR. (*Alltud, hefyd Casgliad.*) Diar. xxx, 1. Y mae'r saint yn alludion, dieithriad, a phererinion yma ar y ddaear; ond fe'u cesglir yn nghyd i'r uu breswylfa lonydd cyn b'o hir.

AHAZ. (*Cymeryd meddiant.*) 2 Bren. xvi, 2.

AHAZIA. (*Gweledigaeth yr Arglwydd.*) 1 Bren. xxii, 40.

AHIAH. (*Brawd yr Arglwydd.*) 1 Sam. xiv, 3.

AHIEZER. [*Fy mrawd sydd gymhorth.*] Un o lwyth Dan, Num. i, 12. Y mae Iesu Grist yn Frawd i'r saint, ac yn gymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder: y mae Crist yn gymhorth machnol, yn gymhorth cynnaliol, yn gymhorth diogelol, yn gymhorth meddyginiaethol a gwaredigaethol i'w bobl.

AHICAM. (*Brawd yn cyfodi.*) Mab Saphan, 2 Bren. xxii, 12. Jer. xxvi, 24. Y mae brawd wedi cyfodi i'r duwiolion, sef Iesu Grist: *Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi broffwyd o'ch brodyr megys myfi; arno ef y gwrandewch.* Fe gyfododd i raddau yn yr addewid, yn y cysgodau, yn y proffwydoliaethau, yn ei enedig-aeth, yn ei wyrthiau a'i athrawiaeth, ac yn ei adgyfodiad, a'i esgyniad i'r nefoedd: ond efe a gyfyd yn uchel iawn yn nghynydd a llwyddiant ei deyrnas cyn diwedd amser, sef yn y mil blynnyddoedd. *Wele, fy ngwas a lwydda; efe a godir, a dderchestr, ac a fydd uchel iawn.*

AHILUD. [*Brawd a anwyd.*] 2 Sam. viii, 16. Y mae brawd wedi cael ei eni i'r saint: *Bachgen a anwyd i ni, mab a roddwyd i ni:* cydymaith yw Crist a gâr bob amser, a brawd a aned erbyn caledi, Esay ix, 6. Diar. xvii, 17. Fel brawd y mae o'r un Tad a ninnau,

or un natur a ninnau: fel brawd, y mae yn caru ei eiddo, yn cymdeithasu â hwynt, ac yn eu cynnorthwyo: fe'i ganed, 1, Erbyn caledi o argyhoeddiad. 2, Erbyn caledi o orthrymderau'r byd. 3, Erbyn caledi o wrthgiliadau. 4, Erbyn caledi o gystuddiau a siomedigaethau. 5, Erbyn caledi angeu a'r farn.

AHIMAAS. [*Brawd y cynghor.*] 1 Sam. xiv, 50. Mab Zadoc yr archoffeiriad. Y mae Crist wedi bod yn y cynhor tragywyddol, ac wedi amlygu cynghor Duw i bechaduriaid, ac y mae yn cynghori pechaduriaid i ffoi rhag y lliid a fydd; ac y mae ef trwy ei air yn ein hanog ninnau i gynghori ein gilydd, *bob dydd tra y gelwir hi Heddyw.*

AHIMELECH. (*Fy mrawd sydd frenin.*) 1 Sam. xxi, 1. Y mae Crist yn Frawd i'r saint, ac yn Frenin y breninoedd ac yn Arglwydd yr arglwyddi.

AHINOAM. (*Tegwch y brawd.*) 1 Sam. xiv, 50. Gwraig Saul ydoedd.

AHITOPHEL. [*Brawd y dinystr.*] Un o gynghorwyr twyllodrus y brenin Dafydd ydoedd, 2 Sam. xv, 31. Yr oedd Ahitophel yn debyg iawn i Judas, yr hwn a fradychodd yr Arglwydd Iesu; ac yn debyg i wrthgiliwr, yr hwn sydd yn bradychu achos Crist i'r byd; ac yn debyg i'r diafol, yr hwn sydd yn ceisio dinystrio heddwch, rhydd-did, llawenydd, a dedwyddwch y saint.

AHITUB. (*Brawd daioni.*) Y mae Crist yn llawn daioni: *Da y gwnaeth efe bob peth*, Marc vii, 37. Mae yn dda yn ngwaith y greadigaeth, yn ngwaith rhagluniaeth, ac yn neillduol yn ngwaith mawr y prynedig-aeth: 1, *Da y gwnaeth ef yn ei ymrwymiad ar ran ei eglwys yn y cynghor tragywyddol.* 2, *Da y gwnaeth ef yn ei waith yn cymeryd atto y natur ddynol.* 3, *Yn ei waith yn cyd-ymffurfio âg ewyllys ei Dad.* 4, *Yn ei waith yn pregethu ac yn gwneuthur gwyrthiau.* 5, *Yn ei waith yn dyoddef melltithion y ddeddf ar Galfaria.* 6, *Yn ei waith yn eiriol dros bechaduriaid.* 7, *Da y gwna efe bob peth pan y delo i farnu'r byd yn y dydd mawr olaf.*

AHOLIBAH. (*Fy mhabell sydd ynnddi.*) Sef yn Jerusalem a feddylir, Ezec. xxiii, 4. Y mae moddion gras ac ordinadau yr efengyl yn eglwys Dduw, Dat. xxi, 3. *Wele, y mae pabell Duw gyda dynion; ac efe a drig gyda hwynt:* ac y mae Crist, Pabell fawr y cyfarfod, yn Sion: 1, Yr oedd y Shecinah, arwydd o'r dwyfol bresenoldeb, yn preswyllo yn y babell; felly y mae cyflawnder y Duwdod yn preswyllo yn gorphorol yn Nghrist. 2, Yr oedd ffurfiad y babell yn hollol o Dduw; felly y mae holl gyfryngod Crist o ddwyfol drefniad. 3, Nid oedd y babell ond gwael oddi allan, ond oddi fewn yn rhyfeddol o ogoneddus; felly Crist pan oedd efe yma yn y byd. 4, Yn y babell yr oedd Duw yn amlygu ei ogoniant; felly y mae gogoniant Duw yn cael ei amlygu trwy gyfryngod Crist a threfn yr iachawdwriaeth, yn fwy nag un man arall. 5, Yn y babell yr oedd Duw yn cymeradwyo aberthau Israel; felly yn Nghrist y mae Duw yn cymeradwyo aberthau y saint. 6, Yn y babell yr oedd Duw yn cyfarfod âg Israel ac yn cymodi â hwynt; felly yn Nghrist, Pabell fawr y cyfarfod, y mae Duw yn cymodi â phechadur. Clod iddo. *Amen.*

AIPH. [*Trallod, gorthrynder.*] Gwlad yn Affrica, o'r tu deheu i wlad Canaan: ond y mae'r byd hwn yn llawn o drallod a helbut i'r duwiolion, am hyny y maent yn penderfynu i fyned tua'r nefoedd; er cyfarfod â dyfroedd chwerwon Mara, ac er cwrdd â'r seirph talyd, a'r Amaleciaid a'r Amoriaid, y maent yn penderfynu myned a meddiannu'r wlad.

AJALON. (*Cadernid.*) Enw amryw o ddinasoedd yn ngwlad Canaan, Jos. x, 12. Ond eglwys Dduw, dinas y Brenin mawr, yw'r ddinas gadarnaf o neb: 1, Mae'n gadarn o ran ei sylfaen. 2, Mae'n gadarn o ran ei muriau a'i chaerau. 3, Mae'n gadarn o ran ei cholofnau. Mat xvi, 18, Esay xxvi, 7, Diar ix, 1.

ALECSANDER. (*Cynnorthwywr cadarn*) Marc xv, 21.

ALECSANDRIA. Dinas enwog yn ngwlad yr Aiph, Actau xxvii, 6.

AMALEC. (*Pobl yn anrheithio neu yn difa*) Exod xvii, 14.

AMANA. (*Purdeb*) Enw mynydd, Can iv, 8.

AMASA. (*Arbed y bobl*) 2 Sam xix, 13.

AMASIA. (*Cadernid yr Arglwydd*) 2 Bren xii, 21. Y mae Duw yn gadarn Iôr, a'i wirionedd o'i amgylch; ac y mae yn yr Arglwydd Dduw gadernid tragywyddol: 1, Y mae yn gadarn yn ei arfaeth. 2, Yn ei gyfamod. 3, Yn ei gariad. 4, Yn ei allu. 5, Yn ei holl addewidion i gyd, Esay xxvi, 4.

AMMINADIB. [*Fy mhobl sydd ryddhon neu ewyllysgar.*] Can vi, 12. Y mae pobl yr Arglwydd yn rhyddion ar yr ystyriaethau canlynol: 1, Y maent yn rhydd oddiwrth y ddeddf fel amod bywyd, Rhuf vi, 14, a-vii, 1-4. 2, Y maent yn rhydd oddiwrth lywodraeth pechod, Rhuf vi, 17, 18. 3, Y maent wedi eu rhyddhau oddiwrth ddallineb ysprydol, Act xxvi, 18, 2 Cor iii, 17. 4, Y mae ganddynt rydd-did i agoshau yn hyderus at orsedd gras, Heb x, 29. 5, Y mae'r duwiolion, o dan y Testament newydd, wedi cael eu rhyddhau oddiwrth iau drom o seremoniau Iuddewig, Gal v, 1, 2. 6, Y maent wedi cael eu rhyddhau oddiwrth bob mellith, Rhuf viii, 1:—ac y mae pobl Dduw hefyd yn rhydd oddiwrth bob niwaid ag sydd yn cydfyned â chystudd, gofid, ac angeu; ond nid ydynt yn rhydd, tra yma yn y byd, oddiwrth weddillion llygredd, croesau, ac ymosodiadau llawer o elynion: y mae'r saint hefyd yn bobl ewyllysgar, (Salm cx, 3) y maent yn ewyllysgar i gael eu hachub yn nhrefn Duw, i roddi eu cyrph a'u heneidiau i wasanaeth Duw, i ymadael â phob peth gwaharddedig er ei fwyn, ac i roddi ufudd-dod iddo yn y dyledswyddau mwyaf croes i gig a gwaed.

AMMI. [*Fy mhobl*] Hosea ii, 1. Y mae'r duwiolion yn bobl i Dduw, 1, Trwy greadigaeth, Salm c, 3. 2, Trwy etholedigaeth, Eph i, 4, 1. Pedr ii, 9. 3, Trwy brynédigaeth, 1 Cor vi, 20. 4, Trwy ail-enedigaeth, Ioan i, 13, 1 Pedr i, 23. 5, Trwy fabwysiad,

1 Ioan iii, 1. 6, Trwy gyfamod tragwyddol, Jer xxxi, 33.

AMMISADAI. [*Pobl yr Hollalluog*] Num i, 12. Y mae y Jehofa yn hollalluog, ac y mae hollalluogrwydd Duw yn ymddangos yn y pethau canlynol: 1, Yn ngwaith mawr y greadigaeth, Salm cxlvi, 6, Heb xi, 3. 2, Yn ngwaith rhyfedd rhagluniaeth, Heb i, 3. 3, Yn y gweithredoedd gwyrthiol a wnaethpwyd o oes i oes, Jos x, 13. 4, Yn nghynaliad dynoliaeth y Meichiau o dan ei ddioddefiadau, Esay xlii, 1. 5, Yn helaethiad a llwyddiant yr efengyl, 2 Cor iv, 7, a x, 4. 6, Yn argyhoeddiad a dychweliad pechaduriaid, Eph i, 19. 7, Yn ei waith yn gwaredu ei blant o'u cyfyngderau a'u diogelu yn nghanol eu gelynyon, Dan iii, 17. 8, Yn ei waith yn cynnal ei blant i fynu o dan feichiau trymion, ac yn wyneb pob curfeydd, Rhuf xiv, 4. 9, Yn ei waith yn gorchfygu ei holl elynion ei hun a gelynyon ei bobl, Rhuf xvi, 20.

AMMON. (*Mab fy mhobl*) Mab Lot.

AMNON. (*Ffyddlon a chywir*) Mab Dafydd, 2 Sam iii, 2.

AMOS. (*Llwythog, pwysig*) Hwn a alwyd i fod yn broffwyd i'r Arglwydd o blith bugeiliaid Tecoa, Amos i, 1, a vii, 14, a viii, 2.

AMRAM. [*Pobl dderchafedig*] Tad Moses ac Aaron, Exod vi, 20. Y mae'r duwiolion i gyd yn bobl dderchafedig; y maent wedi cael eu derchafu i gymdeithas â Duw, Brenin y breninoedd; a chânt eu derchafu i'r nefoedd yn fuan, i gael eistedd ar eu gorseddfeingciau, i fwynhau gwedd wyneb eu Harglwydd dros dragwyddoldeb.

ANANIAH. (*Cwmwl yr Arglwydd*) Neh iii, 23.

ANANIAS. (*Gras yr Arglwydd*) Act v, 9. Y mae llawer o bethau yn cael eu galw yn *ras yr Arglwydd*: 1, Rhad gariad Duw yn ethol pechaduriaid, yn Nghrist Iesu, cyn bod y byd, Rhuf xi, 4, 5, 6. 2, Rhad gariad o gyfiawnder Crist i bechaduriaid, Rhuf iii, 4.

Actau xv, 11, a xiii, 39. 3, Gwaith cadwedigol yr Yspryd Glân, trwy ba un y mae yr enaid yn cael ei adferu ar ddelw Duw, Rhuf vi, 14, Eph ii, 8. 4, Yr efengyl, o ran ei hathrawiaeth a'r broffes o honi, Gal v, 2, Titus ii, 11, Judas 4. 5, Y Gwynfyd tragywyddol sydd yn aros y saint tu draw i angeu, 1 Pedr i, 13.

ANATHOTH. (*Attebion neu Ganiadau*) Jos xxi, 18. Fe fydd rhyw ganiadau rhyfedd yn y nefoedd: fe fydd y saint yn canu yn beraidd ac am yr uchaf, 1, Am eu hethol, yn nhragywyddokdeb, yn Nghrist Iesu, i iachawdwriaeth. 2, Hwyr ganant yn beraidd am eu prynu ar Galfaria, a'u golchi yn y gwaed. 3, Hwyr a ganant yn rhyfedd o hyfryd am eu galw â galwedigaeth effeithiol, pan oeddynt yn myned yn gyflym tuag uffern dân. 4, Hwyr ganant yn hynod o beraidd am eu gwisgo yn nghyfiawnder Iesu, a'u sancteiddio trwy'r Yspryd Glân. 5, Hwyr ganant yn soniarus am eu cynnal ar y rhiwiau serth, a'u dychwelyd yn ol o'u gwrthgiliau; am eu trosglwyddo yn ddiangol trwy afon angeu, ac am eu harddel yn y farn, ac am eu gwahodd i etifeddu y deyrnas dragywyddol.

ANDRONICUS. (*Buddugoliaeth*) Rhuf xvi, 7. Fe ennillodd Crist fuddugoliaeth ryfedd ar Galfaria; ac fe ga'r saint eu gwneud yn fwy na choncwerwyr ar eu holl elynion oyn b'o hir, a hwyr a briodolant eu goruchafiaeth i gyd i'r Arglwydd, gan ddywedyd, *I Dduw y byddo'r diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni y fuddugoliaeth, trwy ein Harglwydd Iesu Grist.*

ANDREAS. (*Gwr cadarn, nerthol*) Mat iv, 8. Brawd Simon Pedr ydoedd. Y mae yn gweddu i bob Cristion fod yn gadarn yn y ffydd, ac yn sefydlog gyda gwaith yr Arglwydd.

ANNA. (*Graslawn a thrugarog*) Merch Phanuel, o lwyth Aser: (Luc ii, 36) ond nid oedd gan Anna ddim gras cadwedigol i gyfranu i neb: ond y mae ein Duw ni yn Jehofa, yn Dduw trugarog a graslawn, ac yn maddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod.

ANTIPAS. (*Gworthwynebur pawb*) Merthyr ffyddlon, Dat ii, 13.

APELES. [*Cau allan, neu wahaniadau*] Rhuf. xvi, 10.

APOLONIA. (*Colledigaeth*) Act xvii, 1.

APOLOS. (*Difrodydd*) Act xii, 24.

APOLYON. [*Dinystrydd*] Dat. ix, 11.

ARABIA. (*Diffeithwch*) 1 Bren. x, 15.

ARCHELAUS. (*Tywysog y bobl*) Mat. ii, 22.

ARIMATHEA. (*Uchelfa, neu oleuni marwolaeth yr Arglwydd*) Dinas yn Judea, lle yr oedd Joseph yn byw, yr hwn a ddaeth at Pilat i ofyn corph yr Iesu, Luc xxiii, 50. Y mae goleuni rhyfedd yn cydfyned â marwolaeth yr Arglwydd Iesu; 1, Yn yr olwg ar farwolaeth Crist ni a welwn fawr ddrwg pechod. 2, Ni a welwn fawr gariad Duw at bechaduriaid. 3, Ni a welwn briodoliaethau Duw yn tywynu yn eu gogoniant, yn achubiaeth pechaduriaid. 4, Ni a welwn y gyfraith wedi cael ei hanrhydeddu. 5, Ni a welwn fawr werth enaid. 6, Ni a welwn iachawdwriaeth gyflawn wedi cael ei dwyn oddi amgylch. 7, Ni a welwn y fuddugoliaeth fwyaf wedi cael ei hynnull.

ARMAGEDON. (*Bryn yr asalau neu y ffrowythau; neu fryn yr efengyl.*) Fe wna eglwys Dduw ffirwytho yn rhyfedd yn y mil blynyddoedd, yn ol cael cyflawn fuddugoliaeth ar Anghrist. Dat. xvi, 16.

ARISTARCHUS. (*Tywysog da.*) Cristion gwresog yn amser Paul. Col. iv. 10.

ARISTOBULUS. (*Cynghorwr doeth.*) Rhuf. xvi, 10.

ARNON. (*Llamu o lawenydd.*) Afon ydyw, sydd yn codi yn mynyddoedd Gilead, ac yn rhedeg i'r Môr Marw. Num. xxi, 13. Barn. xi, 18. Esay xvi, 2. Fe lama eenhedloedd y ddaear yn rhyfedd gan lawenydd, yn ol i afon iachawdwriaeth gras a dyfroedd bywiol yr efengyl ddylifo attynt. Esay xxxv, 6. *Yna y llama y cloff fel hŷdd, ac y can tafod y mudan; canys dyfroedd a dyr allan yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch.*

ARPHAD. (*Goleuni iachawdwriaeth.*) Dinas enwog gynt yn Syria. Esay xxxvi, 19. Jer. xlix, 23. 1, Mae pob dyn wrth natur yn sefyll mewn angen o iachawdwriaeth. 2, Y mae Duw wedi trefnu iachawdwriaeth addas ar gyfer y peaf o bechaduriaid. 3, Y mae goleuni rhyfedd yn cyd-fyned âg iachawdwriaeth yr Arglwydd; y mae rhinwedd naillduol yn hon i droi dynion o dywyllwch i oleuni ac o feddiant Satan at Dduw, ac i wneud miloedd yn gymhwys i gael rhan o etifeddiath y saint yn y goleuni.

ARPHAXAD (*Un yn meddyginaethu.*) Mab Sem ac wyr Noa, Gen. xi, 12. Ond fe ellir dywedyd yn briodol am Crist mai un yn meddyginaethu ydyw. Y mae pechaduriaid wrth natur yn llawn o glwyfau: 1, Clwyf o euogrwydd damniol. 2, Clwyf o halogrwydd. 3, Clwyf o wrthgiliadau: ond y mae Crist yn meddyginaethu yn rhad ac yn anffaeledig. *Meddyginaethaf eu hyspochweliad hwynt, caraf hwynt yn rhad; canys troidd fy nig oddi wrtho,* Hos. xiv, 4.

ARTACSERGES. (*Rhyfelwr cadarn*) Brenin Persia ydoedd, Ezra iv, 7.

ARTIMAS. (*Holl-iach, difeius*) Titus, iii, 12. Un o gymdeithion Paul a phregethwr enwog ydoedd: ond nid oes neb yn hollol ddifeius ar y ddaear, oblegid os *dywedwn na'u oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom*; ond fe fydd y saint i gyd yn ddifeius yn ol myned i'r nefoedd: ni bydd dim bai yn eu natur, eu hegwyddorion, na'u dybenion; dim bai yn eu cof na'u serchiadau; na dim bai yn eu hewyllys, eu meddwl, na'u cydwybod; Eph. v, 27, a i, 4.

ASA. (*Meddyg*) Mab Abiah brenin Juda, 1 Bren. xv, 11. Ond Crist yw'r unig Feddyg i eneidiau pechaduriaid, 1, Fel Meddyg da, fe wyr am natur ein clwyfau, ac fe fedr gymhwyso'r feddyginaeth adref at ein cyffyrâu. 2, Fel Meddyg da, y mae yn chwilio ac yn trin y clwyfau i'r gwaelod; ac nid fel y gau broffwydi yn trin clwyfau Sion yn ysgafn, gan ddywedyd, *Heddwch, heddwch, pryd nad oedd heddwch.* 3; Fel

Meddyg, y mae Crist yn rhoi meddyginiaeth addas wrth y clwyfau, ac yn rhwymo eu doluriau yn dirion. 4, Fel Meddyg da, y mae Crist yn puro ei bobl trwy weithrediadau sancteiddiol yr Yspryd Glân. 5, Fel Meddyg da, y mae Crist yn ymweled â'r cleifion yn aml, ac yn tywallt olew a gwin yn eu harchollion, ac yn llawenhau wrth eu gweled yn gwella.

ASAHEL. (*Gwaith Duw, neu Duw a weithiodd*) Brawd Joab ac un o gedyrn Dafydd ydoedd, 2 Sam. ii, 18. Fe weithiodd Duw yn rhyfedd mewn creadigaeth, fe weithiodd yn rhyfedd mewn rhagluniaeth, ac fe weithiodd yn rhyfedd ac yn ardderchog mewn iachawdwriaeth: 1, Mae Duw wedi gweithio gwaith mawr dros ei bobl. 2, Mae Duw wedi gweithio gwaith mawr i'w bobl ac ar eu cyfer; sef gwisg, gwledd, a meddyginiaeth: ie, *Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'u carant ef.* 3, Mae Duw yn gweithio gwaith mawr yn ei bobl: *Duw yw yr hon sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu, o'i ewyllys da ef:* mae yn gweithio cariad ynddynt at bob daioni; y mae yn gweithio casineb ynddynt at bob pechod; y mae yn gweithio ffydd ynddynt i ymorphwys ar Grist am bob peth angenrheidiol; y mae yn gweithio hiraeth ynddynt am sancteiddrwydd.

ASAIAH. (*Creadur yr Arghwydd*) 2 Cron xxxiv, 20. Dywed Paul, *Od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn greadur newydd,* 2 Cor. v, 17. 1, Mae'r creadur newydd yn greadur rhyfeddol. 2, Mae'n greadur gweithgar. 3, Mae'n greadur cynhyddol. 4, Mae'n greadur nefolaidd. 5, Mae'n greadur ag sydd yn gofyn llawer o ymgeledd. Y mae pawb ag sydd yn feddiannol arno yn meddu ar egwyddor a dyben newydd; ac y mae goleu newydd wedi dyfod i'r deall, ufudd-dod newydd i'r ewyllys, gwrthddrychau cariad newydd gan y serchiadau, a thawelwch newydd wedi dyfod i'r gydwybod.

ASAPH. (*Cynnullwr*) Un o lwyth Lefi, cantor enwog yn amser Dafydd, 1 Cron. vi, 39.

ASCELON. (*Tan*, neu *Enllib*) Un o ddinasoedd y Philistiaid, Barn. i, 18. Y mae tân o lid, a malais, a chenfigen mewn dynion annuwiol; ac y maent yn barod i enllibio y duwiolion, ac i ddywedyd pob drygair am danynt.

ASCENAS. [*Tan yn ymdaenu*] Mab hynaf Gomer ydoedd, Gen. x, 3. Oddiwrth Gomer y daeth y Cymry, ac fe daena tân yr efengyl oddiwrth y Cymry, trwy yr holl fyd, cyn b'o hir; ac y mae cenhadau heddwch wedi myned yn ddiweddar o Gymru i bedwar cwr y byd, i gario tân efengyl i losgi Paganïaeth, ac i wresogi calonau'r cenedloedd at y Duw byw.

ASER. [*Dedwydd*] Mab Jacob, Gen. xxx, 13. Y mae y duwiolion i gyd yn ddedwydd: 1, Maent yn ddedwydd yn y byd hwn, oblegid fod yr Arglwydd yn Dduw iddynt, ac am fod eu pechodau wedi eu maddeu, ac y mae pob peth yn cydweithio er eu daioni. 2, Byddant yn ddedwydd yn angeu, oblegid hwy a gânt eu rhyddhau oddiwrth bob gofid, a'u heneidiau a dderbynir i ogoniant, a'u cyrph a hunant yn yr Arglwydd, mewn gobaith o adgyfodiad gorfoleddus yn moreu caniad yr udgorn mawr. 3, Byddant yn ddedwydd yn nydd y farn, oblegid fe fydd Iesu yn eu harddel ger bron ei Dad a'i angylion sanctaidd; ac efe a'u gwahodd i etifeddu y deyrnas dragywyddol a barottowyd iddynt er seiliad y byd. 4, Byddant yn ddedwydd byth yn y nesoedd, yn y mwynhad cyflawn o Dduw; a hwy a fyddant yn berffaith mewn gwybodaeth, sancteiddrwydd, llawenydd, a gogoniant i dragywyddoldeb.

ASIA. [*Corsiog, lleidiog, cyfandir*] Un o bedwar cwarter y byd. Yma y crewyd dyn ar y cyntaf, yma y ganed Iachawdwr y byd, ac yma hefyd y dyoddefodd dros bechaduriaid.

ASNAPPAR. [*Annedwyddwch*] Brenin Asyria ydoedd, Ezra iv, 10. Y mae pob dyn annuwiol yn annedwydd, oblegid y mae Duw yn ddigllon beunydd wrtho, ac y mae ei bechodau heb eu maddeu, ac y mae cydwibod euog yn ei fynwes, a sylfaen damnedigaeth yn ei gyflwr

bob munud; ac nid oes ond ewylllys da Duw rhyngddo a bod yn uffern dân.

ASYNCRETUS. (*Anghydmarol*) Rhuf. xvi, 14.

ATTAËIA. (*Cynhyddu, maethu*) Dinas yn Pamphylia, Act. xiv, 25.

AUGUSTUS. (*Ffynadwy ac anrhydeddus*) Luc ii, 1.

AZARIAH. (*Cynnorthwy'r Arglwydd*) Dan. ii, 17.

AZECA: (*Cadernid muriau*) Jos. x, 11.

AZUR. (*Cynnorthwywr*) Jer. xxviii, 1.

AZMAFETH. *Grym neu nerth angen.* 2 Sam. xxiii, 31.

AZGAD. (*Byddin gref*) Ezra viii, 12. Y mae eglwys Dduw yn cael ei galw yn *llwbanerog*; Can. vi; 10. Y mae eglwys Dduw, 1, Yn fyddin reolaidd. 2, Yn fyddin ogoneddus. 3, Yn fyddin arfog. 4, Yn fyddin gref a buddugoliaethus; y mae holl briodolaethu Duw o'i phlaid; y mae arfaeth a rhagluniaeth Duw o'i phlaid; ac hefyd y mae holl angylion y nefoedd o'i phlaid: mwy yw rhai sydd gyda hi na'r holl rai sydd yn ei herbyn.

1 Beth dat enw, beth dal cyfoeth, beth dal mawredd, parch, a-bri, Ileb gael meddiant o drysorau, ac o beriau Calfari?
Tro'i'n siomedig yn mhob brwydyr, mae'r creadur gore'i ryw,
Ni chaf neb i bara'n fyddlon, i mi'n gyson, ond fy Naw.

2 Cyfnewidiol yw'r creadur, ac anwadal iawn o' hyd;
Nid yw'r creaduriaid penaf yn teylngu cael fy mryd:
Mae'r creadur yn siomedig, diflannedig yw bob awr;
Nid oes neb a lŷn yn wastad, ond fy Archoffeiriad mawr.

3 Gwagedd ydyw'r creaduriaid, a siomedig y'nt i gyd,
Ac nis gallant wir ddiddanu, na diwallu f' enaid drud;
Maent yn llawn o anwadalwch, fe ddifanna'u tegwch llon,
Ni estynant gymhorth imi, pan b'wy'n soddi dan y don.

BABYLON. (*Cymmysgedd*) Prif ddinas Caldea yn Asia; un o'r dinasoedd mwyaf godidog a fu yn y byd erioed; yr oedd yn drugain milltir o gwmpas, yn sefyll mewn gwastadedd mawr: yr oedd ynndi haner cant o heolydd, medd hen awdwyr, a phob un o'r rhai hynny yn bumtheg milltir o hyd: yr oedd ei muriau yn uchel, yn gedyrn; ac yn gryffon, ei thyrâu yn aml ac yn ardderchog, ei phalasau yn hardd a godidog, a'i gertddi yn ffrwythlon a thoreithiog: y mae yn bresennol wedi cael ei llwyr ddifrodi ac yn anialwch anghyfanneddôl.

BAAL. (*Llywodraethwr, arglwydd, meistr*) Eitun dduw y Caldeaid, 2 Bren. xxiii, 4.

BAALHAMON. [*Llywodraethwr torf.*] Dyffryn ffrwyth-lawr a hyfryd yn agos i Jerusalem, Can. viii, 11.

BAALHANAN. [*Arglwydd tosturi*] Gen. xxxvi, 38.

BAALHAZOR. [*Arglwydd llys*] Enw dinas, 2 Sam. xiii, 23.

BAALPERAZIM. [*Arglwydd ymraniadau*] Enw lle yn agos i Jerusalem, 2 Sam. v, 20.

BAALZEBUB. [*Arglwydd y gwybed*] 2 Bren. i, 2.

BAHURIM. (*Dewisol, gwrol, rhyfelgar*) Enw dinas, 2 Sam. xvi, 5.

BALAAAM. (*Henaduriaeth neu Ddistrywiwr y bobl*) Num. xxiii, 7.

BALAC. (*Difrodydd, dinystrydd*) Num. xxii, 5.

BARNABAS. (*Mab diddanwch*) Pregethwr enwog yn amser yr apostolion ydoedd, Act. iv, 36. Diau mai dyledswydd gweinidogion yr efengyl yw diddanu'r saint yn eu holl orthrynderau; 1, Trwy osod allan Grist a'i gyflawnder ar gyfer eu hangen. 2, Trwy osod allan gadernid y cyfammod a dianwadawlch yr addewidion. 3, Trwy ddangos trwy'r ysgrythurau fod pob peth yn cydweithio er eu daioni. 4, Trwy ddangos na phâr eu gofidiau ddim yn hir, a bod coron a theyrnas yn eu haros tu draw i'r bedd, Esay xl, 1.

BARBABS. (*Mab llonyddwch*) Act. i, 23. Fe weddai fod pob Cristion yn llonydd ac addfwyn, a pheidio ymyraeth llawer â matterion rhai ereill: fe ddywed yr Apostol fod yspryd addfwyn a llonydd ger bron Duw yn werthfawr; sef bod yn ddigynhwrf o ran geirau a thymerau gwaedwyllt; bod yn dawel, yn araf, ac yn ddidonnau, ac ymorphwys yn ddistaw yn nhrefn yr Arglwydd, 1 Pedr iii, 4, 1 Thes. iv, 11. Y mae llonyddwch duwiol yn tarddu oddiar y pethau canlynol: 1, Oddiar ymddiried yn ddisigl yn yr Arglwydd. 2, Oddiar ymostyngiad yr ewyllys i drefn Duw. 3, Oddiar gydnybuddiaeth ostyngedig o'i annheilyngdod i dderbyn

dim oddiar ei law. 4, Gofal neillduol i wneud ei ddy-leddwydd a llenwi ei fe yn mhob amgylchiad.

BARTHOLOMEW. (*Mab yn tynu dwfr*) Un o'r deuddeg Apostol, Mat. x, 3.

BARUC. (*Gwr bendigaidd neu Bendigedig*) Ysgrifenydd y profwyd Jeremi, Jer. xxxvi, 4.

BEDAD. (*Unig*) *Gwae'r unig*, medd Solomon, *drwg fydd iddo; canys pan syrthio ni bydd ail i'w gufodi.*

BEER-ELIM. (*Ffynon y tyrcysogion*) Esay xv, 8. Num. xxi, 17, 18.

BEERLAHAIROI. (*Ffynon yr hwn sydd yn byw ac yn fy ngweled*) Felly y galwodd Agar y ffynon hon, o herwydd i'r Duw byw ymddangos iddi, a darparu ar ei chyfer hi a'i mab, pan mewn dygn galedi, Gen. xvi, 13. Y mae yr Arglwydd yn Dduw byw, ac yn Ffynon y dyfroedd byw, Jer. ii, 13. Y mae Crist hefyd yn cael ei gyffelybu i *Ffynon*, Zec. xiii, 1. Mae Crist yn cael ei gyffelybu i ffynon ar yr ystiriaethau canlynol: 1, Ffynon yw pen a gwreiddyn pob afon; felly Crist, yn ei gariad tragywyddol, yw ffynonell yr iachawdwriaeth fawr ag y mae yr efengyl yn ei hegluro. 2, Mae cyflawnder o ddwfr yn gyffredin mewn ffynon; felly y mae cyflawnder o bob gras a bendithion ysprydol yn Nghrist. 3, Mae lle i'r dwfr i redeg o ffynonau; felly y mae addewidion ac ordinhadau yr efengyl, fel pibellau auraid, yn cario bendithion ysprydol oddiwrth Grist i bechaduriaid. 4, Y mae ffynonau yn agored ac yn rhad i bawb; felly y mae Crist a'r iachawdwriaeth yn rhad i'r penaf o bechaduriaid. 5, Y mae dwfr glân a digymmysg mewn ffynonau; felly y mae pob peth sydd yn Nghrist yn bur, yn loyw, ac yn berffaith. 6, Mae ffynon dda yn dal bob tymhor heb sychu; felly y mae Crist *yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd.* 7, Mae ffynonau yn fuddiol i ddisychedu, i olchi, ac i ffrwythloni; felly y mae Crist a'r iachawdwriaeth trwyddo. 8, Y mae rhai ffynonau yn ddwfr iawn; felly y mae dyfnderoedd o haeddiant, ac o olud, gras, a thrugaredd yn Nghrist, ac fe fydd miloedd yn nofio yn ei gariad ef byth.

9, Y mae rhai ffynonau yn feddyginiaethol iawn; felly y mae meddyginiaeth yn Nghrist i bechaduriaid clwyfus, ie y mae efe yn iachau pob clefyd a phob aflechyd yn mhllith y bobl; ac efe a ddichon yn gwbl iachau y rhai oll sydd yn dyfod trwyddo ef at Dduw, gan ei fod yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.—Ac y mae efe yn fyngweled i; y mae Duw yn fyw, ac y mae efe yn fyngweled i: 1, Y mae yn gweled fy egwyddorion a'm dybenion. 2, Mae efe yn gweled fy nghystudd a'm tiodi. 3, Y mae efe yn gweled ac yn canfod fy nagrau a'm griddfanau. 4, Y mae efe yn gweled ac yn canfod fy llwythau a'm beichiau trymion i gyd. 5, Y mae efe yn canfod fy holl ddymuniadau hiraethlon i gyd. 6, Y mae efe yn gweled ac yn canfod fy holl elynion a'u dichellion oll. 7, Mae efe yn gweled ac yn canfod yr hyn a fyddaf yn y farn a thragywyddoldeb mawr. Ffynon yr hwn sydd yn byw ac yn fyngweled i yw Iesu Grist.

BEERSEBA. (*Ffynon y llw*) Fe alwyd y lle hwn felly am i Abraham wneud cyfammod trwy lw yno âg Abimelech, brenin Gerar, Gen. xxi, 31.

BELA. (*Distrywiwr*) Gen. xxxvi, 32.

BELIAL. (*Drygionus, difudd, neu un heb iau*) Enw a roir i'r diabol, i ddangos ei fod yn llygredig, yn aflywodraethus, ac na fyn wneuthur daioni.

BELSASSAR. (*Arglwydd y trysor*) Brenin Babylon, Dan. v, 1.

BELTESASSAR. (*Un sydd yn trysori yn ddirgel*) Enw a roddwyd ar Daniel yn llys Babylon, Dan. i, 7. Y mae pob Cristion yn trysori yn ddirgel; y mae yn trysori ei drysorau yn y nefoedd, ac yn trysori iddo ei hun sail dda erbyn yr amser a ddaw.

BENAIAH. (*Mab yr Arglwydd*) Un o gedyrn Dafydd, 2 Sam. xxiii, 20. 1, Mae Crist yn briod Fab Duw, yr hyn sydd yn arwyddo gogyfuwchder natur, tragywyddoldeb hyfrydwch, undeb cynghor, cymundeb gogoniant. 2, Mae'r angylion yn feibion i Dduw trwy

greadigaeth. 3, Mac'r saint yn feibion i Dduw trwy ail-enedigaeth a mabwysiad.

BEN-AMMI. (*Mab fy mhobl*) Gen. xix, 38.

BENHADAD. (*Mab y derfysg*) 1 Bren. xv, 18. Y mae llawer un wedi bod yn achos o derfysg mawr mewn teuluoedd, mewn ardaloedd, mewn eglwysi, ac mewn teyrnasoedd. *Trwy falchder yn unig*, medd y Gair, *y cysfry cynnen*. Ond y gelyn diafol a daflodd derfysg gyntaf i holl ymerodraeth Duw.

BERACIAH. (*Dywedyd yn dda am yr Arglwydd*) 1 Cron. xii, 3. Y mae yn ddyledswydd ar bawb i ddywedyd yn dda am yr Arglwydd: '1, Dylem ddywedyd yn dda am dano fel Creawdwr: efe a wnaeth yr haul, a'r lleuad, a'r ser, a'r holl blanedau mawrion ag sydd yn troi yn eu cylchoedd yn y ffurfafen, ac sydd yn addurno'r nefoedd wybrenol; ac efe a wnaeth y ddaear, a'r môr, a'r ffynonau dyfroedd; a phob creadur sydd ar y ddaear, a holl bysg y môr, a phob aderyn asgellog, ag sydd yn hedeg yn yr awyr; ac efe a wnaeth yr holl goed ffirwythlon ac ardderchog, a phob llysiuyn ag sydd yn tyfu ar hyd y ddaear, a phob blodeuyn harddwych ag sydd i'w gweled ar hyd wyneb y maesydd: ac edrychodd Duw ar ei holl waith, *ac wele da iawn ydoedd*. 2, Dylem ddywedyd yn dda am yr Arglwydd am holl weithredoedd ei ragluniaeth; *da y gwnaeth efe bob peth*; efe sydd yn darostwng ac yn derchafu, efe sydd yn elwyo ac yn meddyginiaethu; efe sydd yn diwallu pob peth byw o'i ewyllys da: *O na foliannem yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion!* 3, Dylem ddywedyd yn dda am yr Arglwydd am waith mawr yr iachawdwriaeth; sef am ordeinio ei Fab i fod yn Gyfryngwr, ethol miloedd ynddo, rhoddi pechodau ei bobl arno, a'i ddanfôn i'r byd i fyw a marw yn lle pechaduriaid; ac am ddanfôn yr Yspryd Glân i argyhoeddi, i ail-eni, i arwain, diddanu, sancteiddio, a thywys ei bobl i bob gwirionedd; ac am wisgo ei bobl yn nghyfiawnder Crist, a maddeu eu holl bechodau, a'u dychwelyd o'u gwrthgiliau, a'u gwledda â brasder ei

dŷ. Deuwch blant, gwrandewch arnaf; *a mynegaf yr hyn a wnaeth efe i'm henard.*

BENJAMIN. (*Mab deheulaw*) Gen. xxxix, 18. Fe fydd y saint i gyd ar ddeheulaw yr Arglwydd Iesu, yn moreu'r farn, yn cael eu harddel garddo fel ei frodyr, fel ei briod, fel ei drysor priodol a'i dlysau gwerthfawr, ac fel ei ddefaid a'i nŏd arnynt; cânt eu dwyn i anhraethol lawenydd, dedwyddwch, a gogoniant; ond fe fydd yr holl annuwiolion ar ei law aswy, ac yn myned i fwrdd gyda'r *Buch dialw-yn-ol.*

BEREA: (*Trwm; prŷysig*). Dinas fechan yn Macedonia; Act. xvii, 10.

BETHANIA. (*Tŷ'r gorthrymder, neu dŷ'r galar*) Luc. xxiv, 50. Felly y mae y byd hwn yn llawn gorthrymdera galar i'r dŷwiolion: y mae'r saint yn galaru llawer oblegid llygredd eu calonau eu hunain, ac oblegid pechodau rhyfygus yr annuwiolion, ac oblegid aflwyddiant Sion, ac oblegid eu bod yn aml yn colli gwedd wyneb eu Harglwydd.

BETHAFEN. (*Tŷ'r gwagedd neu'r gofid*) Jos. viii, 2. 1, Tai'r gwagedd yw holl demlau yr eilun-addolwyr; nid oes yno un wledd sylweddol i enaid. 2, Tai'r gwagedd yw holl chwaredau'r byd; nid oes yno ddim a wna les erbyn wynebu marw a byd o sylwedd. 3, Tai'r gwagedd yw holl dai addoliad cyfeiliornwyr y byd Cristionogol. 4, Tai'r gwagedd yw'r holl dai nad yw addoliad Duw yn cael ei gadw ynddynt. 5, Tai'r gwagedd yw'r holl dai ag y mae eu preswylwyr yn ymddifyru yn mhethau gwag y byd, ac yn ddiymofyniad am grefydd: ond fe ddeil gofid tragywyddol holl breswylwyr y tai hyn cyn b'o hir.

BETHABARA. (*Tŷ'r dramwyfa*). Tref tu hwnt i'r Iorddonen ydoedd, lle bu Ioan yn bedyddio: y mae yn debyg mai yn y far hon yr aeth yr Israeliaid gynt tanwy yr Iorddonen i gymeryd metdiant o wlad Canaan. Y mae angeu yn dramwyfa gyffredinol i holl ddynolryw, o fyf o antser i fyf tragywyddol, o fyf cyfnewidiol i fyf anghyfnewidiol: y mae llawer yn y dramwyfa yma bob

dydd. O! gweddiwn am fod yn barod cyn myned i lawr i rosydd Moab ac ymchwydd yr Iorddonen.

BETHCAR. (*Teml yr oen*) Dinas yn llwyth Dan, a theml ynddi, mae'n debyg, lle yr oedd llun oen yn cael ei addoli, 1 Sam. vii, 11. Ond y mae tŷ neu deml Dduw yn rhagori yn mhell ar hono; y mae Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau'r byd, yn cael ei addoli, ei foliannu, a'i dderchafu yma.

BETHEL. [*Tŷ Dduw*] Gen. xxviii, 19. Yr eglwys yw tŷ Dduw ar y ddaear: 1, Tŷ Dduw, am mai Duw sydd yn ei adeiladu. 2, Am fod Duw yn preswyllo ynddo: y mae'r eglwys yn dŷ cadarn, diddos, ac yn dŷ cyflawn o bob peth dymunol: yma y mae Duw yn gwledda ei blant; y mae yma wleddoedd llawn a dant-eithion melus a hyfrydlawn, ac y mae groesaw i'r angenog i ddyfod i mewn i gael ei ddiwallu: yma y mae Duw yn dysgu ei bobl yn ddoeth i iachawdwriaeth, yma y mae efe yn meddyginiaethu ac yn llawenhau ei bobl, ac yn cymeradwyo eu haberthau ar gyfrif aberth mawr y Cyfryngwr. O fy enaid, dos i mewn trwy y drws, ac aros yn y tŷ'r nos.

BETHESDA. (*Tŷ'r tywalltiad, neu tŷ trugaredd a thosturi*) Ioan v, 2. Y mae miloedd o fendithion yn cael eu tywallt yn eglwys Dduw i bechaduriaid; ac y mae torfeydd o rai annheilwng a thruenus yn cael trugaredd i'w heneidiau yma; sef eu gwisgo yn nghyflawnder Crist, a'u golchi oddiwrth eu pechodau trwy waed yr Oen, a'u diwallu a'u porthi â ffrwythau pren y bywyd.

BETH-HACCEREM. (*Tŷ y winllan*) Dinas yn sefyll ar fryn rhwng Jerusalem a Tecoa, Jer. vi, 1. Y mae eglwys Dduw yn cael ei galw yn *dŷ* ac yn *winllan* hefyd yn aml yn y Bibl: fel gwinllan, 1, Mae'r eglwys wedi cael ei neillduo oddiwrth y byd. 2, Y mae llawer o blanhigion, blodau, a ffrwythau peraidd ynddi. 3, Y mae llawer o waith cloddio, digarregu, a chwynu arni. 4, Y mae llawer o bryfed niweidiol yn dueddol i fagu ynddi; sef balchder, rhagfarn, diogi ysprydol, an-

nghariad, ac ymryson. 5, Y mae'r llwynogod o gyf-
 elionnadau yn niweidio'r egin grawnwin yn aml ynddi.
 6, Y mae ffynon yr iachawdwriaeth ynddi i'w dyfrhau.
 7, Y mae Duw yn ei diogelu â'i ragluniaeth, yn gwylio
 drosti, yn ei gwresogi â'i gariad, yn ymhyfrydu i rodio
 ynddi, ac yn cyflogi rhai i ddyfod i weithio ynddi, ac yn
 eu gwobrwyo yn ol eu gwasanaeth.

BETH-HOGLAH. (*Tŷ y wledd*) Dinas rhwng Jericho
 a'r Iorrdonen, Jos. xviii, 21, Ond eglwys Dduw yw
 tŷ y wledd mwyaf ardderchog: yma y mae y danteithion
 goreu ar y ddaear, sef gwledd yr efengyl; *gwledd o*
basgedigion breision ac o loyw win puredig: 1, Gwledd
 felus a danteithiol iawn yw gwledd yr efengyl: y mae
 profiad o gariad Crist a phrofiad o faddeuant pechod yn
 felus iawn i'r enaid teimladwy; ac y mae galwadau,
 athrawiaeth, ac addewidion y Gair yn hynod o felus;
 ie, *yn felusach na'r mel, ac na dyferiad y diliau mel*.
 2, Gwledd gyflawn a llawn o amrywiaethau yw gwledd
 yr efengyl; y mae yma bob peth yn barod, deuwbh i'r
 briodas. 3, Y mae yn wledd rad i bawb fel eu gilydd;
 y mae groesaw i'r tlodion, a'r deillion, a phob sefyllfa
 a graddau i gyfranogi o wledd yr efengyl. 4, Gwledd
 ddrudfawr iawn i Grist. 5, Gwledd barhaus a diddarfod
 yw gwledd yr efengyl: y mae y wledd sydd yma yn
 nhŷ Dduw yr un o ran natur a'r wledd sydd gan y saint
 yn y nef; yr un cariad, yr un Oen sydd yma a fry; ond
 y mae llygredd, euogrwydd, a siomedigaethau, a
 chroesau, fel dail surion, yn gymmysg â'n gwleddoedd
 goreu ni yma; ond ni bydd un ddalen sur yn y wledd
 fry.

BETH-HORON. (*Tŷ'r digofaint*) Dinasoedd per-
 thynol i lwyth Ephraim, 1 Cron. vii, 24. Y mae uffern
 yn llawn o ddigofaint y Duw hollalluog, yn cael ei
 dywallt yn wastadol ar ben yr annuwiolion: y mae y
 digofaint yma yn ddigymmysg âg un drugaredd, yn
 ddigofaint haeddiannol, anwrthwynebol, dychrynlyd, a
 thragywyddol. O Arglwydd, nertha ni oll i ffoi rhag y
 llid a fydd, a'r digofaint sydd ar ddyfod.

BETHIESIMOTH. (*Tŷ'r anghyfanedd-dra*) Dinas yn llwyth Reuben, Jos. xiii, 20. Tŷ anghyfanedd iawn yw y bedd, lle y bydd ein cyd-orphwysfa yn y llwch: *Tŷr iwyllloch fel y fagddu, a chysgod angen heb drefn; tŷ rhagderfynedig i bob dyn hŷw.*

BETHNIMRA. (*Tŷ gwrthryfel*) Dinas yn llwyth Gad, Num. xxii, 36. Y mae calon y dyn-di-afanedig yn neuadd i'r diafol, ac yn dŷ gwrthryfel yn erbyn Duw: *Syniad y enwad sydd elyniaeth ym erbyn Duw.* Rhuf. viii, 7. 1, Y mae yr annuwiol yn llawn gwrthryfel a gelyniaeth at sancteidrwydd Duw, fel Bod sydd yn casau pechod. 2, Y mae yn llawn gelyniaeth at gyfiawnder Duw, fel y mae yn ei rwympo i gospi pechod yn of ei haeddiant. 3, Mae yn llawn gelyniaeth at holl-bresonoldeb Duw, am ei fod gysŷg ef yn mhob man yn sylwi ar ei holl ymddygiadau. 4, Mae yn llawn gelyniaeth at holl-wybodaeth Duw, fel y mae yn hysbys o'i holl bechodau dirgelaf. 5, Y mae yn llawn gelyniaeth at wirionedd a ffyddlondeb Duw, fel un sydd yn sier o gyflawnu ei holl fygythion. 6, Y mae yn llawn gelyniaeth at holl-lluogrwydd Duw, trwy ba un y diehon efe osod ei holl fygythion mewn grym. 7, Yn casau trugaredd Duw, fel y mae yn drugaredd sanctaidd. 8, Mae yn casau arfaeth Duw. 9, Mae yn casau llywodraeth Duw, gan ddywedyd, *Dryllion eu rhwymau, a thastion eu rheffynau addi wrthym.* 10, Y mae yn casau iachawdwriaeth Duw a'i holl drefn i gadw pechadur. Y mae'r elyniaeth yma yn ddigymmysg yn yr annuwiol: y mae yr annuwiol yn dangos ei elyniaeth at Dduw, 1, Trwy lettya meddyliau amharhous am dano, 2 Cron. xxxii, 14, 17. 2, Trwy fyw mewn anghof o hono, Jer. ii, 32. 3, Trwy ymhyfrydu yn nghyfeillach ei elynion, Iago. iv, 4. 4, Trwy gasau yr hyn y mae Duw yn ei garu, a charu yr hyn y mae Duw yn ei gasau, Diar. i, 22. a ii, 14. 5, Trwy feio ar ei arfaeth a'i fwr-iadau, Rhuf. ix, 19, 20. 6, Trwy ymrwson a cheisio ymladd a'i ragluniaeth, Essay. xlix, 9. 7, Trwy sethru a diystyru ei orchymynion, Luc xix, 27. Diar. i, 25.

BETHLEHEM. (*Tŷ'r bara*) Dinas yn llwyth Juda, chwech milltir o Jerusalem: yma y ganwyd Iachawdwr y byd: yma yr ymddangosodd bara'r bywyd mewn modd amlwg i rai o dlodion Eden ag oedd ar drengu o newyn; ac y mae eglwys Dduw etto yn llawn o fara'r bywyd, yr hwn a ddaeth i wared o'r nef i gadw yn fyw bobl lawer: y mae Crist yn cael ei alw'n fara'r bywyd, 1, Am fod ganddo fywyd ynddo ei hun, Ioan v, 26. 2, Am ei fod wedi haeddu bywyd i bechaduriaid meirwon. 3, Am ei fod trwy ei Yspryd yn cenedlu bywyd ysprydol yn eneidiau ei bobl. 4, Am fod pawb sydd yn ymborthi arno yn cael eu gwneud yn fywiog yn ngwaith yr Arglwydd. 5, Am y bydd i bawb a gyfrannogant o hono gael bywyd o gysur yn y byd hwn a bywyd tra-gwyddol mewn gogoniant, Ioan vi, 35. Awni Bethlehem i ymofyn bara'r bywyd; y mae efe i'w gael yn rhad i bob graddau heb arian ac heb werth.

BETHPEOR. (*Tŷ'r agoriad*) Deut. iv, 46. Yn eglwys Dduw y mae'r Gair a dirgelion teyrnas nefoedd yn cael eu hagoryd a'u hegluro i bechaduriaid, a chalonaau miloedd yn cael eu hagor i dderbyn y gair.

BETHER. (*Tŷ'r dosparthiad*) Can. ii, 17. Yn eglwys Dduw y mae bendithion angeu Calfaria yn cael eu dosparthu yn rhad i drigolion y llawr.

BETHPHAGE. (*Tŷ'r ffigys cynnar*) Pentref yn agos i Jerusalem, Mat. xxi, 1. Oddi yma y darfu i'r Iesu farchogaeth yn llariaidd ar ebol asyn i Jerusalem; ac fe gafodd ffigys neu ffrwyth cynnar ar blant yno; yr oedd llawer o honynt yn ei foliannu, gan ddywedyd, *Hossanna i Fab Dafydd; bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw'r Arglwydd.* Peth mawr yw gweled ffrwythau sancteiddrwydd ar blant yn gynnar, neu pan yn ieuinge.

BETHSAIDA. (*Tŷ'r ffrwythau, neu hela*) Dinas yn Galilea, yn perthyn i lwyth Naphthali: yma yr agorodd Crist lygaid y dall a'r clai a'r poeryn, Marc viii, 22. Mae'n sicr y gweddai fod llawer o ffrwythau i'w gweled ar broffeswyr ac yn eglwys Dduw; sef cariad, gos-

tyngeddwydd, hunan-ymwadiad, amunedd, diwydrwydd, ac ymdrech gydâ gwaith Duw, a chyfranu yn ewyllysgar at gario ei achos yn mlaen yn y byd.

BETHSEMES. (*Tŷ'r haul, neu'r caethiwed*) Dinas yn Juda, Jos. xxi, 16. Yr oedd templ eilunod yn yr Aipht a elwid Tŷ'r haul, Jer. xliii, 13. Fe ddichon eu bod yn addoli yr haul yno. Ond y mae Crist, Haul y cyf-iawnder, yn llewyrchu yn eglwys Dduw yn ei wres a'i oleu nefol a dysglair, a miloedd o rai ag oedd yn rhodio mewn tywyllwch wedi dyfod i weled goleuni mawr.

BEULA. (*Priodedig*) Esay lxii, 4. Enw perthynol i'r genhedl Iuddewig ac i eglwys Dduw yn y dyddiau diweddaf, i arwyddo eu priodas â Iesu Grist; y mae'r briodas sydd yn cymeryd lle rhwng Crist a phechadur, 1, Yn briodas anrhydeddus iawn; y mae yn dwyn enw a gogoniant i holl briodoliaethau'r Tad, ac y mae yn dwyn enw a gogoniant i Grist y priodfab; ac yn dwyn enw ac anrhydedd tragwyddol i'r pechadur, neu i'r eglwys, sef y briodasferch. 2, Priodas wirfoddol ydyw. 3, Y mae'n briodas ryfeddol; os ystyriwn pwy oedd y priodfab, Mab Brenin y breninoedd, ac Eifedd y byd; ac hefyd mae yn briodas ryfeddol, os ystyriwn ni pwy oedd y briodasferch, merch yr hen Amoriad, yn llawn aflendid, yn llawn dyled, ac yn y carchar, a than ddedryd gondemniol cyfraith gyhawn a da. 4, Mae yn briodas fanteisiol iawn i'r briodasferch; y mae yn dyfod i feddu holl drysorau y priodfab ar yr un waith. 5, Y mae yn briodas annatodol; ni thyr angeu ddim o'r briodas hon: *Nis gall nac angeu nac einioes, na phethau presennol na phethau i ddyfod, nac uchder na dyfnder, nac un creadur arall ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd, Rhuf. viii, 38, 39.*

BEZALEEL. (*Yn nghysgod Duw*) Mab Uri, o lwyth Juda: yr oedd wedi ei lenwi âg Ysryd Duw, mewn doethineb, a deall, a gwybodaeth, ac yn mhob rhywaith, i ddychymygu cywreinrwydd, i weithio mewn aur ac arian, Exod. xxxi, 2. Mae yn debyg mai efe

oedd tad y rhan fwyaf o gelfyddydau cywraint y byd wedi'r diluw: ond gall dynion fod yn wybodus a doeth iawn mewn celfyddydau, ac etto heb fod yn ddoeth i iachawdwriaeth; ond pwy bynag a gaffo lechu trwy fydd yn nghysgod y Cyfryngwr bendigedig, fe'i cedwir rhag y lliad a fydd a'r digofaint sydd ar ddyfod. Y mae Crist yn gysgod craig fawr mewn tir sychedig; y mae yn gysgod y dydd rhag y gwres, yn lloches ac yn ddi-ddos rhag y dymhestl a rhag y gwlaw.

BILDAD. (*Hen gyfaill*) Job ii, 11. Peth dymunol iawn yw cael cyfarfod â hen gyfaill weithiau; ond y mae llawer hen gyfaill yn troi yn siomedig; ond y mae Crist yn gyfaill gwastadol, *Cydymaith a gar bob amser, a brawd a anwyd erbyn caledi.*

BOANERGÉS. (*Meibion y daran*) Enw a roddodd Crist ar Iago ac Ioan, oblegid eu zêl danlyd yn ngwaith y weinidogaeth, Marc iii, 17. Fê ddylai holl weinidogion yr efengyl fod yn feibion y daran, 1, Trwy ddywedyd yn llym âm ddrwg pechod a pherygl yr annuwiol. 2, Trwy gyhoeddi melltithion y ddeddf a digofaint Duw uwch ben yr annuwiol. 3, Trwy ddywedyd am werth enaid, manyldra'r farn, a'r perygl o fyned i boeni byth i'r tân tragwyddol. 4, Trwy annog dynion yn y modd mwyaf difrifol i ffoi gydâ brys at aberth Calfaria, i ymosyn noddfa i'w heheidiau.

BOCHIM. (*Lle'r wylofain*) Barn. ii, 5. Y mae'r byd hwn yn lle'r wylofain yn aml i blant Duw; 1, O blegid y gweddillion o lygredd sydd yn nglŷn wrthynt yn barhaus; dyma barodd i Paul lesain aillan, a dywedyd, *I's truan o dlyn wyf fi! Pwy d'm gwarad i oddiwrth gorph y farwolaeth hon?* 2, Mae'r byd hwn yn lle o wylofain yn aml i'r duwiol; oblegid colledion bydol, neu droion tyrus mewn rhagluniaeth; megys colli'r meddiannau, colli cyfeillion caredig, a pherthynasau anwyl a hoff; cael llawer o gystuddiau chwervon, a chael eu taflu i beiriau poethion yn aml; y mae y pethau hyn yn gwneud y byd hwn yn *Bochim*, neu yn lle'r wylofain yn aml i'r daufolion yma ar eu taith. 3,

Y mae ofnau ac amheupon yn ei gwneud yn *Bochim* yma yn y byd; y maent yn ofni yn aml mai rhith sydd ganddynt yn lle sylwedd; yn ofni yn aml eu bod yn cario lamp heb yr olew, ac yn ofni mai tywod sydd ganddynt yn lle'r graig; ac y maent yn ofni yn fynych na ddaethant ddim i mewn trwy'r drws i eglwys Dduw. 4, Y mae gormes, gorthrymder, llid, malais, ac erlid yr annuwiolion yn ei gwneud yn *Bochim* yma yn y byd i'r duwiol. 5, Y mae pechodau rhyfygus yr annuwiolion, yn nghyd a dirywiad ac aflwyddiant Sion, yn gwneud y byd hwn yn lle'r wylofain i'r duwiol yn dra chyffredin. 6, Y mae'r Cristion yn wylo llawer yn aml yma oblegid colli gwedd wyneb yr Arglwydd: *Cuddiaist dy wyneb, a bum helbulus*; ond *dros brydnawn yr erys wylofain, erbyn y boreu y bydd gorfoledd*. Ond O! fe fydd uffern yn *Bochim*, neu yn lle o wylofain tragwyddol i'r annuwiolion; fe fydd wylofain yr annuwiol yn tarddu, 1; Oddiar ystyriaeth o'u hymddygiadau yma yn y byd, sef credu'r diafol o flaen Duw'r gwirionedd. 2, Oddiar ystyriaeth o'u breintiau a gam-ddefnyddiwyd. 3, Oddiar ystyriaeth o'u colled fawr. 4, Wrth feddwl am mor lleied peth y darfu iddynt werthu Crist a'r nefoedd. 5, Oddiar fawredd y boen a fyddant yn deimlo. 6, Oddiar yr olwg a gânt; *Hwy a boenir yn ngolwg yr angylion sanctaidd; ac yn ngolwg yr Oen*. 7, Oddiar ystyriaeth o barhad eu poen, sef poen dragwyddol.

BOZRA. (*Gorthrymder, neu helbul, neu le cadarn*) Dinas yn nhir Edom, Esay lxiii, 1.

Y mae'r duwiol yn och'neidio, ac yn wylo ar y llawr, Ac yn disgwyl yma beunydd, am gael d'od o'r cystudd mawr; Ond fe dderfydd eu griddfanau, sychir eu holl dagrau i gyd, Hwy gânt ganu yn drag'wyddol, 'nol myn'd mewn i'r nefol fyd.

CADES. (*Sancteiddrwydd*) Un o'r dinasoedd noddfa, Jos. xxi, 32. Diau fod sancteiddrwydd Duw, a sancteiddrwydd y Cyfryngwr, a sancteiddrwydd y gyfraith, a gwaith sancteiddiol yr Yspryd Glân, o blaid cadw a diogelu'r credadyn; ac y mae Duw yn ei holl briodolaethau yn noddfa ac yn gymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

CAIAPHAS. (*Chwiliwr dyfal*) Archoffeiriad yn Jerusalem oedd, pan ddyoddefodd Crist, Ioan xi, 49. Fe ddylai pob Cristion fod yn chwiliwr dyfal: 1, Dylai chwilio yn ddyfal a ydyw yn meddiannu ar wir a bywiol fydd. 2, Chwilio yn ddyfal a ydyw ei edifeirwch yn dduwiol ac yn efangylaidd. 3, Dylai chwilio yn ddyfal a ydyw yn casau pob pechod, ac yn caru sancteiddrwydd. 4, Chwilio yn ddyfal a ydyw'r graig a'r sylfaen safadwy dan ei enaid. 5, Chwilio yn ddyfal ai gogoniant Duw yw ei ddyben penaf ef yn y cwbl.

CAPERNAUM. (*Dinas diddanwch*) Mat. xi, 23. Y mae eglwys Dduw yn cael ei galw yn ddinas; ac nid oes dim gwir ddiddanwch ond yn eglwys Dduw: *y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw*: y mae yr Yspryd Glan, y Diddanydd nefol, yma yn diddanu y duwiolion, trwy gymhwyso'r addewidion adref attynt, trwy dywallt cariad Duw yn eu calonau, trwy ddangos y caiff pob peth gyd-weithio er eu daioni, ac na phâr eu gofidiau ddim yn hir, a bod coron a theyrnas yn eu haros yr ochr draw.

CARMEL. (*Gwinllan Duw*) Mynydd ffrwythlon yn ngwlad Canaan, yn agos i fôr y canoldir: yma y daeth tân i lawr o'r nefoedd i losgi aberth Elias, mewn attebiad i'w weddi ef, 1 Bren. xviii, 19. Y mae Iesu Grist, Pen yr eglwys, yn cael ei gyffelybu i fynydd Carmel, Can. vii, 5. 1, Yr oedd Carmel yn uchel; felly Crist o ran ei Dduwdod, a'i sefyllfa fel Cyfryngwr, a'i awdurdod, a'i enw; ac fe â yn uchel iawn o ran ei achos yn y byd cyn b'o hir. 2, Yr oedd Carmel yn helaeth ac yn ffrwythlon; felly y mae Crist yn helaeth o ran ei gariad, ei drugaredd, a'i haeddiant; ac y mae yn ffrwythlon iawn; fe ffrwythodd yn ei fywyd, ei farwolaeth, a'i eiriolaeth: *y mae yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth, bob mis yn rhoddi ei ffrwyth*. 3, Yr oedd Carmel yn gadarn a sefydlog; felly y mae Crist yn gadarn o ran ei berson, ei arfaeth, ei gyfammod, ei orseddfainge, a'i freniniaeth. 4, Y rhai a esgynent i ben Carmel a allent weled llawer o'r byd ar un llaw a

llawer o'r môr ar y llaw arall; felly pwy bynag a esgyno trwy ffydd i Grist, hwy a gânt weled gwagedd y byd ar un llaw, a moroedd tragywyddoldeb ar y llaw arall; ie, moroedd o ryfeddodau, o lawenydd, a mwynhâd o Dduw. 5, Fe gafodd gwas Elias, ar ben Carmel, weled cwmwl bychan yn codi o'r môr, fel arwydd o fod gwlaw yn dyfod, mewn attebiad i weddi Elias; felly fe gaiff pawb a esgyno trwy ffydd i Grist arwydd yn fuan fod Duw yn bwriadu gwlawio cafofoddydd o fendithion i'w heneidiau.

CÆSAR. (*Archoll neu doriad*) Ymerawdwr Rhufain, Lue ii, 1.

CLAUDIA. (*Llais wylofus, neu gloff.*) Pendefiges o Rhufain, 2 Tim. iv, 21.

CLEOPAS, (*Yr holl ogoniant*) Un o'r dysgyblion, Luc xxiv, 18.

CONIAH. (*Cadernid yn Arglwydd*) Jer. xxii, 24. Y mae yr Arglwydd yn gadarn Iôr; y mae yn yr Arglwydd Dduw gadernid tragywyddol: Y mae yn gadarn o ran ei gynghor a'i arfaeth. 2, Mae'n gadarn o ran ei holl briodoliaethau. 3, Mae'n gadarn o ran ei gyffammod. 4, Mae'n gadarn o ran ei ragluniaeth a'i holl weithredoedd.

COLOSSA. (*Cospedigaeth*) Col. i, 2. Y mae cospedigaeth yn aros yr holl rai annuwiol tu draw i'r bedd. 1, Cospedigaeth gyfiawr. 2, Cospedigaeth haeddjaanol. 3, Cospedigaeth ofnadwy a dyohrynlyd. 4, Cospedigaeth ddidosturi. 5, Cospedigaeth barhaus a thragywyddol.

CETURA. (*Arogl-ber*) Gen. xxv, 1.

CORAZIN. (*Cyfrinach, neu Dyma ddirgelwch*) Mat. xi, 25. Y mae cyfrinach neillduol rhwng y saint a'r Arglwydd, ac y mae hon, 1, Yn gyfrinach ddirgeledig. 2, Yn gyfrinach sanctaidd. 3, Yn gyfrinach felus a hyfryd. 4, Yn gyfrinach ennillfawr iawn i'r Cristion. Ac hefyd y mae llawer o bethau yn ddirgelwch mawr: 1, Dyma ddirgelwch, pa fodd y mae gwrthdrysych ein

haddoliad ni yn un ac yn dri, a thri yn un, ac etto nid tri o Dduwiau, ond un hanfod dragywyddol. 2, Dyma ddirgelwch, sef nifer y bobl a etholwyd yn Nghrist Iesu, ac a brynwyd a gwaed ei galon ar Galfaria. 3, Dyma ddirgelwch, sef yr undeb personol a gymerodd le rhwng tragywyddol berson y Gair a'n natur ni yn mru'r forwyn: *Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd.* 4, Y mae'r undeb ysprydol sydd rhwng Crist a'i eglwys yn ddirgelwch mawr.

CORINTH. [*Llawenydd neu addurn*] Act. xviii, 1.

CRETA. [*Cnawdwyllt*] Act. xxvii, 7.

CYPRUS. [*Harddwch, tegwch*] Act. iv, 36.

CYRENE. [*Caerog*] Mat. xxvii, 31.

CYRUS. [*Megys etifedd*] Ezra i, 1.

CEMUEL. [*Duw a gysfododd*] Gen. xxii, 21.

DAFYDD. [*Anwyl, caredig*] Mab Jesse, 1 Sam. xvi, 13.

DALEILA. [*Tlawd, difa, neu un wastraffus*] Barn. xvi, 4.

DALMANUTHA. [*Drofr lestr danparodig*] Marc viii, 10.

DALMATIA. [*Llusern neu lamp dwyllodrus*] 2 Tim. iv, 10. Felly lamp dwyllodrus yw crefydd y rhagritiwr; fe fydd ei wybodaeth, a'i ddoniau, a'i zêl ymddangosiadol, a'i holl obaith yn diffodd yn llwyr yn angen.

DAN. [*Barnu*] Gen. xxx, 6.

DANIEL. [*Duw yw fy marnwr*] Ezech. xiv, 4. Gan mai Duw fydd yn barnu fe ga pawb gyfiawnder, oblegid *cyfiawn yw yr Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd.*

DARIUS. [*Ymofynydd*] Ezra iv, 24. Y mae yn gweddu i bob Cristion fod yn ymofyngar; sef am adnabod meddwl Duw yn ei air, ac am adnabod y ffordd sydd yn arwan i'r bywyd tragywyddol: *Hwy a ofynant y ffordd i Sion, tuag yno y bydd eu hwynebau hwynt.*

DOTHAN. [*Defod neu gyfraith*] Num. xvi, 1.

DEBORA. (*Gwenynen*) Barn. iv, 4.

DEDAN. (*Eu hanwylid*) Gen. x, 7.

DEMAS. (*Poblogaidl*) 2 Tim. iv, 10.

DIANA. (*Llewyrchus*) Act. xix, 24.

DINA. (*Barnedigaeth*) Gen. xxx, 21.

DIONYSIUS. (*Un y cyffyrddodd Duw ag ef.*) Act. xvii, 34. Y mae Duw, trwy ei Yspryd, yn cyffwrdd â phob dyn duwiol: 1, Mae'n cyffwrdd â'i ddeall, trwy ei oleuo i ganfod purdeb ac ysprydolrwydd y gyfraith, ac i weled drwg pechod, a gogoniant y feddyginaeth ag y mae yr efengyl yn ei hegluro. 2, Mae'n cyffwrdd â'i ewyllys, trwy ei phlygu a'i darostwng i fod yn ufudd i ewyllys Duw. 3, Y mae'n cyffwrdd â'i serchiadau, trwy eu nefoli, a'u dwyn i weithredu mewn modd gwahanol at wahanol wrthddrychau. 4, Mae'n cyffwrdd â'i gydwybod, trwy ei deffroi, ei phuro, a'i sancteiddio. O cyffyrdded â chalonau miloedd o'r newydd. Amen.

DIOTREPHES. (*Un a faethwyd gan Dduw*) 3 Ioan 9.

DOEG. (*Anesmwyth.*) 1 Sam. xxi, 7. Y mae pechadur yn anesmwyth iawn o dan ddwys argyhoedd- iad, ac y mae'r duwiol yn anesmwyth iawn pan byddo ef wedi colli gwedd wyneb Duw: ond O! fe ddeil anesmwythder tragwyddol y dynion annuwiol yn ol myned i uffern; hwy a boenir yn ngolwg yr angylion sanctaidd ac yn ngolwg yr Oen, ac ni chânt orphwysfa ddydd na nos yn oes oesoedd.

DORCAS. (*Ewig neu iyrches*) Act. ix, 36. Y mae y Cristion yn cael ei gyffelybu i'r hŷdd, ewig, neu iwrch yn y Bibl; dywed Dafydd, *Fel y bresa yr hŷdd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am Dduw.* 1, Y mae gan yr hŷdd lygaid cryfion a chraff iawn; felly y mae gan y Cristion lygaid ffydd, ac y mae yn gweled yr anweledig, ac y mae yn canfod y drwg o bell ac yn ymguddio rhagddo. 2, Y mae yr hŷdd yn greadur ag sydd yn llawn cariad at ei ryw; felly y mae y Cristion yn caru'r brodyr, 1 Ioan iii, 14. 3, Mae'r hŷdd yn caru bod yn nghwmni llawer o'i ryw;

felly'r Cristion: *mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd.*
 4, Mae'r hŷdd yn greadur cyflym iawn; felly'r Cristion yn ei yrfa grefyddol, *Esay xxxv, 6.* 5, Y mae gelyniaeth wastadol rhwng yr hŷdd a'r sarph; felly y mae gelyniaeth wastadol rhwng y Cristion a'r diafol a phob pechod. 6, Y mae'r hŷdd yn sychedig ac yn brefu am yr afonydd dyfroedd, pan y byddo yn cael ei hela gan ei elynion; felly y mae'r Cristion yn sychedu am yr Arglwydd, *Ffynon y dyfroedd byw.*

DRUSILA. [*Gwlithog*] Act. xxiv, 24.

EBEDMELECH. [*Gwas y brenin*] Jer. xxxviii, 7. Y mae pob Cristion yn was i'r Brenin Alpha, y mae yn gwisgo ei lifrai ef, ac yn rhyfela ei ryfeloedd ef; ac y mae arfogaeth y Brenin ganddo; sef tarian y ffydd, helm yr iachawdwriaeth, a chleddyf yr Yspryd, yr hwn yw gair Duw: ac y mae y Cristion yn sicr o ennill y fuddugoliaeth, ac fe gaiff ei wneud yn fwy na chonwernerwr ar bob gelyn, trwy yr hwn a'i carodd ac a ymladdodd drosto ar Galfaria.

EBENEZER. [*Maen y cymhorth*] 1 Sam. vii, 12. Crist ydyw cymhorth y Cristion o dan bob amgylchiad. Y mae efe yn gymhorth machniol, gwaredigaethol, meddyginiaethol, cynnaliol, ac amddiffynol igdo.

ELIASAPH. [*Fy nhad yn ychwanegu*] 1 Cron. vi, 2, 3. Mae Duw yn Dad i'r saint; ac y mae efe yn ychwanegu ffydd, gobaith, a chariad ei bobl; ac y mae efe yn ychwanegu beunydd at yr eglwys o'r rhai a fyddant yn gadwedig.

EBED. [*Gweithiwr*] Barn. ix, 26.

EBER. [*Myned drosodd*] Gen. x, 21.

ECRON. [*Anffrwythlondeb*] 1 Sam. v, 10. Y mae dynion wedi myned trwy bechod yn anffrwythlon iawn yn ngwaith yr Arglwydd; nid oes arnynt ddim ffrwyth o gariad at Dduw, na dim ffrwythau addas i edifeirwch, dim gostyngyddrwydd a hunan-ymwadiad, dim diwydrwydd ac ymdrech yn ngwaith Duw, na dim zêl gywir dros ei goniant.

EDEN. (*Hyfrydwch, heddychlonrwydd, esmwythder, preswylfa sefydlog*) Talaeth yn Asia, lle y crewyd dyn ar y cyntaf; ac oddi yma y rheddodd afon pechod a hygfredigaeth dros yr holl ddaear; ac a ddygodd ddiluw o ofndiau a barnedigaethau ar yr holl ddaear; ac nis ceir Eden o hyfrydwch cyflawn, a phreswylfa sefydlog, a heddwch heb ryfel mwy, nes myned i'r nefoedd; yno y mae tragywyddol hyfrydwch, a heddwch fel yr afon, a chyfiawnder fel tonnau'r môr.

EFILMERODACH. (*Ynfyd, cellwerus*) 2 Bren. xxv, 27. Y mae pob dyn annuwiol yn ynfyd iawn; y mae yn gofalu mwy am y corph nag am yr enaid, am bethau anser nag am bethau tragywyddol; ie, y mae yn dewis y cibau o wagedd o flaen perlau dawiotdeb, ac yn dewis gwasanaethu'r diafol, tad y celwydd, o flaen Duw'r gwirionedd; ie, y mae'r annuwiol hefyd yn cellwair am ben pethau sanctaidd y Jehofa.

EFA. (*Un yn rhoi bywyd, neu un yn bychau*) Gen. iii, 20. Mam pob dyn byw; a'i had hi, sef Crist, oedd i sigo pen y sarph, ac i ddwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy'r efengyl; y mae Crist, Had y wraig, yn rhoi bywyd, a bywyd yn helaethach: 1, Bywyd o gyfiawnhad i'r euog. 2, Bywyd o sancteiddhad i'r aflan. 3, Bywyd o gysur mewn gorthrymderau. 4, Bywyd o ogoſiant yn y nef.

EHWD. (*Moliannwr*) Mab Gera, yr hwn a laddodd Eglon, brenin Moab, ac a waredodd Israel o law y Moabiaid, Barn. iii, 15. Y mae yn gweddu i bawb foliannu yr Arglwydd, ac offrymu aberth moliant i Dduw; sef am ein creadigaeth a'n cynnaluaeth: *ynndo ef yr ydym yn byw, yn symud, ac yn bod*: ac yn neillduol am ordeinio ei Fab i fod yn Gyfryngwr, a'i ddanfôn i'r byd i fyw a marw drosom, i ddwyn oddi amgylch iachawdwriaeth gyflawn i'n heneidiau. *O na foliannem yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion.*

ELCANA. (*Zel Duw*) Tad Samuel, 1 Sam. i, 8. Y mae yn sicr ei bod yn gweddu i bawb o honom fod yn

zelog gydâ gwaith Duw. Y mae gwir zel yn cynnwys y pethau canlynol: 1, Tanllyd gariad at Dduw; sef adnabyddiaeth gywir o Dduw, goruchel barch yn y galon i Dduw, ewyllysio yn dda iddo, ac ymhyfrydu ynddo. 2, Tanllyd awydd i wasanaethu Duw, ac i gario ei achos yn mlaen yn wyneb pob gwrthwynebiadau. 3, Tanllyd ddymuniad am weled yr Arglwydd yn cael ei ogoneddu, a'i achos yn llwyddo; ac y mae'r zel hon yn dwyn ei pherchenog i weddio yn daer, *Sancteiddier dy enw; deled dy deyrnas. Attolwg Arghwydd, achub yn awr; par yn awr lwyddiant.* 4, Tanllyd gasineb at bob pechod a chyfeiliornad; y mae yn dwyn yr enaid i gasau pob gau lwybr. 5, Tanllyd eiddigedd dros ogoniant Duw: y mae yn well gan y Cristion zelog fod yn y gofid a'r gorthrymderau mwyaf nag i enw mawr Duw fyned dan draed; y mae yn barod i ddywedyd fel Moses, *Arglwydd, beth a wnai i'th enw mawr?* 6, Tanllyd lawenydd am bob peth a fyddo yn tueddu i ddwyn achos Duw yn mlaen yn y byd. 7, Galar a gwasgfa o eisiau gweled achos Duw yn fwy dysglaer a llewyrchus. Mewn trefn i chwi fod yn fywiog a zelog gydâ phob rhan o waith Duw, ystyriwch y pethau canlynol: 1, Ystyriwch ogoniant y gwaith gydâ pha un yr ydych yn cael eich galw i fod yn zelog drosto; gwaith yr Arglwydd ydyw, gwaith Brenin y brenin-oedd ydyw; ie, y gwaith mwyaf pwysig, mwyaf manteisiol, rhesymol, a hyfrydol o bob gwaith ydyw: O byddwch gydâg ef â'ch holl egni. 2, Ystyriwch fod Crist, y Penllywydd mawr, yn gorchymyn i chwi fod yn zelog, gan ddywedyd, *Bydded zel gennyf ac edifarha.* 3, Ystyriwch y niwaid a'r anfantais sydd yn gyssylltedig â pheidio bod yn zelog gydâ gwaith yr Arglwydd; fe ddywed Solomon, *Trwy ddiogi lawer fe adfeilia'r adeilad, a thrwy laesu droyllaw fe ollwng y tŷ ddefni:* felly chwithau, fy mrodyr, os ewch yn ddiog ac yn farwaid gydâ gwaith Duw, fe adfeilia yr athrawiaeth a'r ddysgybliaeth, ac fe adfeilia eich profiad a'ch holl rasusau; ac fe ddaw defni o anghariad, rhagfarn, llid, a chenfigen i'ch plith. 4, Ystyriwch y hy-

gythion trymion sydd yn cael eu cyhoeddi uwch ben y rhai di-zel gydâ gwaith Duw; *Gwae y rhai esmwyth arnynt yn Sion.—ond am dy fod yn glaiar, mi a'ih chwydaf di allan o'm genau.* Hos. vi, 1. 5, Ystyriwch fyrdra eich bywyd, a pha mor ddiwyd a zelog y buoch yn ngwaith y diafol. 6, Ystyriwch pa mor zelog oedd Crist wrth amlygu gogoniant ei Dad, ac wrth ddwyn iachawdwriaeth i chwithau: fe ddarfu zel Crist ei gario ef trwy wlawogydd a llifeiriant digofaint ei Dad, er dy fwyn di; a wna dy zel di ddim dy gario trwy ychydig o wlaw naturiol i wrando am ei gariad mawr ef? Fe ddarfu i zel Crist ei gario ef i ganol tristwch enaid er dy fwyn di; a wna dy zel di ddim dy ddwyn di i Sion, i ganu ei glodydd a'i foliannu am ei ddaioni? Fe ddarfu zel Crist ei ddwyn ef i farw mewn gwaed ef dyfwyn di; O bydded i'th zel dithau dy ddwyn i fyw yn sanctaidd, er ei glod ynteu, yma yn y byd sydd yr awr hon.

ELDAD. (*Caredig gan Dduw*) Num. xi, 27. Y mae'r saint i gyd yn anwyl iawn gan Dduw. 1, Mae efe wedi eu caru â chariad tragwyddol. 2, Mae efe wedi danfon ei Fab i'r byd i farw drostynt. 3, Mae yn danfon ei Ysryd i'w sancteiddio. 4, Y mae efe wedi eu neillduo i fod yn dystion drosto yn y byd. 5, Mae wedi parottoi etifeddiaeth dragwyddol ar eu medr yn y nefoedd.

ELDAIAH. (*Gwybodaeth o Dduw*) Mab Midian, 1 Cron. i, 33. Y mae gwybodaeth o Dduw yn angenrheidiol, 1, Os ystyriwn y niwaid a'r anfantais fawr sydd yn gyssylltedig âg anwybodaeth; y mae trais, creulondeb, a gorthrymder yn gyssylltedig âg anwybodaeth: *Llaw yn tywyll leoedd y ddaear o dragfanau trawsder*, Salm lxxiv, 20. Y mae cyfeiliornadau dinystriol, barnau tymhorol, a chosp dragwyddol yn gyssylltedig âg anwybodaeth. 2, Mae gwybodaeth yn agenrheidiol tuag at iawn addoli Duw; ond y mae lle i feddwl fod llawer, fel yr Atheniaid, yn addoli Duw heb ei adnabod. 3, Mae gwybodaeth yn angenrheidiol,

os ystyriwn mai dyma ddyben y weinidogaeth a sefydliad gweinidogion, sef i borthi praid Duw â gwybodaeth ac â deall. 4, Os ystyriwn yr annogaethau taer ag ydym yn gael i ymofyn am wybodaeth, Diar. ii, 3, a iii, 14. 5, Am nad oes gwir grefydd heb wybodaeth: dyma'r ddwy mewn rhan a gollwyd yn Eden ac sydd yn dechreu cael ei hadferu yn ol yn yr ail-enedigaeth. Y mae'r wybodaeth hon yn ddaionus ac yn neillduol o ardderchog o ran ei thuedd: 1, Y mae tuedd yn y wybodaeth Gristionogol i lenwi'r byd â chariad a thanghesedd, ac i droi'r cleddyfau yn sychau, a'r gwaewffyn yn bladuriau, fel na byddo i genedl godi yn erbyn cenedl, nac i ddysgu rhyfel mwyach: ie, y mae tuedd yn yr wybodaeth hon i ymlid gofid a thristwch i ffwrdd, ac i lenwi'r byd o lawenydd a gorfoledd: *Wele fi yn creu Jerusalem yn orfoledd, a'i phobl yn llawenydd: ac ni chlywir ynot mwyach lais wylofain na llef gwaedd:* ie, y mae tuedd yn yr wybodaeth Gristionogol i ymlid tywyllwch o ddychymygiol a choelgrefydd i ffwrdd o'r byd, ac i lenwi'r byd â goleuni hyfrydlawn: *Abydd llewyrch y lleuad fel llewyrch yr haul, a llewyrch yr haul yn saith mwy, fel llewyrch saith niwrnod:* ac y mae tuedd yn y wybodaeth hon i wneud y llew yn oen, y balch yn ostyngedig, y meddwyn yn sobr, y cybydd yn haelionus, a'r lleidr yn onest: ac y mae tuedd yn yr wybodaeth hon i ddwyn yr enaid i'r llwch, ac i fod yn foddlon i drefn y Jehofa, ac i fod yn gysurus mewn gorthrynderau. 2, Y mae'r wybodaeth a'r ddysgeidiaeth hon yn ardderchog o ran ei ddatguddiadau; y mae yn dangos modd i gyfoethogi tlodion Eden, i wisgo eneidiau noethion, ac i feddyginiaethu clwyfau pechod; ie, dengys i'r cenedloedd fodd i dawelu cydwybod euog, heb dasu eu plant i fodd i Ganges, na'u hoffrymu yn aberthau i'r gau-dduwiau, ac heb gymeryd eu dryllio o dan olwynion Juggernot; y mae hon yn cyhoeddi fod gwaed Iesu Grist, ei Fab ef, yn glanhau oddiwrth bob pechod.

ELIAZAR, (*Cymhorth Duw*) Mab Aaron, Exod. vi. 25. Y mae yr Arglwydd yn gymhorth hawdd ei

gael mewn cyfyngder, ac y mae yn rhoi gras yn gymhorth cyfaniserol. 1, Mae'n rhoi gras yn gymhorth i ymorphwys ar haeddiant Crist yn wyneb taranau Sinai, neu ddwys argyhoeddiad. 2, Gras yn gymhorth i wrthwynebu a gwrthsefyll picellau tanlyd y fall. 3, Gras yn gymhorth i ddal i fynu yn wyneb ofnau ac ambeuon. 4, Gras yn gymhorth i arddel Crist yn wyneb erledigaethau a merthyrdod. 5, Gras yn gymhorth i orfoleddu mewn gorthrymderau. 6, Gras yn gymhorth i weddio'n daer pan y byddo Duw yn cuddio ei wyneb ac yn hir oedi gwranddo eu gweddiau. 7, Gras yn gymhorth i ganu yn wyneb angeu, ac i adael tystiolaeth dda ar eu hol, er anogaeth i ereill i barhau yn ffyddlon hyd y diwedd. Salm xlvii, 1. Heb. iv, 16.

EL-ELOHE-ISRAEL. (*Duw yn Dduw i Israel*) Gen. xxxiii, 20. Braint annrhaethadwy yw cael yr Arglwydd yn Dduw mewn cyfamod â'n heneidiau. 1, Y mae gan y Cristion hawl i ddoethineb Duw i'w gyfarwyddo, ac i orawch-lywodraethu pob peth er ei ddaioni, ac i ddi-ddyntu amcanion ei elynion. 2, Mae ganddo hawl yn ngallu Duw i'w gynnorthwyo a'i amddiffyn rhag ei elynion. 3, Mae ganddo hawl i drugaredd Duw i taddeu ei holl feiau. 4, Mae ganddo hawl i ffyddlondeb Duw i gyflawni ei holl addewidion. 5, Mae ganddo hawl i gyfiawnder Duw i'w wobrwyo, ar gyfrif cyfiawnder y Meichiau mawr. 6, Mae ganddo hawl i nefoedd Duw i fod yn etifeddiaeth dragywyddol iddo: dyma "ddigon, digon byth; i'r truan ac i'r gwan."

ELIACIM. (*Duw a adfera, neu Duw'r adgyfodiad*) Esay xxii, 20. Fe wna Duw adfera y ddelw a gollwyd yn Eden yn ol ar eneidiau ei bobl; ac efe a adfera ei bobl o'u holl wrthgiliadau; fe adfera yr eglwys yn ol i'r cynllun apostolaidd, yn y mil blynyddoedd; fe adfera y greadigaeth o gaethiwed llygredigaeth; ac fe adiera yr holl saint i berffaith sancteiddrwydd; ac hefyd fe adfera gyrph y saint o'r bedd, yn gyflawn ar ddelw Crist, yn moreu caniad yr udgorn mawr, yn y dydd diweddaf.

ELIAS. (*Duw yr Arglwydd*) 1 Bren. xvii, 1. Bu Elias yn wr hynod ar y ddaear, ac y mae yn preswyllo yn ei gorph yn y nefoedd, er ys cannoedd lawer o flynyddoedd: fe ddichon fod Enoch ac yntau yn ymddiddan llawer â'n gilydd yno, am amryw o bethau buddiol a da.

ELEAD. (*Tystiolaeth neu dragywyddoldeb Duw*) 1 Cron. vii, 21, 22. 1, Mae Duw yn dragywyddol ddi-dddechreu, Salm xc. 2. 2, Y mae'n dragywyddol ddi-ddiwedd, Heb. i, 12. 3, Y mae pob peth a berthyn iddo yn dragywyddol: y mae ei arfaeth a'i amcanion yn dragywyddol, Eph. iii, 11. Mae ei gariad yn dragywyddol, Jer. xxxi, 3. Mae ei drugaredd yn dragywyddol, Salm ciii, 17. Esay liv, 8. Mae ei allu, a'i lywodraeth, a'i ogoniant yn dragywyddol, Rhuf. i, 20.

ELADAH. (*Cymanfa Duw*) Mab Tahath, wŷr Ephraim. 1 Cron. vii, 20. Y mae llawer cymanfa wedi bod, ar enw cymanfa Duw, heb ateb fawr o ddi-ben er gogoniant i Dduw na lles i eneidiau: ond er fod llawer o'r cymanfaoedd wedi myned yn llygredig iawn, etto, trwy drugaredd, y mae Duw yn arddel rhai o honynt er lles i bechaduriaid, ac er diddanwech neillduol i'w blant; am hyny cyhoeddwn gymanfaoedd, ond gwiliwn rhag eu cam-ddefnyddio.

ELEALEH. (*Esgyniad neu boeth-offrwm Duw*) Dinas yn llwyth Ephraim, Num. xxxii, 37. Esay xv, 4. Jer. xlviii, 34.

ELEASAH. (*Creadur Duw*) Mab Helez, 1 Cron. ii, 39.

ELHANAN. (*Trugaredd Duw*) Un o gedyrn Dafydd, 2 Sam. xxi, 19. 1 Cron. xi, 26. Y mae Duw yn llawn trugaredd; y mae yn Jehofa, yn Dduw graslawn a thru-garog. Wrth drugaredd yn Nuw y mae i ni ddeall y tuedd ewyllysgar sydd ynddo i estyn cymhorth ac ymward i'w creaduriaid, mewn gofid a thrueni. 1, Mae trugaredd Duw yn dragywyddol, Salm xxv, 6, 7. a ciii, 17. 2, Mae trugaredd Duw yn fawr ac yn annghymarol; 2 Sam. xxiv, 14. 1 Pedr i, 3. Jer. iii, 1. 3,

Mae trugaredd Duw yn sicr, Esay lv, 3, 4, Mae trugareddau Duw yn lluosog ac yn aml, Salm li, 1, Eph. ii, 4. Yr amlygiadau penaf o drugaredd neillduol Duw ydyw y rhai canlynol: 1, Ei waith yn danfon ei Fab i'r byd i gadw pechaduriaid. 2, Ei waith yn danfon ei Yspryd i argyhoeddi, i ail-eni, a sancteiddio pechaduriaid. 3, Ei waith yn rhoi ei air i gyfarwyddo pechaduriaid. Ie, y mae yn dangos ei ryfedd drugaredd wrth faddeu i bechaduriaid mawrion, ac yn ei waith yn diddanu ei blant mewn gorthrymderau, eu diogelu yn nghanol peryglon, gwrandu eu gweddiau, eu harwair a'u tywys i bob gwirionedd, eu diogelu mewn gras hyd y diwedd, a rhoi bywyd tragywyddol iddynt tu draw i'r bedd.

ELHUSAI. (*Duw yw fy nerth*) Un o filwyr enwog Dafydd. 1 Cron. xii, 5. Y mae Duw yn nerth i'w bobl yn mhob amgylchiad. 1, Mae yn nerth iddynt i ddal gydâ chrefydd, yn wyneb pob croesau, gwawd, ac erlid. 2, Mae yn nerth iddynt i weddio yn daer ac yn wresog, pan na byddont yn cael fawr o arwyddion ei fod yn gwrandu eu gweddiau. 3, Mae yn rhoi nerth iddynt i ddal yn wyneb temptasiynau a phicellau tanllyd y diafol. 4, Mae yn rhoi nerth iddynt i orfoleddu mewn gorthrymderau, ac i lawenhau wrth yfed dyfroedd chwerwon Mara.

ELI. (*Derchafael, neu fy Nuw*) 1 Sam. i, 25.

ELIADA. (*Gwybodaeth Duw*) Mab Dafydd. 2 Sam. v, 16. 1 Cron. iii, 8. Y mae Duw yn hollwybodol; fe wyr am ein meddyliau dirgelaf, ac am ein geiriau a'n hymddygiadau oll; y mae ei lygaid fel y ffiam dân.

ELIHU. (*Efe ei hun yw fy Nuw*) Un o gyfeillion Job ydoedd. Job xxxii, 2. Gwynfyd y dyn a all ddywedyd am yr Arglwydd, Efe ei hun yw fy Nuw: y mae y Paganiaid yn addoli amryw dduwiau, ond nid oes ond un gwir a bywiol Dduw. 1, Os ydyw yr Arglwydd yn Dduw i ni, y mae ein heneidiau yn ddiogel o dan bob amgylchiad, wedi eu cuddio gydâ Christ yn Nuw. 2, Y mae pob peth sydd gan ac yn Nuw yn eiddo i ni.

3, Os ydyw yr Arglwydd yn Dduw i ni, fe bair i bob peth gyd-weithio er ein daioni. 4, Os bydd ef unwaith yn Dduw i ni mewn cyfamod, fe fydd yn Dduw i ni byth: *Y Duw hon yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd; efe a'n tywys ni hyd anghau.*

ELIM. (*Dyffrynoedd*) Exod. xv, 29. Y mae y Cristion yn cyfarfod â llawer o ddyffrynoedd hyfryd a dyffrynoedd adfyd ar ei daith tua'r Ganaan nefol: y mae yn cael ei ddwyn i ddyffryn edifeirwch, ac i ddyffryn gostyngaidrwydd a hunan-ymwadiad: dyffrynoedd y fendith yw y rhai hyn: ond y mae yn cyfarfod hefyd â dyffrynoedd adfyd, o gystuddiau, a dlodi, a siomedigaethau; ac fe fydd yn rhaid i bawb fyned i lawr yn fuan i fro a chysgod anghau. Fe gafodd Israel ddeuddeg ffynon a deg palmwydden a thrugain yn Elim; felly y mae plant Duw yn cael eu cysuro, eu lloni, a'u hadfywio, yn nghanol gorthrymderau.

ELIMELECH. (*Cynghor Duw, neu fy Nuw sydd frenin*) Ruth i, 1. Y mae cynghor Duw yn dragywyddol, yn ddoeth, yn gyfiawn, yn sanctaidd, ac yn dda; ac fel Brenin, y mae yn teyrnasu mewn cyfiawnder, ac y mae ei lywodraeth yn dragywyddol, ac ar ei freniniaeth ni bydd diwedd yn dragywydd.

ELIONAL. (*Tuag atto ef y mae fy llygaid*) Mab Asiel, o lwyth Simeon. 1 Cron. iv, 36. Fe weddai fod llygaid pawb o honom at Grist: *Gan edrych ar Iesu, Pen-tywysog a pherffeithydd ein ffydd ni.* 1, Y mae yn gweddu i ni edrych ar Grist, am ei fod ef yn gorchymyn i ni edrych arno, Luc xxiv, 39, *Edrychwch fy mwylaw a'm traed, mai myfi fy hun ydyw.* 2, Fe weddai i ni edrych ar Grist, am ei fod ef yn anfeidrol deilwng i ni edrych arno: y mae yn llawn o hawddgarwch, rhyfeddodau, a gogoniant. 3, Y mae yn gweddu i ni edrych ar Grist, am mai edrych arno ef yw prif waith a hyfrydwch angylion y nef: *ar yr hyn bethau y mae yr angylion yn chwenychu edrych.* 4, Y mae yn gweddu i ni edrych ar Grist, am ei fod ef wedi edrych arnom ni yn ein hisel radd, Ezec. xvi, 8,

efe a edrychodd arnom yn garedig, yn dosturiol, ac yn gymodlon: efe a edrychodd ar Pedr; y mae yn edrych ar weddi'r gwael, ac heb ddiystyru eu dymuniad. 5, Dylem edrych arno, am nad oes neb arall a all estyn cymhorth i ni mewn cyfyngder ond efe. 6, Ni a ddyt- em edrych ar Grist, am fod pob peth ynddo sydd yn angen arnom; y mae ei gyfiawnder yn ddigon i'n gwisgo, ei ras yn ddigon i'n cyfoethogi, a'i waed yn ddigon i'n golchi: y mae pob cyflawnder yaddo ef. 7, Am mai edrych ar Grist fydd prif waith y nefol dyrfa am dragywyddoldeb: *Edrychaf yn dy wyneb mewn cyflawnder, digonir fi pan ddiunwyf a th ddelw di. Gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych, mewn dam- meg; ond yna wyneb yn wyneb. Ni a gawn ei weled ef megis ag y mas.*

— edrych ar ei wyneb llou,
 "Canu nes angho'r oriau, row'd im' ar y ddaear hon"

ELIPHALET. (*Duw fy ngwaredwr, neu amean Duw*)
 Mab Dafydd. 2 Sam. v, 16. Y mae Iesu Grist yn wir Dduw ac yn wir ddyn, ac efe yw yr unig Waredwr. 1, Y mae Crist yn Waredwr o ddwyfol osodiad. 2, Y mae yn Waredwr digonol a hollalluog. 3, Y mae yn Waredwr rhad ac ewyllysgar. 4, Y mae yn Waredwr anrhydeddus a gogoneddus. Y mae Crist yn gwared oddiwrth euogrwydd ac arglwyddiaeth pechod, ac fe wared ei bobl oddiwrth ei holl effeithiau cyn b'a hir.

ELIZABETH. (*Duw cyflawn, neu ló Duw*) Mam Ioan Fedyddiwr, Luc i, 5. Y mae Duw'r nefoedd yn gyflawn o bob rhagoriaethau. 1, Y mae yn gyflawn o ddoethineb a gwybodaeth. 2, Y mae yn gyflawn o allu, nerth, a chadernid. 3, Y mae yn gyflawn o gariad a thrugaredd. 4, Y mae yn gyflawn o gyfiawnder a sancteiddrwydd. 5, Y mae yn gyflawn o ddedwydd- wch a gogoniant; ac y mae wedi tyngu i'w sancteidd- rwydd, na ddywedai gelwydd i Ddafydd.

ELISAMA. (*Duw yn gwrando*) Tywysog meibion Ephraim, Num. vii, 48. Y mae yn eglur fod Duw yn gwrando gweddiau ei bobl. 1, Y mae addewidion

Duw yn profi hyn, *Ceisiwch, a chwi a gerach*, Mat. vii, 7. 2, Y mae ffyddlondeb Duw yn profi hyn; *Nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau*, Num. xxiii, 19. 3, Y mae gorchymyn Duw i ni i weddio yn profi ei fod yn wrandawr gweddi; *Ni ddywedais wrth had Jacob, Ceisiwch fy wyneb yn ofer*, Esay xlv, 19. 4, Y mae gallu Duw a'i agosrwydd attom, a'i ffyddlondeb i'w addewidion, yn profi y gwna efe wrando gweddiau ei blant, Eph. iii, 20. 5, Y mae tosturi a thrugarogrwydd Duw yn profi y gwna efe wrando gweddiau ei blant, Salm ciii, 13. 6, Y mae eiriolaeth Crist drostynt yn y nef yn profi hyn hefyd.

ELISKUS. (*Duw sydd yn achub, neu iachawdwriaeth Duw*). Disgybl Elias, a phroffwyd enwog, 2 Bren. ii, 21. Y mae holl iachawdwriaeth pechadur yn cael ei phriodoli i Dduw: 1, Duw'r Tad a drefnodd yr iachawdwriaeth. 2, Duw'r Mab a bwrcasodd yr iachawdwriaeth. 3, Duw'r Yspryd Glân sydd yn cymhwyso yr iachawdwriaeth. 4, Duw, fel Drindod, fydd yn perffeithio yr iachawdwriaeth. 5, Fe fydd gogoniant Duw, fel Drindod, yn tywynu ac yn dysgleirio byth yn yr iachawdwriaeth hon.

ELIASAPH. (*Yr hwn sydd yn cynyddu*) Num. i, 14. Fe ddywedodd Ioan fod yn rhaid i Grist gynyddu ac iddo yntau leihau, Ioan iii, 30, 31. 1, Y mae Crist yn cynyddu o ran amlygiadau o'i ogoniant cyfryngol. 2, O ran helaethiad a llwyddiant ei efengyl. 3, O ran rhifedi ei ddeiliaid. 4, O ran clodydd ac enw. Ac y mae y Cristion hefyd yn cynyddu mewn gwybodaeth, mewn ffydd, mewn cariad, mewn gostyngieddrwydd, mewn hunan-ymwadiad, a nefolrwydd meddwl: colwyn y cynghor, *Cynyddwch mewn gras, a gwybodaeth o'n Harglwydd Iesu Grist*.

ELIASIB. (*Duw a ddychwelodd*) 1 Cron. iii, 24.

ELNAAM. (*Harddwch Duw*) 1 Cron. xi, 47. Mae anfeidrol harddwch yn perthyn i Dduw: mae yn hardd o ran sancteiddrwydd, cyfiawnder, doethineb, a gwirionedd; ac y mae yn hardd yn ngwaith y greadigaeth,

rhaegluniaeth, ac iachawdwriaeth: gogoniant a hardd-
wch yw ei waith ef, ac fe ddywedir am Grist ei fod yn
hardd yn ei wisg, yn ymdaith yn amllder ei rym.

ELNATHAN. (*Rhodd Duw*) Mab Achbor. 2 Bren.
xxiv, 8. Y mae Duw wedi rhoddi llawer o roddion
mawr a gwerthfawr i bechaduriaid tlodion: 1, Fe
rodde ei Fab iddynt; *Felly y carodd Duw y byd, fel
y rhoddes efe ei unig-anedig Fab, fel na oholler pwy
bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tra-
gywyddol*, Ioan iii, 16. 2, Y mae yn rhoddi ei Yspryd
iddynt; *Pa saint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Ys-
pryd Glan i'r rhai a ofynant ganddo?* Luc xi, 13. 3,
Mae yn rhoddi ffydd fywiol a diffuant iddynt, Eph. ii, 8,
*Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd, a
hyny nid o honoch eich hunain, rhodd Duw ydyw.* 4,
Y mae Duw yn rhoddi edifeirwch i fywyd iddynt, Act.
xi, 18, *Fe rodde Duw, gan hyny, i'r cenhedloedd hefyd
edifeirwch i fywyd.* 5, Mae yn rhoddi teyrnas dragy-
wyddol iddynt; *Rhyngodd bodd i'ch Tad rododi i chi
y deyrnas*, Luc xii, 32. O am fod yn ddiolchgar i
Dduw am ei ddawn annhfaethol!

ELPAAL. (*Gwaith Duw*) 1 Cron. viii, 11. Fe
weithiodd Duw'n rhyfedd yn y greadigaeth gyntaf, ond
y mae yn gweithio yn dra rhagorol yn y greadigaeth
newydd: *Ei waith ef ydym, wedi ein creu yn Nghrist
Iesu i weithredosdd da. Duw yw yr hwn sydd yn
gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu, o'i ewyllys da ef.*
1, Mae Duw yn weithiwr doeth. 2, Mae yn weithiwr
galluog a nerthol. 3, Mae yn weithiwr cyflym a difino:
Ni fina ac ni ddiffygia Duw tragywyddoldeb. 4,
Mae yn weithiwr hardd a didwyll. 5, Gweithiwr rhe-
olaidd ydyw, ac y mae yn gweithio wrth gyngbor ei
ewyllys ei hun; ei arfaeth yw y llinyn mesur mawr, a'i
ewyllys yw ei reol uniawn; ac y mae yn sicr o orphen
ei waith yn hardd ac yn ogoneddus, a *phan adeilado yr
Arglwydd Sion, y gwelir ef yn ei ogoniant*: y mae efe
yn gweithio yn ei bobl, sef cariad, ffydd, edifeirwch,
gostyng-eiddrwydd, a hunan-ymwadiad.

ELTECEH. (*Arch, neu arfogaeth Duw*) Jos. xix, 44.

ELTECON. (*Y mae Duw wedi ei sicrhau*) Dinas yn llwyth Juda, Jos. xv, 59. Ond y mae Duw wedi sicrhau Sion, a'i gwneud yn ddinas gadarn; *Dinas gadarn sydd i ni, Duw a esyd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur*: y mae cariad, gallu, cyfamod, a holl briodoliaethau Duw yn diogelu Sion; ae y mae holl gyfryngdod Crist, a gwaith yr Yspryd Glân yn sicrhau yr eglwys.

EMMAUS. (*Pobl ddirmygedig.*) Luc xxiv, 13. Dinas yn agos i Jerusalem, lle yr oedd y ddau ddisgybl yn myned pan ddarfu i'r Iesu ymddiddan â hwynt ar y ffordd; yn ol iddo adgyfodi o feirw; ac fe ddarfu esponio iddynt yr ysgrythurau, y pethau am dano ei hun, hyd nes oedd eu calonau yn llosgi ynddynt pan oedd efe yn ymddiddan â hwynt ar y ffordd.

ENDOR. (*Ffynon cenhedlaeth*) Jos. xvii, 11.

ENGEDI. (*Ffynon dedwyddwch*) Dinas yn agos i Jerusalem, neu Ddinas y palmwydd, Jos. xv, 62. Iesu Grist yw ffynon dedwyddwch y saint. 1, Y mae dedwyddwch yn cynnwys perffaith ryddhad oddiwrth bob peth anymunol; felly, fe wna Crist ryddhau ei bobl oddiwrth bob mellith, ac oddiwrth euogrwydd, arglwyddiaeth, a holl effeithiau pechod dros byth: *Os y Mab, gan hyny, a'ch rhyddka, rhyddion fyddwch yn iwr.* 2, Mae dedwyddwch yn cynnwys cyflawn fwynhad o bob peth dymunol; sef cyflawnder o heddwch, cyflawnder o oleuni, cyflawnder o esmwythdra a diogelwch, cyflawnder o wleddoedd ac iechyd, cyflawnder o lawenydd a hyfrydwch: *Goddiweddant lawenydd a hyfrydwch; cystudd a galar a ffy ymaith.*

ENOCH. (*Disgyblaeth reolaidd*) Y seithfed o Adda. Gen. iv, 17. Fe ddylai fod disgyblaeth reolaidd yn mhob teulu ac yn mhob eglwys: y mae diffyg disgyblaeth yn agor drws i bob amhrefn. Y mae disgyblaeth eglwysig yn dal perthynas â thri pheth: 1, A derbyniad aelodau i mewn i'r eglwys, i barhau achos Crist yn y

hyd. 2, Ag ymddygiad yr eglwys yn gyffredinol. 3, Ag ymdriniaeth â throseddwyr yn neillduol. Peth hyfryd iawn ydyw disgyblaeth reolaidd.

ENOS. (*Dyn syrthiedig, neu dilyn marwol*) Gen. iv, 26. Mae pawb wedi syrthio yn Adda, ac wedi dyfod yn agored i dair marwolaeth: 1, Marwolaeth ysprydol, sef ysgariaeth enaid o gymundeb â Duw. 2, Marwolaeth naturiol, sef ysgariaeth corph ac enaid oddiwrth eu gilydd dros amser. 3, Marwolaeth dragywyddol, sef ysgariaeth corph ac enaid oddiwrth Dduw a phob dedwyddwch dros dragywyddoldeb. Ond, diolch i Dduw am fod bywyd ac anlygredigaeth wedi cael eu dwyn i'r goleuni trwy'r efengyl.

ENEGLAIM. (*Ffynon y cerbydau*) Dinas yn nechreu y Môr marw, Ezech. xlvii, 10.

ENGANNIM. (*Ffynon y gerddi*) Dinas yn llwyth Juda, Jos. xv, 34.

ENHACCORE. (*Ffynon yr hwn sydd yn llefain*) Barn. xv, 19. Enw y ffynon a agorodd yr Arglwydd yn wyrthiol i ddisychedu Samson, wedi iddo ladd mil o'r Philistiaid â gŕen asyn: mae lle i feddwl mai nid o'r cildant y daeth y dwfr, ond o'r fan y tallodd Samson y cildant, o blegid y mae y ffynon yno hyd y dydd hwn. Y mae yn sicr, pwy hynag a lefo ar Dduw, yn deimladwy trwy flydd, fe gaiff dori ei syched â dyfreodd bywiol yr iachawdwriaeth.

ENHADAH. (*Ffynon llawenydd*) Dinas yn llwyth Issachar, Jos. xix, 21. Iesu Grist yw ffynon llawenydd y saint. 1, Mae yr hyn a wnaeth Crist drostynt yn achos o llawenydd mawr. 2, Mae'r hyn yw Crist iddynt yn achos llawenydd; sef priod, hugail, brenin, craig, noddfa, gwisg, gwledd, meddyg, a bywyd trag'wyddol. 3, Mae yr hyn y mae efe wedi addaw yn achos llawenydd mawr iddynt: ac oddi wrtho ef, fel ffynon, y mae afon yr iachawdwriaeth yn dyfod, ffrydiau pa un sydd yn llawenhau dinas Duw.

ENHAZOR. (*Ffynon y llŷs*) Dinas yn Naphtali, Jos. xix, 37.

EPAPHRAS. (*Gorchuddiedig ag ewyn*) Pregethwr ffyddlon ydoedd, Col. i, 7.

EPAPHRODITUS. (*Teg, prydferth*) Gweinidog enwog yn Philippi, Phil. ii, 25. Y mae pob Cristion yn deg yn nghyfiawnder Crist, ac yn brydferth ac yn hardd trwy waith sancteiddiol yr Yspryd Glân.

EPHATHA. (*Ymagor*) Marc vii, 34. Y mae yn gweddu fod calonau pawb yn agored i dderbyn Crist, a'u clustiau yn agored i wrando ei eiriau, a'u llygaid yn agored i edrych ar ei ryfeddodau.

EPENETUS. (*Canmoladwy*) Rhuf. xvi, 5. Y mae llawer Cristion yn ganmoladwy iawn oblegid ei ddiwydrwydd, ei ymdrech, a'i zêl gyda gwaith Duw, ac oblegid ei rodiad addas i efengyl Crist.

EPHRAIM. (*Ffrwythlon*) Gen. xlviii, 20. Mae yn gweddu i bawb yn ngwinllan yr Arglwydd fod yn ffrwythlon; sef ffrwytho mewn cariad a diwydrwydd gyda ei waith yma yn y byd.

EPHESDAMMUM. (*Defnyn o waed*) 1 Sam. xvii, 1.

EPHESUS. (*Dymunol*) Eph. i, 1. Y mae eglwys Dduw yn hynod o ddymunol yn nghyfiawnder Crist, ac yn addurniadau sancteiddiol yr Yspryd Glân.

EPHRATA. (*Ffrwythlon, llawnder*) Mica v, 2.

EPHRON. (*Lloch*) Gen. xxiii, 8.

ER. (*Gwiliwr*) Gen. xxxviii, 3. Mae yn gweddu i bawb wilio llawer ar eu meddyliau, eu geiriau, ac ar eu tymherau, a'u hymddygiadau; ie, dylem wilio yn erbyn temptasiynau pechod, ac yn erbyn achlysuron pechod.

ERASTUS. (*Hawddgar*) Act. xix, 22. Nid oes neb oll yn *hawddgar* ond Crist; ond y mae ef yn hawddgar, 1, O ran ei Berson, Can. v, 16. 2, Mae yn hawddgar o ran ei swyddau, fel proffwyd, offeiriad, a brenin. 3, Mae ef oll yn hawddgar o ran ei deitlau, megys rhosyn Saron, y mae efe yn wyn a gwridog, yn rhagori ar

ddeng mil; planigyn enwog, pren afalau yn mysg prenau'r coed, pren y bywyd, lili'r dyffrynoedd, haul y cyfiawnder, &c. 4, Mae'n hawddgar o ran ei ddarostyngiad; sef yn ei enedigaeth; yr oedd y doethion yn offrymu aurhegion iddo o aur, thus, a myrr; ac yr oedd yr angylion fel yn canu clychau'r nefoedd y boreu y ganwyd ef, gan ddywedyd, *Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ar y ddaear tangnefedd, i ddynion awylllys da*; ac yn ei fywyd yr oedd yn hawddgar; ac yn ngardd Gethsemane, yn dywedyd, *Os myfi yr ydych yn ei geisio, gadewch i'r rhai hyn fyned ymaith*; ac ar Gal-faria yr oedd yn dywedyd, *O Dad, maddeu iddynt*. 5, Yr oedd yn hawddgar yn ei dderchafiad; yr oedd yn arddel ei berthynas â'r disgyblion, ac yn esgyn i'r nefoedd gan fendithio ei ddisgyblion. *Melus odiaeth yw ei enau*: y mae ei holl air yn felus i'r duwiol; sef banesion, gorchymynion, athrawiaeth, galwadau, ac addewidion y gair. *Dyma fy nghyfaill, O ferched Jerusalem*: y mae Crist, 1, Yn gyfaill ffyddlon. 2, Cyfaill cyd-ymdeimladol. 3, Cyfaill addfwyn ac amuneddgar. 4, Cyfaill gwastadol: *Cydymaith a gar bob amser, a brawd a anwyd erbyn caledi*, Diar. xvii, 17.

ESARHADON. (*Rhwymiaid hyfrydwoch*) 2 Bren. xix, 37.

ESAY. (*Iachawdwriaeth yr Arglwydd*) Mab Amos: proffwyd enwog ydoedd. Y mae yr iachawdwriaeth ag y mae yr efengyl yn amlygu yn cael ei galw yn iachawdwriaeth yr Arglwydd, 1, Oblegid mai Arglwydd Dduw'r Tad a'i trefnodd yn y cyngor tragwyddol. 2, Oblegid mai Arglwydd Dduw'r Mab a'i pwrcasodd ac a'i dygodd oddi amgylch. 3, Oblegid mai Arglwydd Dduw'r Yspryd Glân sydd yn cymhwyso'r iachawdwriaeth adref at y pechadur. Y mae yn iachawdwriaeth gyffawn, rad, a thragywyddol.

ESAU. (*Gweithiwr*) Brawd Jacob, Gen. xxv, 26. Fe ddylai pawb weithio dros Dduw yma yn y byd, a gweithio tra byddo'r dydd yn para, canys fe ddaw'r nofryd na ddichon neb weithio.

ESGOL. (*Swp o rawnwin*) *Num. xiii, 23.

ESTHER. (*Dirgel neu guddiedig*) Est. ii, 7. Mae bywyd ysprydol y saint yn ddirgel ac yn guddiedig gyda Christ yn Nuw.

ESEC. (*Cynnen*) Edw ffynon, Gen. xxvi, 20.

ESLI. (*Yn agos attat*) Mab Naggai, Luc iii, 25.

EUBULUS. (*Cynghorwr da*) 2 Tim. iv, 21. Mae cynghorwr da yn fuddiol a defnyddiol iawn; ond y mae Crist yn gynghorwr anffaeledig.

EUNICE. (*Buddugoliaeth dda*) Mam Timotheus, 2 Tim. i, 5.

EUODIAS. [*Arogl-ber*] Gwraig enwog yn eglwys Philippi, Phil. iv, 2, 3.

EUPHRATES. [*Ffwythlon, Cynnyddol*] Afon nodedig yn Asia, Gen. ii, 14.

EUTYCHUS. [*Dedwydd, ffynedig*] Act. xx, 9. Mae y Cristion yn ddedwydd, ac y mae yn ffynu ac yn llwyddo gyda Duw mewn gweddi.

EZION-GABER. [*Cynghor y dyn*] 1 Bren. ix, 26.

EZBON. [*Awyddus i wrando*] 1 Cron. vii, 7. Wyr Benjamin. Y mae yn gweddu i bawb fod yn awyddus i wrando gair Duw; 1, Oblegid ei fod yn cynnwys yr hanesion cywiraf. 2, Am ei fod yn cynnwys y newyddion godidocaf. 3, Am ei fod yn cynnwys yr addewidion melusaf. 4, Am ei fod yn cynnwys y rheolau ardderchocaf. Ond, Pa fodd i iawn wrando gair Duw? 1, Dylem wrando'n barchus, o dan ystyriaeth mai gair Duw ydyw, a'i dderbyn, nid fel gair dyn, ond, fel y mae yn wir, yn air Duw. 2, Gwrando yn ddeallus: dylem ymdrechu deall holl wahanol ganghenau athrawiaeth y gair, yn eu hiawn gysylltiadau; dylem ddeall fod perthynas rhyngddo â'n cyflyrau ni, a bod a wnelo'r gair â ni yn nydd mawr y farn olaf. 3, Dylem ei wrando gyda zêl a bywiogrwydd: peth trwm iawn yw gweled dynion yn farwaid ac yn gysglyd o dan weinidogaeth yr efengyl: dylem fod yn wresog yn yr yspryd yn gwasanaethu yr Arglwydd. 4, Dylem wrando'n gofus: cofio'r gorchymymon a'n ceidw gyda'n dyledswydd;

dylech gofio athrawiaeth y gair, i'ch cadw rhag cyfeil-iorni; dylech gofio addewidion y gair, i'ch cadw yn gysurus mewn gorthrymderau, ac i'ch diddanu mewn cystuddiau, ac i'ch dal i'r lan yn wyneb ofnau ac am-éuon; dylech gofio bygythion y gair, i'ch dwyn i weled gwerth y noddfa a'r feddyginiaeth sydd yn nghlwyfau'r Oen, ac aberth Calfaria, ar gyfer pechaduriaid clwyfus cleifion Eden. *Ni a ddylem ddal yn well ar y pethau a glywsom, rhag un amser i ni eu gollwng hwy i gollli:* colli'r gair yw colli'r trysor mwyaf gwerthfawr; colli'r gair yw colli'r cleddyf mwyaf miniog; colli'r gair yw colli'r llaeth mwyaf rhinweddol; colli'r gair yw colli'r mel mwyaf melus; ie, colli'r gair yw colli'r rheol fwyaf uniawn a chywir. *Preswylled gair Crist ynock yn helaeth.* 5, Dylem wrando yn ddyfal: y mae ar eich heneidiau eisiau bwyd yn ei bryd, dogn dydd yn ei ddydd; na fydded fod cyfeillach yr annuwiolion, nac eisiau dillad gwychion, na thrafferth y byd, nac ychydig o afiechyd, na chafodydd o wlaw, na dim o'r cyffelyb, yn eich rhwystro i ddyfod i wrando geiriau Duw: fe wynebodd Crist wlaw digofaint, a chenllysg melltithion Sinai, er eich mwyn chwi; dylech chwithau ddyfod trwy bob rhwystrau i wrando am ei gariad ef. *Gwyn ei fyd y dyn a wrandawo arnaf, medd doethineb, ac a wyltio yn ddyfal beunydd wrth fy nrysau, gan warchod wrth byst fy mhyrth i.* Er fod y gwirionedd yn cael ei draddodi yn ffyddlon, gall llawer ddywedyd, *Pwy a gredodd i'n hymadrodd, ac i bwy y datguddiwyd braich yr Arglwydd?* O! na byddai pawb â'u holl egni yn gwrandawo yr efengyl. 6, Gwrando'n ffyddiog ac yn grediniol; dylem gredu'r gair, onid e ni bydd o un budd i'n heneidiau. *Y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy, am nad oedd wedi ei gyd-dymheru a ffydd yn y rhai a'i clywsant ef. Credwch yn yr Arglwydd eich Duw, a chwi a sicrheir; coeliwch ei broffwydi ef, a chwi a ffynwch.* 7, Dylem wrando yn gymhwysiadol: *Gwrando hyn, a gwybydd er dy fwyndy hun; sef er mwyn crino dy lygredd, er mwyn goleuo dy ddeall, er mwyn tanio dy serchiadau, ac er mwyn cynyddu dy ras*

a nefoli dy feddwl, Job v, 27. 8, Gwrandon addfwyn a chydâ bwriad i ufuddhau. *Trwy addfwynder derbynwch yr impiedig air, yr hwn a ddichon gadw eich eneidiau. A byddwch wneuthurwyr y gair, ac nid gwrandawyr yn unig, gan eich twyllo eich hunain.*

EZECIEL. (*Nerth Duw*) Y mae Duw yn gadarn Iôr, a'i wirionedd o'i amgylch; ac y mae efe yn rhoddi nerth i'r diffygiol, ac yn amlhau cryfder i'r dirym.

EZRA. (*Cynnorthwy*) Ezra vii, 6. Peth mawr yw cael cynnorthwywr da gydâ'r cyrddau gweddi, yn yr eglwys, ac yn neillduol gydâ'r ysgolion Sabbothol: ond y mae Crist yn Gynnorthwywr hollalluog a hollbresenol, ac yn gymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

EZEL. [*Un yn dangos y ffordd*] 1 Sam. xx, 19. Y Bibl yw yr unig fynegfys sydd yn dangos ffordd tua'r bywyd tragwyddol: 1, Y mae'r Bibl yn dangos beth yw y ffordd, sef Iesu Grist, fel Cyfryngwr, yn ei dair swydd, fel Proffwyd, Offeiriad, a Brenin. 2, Y mae y Bibl yn dangos pa fath ffordd ydyw; sef, 1, Ffordd newydd. 2, Ffordd ddiogel. 3, Ffordd sier. 4, Ffordd gysurus. 5, Ffordd sanctaidd. 6, Ffordd rad i holl bererinion Sion. 7, Ffordd fywiol. 8, Ffordd dragwyddol.

EZER. [*Trysor*] 1 Cron. iv, 4. Y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn Nghrist; ac y mae trysorau'r nef yn ddigon i wneud miloedd yn gyfoethog dros byth: y mae golud Crist yn anchwiliadwy, ac y mae pob cyflawnder ynddo ef, fel trysordy mawr yr eglwys.

EZRAHIAD. [*Dieithr*] Titl Salm lxxxviii.

FFESTUS. [*Llawen, gorfoleddus*] Act. xxiv, 27. Y mae gan y duwiolion sail i fod yn llawen a gorfoleddus: 1, Y mae yr hyn yw Duw iddynt yn achos gorfoledd iddynt; sef, Y mae efe yn Dduw iddynt, Jer. xxiv, 7. Mae efe yn Fugail iddynt, Salm xxiii, 1. Y mae yn Frenin iddynt, Salm xliv, 4, a cxlix, 2. Mae yn Dad iddynt, Esay lxiii, 19. Mae yn Briod iddynt, Esay

liv, 5. Mae'n graig ac yn amddiffynfa iddynt; ac y mae yn rhan ac yn etifeddiaeth dragywyddol iddynt. 2, Y mae holl briodoliaethau Duw yn achos llawenydd a gorfoledd i'r duwiol: y mae efe yn Dduw tragywyddol, am hyny fe bery rhan y duwiol pan y byddo pethau amser wedi difannu, Deut. xxxiii, 27. Y mae yn anghyfnewidiol ac yn ddianwadal, am hyny fe all y saint gael cysur cryf, Iago i, 17, Heb. vi, 17, 18, Mal. iii, 6. Mae yn holl-bresenol, gyda hwynt yn wastad. Mae yn holl-wybodol, am hyny mae angenion ei bobl yn adnabyddus iddo. Mae yn hollalluog, am hyny fe ddichon wneuthur yn dra rhagorol iddynt, Gen. xvii, 1. Mae efe yn gyfiawn, yn sanctaidd, yn ddoeth, yn dda, ac yn amyneddgar; am hyny fe bair i bob peth gydweithio er eu daioni. 3, Y mae yr hyn a wnaeth yr Arglwydd erddynt ac ynddynt yn achos llawenydd iddynt: *Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion, am hyny yr ydym yn llawen*, Salm cxxvi, 1. Y mae wedi ysgrifenu eu henwau yn llyfr bywyd yr Oen, Dat. xxi, 27. Y mae wedi trefnu ei Fab i fod yn Iachawdwr iddynt, Act. xiii, 47. Mae wedi eu gwisgo yn nghyfiawnder ei Fab Iesu Grist, Essay lxi, 10. Y maent wedi cael eu mabwysiadu i deulu Duw, a'u hadgenedlu i obaith bywiol. 4, Mae'r pethau mawrion ag y mae Duw wedi addaw yn achos gorfoledd a llawenydd mawr iddynt: y mae efe wedi rhoddi iddynt *addewidion mawr iawn a gwerthfawr*, 2 Pedr i, 4.

FELICIS. [*Dedwydd*] Act. xxiii, 24. Mae llawer dyn yn annedwydd yn nghanol cyfoeth, a llawer yn fendigedig yn nghanol tlodi: y mae cydwybod dda yn wledd wastadol.

FFORTUNATUS. [*Llwyddiannus*] 1 Cor. xvi, 17.

GABBATHA. [*Derchafedig*] Ioan xix, 13.

GAAL. [*Ffeidd-dra*] Barn. ix, 26.

GAAS. [*Cynhwrf.*] Mynydd yn rhandir Ephraim. 2 Sam, xxiv, 30.

GABRIEL. [*Gwr, neu nerth Duw; neu Duw yw fy nerth*] Dan. viii, 16.

GAD. [*Tyrfa, bagad; neu y mae tyrfa yn dyfod*] Mab Jacob o Zilpah, Gen. xxx, 9, 10, 11. *A Leah a ddywedodd, Y mae tyrfa yn dyfod: a hi, a alwodd ei enw ef Gad*, Gen. xxx, 11. Yma mi sylwais fod tyrfa yn dyfod i Sion cyn b'o hir. Y mae llawer o bethau yn profi hyn: 1, Lluosog brophwydoliaethau: braidd na chlywn eu llais yn dyfod, ar faes y prophwydoliaethau, Salm cx, 3, Esay ii, 1. 2, Dwyfol addewidion: fe enir cenedl ar unwaith; ac fe â'r bychan yn fil, a'r gwael yn genedl gref. 3, Ysgrythurol borteiriadau a brawf fod tyrfa yn dyfod: fe borteiriadwyd hyn yn adgyfodiad yr esgyrn sychion, yn ngweledigaeth Ezeziel, Ezec. xxxvii, 10. 4, Mae helaethrwydd prynedigaeth Calfaria yn profi hyn: y mae Crist wedi cael ei osod yn Iachawdwriaeth hyd eithaf y ddaear: nid dros ryw ychydig y bu Iesu yn chwysu megis dafnau o waed, ac yn drist ei enaid hyd angeu, ac yn marw ar y groes; O! nagê, dros dyrfa fawr nas gall neb ei rhifo, o bob llwyth, ac iaith, pobl, a chenedl. Ond mi gaf sylwi ar ddull y dyrfa hon yn dyfod i Sion: 1, Deuant yn ddisymwth; ehedant fel cwmwl, ac fel colomenod i'w ffenestri. 2, Hwy a ddeuant yn llwythog, a than wasgfa am eu cyflwr. 3, Hwy a ddeuant dan wylo a galaru am eu pechodau: *dan gerdded ac wylo yr ant—hwy a ofynant y ffordd i Sion, tuag yno y bydd eu hwynebau hwynt*. 4, Hwy a ddeuant gan weddio am drugaredd. 5, Hwy a ddeuant gydâg ymfyniad difrifol am waredigaeth. 6, Hwy a ddeuant gydâ syched neillduol am heddwch a chymundeb â Duw. 7, Gan gyfaddef eu pechodau, fel yr afradlon. 8, Gydâ hunan-ymwadiad mawr, a llwyr ymwrthodiad a phob gau noddfa. Caf sylwi ar natur y dyrfa hon ag sydd yn sier o ddyfod i Sion: 1, Tyrfa hardd a boneddigaidd; sef o ran ei lifrai, ei thlysau, ei dysgeidiaeth, a'i gwisgoedd harddwych; *y mae wedi ei gwisgo a'r haul, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren*. 2, Tyrfa heddychlon a thangnefeddus, Salm lxxii, 7, 8. *Yn ei ddyddiau ef y blodeua'r cyfiawn; ac amllder o heddwch fydd tra fyddo lleuad*. 3, Tyrfa wresog a thanllyd yn ngwaith yr Arglwydd;

byddant yn wresog yn yr yspryd yn ei wasanaethu ef. 4, Tyrfa reolaidd a threfnus, yn cerdded wrth yr un rheol. 5, Tyrfa arfog a buddugoliaethus; bydd yn ofnadwy fel llu banerog, a'i harfau yn nerthol trwy Dduw, i fwrw cestyll i'r llawr; a gyrrant fyddinoedd yr estroniaid i gilio. 6, Tyrfa lawen a gorfoleddus: *Wela fi yn creu Jerusalem yn orfoledd, a'i phobl yn llawenydd; ac ni chlywir ynnddi mwyach lais wylofain na llef gwaedd*: byddant yn sefyll ar y môr gwydr, a thelynau Duw ganddynt. 7, Tyrfa gadarn ac anorchfygol: byddant yn fwy na choncwerwyr, trwy yr hwn a'u carodd hwynt. *A phyrth uffern nis gorchfygant hi. O cyfrifwn hi yn fraint i gael cael cadw'r drws yn agored i dderbyn y dyrfa fawr sydd yn dyfod i Sion.*

GADARA. [*Cauedig*] Prif ddinas Perea, Mat. viii, 28, Marc v, 1. O Arglwydd Iesu, par fod fy nghalon innau yn gauedig at y byd a'i wagedd, ac yn agored tua'r nesoedd; a bydded fod fy ngenau'n gauedig rhag siarad gwagedd, ac yn agored i fynegu rhinweddau y Cyfryngwr bendigedig.

GADIEL. [*Duw yw nedwyddwch*] Mab Sodi, o lwyth Zabulon, Num. xiii, 10. Mae yn sier mai Duw yw dedwyddwch y Cristion, ac y mae efe yn ddigon o ddedwyddwch ei hunan: *Pwy sydd genyf yn y nesoedd ond tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda thydi.* Y mae efe yn ddigon o gyfoeth, yn ddigon o oleuni, o gwmni, o lawenydd, o ddiogelwch, o orphwysfa, ac o etifeddiaeth. *Yr Arglwydd yw fy rhan, medd fy enaid.*

GAIUS. (*Daearol*) Cristion enwog, a fedyddiwyd gan Paul yn Corinth, 1 Cor. i, 14. Fe ddywed yr apostol fod y dyn cyntaf o'r ddaear yn ddaearol, ac y mae corph y duwiol yn cael ei alw yn ddaearol dŷ, 2 Cor. v, 1. 1, Tŷ daearol, am mai daear yw ein defnydd: ein cyrph ydynt gyrph o glai. 2, Tŷ daearol, am ei fod yn cael ei gynnal ar y pethau sydd yn tyfu o'r ddaear. 3, Tŷ daearol, am mai i'r ddaear y dychwel yn fuan. *Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr yspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef.*

GAHAM. (*Eu harweinydd*) Mab Nachór, Gen. xii, 24. Y mae Crist yn arwain ei bobl i'r porfeydd gwelltog, a cherllaw'r-dyfroedd tawel: y mae Crist yn arweinydd cyfarwydd, yn arweinydd gofalus, yn arweinydd amyneddgar, ac yn arweinydd gwastadol.

GAHAR. (*Poethder yn dyfod allan*) Ezra ii, 47. Y mae genau yr annuwiolion fel ffwrn danllyd: *y tafod tan ydyw, byd o anghyfiaunder; y mae yn gosod troell naturiaeth yn fflam, ac wedi ei wneuthur yn fflam gan uffern.*

GALIM. (*Rhai yn pentyru*) Dinas yn Benjamin, Esay x, 30. Y mae y cybyddion yn pentyru golud heb wybod pwy a'i casgl; ac y mae yr annuwiol yn pentyru ac yn trysori iddo ei hun ddigofaint erbyn dydd digofaint a datguddiad cyfiawn farn Duw.

GALIO (*Un yn byw ar laeth*) Act. xviii, 12. Y mae yn gweddu i ni oll fod fel plant bychain newydd eni, yn chwenych o ddiwyll laeth y gair, fel y cynyddom trwyddo ef: dylem gynyddu mewn gwybodaeth, mewn ffydd, gostyngeiddrwydd, amynedd, a thebygolrwydd i Dduw: ond moddion y cynnydd yw didwyll laeth y gair: y mae'r llaeth yn addas iawn i fabanod, yn felus, yn feithrinol, yn bureiddiol, ac yn feddyginiaethol: felly y mae yr efengyl.

GAMALIEL. (*Gwobr Duw*) Act. v, 24. Diau mai gwobr Duw fydd bywyd tragywyddol i'r saint, ac fe fydd eu dedwyddwch i gyd o ras: 1, Fe ymddengys hyn, os ystyriwn ni beth oeddynt wrth natur, sef plant digofaint a gelynhion Duw, Eph. ii, 3. 2, Am fod llwybr eu cadwedigaeth i gyd o ras. 3, Am nas gallai dim ond gras eu cymhwyso i fwynhau y dedwyddwch yma. 4, Y mae testun caniadau'r nef yn profi fod eu gwynfyd i gyd o ras, Dat. i, 5, 6.

GEDALIAH. [*Mawredd yr Arglwydd*] Mab Jeduthun, 1 Cron. xxv, 3. Y mae mawredd anfeidrôl yn perthyn i'r Jehofa; 1, Mae yn fawr o ran ei gariad a'i drugaredd at bechaduriaid. 2, Mae yn fawr o ran ei allu a'i awdurdod. 3, Mae yn fawr o ran ei ddeuthmeb a'i

lybodaeth. 4, Mae yn fawr o ran ei deyrnas a'i lywodraeth. 5, Mae yn fawr o ran ei ddigofaint at ei elynion.

GEHAZI. (*Dyffryn gweledigaeth*) 2 Bren viii, 4, 5.

GERSON. (*Dieithr yno*) Exod. ii, 22.

GERSON. (*Ei alldudiad*) Num. iii, 17.

GETHEK. (*Dyffryn profedigaeth*) Mab Aran, Gen. x, 23. Y mae llawer Cristion da yn cyfarfod â llawer dyffryn profedigaeth yma ar ei daith tua'r nefoedd: 1, Dyffryn o lwyddiant bydol. 2, Dyffryn o dlodi ac aflwyddiant. 3, Dyffryn o wawd ac erledigaethau'r byd. 4, Dyffryn o gystuddiau, aftechyd, henaint, a diystyrwch. 5, Dyffryn o siomedigaethau mewn rhai o'r cyfeillion goreu.

GETHSEMANE. (*Dyffryn y ffrwythau neu yr olew*) Pentref yn agos i Jerusalem, Mat. xxvi, 36. Mewn gardd yma y bu Crist mewn ymdrech caled, ac yn chwysu megis dafnau o waed i'r llawr; ac yn nhristwch Crist fe hauwyd llawenydd tragwyddol i'r saint, a thrwy ei chwys gwaedlyd ef fe ddaeth olew gras i ni.

GEMARIAH. (*Cyflawniad neu berffeithrwydd yr Arglwydd*) Mab Hilciah, Jer. xxix, 3. Y mae pob perffeithrwydd yn yr Arglwydd: 1, Y mae yn berffaith gyfiawn. 2, Mae yn berffaith sanctaidd. 3, Mae yn berffaith ddoeth a da. 4, Mae yn berffaith alluog a chadarn. 5, Mae yn berffaith gyfoethog. 6, Mae yn berffaith ddedwydd, gogoneddus, ac anghyfnewidiol.

GENESIS. (*Cenedlhad.*)

GEDeon. (*Drylliwr neu ddinystriwr*) Barn. vii, 7.

GIDGAD. (*Byddin barod*) Num. xxxiii, 32.

GTHON. (*Gorwyllt*) Gen. ii, 13.

GILBOA. (*Ymgynghorfa neu gylch ymosyniad*) 1 Sam. xxxi, 1.

GILEAD, neu GALEED. (*Carnedd y dystiolaeth*)

GILGAL. (*Treigl*)—GILOH. (*Gorfoleddu*)

GOLGOTHA. (*Lle'r benglog*) Ioan xix, 17.

GOLIATH. (*Mynediad drosodd*) 1 Sam xvii, 4.

GOMER. (*Cyflawn*) Mab hynaf Japheth, Gen. x, 2, 3. Efe, y mae yn debygol, oedd tad y Cymry: y mae yn sicr fod y Cymru yn bresenol yn gyflawn iawn o freintiau crefyddol; y mae yr ysgolion Sabbothol yn eu blodau braidd yn rhob rhan o Gymry: llwyddiant iddynt i ddanfôn cenhadau hedd at holl hil Noah.

GOMORRAH. (*Pobl wrthryfelgar*) Un o'r dinasoedd drwg hyn a ddinystriwyd gan dân o'r nefoedd, Gen. xiii, 10. Y mae pawb wrth natur yn gwrthryfela yn erbyn yr Arglwydd.

GOSEN. (*Agosiad agos, neu wlad y gwlar*) Tal-aeth ffrwythlon yn ngwlad yr Aipht, lle preswylodd hiliogaeth Jacob dros lawer o flynyddau: ond y mae y saint yn trigo yn agos at Grist, ac y mae gwlaw o fendithion ysprydol yn dyfod i'w heneidiau, ac fe fydd yn oleu arnynt pan y byddo tywyllwch dudew wedi dal y rhai annuwiol.

HABBACCUC. (*Ymdrech*) Proffwyd enwog. Mae yn gweddu i bob Cristion ymdrechu, fel y mae Crist yn dywedyd, *Ymdrechwch i fyned i mewn trwy'r porth cyfyng*, Luc xiii, 24. Y mae yr ymdrech yma yn cynnwys y pethau canlynol: 1, Diwyd arfer y moddion y mae Duw wedi drefnu. 2, Difrifol ymofyniad am ffordd yr iachawdwriaeth trwy Gyfryngwr. 3, Gocheliad rhag parhau heb adnabyddiaeth brofiadol o waith yr Yspryd Glân. 4, Parodrwydd meddwl i ddyoddef pob peth yn hytrach na throi yn ol a gwadu Iesu Grist.

HAASTARI. (*Rhedegwr*) Mab Assur, 1 Cron. iv, 6. Y mae y duwiolion yn cael eu cydmaru i redegwyr yn aml yn y Bibl, 1 Cor. ix, 24. Fel rhedegwyr, y mae yn ofynol iddynt ddechreu yn gywir; sef y mhorth yr ail-enedigaeth. 2, Mae yn ofynol iddynt beidio cario pwysau, ond rhoi hebio bob pwys a'r pechod sydd yn barod i'w hamgylchu; a gwisgo mantell cyfiawnder a gwisgoedd ysgafn yr iachawdwriaeth. 3, Fel rhedegwyr, mae yn ofynol fod eu hanadl yn gryf, sef anadl gweddi, i ymwneud llawer â gorsedd gras, yn ddirgel

ac yn gyhoedd. 4, Mae yn ofynol fod eu hewyllys, eu serchiadau, a'u hegwyddorion, wedi cael eu heneinio âg olew yr Yspryd Glân. 5, Fel rhedegwyr, y mae llawer o edrych ar eu hol: y mae yn ofynol para hyd y diwedd. 6, Fel rhedegwyr, y mae yn ofynol iddynt gael llawer o amynedd, a thrwy amynedd i redeg yr yrfa a osodwyd o'u blaen, gan gadw eu golwg ar Grist, fel eu ffordd; ar y gyfraith, fel eu rheol; ar yr Yspryd Glân, fel eu Harweinydd; ar angeu, fel pen eu gyrfa; ac ar y nefoedd, fel eu coron o ogoniant.

HABAIAH. (*Cuddiedig yr Arglwydd*) Y mae y duwiol yn guddiedig, ac yn rhai dirgel yr Arglwydd: y mae eu bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw; ac y mae eu danteithion, eu gwleddoedd ysprydol, eu llawenydd, a'u gorfoledd yn guddiedig oddiwrth y byd.

HACCATAN. (*Bychan*) Tad Johanan, Ezra viii, 12. Nid oedd eglwys Dduw ond bychan iawn yn amser Crist, ac nid oedd gwybodaeth o drefn yr iachawdwr-iaeth ond bychan iawn yr amser hyn, fel y cwmmwl bach a welodd gwas Elias yn cyfodi o'r môr; ond fe fydd i wybodaeth gogoniant yr Arglwydd-doi'r ddaear, fel y mae y dyfroedd yn toi y môr.

HACHALIAH. (*Yr hwn sydd yn disgwyl am yr Arglwydd.*) Tad Nehemiah, Neh. i, 1, a x, 1. Mae yn sicr fod y duwiolion yn disgwyl am ail ddyfodiad yr Arglwydd Iesu o'r nef, 1 Thes. i, 10. 1, Dylem ddisgwyl yn hiraethlon, oblegid mai ein Brawd a'n Priod fyddlon ydyw. 2, Dylem ddisgwyl yn grediniol. 3, Dylem ddisgwyl yn effro a gwiliadwrus. 4, Dylem ddisgwyl yn barodol, gan drwsio ein lampau. 5, Dylem ddisgwyl yn ddiwyd ac yn ymdrechgar gyda ei waith. 6, Disgwyl yn amyneddgar ac hyd y diwedd. *Dos. dithau hyd y diwedd: canys gorphwys, a sefi yn dy ran yn nripedd y dyddiau.*

HACHMONI. (*Doeth*) Un o gedyrn Dafydd, 2 Sam. xxiii, 8. Y mae'r duwiolion y cael eu galw yn rhai doethion: 1, Y maent yn gwneud ac yn ymfyn am y peth mwyaf angenrheidiol yn mlaenaf neu yn gyntaf,

yn ol gorchymyn Crist, *Ceisioch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau ereill a roddir i chiwi yn ychwaneg.* 2, Maent yn cloddio yn ddwfn am graig yn sylfaen, cyn dechreu adeiladu. 3, Maent yn dewis y cyfeillion goreu, sef pobl yr Arglwydd. 4, Maent yn dal gafael ar yr amser goreu i ddiogelu eu iachawdwriaeth dragywyddol.

HADAD. (*Cyfeillgarwch*) Gen. xxxvi, 35.

HACHILAH. (*Fy ngobaith sydd ynddi*) 1 Sam. xiii, 19.

HADADEZER. (*Prydferthwch cynnorthwy*) 2 Sam. viii, 3, 4.

HADASAH. (*Adnewyddiad*) Jos. xv, 37.

HADAR. (*Gogoniant, hardduch*) Gen. xxxvi, 39.

HADLAI. (*Fy ngorphwysfa*) 2 Cron. xxviii, 12.

HADAD-RIMMON. (*Llef Rimmon*) 2 Cron. xxxv, 22, Zech. xii, 11. Dinas yn nyffryn Megido, yn agos i ba un y lladdwyd y brenin duwiol Josiah, yr hyn a fu yn achos o alar ac wylofain mawr.

HADRACH. (*Eich ystafell*) Dinas yn agos i Damascus, Zech. ix, 1. Y mae llawer o ystafelloedd hyfryd gan y Cristion i droi iddynt: 1, Ystafell myfyrdod; sef myfyrio ar anfeidrol ddoethineb Duw yn trefnu iachawdwriaeth i bechaduriaid yn y cynghor dragywyddol; myfyrio ar gariad Crist yn dyfod i lawr o'r baradwys nefol i farw yn lle yr euog; myfyrio ar ddedwyddwch y saint, tu draw i farw, yn ngwlad gol-euni, ar fryniau anfarwoldeb. 2, Ystafell y weddi ddirgel; yma y mae y Cristion yn tywallt ei galon ger bron Duw. 3, Ystafell yr ordinhadau; yma y mae plant Duw yn cyd-wledda ac yn cyd-ddiolch, yn cyd-alaru am bechod, ac yn yn cyd-orfoleddu yn yr iachawdwriaeth. 4, Ystafell y gwrando; y mae'r Brenin Iesu yn dwyn ei blant i'w ystafelloedd, a'i faner drosynt ydoedd cariad.

HADORAM. (*Eu harddwch*) Mab Joctan, Gen. x, 27. Y mae yn ofynol i bob Cristion fod yn hardd yn ei

oiriau a'i holl ymddygiadau. *Dy bobl a fyddant ewyll-ysgar yn nydd dy nerth, mewn harddwch sancteiddrwydd.*

HAFILAH. (*Gofidus, dolurus*; neu yr *hwn sydd yn dolurio*) Mab Cus, Gen. x, 7. Y mae llawer o bethau yn dolurio ac yn gofidio dynion yma yn y byd: 1, Cydwybod euog yn y fynwes. 2, Colledion bydol, tlodi, a gorthymderau. 3, Aflwyddiant Sion, llithriadau profesywyr, a phechodau rhyfygus yr annuwiolion.

HAGAR. (*Alludes neu ddieithr*) Aiphtes, morwyn Sarah, gwraig Abraham, a mam Ismael ydoedd, Gen. xvi, 1. Y mae pawb wrth natur yn ddieithr i gyfamod Duw, yn estroniaid oddiwrth amodau yr addewid, heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd: y mae yr apostol yn dywedyd na chaiff mab y wasanaeth-ferch etifeddu gyda mab y wraig rydd, Gal. iv, 30. Yma yr ydwyf yn sylwi fod Hagar yn gyffelybiaeth o'r ddeddf, a Sarah yn gyffelybiaeth o'r efengyl: 1, Sarah oedd y feistres yn nheulu Abraham; nid oedd Hagar ond morwyn: felly trefn yr efengyl sydd i flaenori yn yr eglwys, ac yn bob peth yn yr iachawdwriaeth: gallasai Hagar fod o ddefnydd yn nheulu Abraham, pe buasai yn cael ei chadw yn ei lle ei hun: felly y mae y ddeddf yn ddefnyddiol iawn ond iddi gael bod yn ei lle ei hun; sef yn fuddiol i egluro gogoniant a sancteiddrwydd y Ddw-dod, ac i ddangos hawl y Jehofa i ofyn ufudd-dod oddiwrth ei greaduriaid, ac i ddangos i ddyn ei drueni a'r angenrheidrwydd o Gyfryngwr, ac hefyd i ddangos i'r duwiolion goreu eu brychau, ac i'w dwyn i werthfawrogi ffynon Calfaria. 2, Fe ddarfu i Abraham droi oddiwrth Sarah, y wraig rydd, at Hagar, y forwyn gaeth, i geisio ynnill mab yr addewid: felly y mae llawer yn troi oddiwrth yr efengyl at y ddeddf, i ymofyn am gyfiawnhad ger bron Duw. 3, Yr oedd mawr allu Duw i'w weled yn ei waith yn rhoddi Mab i Sarah; ond yr oedd yn beth naturiol yn ngolwg rheswm i Hagar gael mab: felly y mae rhagorol fawredd nerth Duw yn ymddangos yn ei waith yn ad-genedlu dynion i obaith bywiol trwy'r efengyl; ond y mae yn naturiol i

ddynion fyw yn ddeddfol: er i ni gollu delw Duw trwy godwm Eden, etto ni chollosom y tuedd o geisio myned i'r nefoedd trwy lwybr y cyfamod o weithredoedd, er fod y cerub â'r cleddyf tanlyd ysgwydedig yn cadw ffordd pren y bywyd; etto y mae pawb wrth natur am fyned i'r nefoedd trwy eu gweithredoedd eu hunain.

4. Er i Sarah fod yn hir heb esgor ar fab yr addewid, fe'i ganwyd yn amser Duw; felly er i'r addewid a roddwyd yn Eden fod yn hir cyn esgor ar Grist, fe daeth yn nghyflawnder yr amser; ac fe fydd ei had fel tywod y môr yn aneirif; fe enir cenedl ar yr un waith, ac fe wel Crist o lasur ei enaid, ac fe'i diwellir.

5. Yr oedd mab Hagar, y forwyn gaeth, yn gwatwar ac yn erlid Isaac, mab y wraig rydd; felly y mae y dynion deddfol, Phariseaidd yn diystyru duwiolion profiadol ac efangylaidd yn mhob oes o'r byd. 6. Y canlyniad fu, fe fwrwyd Ismael, mab y forwyn gaeth, yn hollol o'r teulu; felly fe fwrir yr holl ragnrithwyr a'r dynion deddfol yn llwyr o blith y duwiolion cyn b'o hir: *y gwas nid yw yn aros yn y tŷ byth*, Ioan viii, 35.

II, Pa fodd y mae i ni wybod pa un ai plant y wasanaethferch neu blant y wraig rydd ydym, pa un ai dynion deddfol neu ddynion efangylaidd ydym. 1, Os ydyw cyflawnu dyledswyddau yn faich ac yn galedwaith genym, diau mai dynion deddfol ydym; y mae'r duwiol a'i ewylllys yn nghyfraith yr Arglwydd, ac y mae cyflawnu dyledswyddau'n hyfrydwch iddo. 2, Os ydym yn cyflawnu dyledswyddau yn fwy ac yn hytrach er mwyn distewi Hais cydwybod nag er gogoniant i Dduw ac o gariad atto, yr ydym yn ddeddfol ac nid yn efangylaidd. 3, Os cyflawnu dyledswyddau er mwyn gochelyd uffern ac ynnill y nefoedd yr ydym, diau fod ein hyspryd yn ddeddfol iawn etto. 4, Y mae y dyn deddfol yn iwy am gyflawnu dyledswyddau cyhoeddus na rhai dirgelaidd; y mae y deddfol yn gwneud y cwbl er mwyn hunan glod, ond y mae y dauwiol yn amcannu gogoneddu yr Arglwydd yn y cyfan. 5, Os ydym heb ymbriodi yn gyflawn â threfn yr efangyl i gadw pechadur, plant Hagar ydym, ie, dynion deddfol ydym hyd yma. III,

I sylvwi ar yr hyn y mae plant y wraig rydd yn ei etifeddu: sef, y maent yn etifeddu Crist yn ei berſon, ac yn ei holl swyddau cyfryngol; y maent yn etifeddu Crist yn ei ras a'i holl fendithion; y maent yn etifeddu maddeuant pechod, cymdeithas â Duw, cysur mewn gorthrymderau, hyder yn wyneb angeu, arddeliad yn y farn, a bywyd tragywyddol yn y nefoedd: ond ni chaiff y dynion deddfol gyd-etifeddu gyda'r dynion duwiol, am fod tuedd mewn ceisio cyfiawrhad trwy'r ddeddf i ddistrywio holl drefn yr efengyl, ac i wneud marwolaeth Crist yn ofer, ac i dynu'r goron oddiar ben y Drindod a'i rhoi ar ben dyn llygredig. O! gwneier ni oll yn ddynion profiadol ac efangylaidd: na âd i mi mwyach, fel caethwas, neshau yn ddigred at orsedd gras; 'Rho ffydd i lefain Abba, Dad, ac arddel fi fel un o'th had.'

HAGGAI. (*Uchel wyl.*) Proffwyd enwog yr Arglwydd ydoedd.

HAGGAI AH, (*Gwledd*) Mab Simea, 2 Cron. vi, 30. Y mae llawer o bethau drwg a niweidiol yn cydfyned â gwleddoedd a gloddest yr annuwiolion; megis anystyriaeth ac anghcfo Dduw, meddwdod a glythineb, diystyru ac anmharchu crefydd a phethau sanctaidd Duw: *Esay v, 12. Ac yn eu gwleddoedd hwynt y mae'r delyn, a'r nabl, y dympan, a'r bibell, a'r gwin: ond am waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred ei ddwyllaw ef nid ystyriant.* Fe drodd gwledd Belsassar yn chwerv iddo pan esponiwyd iddo ystyr y geiriau Mene, Tegei, Ti a bwyswyd yn y clorianau ac a'th gaed yn brin.

HALELUIAH. (*Moloch yr Arglwydd*) Y mae yn gweddu i ni foli Arglwydd Dduw'r Tad, am drefnu iachawdwriaeth; y mae yn gweddu i ni foli Arglwydd Dduw'r Mab, am bwrcasu iachawdwriaeth; ac ni a ddylem foli Arglwydd Dduw'r Yspryd Glân, am gymhwyso yr iachawdwriaeth adref at galonau pechaduriaid.

HAM. (*Gwres, gwineuddu*) Mab Noah, Gen. ix, 22.

HAMAN. (*Cythrwfl neu barottowr*) Esther iii, 1. Dyn balch ydoedd; gwnaeth gythrwfl a gofid blin i'r luddewon, ac fe barottôdd grogbren i grogi Mordecai dduwiol; ond efe ei hun a gafodd ei grogi arno: *balchder sydd yn myned o flaen dinystr, ac uchder yspryd o flaen cwmp.*

HAMATH. (*Digofaint*) Mab Canaan, Gen. x, 18.

HAMON-GOG. (*Lliaws Gog*) Ezec. xxxix, 11.

HAMOR. (*Asyn*) Tad Sicheu, Gen. xxxiv, 2.

HAMUEL. (*Digofaint Duw*) Mab Misma, 1 Cron. iv, 26. Y mae Duw yn ddiglaw'n beunydd wrth yr annuwiol, ac y mae digofaint Duw yn aros arno ef; ac fydd digofaint Duw yn ddychrynlyd, yn ddigymysg, ac yn dragwyddol yn uffern.

HAMUL. (*Duwiol*) Mab Phares, Gen. xlvi, 12. Y mae tuedd yn yr efengyl i ddyngu dynion i fyw yn dduwiol, Tit. ii, 12. *A byw yn gyfiawn, yn sobr, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon.* Yma mi sylwaf ar dri pheth: I, Beth yw duwioldeb. II, Beth yw byw yn dduwiol. III, Fod tuedd yn yr efengyl i ddyngu dynion i fyw yn dduwiol. I, Beth yw duwioldeb. 1, Gwir wybodaeth o Dduw yn y deall, a'r wybodaeth hono yn effeithio yn ddaionus ar holl gyneddfau yr enaid: y mae gwybodaeth ac adnabyddiaeth o Dduw yn hanfodol i dduwioldeb; *ofn yr Arglwydd yw dechreuad gwybodaeth,* Diar. i, 7. *Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd, a gwybodaeth y sanctaidd yw deall.* Nid oes gwir grefydd heb wybodaeth ac adnabyddiaeth o Dduw; dyma'r ddelw mewn rhan sydd yn cael ei hadferyd yn ol yn yr ail-enedigaeth, Col. iii, 10. 2, Parch i Dduw yn y meddwl: nid oes un dyn di-ailenedig yn meddwl yn barchus am Dduw; nid yw yn meddwl yn barchus am natur Duw, nac am arfaeth, na rhagluniaeth, nac am iachawdwriaeth yr Arglwydd; ond y mae yn llettya meddyliau bach a dirmygus am dano, sef am ei orchymynion, ei alwadau, ei sabbathau, a'i ordinhadan. *Diystyrasoch fy holl gynghor, ac ni synech ddim o'm cerydd.* Ond lle byddo duwioldeb, y

mae yno barch mawr yn y meddwl i Dduw a phob petlr a berthyn iddo: y mae gan y duwiol barch mawr i holl air Duw, i'w sabbathau a'i ordinadau, ac hefyd i'w bobl. 3, Cariad at Dduw yn y serchiadau: nid oes neb wrth natur yn caru Duw, ond y maent yn llawn gelyniâeth atto, *yn hustyngwyr, yn athrodwyr, yn gas ganddynt Dduw: syniad y cnaod sydd elyniâeth yn erbyn Duw*: ond lle byddo duwioldeb, mae yno gariad mawr at Dduw; ac os ydym yn caru Duw, yr ydym am fod yn debyg iddo, ac yn dymuno ei gymdeithas; ac yr ydym yn llawenhau yn llwyddiant ei achos, ac yn barod i ufuddhau iddo yn y gorchymynion mwyaf croes i dueddiadau cig a gwaed. 4, Ufudd-dod i Dduw yn yr ewyllys: y mae pawb wrth natur yn blant yr anufudd-dod, (Eph. ii, 2, Rhuf. xi, 30) ond y mae gras Duw yn dwyn dynion i ufuddhau o'r galon i'r flurf o athrawiaeth a draddodwyd iddynt, ac yn barod i ddywedyd, fel Saul o Tarsus, *Arglwydd, beth a fyndi di i mi ei wneuthur?* 5, Cywirdeb at Dduw yn y gydwybod: mae'r duwiol yn ymorchestu i gadw cydwybod ddirwysr at Dduw a dynion, ac y mae yr un yn y dirgel ag ydyw yn ymddangos yn gyhoeddus. 11, Beth yw byw yn dduwiol: 1, Byw dan yr ystyriaeth sobr fod Duw yr un ag y mae y gair yn ei egluro; sef Duw holl-bresenol, holl-wybodol, anfeidrol, sanctaridd, cyfiawn, doeth, a da. *Rhaid i'r hwn sydd yn dyfod at Dduw gredu ei fod, a'i fod yn wobrwyr i'r rhai sydd yn ei geisio.* 2, Byw yn dduwiol yw byw o dan deimlad dwys o'n hangen o gael y Duw yma yn rhan draggywyddol i'n heneidiau: *Sychedig yw fy enaid am Dduw, medd Dafydd, a Job a ddywed, O na wyldwn pa le y cawn ef.* 3, Byw yn dduwiol yw byw yr un farn a Duw; sef yr un farn a Duw am y gyfraith, am bechod, am ei Fab, am yr enaid, am y byd, am grefydd, ac am y byd traggywyddol. 4, Byw yn dduwiol yw byw yn agos at Dduw mewn cyfrinach, rhodio fel Enoch gyda Duw. *Ein cymdeithas ni yn wir sydd gyda'r Fad, a chyda'i Fab ef Iesu Grist.* 5, Byw'n dduwiol yw byw bywyd o gyflwyniad tyflawn i fynu i'r Ar-

glwydd, fel Josua, *Ond myfi, mi a'm tylwyth a was-
anaethwn yr Arglwydd.* 6, Byw yn dduwiol yw byw
yn ol rheolau'r gair yn mhob pethypas. III, Fod
tuedd yn yr efengyl i ddysgu dynion i fyw yn dduwiol;
1, Trwy ddangos mawr werth duwioldeb: y mae yn
fuddiol i bob peth. 2, Trwy ddangos y rhwymau mawr
sydd arnom i fyw yn dduwiol: y mae holl waith y
Drindod yn ein iachawdwriaeth yn ein gosod o dan y
rhwymau mwyaf i fyw yn dduwiol. 3, Mae tuedd yn
yr efengyl i ddysgu dynion i fyw yn dduwiol, trwy
ddangos y trueni ofnadwy sydd yn gysylltedig â byw
yn annuwiol; sef melltith a digofaint Duw hollalluog:
*Oni ddychwel yr annuwiol efe a hoga ei gleddyf: ar
yr annuwiolion y gwelawia efe faglau, tan a bwm-
stan, &c.* 4, Trwy ddangos y breintiau cysylltedig â
byw yn dduwiol; sef pob peth o dan y fendith, ac yn
cydweithio er ein daioni, a thragywyddol wynfyd yr
ochr draw. *Mor fawr yw y daioni a roddaist i gadro
i'r sawl a'th ofnant!*

HANAMEEL. (*Gras oddiworth Dduw*) Mab Salum,
Jer. xxxii, 7. Y mae y gair gras yn arwyddo y pethau
canlynol: 1, Rhad gariad Duw yn ethol pechaduriaid
yn Nghrist eyn bod y byd, Rhuf. xi, 5, 6. 2, Rhad
gyfrifiad o gynhawnder Crist, Rhuf. iii, 24, Act. xv, 11,
Tit. iii, 7. 3, Gwaith cadwedigol yr Yspryd yn adferu
yr enaid ar ddelw Duw, Rhuf. vi, 14, Eph. ii, 8. 4, Yr
efengyl, o ran yr athrawiaeth a'r broffes o honi, 1 Pedr
v, 12, Tit. ii, 11, Judas 4. 5, Bywyd tragywyddol yn
y nef, 1 Pedr i, 13.

HAMUTAL. (*Gwres y gwblith*) Merch Jeremiah.—
Hanan, *trugarog*, mab Azel.—Hanani, *fy nhrugaredd*.
—Hananiah, *trugaredd yr Arglwydd*.—Hanathon,
rhodd trugaredd, dinas yn llwyth Zabulon.—Hannah,
trugarog, gwraig Elcanah.—Hapharim, *cloddwyr*, enw
dinas.—Haran, *lidiog, digofus*, tad Lot a brawd Abra-
ham.—Harnapher, *digofaint cynnyddol*.—Harod, *rhuf-
eddol*, ffynon yn agos i Jezreel.—Harum, *derchafedig*,
mab Cos.—Harus, *toredig*.—Hasabiah, *cyfrif yr Ar-*

glwydd.—Hasadiah, *trugaredd yr Arglwydd.*—Hasar-mafeth, *llys angeu.*—2 Bren. xxiii, 30, 31, 1 Cron. viii, 88, 1 Bren. xvi, 7, 1 Cron. iii, 19, Jos. xix, 4, 1 Sam. ii, 1; Jos. xix, 19, 1 Cron. vii, 36, Barn. vii, 1, 2 Bren. xxi, 19, 1 Cron. vi, 45, 1 Cron. iii, 20, Gen. x, 26.

HASESON-TAMAR. (*Tywod cyfnewidiol.*) Gen. xiv, 7. Gochelwn adeiladu ein crefydd ar dywod cyfnewidiol o dymherau, a hwyliau, a serchiadau naturiol, nac ar ddyledswyddau allanol; onid ê fe ddaw ein holl grefydd i lawr yn wyneb llifeiriant angeu. O ymofynwn am Grist, y Graig dragywyddol, o dan ein hen-iediau.

HASOR. (*Gwyrrog*) Dinas yn Juda.—Hasuba, *cyfrifiad*, mab Zorobabel. Jos. xv, 25. 1 Cron. iii, 20.

HATTUS. (*Un yn ymadael a phechod*) Mab Sech-aniah, 1 Cron. iii, 22. Peth mawr iawn yw cael ymadael â phechod; ond ni ddaw neb i ymadael yn iawn â phechod heb iddo gael ei argyhoeddi gan yr Yspryd Glân o ddrwg ei bechod, ac hefyd o'i haeddiant, sef cael ei gospi yn dragywyddol; ie, y mae yn rhaid i ddyn gael anian sanctaidd i gashau pechod cyn iddo ei adael yn iawn: y neb a'i cyfaddefo ac a'i gadawo, efe a gaiff drugaredd.

HAZAEI. (*Un yn gweled Dduw*) 2 Bren. xiii, 3. Fe fydd yr olwg a gaiff y saint ar Dduw yn y nefoedd yn olwg eglur, yn olwg foddlonol, yn olwg bersonol, effeithiol; a thragywyddol. *Gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych, mewn dameg; ond yna wyneb yn wyneb.*

HEBRON. (*Cymdeithas*) Dinas yn ngwlad Canaan, Num. xiii, 22. Y mae eglwys Dduw yn gymdeithas wirfoddol, reolaidd, ac o ddwyfol osodiad; ac hefyd y mae cymdeithas rhwng pob Cristion â'r Arglwydd: y mae hon yn gymdeithas sanctaidd, felus, ac ynnillfawr iawn i'r Cristion.

HELAM. (*Llu y farn*) Dinas yn Syria, 2 Sam. x, 16. Mae yn sicr fod dydd barn i ddyfod: y mae tystiolaethau eglur y gair, tystiolaeth a llais cydwybod, a

chyflawnder ac uniondeb llywodraeth y Jehofa, yn profi hyn: ac fe fydd llu mawr yn ymddangos yno; fe fydd holl ddynolryw a fu, sydd, ac a ddaw, yn gorfod ymddangos yno; *canys rhaid i ni oll ymddangos o flaen brawdle Crist: ac mi a welais y meirw, fychain a mawrion, yn sefyll ger bron Duw; a'r llyfrau a agorwyd.*

HELKATH-HASSURIM. (*Maes y cedyrn*)—Heldai, y byd.—Heleph, *llwybr*, dinas o Naphtali.—Heman, *eu blinder*.—Hen, *tosturi*, mab y proffwyd Sephaniah.—2 Sam. ii, 16, 1 Cron. xxvii, 15, Jos. xix, 33, 1 Cron. vi, 33, Zech. vi, 14.

HEPHER. (*Yr hwn sydd yn ceisio*) Tad Salphaad, Num. xxvi, 33. Y mae yn gweddu i bawb geisio Duw â'u holl galon, a'i geisio tra y gellir ei gael, a galw arno tra fyddo yn agos. *Ceistiwoch yr hwn a wnaeth y saith seren ac Orion, yr hwn a drŷ gysgod angau yn foreu ddydd.* Y mae ceisio Duw yn cynnwys y pethau canlynol: 1, Ein bod wrth natur yn ymddifad o hono; sef yn estroniaid oddiwrth ammodau yr addewid, heb obaith genym, ac heb Dduw yn y byd, Eph. ii, 12. 2, Teimlad o'n hangen o hono. *Sychedig yw fy enaid am y Duw byw*, Jer. l, 4. 3, Ein bod wedi dyfod i'w weled yn werthfawr, a bod pob peth arall yn rhy fach i'n gwaradu a'n gwneud yn ddedwydd: diau mai gwaith ofer yw disgwyl am help o'r bryniau, ac o liaws y mynyddoedd. *At bwy yr awn ni? genyt ti y mae geiriau y bywyd tragwyddol.* Diau ei bod yn amser i ni i geisio yr Arglwydd: Hos. x, 12, *Y mae yn amser i geisio yr Arglwydd.* 1, Dylem ei geisio yn amser ieuengctid. *Cofia yn awr dy Greawdwr, yn nyddiau dy ieuengctid.* 2, Dylid ei geisio yn amser iechyd: amser tlawd i ymfyn am grefydd yw ar wely cystudd. O ceisiwch yr Arglwydd cyn y delo'r dyddiau blin. 3, Dylid ei geisio yn amser bywyd, a thra y byddo dydd gras yn para. *Wele yn awr yr amser cymeradwy; wele yn awr ddydd yr iachawdwriaeth.* Dylem ei geisio yn ystafell myfyrdod, yn y gair a'r ordinhadau,

ac wrth orseddfainge gras, yn ddirgel ac yn gyhoeddus: dylem ei geisio yn ddiwyd, yn daer, yn hiraethlon, yn fwy na dim arall, ac â'n holl galon.

HEPHSIBAH. (*Fy hyfrydwch neu fy ewylllys sydd ynddi.*)—Hermon, *distryw* neu *ddisfrod*, enw mynydd.—Hesbon, *meddwl*, enw dinas.—Heth, *dychryn*, mab Canaan.—Hezeciah, *nerth yr Arglwydd*, neu *cadarn yn yr Arglwydd*.—Esay lxii, 4, Salm cxxxiii, 3, Jos. xiii, 17, Gen. x, 15, 2 Bren. xviii, 19.

HIEL. (*Duw yn fyw*) 1 Bren. xvi, 34. Y mae Duw Israel yn fyw, yn Dduw byw ac yn Frenin tragywyddol: y mae yn cael ei alw yn Dduw byw mewn cyferbyniad i ailunod meirwon, ac am ei fod yn ffynon bywyd ynddo ei hun, ac yn rhoddi bywyd i'w greaduriaid.

HILCIAH. (*Yr Arglwydd yw fy rhan*) 2 Bren. xviii, 18. Y mae Duw yn rhan ag a gyflawn foddiona yr enaid, ac a'i gwna yn gyfoethog dros dragywyddoldeb.

HINNOM. (*Y maent yao.*)—Hiram, *derchafad bynyd*, brenin Tyrus.—Hobab, *anwyl*, mab Jethro.—Hodafiah, *yr Arglwydd yw fy mohant*, gwr o lwyth Manasseh.—Hoglah, *gwledd*, merch Salphaad.—Jer. vii, 31, 2 Sam. v, 11, Num. x, 29, 1 Cron. v, 24, Num. xxvi, 33.

HOFAM. (*Gwae iddo*) Brenin Hebron, Jos. x, 3. Gellir dywedyd am bob dyn annuwiol fel y dywed y profiwyd, *Gwae'r anwir, drwg fydd iddo*: gwae fydd iddo yn angen, yn y farn, ac i dragywyddoldeb; bydd yn cael ei boeni yn ngolwg yr angylion sanctaidd, ac yn ngolwg yr Oen; ac ni chaiff orphwysdra ddydd na nos yn oes pesoedd.

HOPHNI. (*Yr hun sydd yn cysgodi*) Mab Eli yr offeiriad ydeedd. Fe ddywed yr egtwys, yn llyfr y Caniadau, am Grist, ei fod fel pren afalau yn mysg prenau'r coed, a bod yn dda ganddi eistedd dan ei gysgod ef, a bod ei firwyth yn felus i'w genau: y mae cysgod yn Nghrist yn wyneb temptasiynau y diafol, a rhag euogrwydd eydwybod, ac yn wyneb erlid a gwg

y byd, ie, y mae cysgod yn Nghrist rhag mellithion y ddeddf a digofaint Duw. 1, Y mae cysgod yn ei gariad: caru y mae efe y bobl, ac y mae yr holl saint yn ei law. 2, Y mae cysgod yn ei gyfiawnder: dywed Paul, A'm caer ynddo ef, heb fy nghyfiawnder fy huu, yr hwn sydd o'r ddeddf. 3, Y mae cysgod yn ei allu. *Y rhai trwy allu Duw ydych gadwoedig.* 4, Mae cysgod yn ei gyfamod. *Y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symdant; ond fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyf, a chyfamod fy hedd ni sylf, medd yr Arglwydd.* 5, Y mae cysgod yn ei ffyddlondeb i'w addewidion. 6, Y mae cysgod yn ei waed, ei aberth, a'i haeddiant anfeidrôl.

HOR. (*Derchafiad.*) Mynydd lle y bu Aaron farw.—Horeb, *aniaf*, mynydd yn Arabia.—Hortonaim, *cyn-ddeiriogrwydd*, dinas yn ngwlad Moab.—Hosama, *yr hon a waredwyd*, mab Jeconiah.—Hosaiah, *yr Arglwydd yw fy achubwr.*—Hosan, *dingelwch*, dinas yn rhandir Aset.—Num. xx, 23, Esay xv, 5, 1 Cron. iii, 18, Neh. xii, 32, Jos. xix, 29.

HOSANNA. (*Atolwg, achub yn awr*) Salm cxviii, 25. Y mae yn gweddu i bawb o honom weddio'n daer gyda Dafydd, gan ddywedyd, *Atolwg, Arglwydd, achub yn awr; atolwg, Arglwydd, par yn awr lwyddiant.* 1, Dylem weddio am lwyddiant yn awr, am fod y gogoniant yn awr bron ymadael o lawer eglwys. 2, Am fod Sion yn awr bron digaloni. 3, Am fod y gelnyion yn awr bron myned i orfoleddu, gan ddywedyd, *Dyma Sion, yr hon nid oes neb yn ei cheisio.* 4, Am fod dynion yn awr yn agored i farw a myned i'r farn sawr. 5, Am nas gwyddom a gawn ni gyflê i weddio byth at ol yr awt hon. *Wete, yn awr yw yr amser cymeradwy; wete yn awr ddydd yr iachawduriath.*

HOSEA. (*Iachawdur*) Proffwyd euwog ydoedd.—Hothir, *rhagorol*, mab Heman.—Huldah, *y byd*, neu *darfoledig*, proffwydes, gwraig Salura, 1 Cron. xxv, 4, 2 Bren. xxii, 14.

HUSAI. (*Yn atfal ei dasod.*) Cyfaill ffyddlon i Dafydd ydoedd, 2 Sam. xv, 37. Fe fyddai yn dda iawn

pe byddai llawer yn attal eu tafodau mewn llawer lle. 1, Y mae yn gweddu i bawb attal eu tafod rhag cablu enw yr Arglwydd. 2, Attal eu tafod rhag tyngu a rhegu, a llwon affan ac anllad. 3, Attal eu tafod rhag difenwi, enllibio, ac erlid eu cymydogion. 4, Rhag dywedyd celwydd a thwylo eu cymydogion. 5, Rhag gwneitho, rhagrithio, a derbyn wyneb er mwyn Ladd. 6, Fe ddylai pawb attal eu tafod rhag dywedyd llawer o eiriau gwael yn eu gweddiau, a bod yn siaradus ger bron y Duw holl-wybodol.

HYMENEUS. (*Priodol.*) Un a draddododd Paul i Satan am wadu yr athrawiaeth o adgyfodiad y meirw. Y mae gwadu yr athrawiaeth bwysig hon yn taro yn erbyn sylfaen y grefydd Gristionogol, oblegid "os y meirw ni chyfodir, ni chyfodwyd Crist chwaith; ac os Crist ni chyfodwyd, ofer yn wir yw ein pregeth ni, ac ofer hefyd yw eich ffydd chwithau. Ond yn awr Crist a gyfodwyd oddiwrth y meirw, ac a wnaed yn flaenffwrth rhai a hunasant."

Rwyf fi yma yn galaru, ac yn ofni lawer gwaith
 Mai diffygio wnaif gan wendid, cyn cyrhaeddyd pen fy nhaith;
 Ond wrth edrych tua Chalfaria, mi anturia etto'n mla'n,
 Y mae digon yn yr aberth, yn mhob trafferth, fawr a mân.
 Aberth Iesu ar Galfaria, yw fy noddfa ddiogel law'n,
 Yma'r wyf am lechu beunydd, o foreuddydd hyd brydnawn;
 Gwaed yr Oen yw sail fy heddwch, a'm dedwyddwch uwch y nen.
 Gwaed yr Oen yw'm holl orfoledd, a'm tangnefedd, byth. Amen.

JAAZANIAH. (*Yr hwn a wrendy'r Arglwydd*) 2 Bren. xiv, 23. Mae yn sicr fod gweddio yn ddyledswydd: 1, Y mae gweddio yn cael ei orchymyn yn fynych yn ngair Duw, Jer xxxiii, 3, Mat. vii, 7, Rhuf. xii, 12, Eph. vi, 18. 2, Arfer duwiolion yn mhob oes yw gweddio: arfer y patriarchiaid, Moses, Josua, Dafydd, a'r holl dduwolion oedd gweddio yn feunyddiol. *Pob duwiol a weddia arnat ti yn yr amser y'th geffir.* 3, Y mae pethau mawrion wedi cael eu gwneuthur mewn attebiad i weddi, Iago v, 17. 4, Mae Duw wedi addaw gwrando gweddï, Salm l, 15, Mat. xviii, 19, Ioan xiv, 13. Ond mewn trefn i ni gael gwrandawriad o'n gweddïau, 1, Y mae yn ofynol i ni weddio â'n holl galon, Deut. iv, 9,

Mat. vi, 5. *Ceisiwch fi*, medd yr Arglwydd, *a chwi a'm ceiwch*, *pan y'm ceisioch a'ch holl galon*. 2, Mae yn ofynol i ni weddio yn enw Iesu Grist; sef er mwyn ei iawn anfeidrol ef, a'i fendigedig eiriolaeth, Ioan xiv, 13, 14. 3, Dylem weddio gyda galar duwiol am ein holl bechodau, Zech. xii, 10, 14, Joel ii, 17. 4, Dylem weddio gyda gostyngedd rwydd a hunan-ymwadiad mawr, a'n genau yn y llwch ger bron yr uchel Dduw, Luc xviii, 13. 5, Gydâg ymddarostyngiad boddlongar i ewyllys y bendigedig Dduw, Mat. vi, 10, a xxvi, 39. 6, Dylem weddio mewn yspryd a thymher faddeugar i'n cymydogion a'n cyd-greaduriaid, Marc xi, 25, 26, 1 Tim. ii, 8. 7, Gydâ diolchgarwch mawr i'r Arglwydd am ei ryfedd ddaioni tuag attom, Phil. iv, 6. Eph. v, 20, Col. iii, 17. 8, Mewn ffydd o ymorphwysiad ar Grist, Iago i, 6, 7. 9, Dylem weddio yn ddibaid ac oddiar iawn ddibenion, 1 Thes. v, 17, Luc xviii, 1, Iago iv, 3. 10, Dylem weddio trwy gymhorth yr Yspryd Glân, Rhuf. viii, 26, Judas 20.

JAAZIAH. (*Nerth yr Arglwydd*) Mab Merari, 1 Cron. xxiv, 26. Y mae anfeidrol nerth yn yr Arglwydd, ac y mae yn rhoddi nerth i'r diffygiol, ac yn amlhau cryfder i'r rhai dirym. *Yr Arglwydd yw nerth fy mywyd, rhag pwy y dychrynaf?*

JABAL. (*Ymlithro*) Mab Lamech, Gen. iv, 20. Y mae yn alarus meddwl fod llawer yn ymlithro i bechodau gwaradwyddus, ac yn encilio oddiwrth achos Duw. Yr achos o wrthgiliad yw y pethau canlynol: 1, Balochder calon a hunan-dŷb, Diar. xvi, 18, a xii, 2, a xviii, 12. 2, Syniadau cnawdol mewn crefydd, Ioan vi, 66. 3, Cariad gormodol at y byd a phethau darvoudedig, 1 Tim. vi, 10, 2 Tim. iv, 10, Deut. xxxii, 15. 4, Canlyn o hirbell fel Pedr, Mat. xxvi, 58. 5, Esgeuluso'r weddi ddirgel, a chyfrinachu â Duw mewn dirgel fanau. O! cadwer ni oll gyda'r weddi ddirgel, onid è ni bydd fawr o lewyrch arnom mewn modd cyhoeddus.

JABIN. (*Deallus*) Brenin Hasor.—Jabes, *gofid neu dristwch*.—Jabneel, *adeiladaeth Duw*, enw dinas.—

Jabne, *adeiladydd*, dinas yn llwyth Dan.—**Jacan**, *gorthrymder*.—**Jacim**, *ymgyfodwr*.—**Jacin**, *cadernid*.—**Jacob**, *disodlwr*.—**Jada**, *gwybodus*.—**Jadai**, *fy llaw*.—**Jael**, *esgyn*, gwraig Heber.—**Jafan**, *twyllwr*.—**Jos.** xi 1, 1 Cron. i, 9, Jos. xix, 33, 2 Cron. xxvi, 6, Deut. x, 6, 1 Cron. xxiv, 12, Num. xxvi, 12, 1 Cron. ii, 28, Ezra x, 43, Barn. iv, 21, Gen. x, 2.

JAH. (*Tragywyddol*) Salm lxviii, 4. *Dyrcheffoch yr hwn sydd yn marchogaeth ar y nefoedd, a'i enw yn Jah.* Y mae Duw, 1, Yn dragywyddol ddiiddechreu, Salm xciii, 2, Hab. i, 12. 2, Y mae pob peth a berthyn iddo yn dragywyddol; sef ei arfaeth, ei gariad, ei drugaredd, ei allu, ei gyfamod, a'i lywodraeth, Eph. iii, 11, Jer. xxxi, 3, Salm ciii, 17, Essay liv, 8, Dan. vii, 14. 3, Mae Duw yn dragywyddol ddiiddiwedd, Heb. i, 12. 1, Gwelwn mor wael yw dyn a phob dynol atdderchawgrwydd, wrth ei gydmaru â'r Duw tragywyddol. 2, Mor fawr yw drwg pechod: y mae yn drosedd yn erbyn Bod tragywyddol dda. 3, Mor fawr yw trueni yr annuwiolion; sef bod o dan weithigofaint y Duw tragywyddol byth. 4, Mor fawr yw gwynfyd y saint yn y nef; sef yn mwynhau cymdeithrdd â'r Duw tragywyddol, heb un cwmwl byth. O! mawr ni oll o feddyliau mawr am wrthryeh ein haddoldd.

JAHAS. (*Cynnon neu ymrasael*).—**Jahir**, *dieithr*, enw dinas.—**Jahath**, *dryllwr*.—Num. xxi, 43, Jos. xv, 21, 1 Cron. vi, 20.

JAIRUS. (*Un wedi ei oleuo*) Marc v, 22. Y mae'r duwiolion wedi cael eu goleuo i raddau i weled drwg pechod, i weled manyldra ac ysprydolrwydd y ddeddf yn ei gofyniadau, i weled gwagder y byd a gwerth enaid: ie, y maent wedi cael eu goleuo i weled gogoniant Crist a gwerth crefydd a duwioldeb; fe all pob Cristion ddywedyd, *Lle yr oeddwn i yn ddall yr wyf yn awr yn gwelod*: y maent wedi cael eu troi o dywyll- i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw.

JAMBRES. (*Gwrthryfelgar*)—**Japheth**, *teg, hareddgar*, neu *helaethu*, mab Noah.—**Janohab**, *yr hwn sydd*

yn *gorphwys*, dinas yn Ephraim.—Jason, *iachawr*, *meddyg*.—Ichabod, *pa le y mae'r gogoniant?*—Idumea, *cock*, *priddlyd*.—Jebus, *dirmygu*, *sathru*.—2 Tim. iii, 8, Gen. x, 21, Jos. xvi, 6, 1 Sam. iv, 21, Marc iii, 8, Barn. xix, 10.

JECONIA. (*Cyflawniad neu anghyfnewidiolder yr Arglwydd*) Jer. xxiv, 1. 1, Y mae yr Arglwydd yn anghyfnewidiol o ran ei briodoliaethau; y mae efe yr un o ran ei allu, ei ddoethineb, ei wybodaeth, ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, a'i ddaioni. 2, Y mae yn anghyfnewidiol o ran ei gynghor, ei ewylllys, a'i fwradau. *Cynghor yr Arglwydd a saif yn dragywydd a meddyliâu ei galon o genedlaeth i genedlaeth.* Esay xvi, 10, Salm xxxiii, 11. 3, Mae yn anghyfnewidiol o ran ei drigfan: nid yw yn bosibl iddo symud o'r naill fan i'r llall fel y gwna creaduriaid, Jer. xxiii, 24. 4, Y mae yn anghyfnewidiol o ran ei ddedwyddwch a'i ogoniant, Job xxxv, 6, 7. Oddiwrth hyn dysgwib, 1, Mor anhebyg yw dyn i Dduw: mae dyn yn anwadad a chyfnewidiol iawn, ond y mae Duw yn ddigyfnewid. Exod. viii, 28, 32, Eph. iv, 14. 2, Gwelwn mor ofnadwy yw cyflwr yr annuwiol: y mae Duw yn ddigllon beunydd wrtho. 3, Gwelwn fawr fraint y dynion duwiol: pwŷ bynag a wnelo gyfnewid, y mae eu cyfaill goreu yn para yr un, yn ddigyfnewid, ac yn ffyddlon i w hall addewidon.

JEDIAIAH. (*Gwybodaeth yr Arglwydd*) 1 Cron. xxiv, 7. Y mae Duw yn holl-wybodol, 1, Fe wyr am bob dirgelwch sydd yn ei hanfod ei hun. 2, Fe wyr am bob peth sydd wedi myned heibio, Esay xlii, 22. 3, Y mae yn holl-wybodol o bob peth sydd yn bresenol, Heb. iv, 13. 4, Y mae yn holl-wybodol o bob peth sydd etto i ddyfod, Esay xlii, 10.

JEDIDAH. (*Hawddgar neu anwyl gan yr Arglwydd*)—Jeduthun, *rhoddi clod*.—Jehaziel, *yr hwn sydd yn goaled Duw*.—Jehalefeel, *mafiannydd Duw*.—2 Bren. xxii, 1, 1 Cron. xvi, 42, 1 Cron. xxiii, 19, 1 Cron. iv, 16.

JEHDAH. (*Un Arglwydd*) Mab Subael, 1 Cron. xxiv, 20. Mae yn sicr nad oes ond un gwir a bywiol Dduw. I, Mi gaf brofi hyn trwy ysgrythurau. Deut. vi, 4; *Clyw, O Israel; Yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd.* Gwybydd gan hynny heddw, ac ystyria yn dy galon, mai'r Arglwydd sydd Dduw yn y nefoedd oddi arnodd, ac ar y ddaear oddi tanodd; ac nid neb arall, Deut. iv, 39, 2 Sam. vii, 22. *Eithr yr Arglwydd ydyw'r gwir Dduw, efe yw'r Duw byw, a'r Brenin tragwyddol: rhug ei lid ef y crynfa'r ddaear, a'r cenedloedd ni allant ddioddef ei soriant ef.* Jer. x, 10. *Hyn yw'r bywyd tragwyddol; iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonast ti, Iesu Grist, Ioan xvii. 3. Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu.* 1 Tim. ii, 5, Rhuf. iii, 30, 1 Cor. viii, 6. II, Mi gaf brofi nad oes ond un, trwy resymau. 1, Y mae'r Duw byw yn anfeidrol, yn llenwi'r nef a'r ddaear ar yr un waith; yn ganlynol nid oes le i ddau fod anfeidrol; gan hynny nid oes ond un Duw. 2, Duw yw'r daioni penaf; *Nid oes neb da ond un, sef Duw;* yn ganlynol nid oes ond un Duw. 3, Y mae yn holl-gyfoethog, ac yn perchenogi pob peth, ac nid oes gan neb arall hawl i ddin heb ei genad ef, ac yn gyfrifol iddo am bob peth; yn ganlynol nid oes ond un Duw. 4, Mae'r gwir Dduw yn gofyn cael ei garu a'r holl galon, a'r holl enaid, a'r holl feddwl, ac a'r holl nerth; nid oes modd caru un arall hefyd a'r holl galon; yn ganlynol nid oes ond un Duw. 5, Mae'r gwir Dduw yn Ben-Arglwydd ar bob peth; yn ganlynol nid oes le i ddau Ben-Arglwydd, gan hynny nid oes ond un Duw. 1 Cron. xxix, 11, 12, *I' deyrnas sydd eiddot ti, Arglwydd, yr hwn hefyd a ymddyrchfaist yn ben ar bob peth; cysoeth hefyd ac arhydedd a ddeuant oddi wrthyt ti, a thi sydd yn arglwyddiaethu ar bob peth, ac yn dy law di y mae nerth a chadernid.* Addysgiadau: 1, Gan nad oes ond un gwir Dduw, nis gall fod ond un gwir grefydd: *Un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad oll:* y mae mor beryglus i ni osod i fynu gau-grefydd a gau-ddawiau;

y mae llawer llwybr i fyned i uffern, ond nid oes ond un ffordd i'r nef. 2, Gan nad oes ond un gwir Dduw; ein gorchwyl penaf ddylai fod ymdrechu ei ogoneddu a rhyngu ei fodd ef. 3, Gan nad oes ond un gwir a bywiol Dduw, ffolineb a phechod mawr yw addoli amryw dduwiau: y mae rhai yn addoli yr haul, ereill yn addoli'r ser, ac ereill yn addoli'r lleuad: ond i ni nid oes ond un gwir a bywiol Dduw. 4, Gan nad oes ond un gwir a bywiol Dduw, nid oes neb arall yn deilwng wrthrych gweddi. 5, Gan nad oes ond un Duw, gwelwn mai mawr yw trueni y rhai sydd yn gwadu y Duw hwn; y maent yn gwadu unig ffynon dedwyddwch creadur rhesymol. 6, Gan nad oes ond un Duw, diolchwn am gael datguddiad eglur o hono, a chwiliwn am gael adnabod hawl ynddo. *Amen.*

JEEZER. (*Ynys y cymhorth*) Mab Gilead ydoedd.—*Jehiah, byw yw'r Arglwydd.*—*Jehiel, Duw a'i cym-erodd, tad Gibeon.*—Num. xxvi, 30, 1 Cron. xv, 24, 1 Cron. ix, 35.

JEHOFA-JIRE. (*Yr Arglwydd a edrych, neu a-ddarpara*) Gen. xxii, 14, *Ac Abraham a alwodd enw y lle hwnw Jehofa-Jire; fel y dywedir heddyw, Yn mynydd yr Arglwydd y gwelir.* Yma mi sylwaf ar-ddau beth. I, Fod yr Arglwydd wedi darparu pethau mawrion i'w bobl. II, Fod darpariadau Duw yn gwbl ac yn hollol addas ar gyfer pechaduriaid. I, Fod yr Arglwydd wedi darparu pethau mawrion i'w bobl. 1, Fe ddarparodd Gyfryngwr; 1 Tim. ii, 5, *Ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion: sef rhyngom a'i danlyd gyfiawnder, rhyngom a'i darapol gyfraith, rhyngom a'i ddiaglair sancteiddrwydd, rhyngom a chafodydd o ddwyfol soriant, a chenllysg meltith a dig-ofaint.* 2, Fe ddarparodd Felchiau. *Ar destament gwell o hynny gwnaethpwyd Iesu yn Fackniydd.* Fel machmydd, fe wyddai Iesu dros bwy yr oedd yn ymrwymo, fe wyddai hefyd faint oedd y dyled, ac fe wyddai fod ganddo ddigon o fodd i dalu, ac fe foddlonodd roi ei law wrth y llyfrau oedd yn ein gofyn ni; fe

foddlonodd i'r gyfraith ymaflyd ynddo, ac yn nghyflawnder yr amser fe dalodd y dyled i gyd â gwaed ei galon ei hun. 2, Fe ddarparodd aberth: sef aberthi gymodi, aberth i buro, aberth i ddadleu trosom yn llys y nef. *Gwaed y taenelliad, yr hon sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel.* 4, Fe ddarparodd noddfa: Iesu yw y noddfa: y mae yn noddfa ddiddos, ac yn noddfa gadarn a diogel. O! fy enaid, ffo iddi, i gael bod yn ddiogel rhag dialydd y gwaed. 4, Fe ddarparodd deyrnas dragywyddol ar fedr pawb a'i carant. II, Fod darpariadau Duw yn gwbl ac yn hollol addas ar gyfer pechaduriaid. 1, Mae dyn wrth natur yn hollol dlawd; ond mewn Cyfryngwr fe ddarparwyd digon o gyfoeth ar ei gyfer: rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder yn Iesu Grist. 2, Mae dyn wrth natur yn noeth, heb ddim cyfiawnder gwreiddiol; ond mewn Cyfryngwr fe ddarparwyd gwisg addas iddo, yn yr hon y gall gymdeithasu â Duw byth:

"Gwisg nid â'n hen, o llain gwyn a glân;

"Ca'i 'nghadw yn hon, rhag gwreichion uffern dân."

3, Mae dyn wrth natur heb ddim ymborth addas i'r enaid; ond mewn Cyfryngwr fe ddarparwyd gwledd ddanteithiol a chyflawn ar ei gyfer. 4, Y mae dyn wrth natur yn llawn afiechyd, clwyfau, ac archollion, trwy bechod; ond mewn Cyfryngwr fe ddarparwyd meddyginiaeth addas ar ei gyfer: y mae dail y pren yn iachau y cenedloedd. 5, Mae dyn wrth natur yn llawn o aflendid; ond mewn Cyfryngwr fe ddarparwyd ffynon i'w olchi yn berffaith lân. Diolch i Dduw am y drefn ogoneddus hon.—*Yn mynydd yr Arglwydd y gwelir.* Yn awr mi gaf gyfeirio eich meddwl i bedwar mynydd, lle y cewch weld llawer o ryfeddodau. 1, Deuwch i roi tro i fynydd Sinai, i edrych ar y dull rhyfedd y rhoddwyd y gyfraith yno. 1, Fe'i rhoddwyd ar lechau cerig, i ddangos ei pharhad, ac i ddangos pa mor galed yw calon pechadur lle y dylasai hi fod, ac nad oes ond bys Duw hollalluog a all ei hysgrifenu ar galon pechadur; ond y mae efe wedi addaw gwneud hyn. 2, Fe'i rhoddwyd hi ar ddwy o lechau, i ddangos fod a wnelom

ni mewn pwngce o ddyledswydd â dwy blaid; sef â Duw ac hefyd â'n cyd-greaduriaid: gofyniad mawr y gyfraith yw, Car yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, a'th gymydog fel ti dy hun. 3, Fe'i rhoddwyd mewn modd dychrynlyd, sef mewn tân mawr yn cynneu hyd entrych nef, i ddangos fod y gyfraith yn daallwyth o felltithion ar gyfer ei throseddwyr, a bod tragywyddol dan yn aros ei holl sathrwr a'i dirmygwyr tu draw i'r bedd. 4, Fe'i rhoddwyd mewn cwmwl a thywyllwch: yr oedd y mwg yn dyrchafu fel mwg ffwrn hyd entrych awyr, i ddangos tywyllwch yr oruchwyliaeth hono, a bod tragywyddol dywyllwch yn aros dynion annuwiol yn y byd tragywyddol. 5, Yr oedd y mynydd i gyd yn crynu, i ddangos fod tragywyddol gryndod, aeth, a braw, yn aros troseddwyr y gyfraith, oddieithr iddynt ffoi i Galfaria yn nydd gras, i ymofyn diogelwch i'w heneidiau. II, Deuwch i Galfaria, yno cewch weled rhyfeddodau: wele gyfiawnder yn cael perffaith iawn, yn y natur a'i hanfoddlonodd; wele'r gyfraith yn cael perffaith anrhydedd, yn y natur a'i dianrhydeddodd; wele ffynon bendithion o dan y melltithion mwyaf, fel y caem ni dra gwyddol fendithion; wele ffynon goleuni a Haul y Cyfiawnder yn marw dan y cwmwl, fel y caem ni farw yn ngoleu yr haul; wele'r bywyd tragywyddol yn marw mewn gwaed, fel y cai miloedd o farwolion fywyd tragywyddol yn ngwlad yr hedd; wele'r diafol hefyd yn cael ei orchfygu, a dyled Sion yn cael ei dalu i gyd. III, Deuwch hefyd i roi tro i fynydd Sion, sef i eglwys Dduw ar y ddaear: yma chwi gewch weled ysgolheigion y nef yn cael eu dysgu; cleifion yn cael eu meddyginaethu; a phererinion Caersalem yn cael ymgeledd ar eu taith. IV, Deuwch i roddi tro yn eich myfyrdodau i fryn y thus, neu i fryniau gogoniant y nef: yno chwi gewch weled rhai a fu yn ddu eu lliw yn berffaith wyn; chwi gewch weled rhai fu yn llawn af-lendid yn berffaith lân; rhai fu yn afiach ac yn llawn clwyfau yn berffaith iach; a rhai fu yn alarus ac yn drist yn mwynhau llawenydd a gorfoledd tragywyddol. O! am addfedrwydd i'r annedde lonydd. *Amen.*

JEHOFA-NISSI. (*Yr Arglwydd-yr fy maner*) Exod. xvii, 15. Y mae Duw yn rhoi baner i'w rai anwyl ef i'w chodi, sef baner yr efengyl, baner y groes: y mae yr efengyl yn faner hen, hawddgar, buddugoliaethus, parhaus, a didreulio; a baner ddychrynlyd i deyrnas y diafol ydyw.

JEHOFA-SALOM. (*Yr Arglwydd a roddo heddwch*) Barn. vi, 24. Y mae Duw, yn Nghrist, yn cymodi'r byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau; ac y mae yn rhoddi heddwch cydwybod; ac y mae wedi addaw llenwi'r byd â thangnefedd.

JEHORAM. (*Derchafiad yr Arglwydd*) 2 Cron. xxi, 13. Fe fu yr Arglwydd Iesu yn isel iawn ei ben unwaith yma yn ein byd ni; ond y mae efe mewn sefyllfa dderchafedig yn bresenol. Y mae derchafiad Crist yn sefyll, 1, Yn ei adgyfodiad oddiwrth y meirw. 2, Yn ei esgyniad i'r nefoedd. 3, Yn ei eisteddiad ar ddeheulaw'r Tad. 4, Yn yr awdurdod gyfryngol sydd ganddo dros bob peth. 5, Yn ei osodiad yn Farnwr byw a meirw.

JEHOIACIM. (*Parottoad neu gadernid yr Arglwydd*) —Jehoiadah, *gwybodaeth yr Arglwydd.*—Jehosaphat, *yr Arglwydd sydd yn barnu.*—Jehu, *efe ei hunan, neu yr hwn sydd yn bod.*—Jennimah, *prydferth fel y dydd, merch Job.*—Jephune, *yr hwn sydd yn gweled neu yn canfod, tad Caleb.*—Jerameel, *trugaredd Duw.*—Jeroboam, *gwrthwynebwyr neu gwrthryfela a'r bobl.*—Jeremiah, *arlderchawgrwydd yr Arglwydd.*—Jehucal, *pob peth o'r Arglwydd, (Pob da o Dduw, a phob drwg o'r creadur.)*—Jephtha, *yr hwn sydd yn agor.*—Jer. xxii, 18, 2 Sam. viii, 18, 1 Bren. iv, 3, 2 Bren. x, 16, Jer. xxxvii, 3, Job xlii, 14, Num. xiii, 6, 1 Cron. xxiv, 29, Jer. xviii, 18, Heb. xi, 32.

JENIEL. (*Ofn Duw*) 2 Cron. xx, 16. Y mae ofn Duw yn cynnwys, 1, Parch sanctaidd i fawredd ac awdurdod Duw, Jer. x, 6, 7. 2, Arswyd sanctaidd rhag pechu yn ei erbyn, Gen. xxxix, 9, Salm iv, 4.

JERUSALEM. (*Gweledigaeth heddwch, neu ceir gweled tangnefedd*) Fe gâ eglwys Dduw weled tangnefedd mawr yn y mil blynyddoedd; fe fydd heddwch fel yr afon a chyfiawnder fel tonau'r môr. *Yn ei ddyddiau ef y blodeua'r cyfiawn; ac amllder o heddwch fydd tra fyddo llenad.*

JESAJAH. (*Iachawdwriaeth yr Arglwydd*). Mab Hamaniah.—Isanah, *yr hwn sydd yn cysgu*, dinas yn Ephraim.—Jesebeab, *trigfan y tad*.—Jeser, *uniawn*, mab Caleb.—Jesse, *rhodd neu aberth*, tad Dafydd.—1 Cron. iii, 21, 2 Cron. xiii, 19, 1 Cron. xxiv, 13, 1 Cron. ii, 18, Ruth iv, 17.

JESURUN. (*Uniawn neu uniondeb*) Esay xlv, 2. Enw ydyw ag sydd yn oael ei roddi ar y genedl Iuddewig, i ddangos eu bod yn gwasanaethu Duw wrth reol uniawn, a bod llawer o honynt yn meddu ar egwyddor uniawn, ac yn Israeliaid yn wir yn y rhai nid oedd twyll.

IESU. (*Gwaredwr neu achubwr*) Mat. i, 21, *Gelwi ei enw ef Iesu; oblegid efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau.* Y mae efe yn gwaredu ei bobl oddiwrth euogrwydd pechod, neu oddiwrth ddigofaint Duw a melltithion y ddeddf, mewn cyfiawnhad; y mae yn gwaredu oddiwrth arglwyddiaeth pechod, yn mhlamad yr anian newydd, yn yr ail-enedigaeth; ac fe wared ei bobl yn llwyr oddiwrth holl effeithiau pechod, yn moreu yr adgyfodiad a'r farn dragywyddol. *O law y bedd yr achubaf hwynt, oddiwrth anghydwylled y gwaredaf hwynt: byddaf anghydwylled i ti, O anghydwylled; byddaf drwg i ti, y bedd.* Y mae Crist yn Waredwr hollalluog ac o ddwyfol osodiad, ac hefyd yn Waredwr ewyllysgar.

JETHER. (*Yr hwn sydd yn rhagori*) Mab Gedeon. Nid oes neb yn rhagori ar Grist, oblegid y mae efe oll yn hawddgar: ond fe ddywed Solomon fod y cyfiawn yn rhagori ar ei gymydog: diau fod y duwiol yn rhagori yn mhell ar yr annuwiol: nid yw yn rhagori o ran defnydd ei gorph, nac o ran natur cynneddfau yr enaid; nid yw yn rhagori o ran cyfoeth a thrysorau daear:

ond, 1, Y mae yn rhagori o ran ei gyflwr ger bron Duw; y mae mewn cyfamod â Duw ac yn ei heddwch: ond y mae Duw yn ddigllon beunydd wrth yr annuwiol. 2, Y mae yn rhagori o ran cysur a llawenydd. 3, Y mae yn rhagori o ran cyfoeth a thrysorau ysprydol; y mae yn meddu ar elw duwioldeb, ac ar y perl o uchel bris. 4, Y mae yn rhagori o ran perthynasau ysprydol; y mae Duw yn Dad iddo, a Christ yn Briod iddo. 5, Y mae yn rhagori o ran ei etifeddiaeth dragywyddol; sef etifeddiaeth anllygredig, ddihalogedig, ddiddiflan-nedig, ac yn nghadw iddo yn y nefoedd.

JETHRO. (*Rhagoriaethau*) Chwegrwn Moses, Ex. iii, 1. Y mae amrywiaethau o ragoriaethau yn cyfarfod yn mherson y Cyfryngwr. 1, Anfeidrol uchelder ac anfeidrol ddarostyngiad. 2, Anfeidrol gyfiawnder ac anfeidrol drugaredd. 3, Anfeidrol ogoniant ac anfeidrol ostyngieiddrwydd. 4, Anfeidrol fawrhydi ac anfeidrol addfwynder. 5, Anfeidrol deilyngdod i haeddu pob parch, ac anfeidrol amynedd i ddiodef pob anmharch. 6, Anfeidrol lywodraeth ac anfeidrol ufudd-dod. 7, Anfeidrol ben-arglwyddiaeth, a hollol ymostyngiad i ewyllys ei Dad.

JESANIAH. (*Yr hwn y mae yr Arglwrdd yn ei wrando*) Jer. xlii, 1. Y mae yr Arglwydd yn Wrاندawr gweddi, ac y mae yn edrych ar weddi'r gwael; y mae yn gwrando uchenaid y carcharorion, ac yn rhyddhau plant angeu.

JEZER. (*Cystuddiol.*) Mab Naphtali, Gen. xlvi, 24.

JEZRAHIAH. (*Cyfodiad disglæer yr Arglwydd*) Blaenor y cantorion yn yr ail deml: ond fe fydd dyfodiad brenniaethol yr Imanuel yn ddisglæer iawn; yn ngalwad yr Iuddewon, yn ninystr Babilon, yn nilead y gau broffwyd, ac yn y sancteiddrwydd cyffredinol a fydd i'w weled yn y mil blynnyddoedd: ond yn neifl duol y moreu'r farn, pan y byddo Iesu yn dyfod yn ei ogoniant ei hun a'r Tad, a'r holl angylion sanctaidd gydâg ef.

JEZREEL. (*Had neu fraich Duw*) Hos. i, 4.

IFAH. (*Anwiredd*)—Igal, yr *hwn a brynwyd*, mab Joseph.—2 Bren. xix, 13. Num. xiii, 7.

IGDALIAH. (*Mawredd yr Arghwydd*) Jer. xxxv, 4, Y mae anfeidrol fawredd yn perthyn i Dduw'r nefoedd; y mae yn fawr yn ei holl briodoliaethau, sef yn ei allu, ei ddoethineb, ei gariad, a'i drugaredd; yn fawr yn ei holl weithredoedd, sef yn ngwaith y greadigaeth, rhagluniaeth, a phrynedigaeth.

ILYRICUM. (*Llawenydd*) Enw gwlad yn Ewrop.—Imla, *llawnder*, tad Michea.—India, *hardd* neu *moliant*.—Ioan, *gras* neu *rodd Duw*.—Job, *wylwr*, neu *goddef gelyniaeth*.—Jocdeam, *darostyngiad y bobl*, dinas yn India.—Jocmeam, *derchafiad y bobl*, dinas yn rhandir Ephraim.—Jocneam, *meddiant y bobl*, dinas yn India. Y mae yn rhaid i ddynion gael eu darostwng o'u balchder cyn iddynt gael eu derchafu i gymdeithas a Duw; ac y mae yn rhaid iddynt gael eu derchafu i'r nef cyn iddynt gael meddiant cyflawn o'r etifeddiaeth dragwyddol.—Rhuf. xv, 19, 2 Cron. xviii, 8, Esther i, 1, Jos. xv, 56, 1 Cron. vi, 68, 1 Bren. iv, 12.

JOACIM. (*Adgyfodiad yr Arghwydd*) 2 Bren. xxiii, 34. Y mae yn wirionedd diameuol fod yr Arglwydd Iesu Grist wedi adgyfodi oddiwrth y meirw: y mae y pethau canlynol yn profi hyn: 1, Tystiolaeth angylion, Luc xxiv, 6. 2, Tystiolaeth gelynion, Mat. xxviii, 11. 3, Tystiolaeth yr apostolion, yn ol iddo ymddangos iddynt lawer gwaith wedi iddo adgyfodi, Act. x, 40, 41. 4, Tystiolaeth yr Yspryd Glân, a'i waith yn arddel yr apostolion ac yn eu cynnorthwyo i wneud gwyrthiau yn ei enw, a newidiad y Sabbath o'r dydd diweddf i'r dydd cyntaf o'r wythnos, Act. v, 31.

JOACHAZ. (*Yr hwn sydd yn gweled*) Mab Josiah, brenin Juda, 2 Bren. xxiii, 30. Y mae pob Cristion duwiol, 1, Yn gweled drwg mawr mewn pechod. 2, Yn gweled gwerth mawr mewn crefydd a duwioldeb. 3, Yn gweled gogoniant ac ardderchawgrwydd mawr yn Iesu Grist, fel Ceidwad addas.

JOAH. (*Y farwolaeth*) 2 Cron. xxxiv, 8. Y farwolaeth ysprydol, a ddaeth i mewn trwy godwm Eden, sydd wedi ymdaenu dros yr holl fyd: y farwolaeth ryfeddol a fu ar Galfaria sydd yn rhinweddol i gymodi y penaf o bechaduriaid â Duw: y farwolaeth dragwyddol a ddeil holl ddiystyrwyr yr efengyl yn y byd sylweddol tu draw i'r bedd. O mor ddychrynlyd fydd y farwolaeth hon.

JOSAN. (*Anhawsdra*) Mab Abraham.—Joctan, *bychan*, mab Heber.—Jocteel, *cynnulleidfa Duw*, dinas yn Juda.—Jochebed, *anrhydeddus*, merch Lefi a mam Moses.—Joel, *yr hwn sydd yn ewyllysio*, proffwyd enwog i'r Arglwydd.—Joelah, *derchafedig*, mab Jeroham.—Joezer, *cynnorthwyr*.—Jogbeah, *derchafiad*, dinas yn rhandir Gad.—Johanan, *trugarog*.—Gen. xxv, 2, Gen. x, 25, Jos. xv, 38, Exod. vi, 20, 1 Cron. xii, 7, 1 Cron. xii, 6, 1 Cron. iii, 24.

JONAH. (*Colomen*) Mab Amittai. Y mae'r duw-ionion yn cael eu cydmaru i golomenod yn y Gair: 1, Fel colomenod, y maent yn addfwyn, yn lân, a diniwiad. 2, Fel colomenod, y maent yn amlhau ac yn ffrwythlawn. 3, Fel colomenod, y maent yn cael eu herlid gan adar annuwiol y byd. 4, Y mae llygaid y golomen ar ei chydmar, ac y mae yn trydar ac yn cwynfan wedi ei gollu: felly y mae llygaid y saint ar Grist, ac y maent yn cwynfan ac yn galaru pan y byddont yn colli gwedd ei wyneb. 5, Fel colomenod, y maent yn ehedeg ar adenydd fydd a chariad i'w ffenestri, sef i glwyfau Crist, i ymofyn diogelwch i'w heneidiau.

JONATH-ELEM-RECHOCIM. (*Colomen fud mewn gwlad bell*.) Titl Salm lvi. Felly yr oedd Dafydd, fel colomen fud mewn gwlad bell, pan oedd yn mhilith y Philistiaid dienwaededig, yn mhell oddiwrth foddion gras a chysegr Duw: yr oedd Crist hefyd fel colomen fud mewn gwlad bell, pan oedd yma yn y byd, yn cael ei holi o flaen barnwyr anghyfiawn: ac hefyd y mae y Cristion fel colomen fud mewn gwlad bell, yma yn y byd profedigaethus hwn, ac y mae yn hiraethu yn aml am ddyfod adref i'r orphwysfa nefol,

JONADAB. (*Ewyllysgar, neu weithiwr egniol*) 2 Sam. xiii, 3. Y mae yn ofynol i bob Cristion fod yn ewyllysgar, ac i weithio yn egniol yn ngwinllan Duw: os gweddio, dylai weddio yn ewyllygar â'i holl egni; os yn athraw yn yr ysgol sabbathol, dylai fod gyda hi yn ewyllysgar â'i holl egni; os casglu at y Bibl Gymdeithas, neu at Gymdeithas y Cennadau, neu at gynnal y weinidogaeth sefydlog, dylai wneud hyn yn ewyllysgar â'i holl egni; os cyfranu at gario achos Duw yn mlaen, dylai gyfranu yn llawen ac yn ewyllysgar; os pregethu, fe ddylai bregethu â'i holl egni. *Preg. ix, 10, Beth bynag a ymrafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna a'i holl egni: canys nid oes na gwaith, na dychymyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bedd, lle yr wyt ti yn myned.*

JONATHAN. (*Rhodd yr Arglwydd*) Mab Saul, a chyfaill ffyddlon i Dafydd. Y mae yr Arglwydd wedi rhoddi rhoddion mawr i'w bobl: fe roddes ei Fab i fod yn Iawn dros eu pechodau; y mae yn rhoddi ei Yspryd i'w sancteiddio, a'i air i'w cyfarwyddo; y mae'n rhoddi nerth yn ol y dydd iddynt; ac fe rydd deyrnas nefoedd i bawb a'i carant.

JORDDONEN. (*Afon y farnedigaeth*) Yr oedd yr afon hon rhwng Israel a gwlad Canaan, yn eu hyndaith yno o wlad yr Aipht; felly y mae marw, neu afon angeu, rhyngom minnau a'r Ganaan nefol.

JORIM. (*Derchafydd yr Arglwydd*) Tad Eliezer.—Joseph, cynnydd ffrwythlon, neu ychwanegiad, mab Jacob.—Josbecasah, *gofynwr*, mab Heman, Un o gan-torion y deml.—Josuah, *yr Arglwydd ein iachawdwriaeth*.—Luc iii, 29, 1 Cron. xxv, 4, Num. xiii, 4.

JOSIAH. (*Tân yr Arglwydd*) 1 Bren. xxiii, 15, 16. Y mae llawer o bethau yn cael eu cyffelybu i dân yn y Gair: 1, Crist, fel Purwr ei bobl, Mal. iii, 2. 2, Yr Yspryd Glân, Mat. iii, 11. 3, Gair Duw, Jer. xxiii, 29. 4, Cystuddiau a gorthrymderau, Salm lxvi, 12. 5, Digofaint Duw tuag at yr annuwiol.

JOSÉS. (*Derchasiad*)—Jotbatha, *ei ddaioni*.—Jotham, *perffeithrwydd yr Arglwydd*.—Iriah, *ofn yr Arglwydd*.—Iscah, *eneiniad, gorchuddiad*, Merch i Haran, brawd Abraham, ydoedd.—Isaac, *chwerthin neu lawenydd*, mab Abraham o Sarah.—Isbac, *diffyg-iol*, mab Abraham o Cetura.—Marc vi, 3, Num. xxxiii, 33, Barn. ix, 5, Jer. xxxvii, 13, Gen. xi, 29, Gen. xxv, 2.

ISBAH. (*Llonyddwch*) Mab Ezra, 1 Cron. iv, 17. Fe ddywed yr apostol fod yspryd addfwyn a llonydd ger bron Duw yn werthfawr, 1 Pedr iii, 4, Esay xxx, 15. Y mae y llonyddwch yma yn gynnwysedig yn y pethau canlynol: 1, Mewn ymostyngiad dirwgnach i air a rhagluniaeth y Jehofa, Salm cxxxi, 2, Phil. iv, 12. 2, Mewn amynedd a thawelwch o dan ddirmyg ac amharch, heb ddigio nac ymddial, Salm xxxvii, 1, 1 Pedr iii, 9. 3, Mewn ymddygiad llarisidd a thirion yn mhob sefyllfa, Col. v, 4, Eph. vi, 9, Tit. ii, 9, 10, 1 Pedr iii, 17, 18, 1 Pedr iii, 1, 7, Eph. vi, 1, 4. 4, Mewn bod yn fwynaid wrth ymdrin â dadleuon crefyddol, 2 Tim. ii, 25, Iago i, 19, 20. Y mae y dymher hon ger bron Duw yn werthfawr, 1, Am ei bod yn barddwch ac yn gysur pob cymdeithas, Eph. iv, 1—3, Rhuf. xii, 17. 2, Am ei bod yn hynod o fuddiol i'r dyn ei hun, sef i felusu'r cwpaneidiau mwyaf chwærw, Luc xxi, 19, Heb. x, 36. 3, Am ei bod yn anrhydedd mawr i'r grefydd Gristionogol, Mat. v, 16. Yr hysydd yn peri aflonyddwch yw y pethau canlynol: 1, Awydd gormodol am bethau'r byd, Diar. xv, 27. 2, Geiriau dirmygus a chyffrous, Diar. xv, 1. 3, Gwrthddywedyd yn lle ufuddhau a chydsynio, Tit. ii, 9. 4, Athrodiaeth ac enllib, Lef. xix, 16, Diar. xi, 13, Diar. xxvi, 22, 1 Tim. v, 13.

ISBOSETH. (*Cywilyddiwr*) Mab Saul, brenin Israel, 2 Sam. ii, 8. Y mae llawer yn bresenol yn cywilyddio arddel Crist a'i efengyl; ond fe fydd Crist yn cywilyddio eu harddel hwythau yn nydd y farn, pan ddel efe yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd.

ISMAEL. (*Duw a wrendy*) Mab Abraham o Agar. Y mae Duw yn gwrandio ochenaïd y carcharorion, ac yn rhyddhau plant angeu.

ISMAIAH. (*Yr hwn sydd yn gwrandio'r Arglwydd*) Mab Obadiah, 1 Cron. xxvii, 19. Y mae yn ddyledswydd ar bawb i wrando ar orchymynion, rhybyddion, galwadau, ac addewidion Duw yn ei air: y mae gwrandaw yn well nag aberth, ac ufuddhau na brasder hyrddod.

ISMACHIAH. (*Un a unwyd a'r Arglwydd*) 2 Cron. xxi, 13. Y mae undeb wedi cymeryd lle rhwng pob gwir Gristion a'r Arglwydd Iesu Grist: 1, Y mae yn undeb dirgeledig iawn, Eph. v, 30—32. 2, Undeb goruwch-natural ydyw; canys Duw ei hun sydd yn ei plannu yn Nghrist, ac yn eu huno âg ef, 1 Cor. i, 30. Mat. xv, 13. 3, Undeb anrhydeddus, manteisiol, ac ardderchog iawn ydyw, Deut. iv, 7, 1 Pedr ii, 9, 10. 4, Undeb annattodol ydyw, Rhuf. viii, 35, 38, 39, Esay liv, 10.

ITHREAM. (*Rhagoriaeth y bobl*) Mab Dafydd.—Itta-Casin, *amser y tywysog*.—1 Cron. iii, 3, Jos. xix, 13.

JUBAL. (*Rhedegwr*) Mab Lamech: *efe ocdd tad pob teimtydd telyn ac organ*: efe, y mae yn debyg, a ddysgodd gerddoriaeth gyntaf, Gen. iv, 21. Y mae'n gweddu i bob Cristion redeg trwy amynedd yn yr yrfa a osodwyd o'i flaen, a bod yn ffyddlon hyd angeu, fel y byddo iddo dderbyn coron y bywyd.

ISRAEL. (*Gorchfygwr, neu dywysog Duw*)—Issacar, *gobwr*, mab Jacob.—Ithamar, *ynys y palmwydd*, mab Aaron.—Jada, *moliannu*, mab Jacob o Lea.—Justus, *cystawr*.—Gen. xxx, 17, 1 Cron. xxiv, 1, 4, Act. i, 2, 3.

ITHIEL. (*Duw gyda ni*) Mab Jesaia, Neh. xi, 7. Y mae Dŵ gyda'i bobl, 1, I'w hachub a'u diogelu, Seph. iii, 17. I'w cynnal a'u hamddiffyn, Esay xli, 10. 3, I'w dysgu a'u harwain, Salm xxxii, 8. 4, I'w puru a'u sarateiddio, Hos. xi, 9.

LAADAH. (*Er addurn*) Mab Sela.—Laadan, *er hyfryduch*, Mab Gerson.—Laban, *gwyn*, mab Bethuel a brawd Rebeccah.—Lacum, *cyfodi*, dinas yn Naphtali. 1 Cron. iv, 21, 1 Cron. xxiii, 7, 8, Jos. xix, 33.

LACHIS. (*Rhodio yn ardderchog*) Dinas yn Juda, Jos. x, 3. Y mae yn gweddu i bob Cristion rodio yn ardderchog. 1, Rhodio yn ardderchog yw rhodio yn ddidoleddig oddiwrth y byd annuwiol, yn ei arferion pechadurus. 2, Rhodio yn ddiramgwydd at y rhai sydd oddi allan, Col. iv, 5. 3, Rhodio mewn cariad at yr holl frodyr, Eph. v, 2. 4, Rhodio yn gyson a diwyd gyda gwaith yr Arglwydd, Eph. v, 15, 16. 5, Rhodio'n sanctaidd ac yn lân ein gwisgoedd, Dat. iii, 4. 6, Rhodio yn ardderchog yw rhodio yn ol rheol y gair, ac yn ol esiampl Crist, Gal. vi, 16. 7, Rhodio yn ardderchog yw rhodio yn bwylllog, yn ostyngedig, a hunan-ymwadol.

LAMECH. (*Tlawd*) Mab Methusael, Gen. iv, 18. Y mae pawb wrth natur yn dlawd iawn, mewn ystyr ysprydol; sef, heb dŷ, heb wisg, heb ymborth ysprydol, heb Grist, heb obaith, ac heb Dduw yn y byd.

LAODICEA. (*Cyfaunder y bobl, neu bobl gyfiawn*) Prif ddinas Phrygia.—Lazarus, *cynnorthwy Duw*, brawd Mair a Martha.—Lea, *blinderog, lluddedig*, merch Laban a gwraig Jacob.—Dat. i, 11, Ioan xi, 1, Gen. xxix, 16.—Y mae llawer o blant Duw yn lluddedig, blinderog, a llwythog iawn yma yn y byd; ond y mae gorphwysfa yn ol i bobl Dduw. *Jacob a ddychwel, a orphwys, ac a gaiff lonydd, ac ni bydd a'i dychryno.*

LEVI. (*Glynu*) Mab Jacob o Lea. Y mae yn ofynol i Gristionogion o lwyfrfyd calon lynu wrth yr Arglwydd: 1, Trwy gredu ynddo ac ymddibynu arno am bob bendith. 2, Trwy barhau i broffesu ei enw yn wyneb pob gwrthwynebiadau a digalondid. 3, Trwy werthfawrogi ac arddel ei wirioneddau. 4, Trwy barhau a chadw yn ddilwgr ei osodiadau a'i orchymynion. 5, Trwy fyfyrïo arno, a dal cymdeithas barhaus âg ef.

LEMUEL. (*Duw gyda hwynt*)—Lehabim, *fflam*; *ffagl*, mab Misraim.—Libanus, *gwyn*, mynydd o du'r gogledd i wlad Canaan.—Loammi, *nid fy mhobl i ydych chwi*, enw ag sydd yn gosod allan wrthodiad Israel fel cenedl, o blegid eu gwrthgiliadau.—Lorubamah, *ni chafodd drugaredd*.—Lot, *cuddiedig*, mab Haran.—Lois, *gwell*, nain Timotheus.—Luc, *goleu*, un o'r efangylwyr.—Luz, *neillduedig*, enw dinas.—Diar. xxxi, 1, Gen. x, 13, Hos. i, 9, Hos. i, 6, 2 Tim. i, 5, Gen. xxviii, 18.

MAACHAH. (*Gwasgu*) Mab Nachor, Gen. xxii, 24. Y mae llawer o bethau yn gwasgu dynion yn fawr yma yn y byd: 1, Baich o bechod ac euogrwydd. 2, Baich o ofnau ac amheuan. 3, Baich o ofalon a thrafferthion bydol. 4, Baich o orthrymder ac anghyfiawnder oddiw'rth ein cyd-greaduriaid. O fy enaid, dos trwy ffydd i Galfaria; y mae yno le i ti roi dy faich i lawr wrth droed y groes: treigla dy faich ar yr Arglwydd, ac efe a'th gynnal di.

MAACHATHIAD. (*Ysig*) Tad Jaazaniah.—Maadai, *fy addurn*, mab Bani.—Maai, *ymysgaroedd*, offeiriad a chantor.—Maasiah, *gwaith yr Arglwydd*.—2 Bren. xxv, 23, Ezra x 34, Neh. xii, 36, 1 Cron. xv, 19.

MAACHBENA. (*Malurio'r adeiladaeth*) Mab Sefa, 1 Cron. ii, 49. Y mae corph dyn yn cael ei gydmaru i dŷ ac adeiladaeth, neu babel; ond fe wna angeu, brenin y dychryniadau, falurio'r adeiladaeth hon yn fuan, ac fe gaiff hoel ar ol hoel ei rhyddhau, ac fe dyr y llinyn arian, a'r cawg aur, a'r piser gerllaw'r ffynon: yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac fe ddychwel yr yspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef. Y mae gan y diafol hefyd adeiladaeth gref yn y byd hwn, sef dinas annuwioldeb, ac y mae ganddo gaerau cedyrn o'i hamgylch, sef balchder, anwybodaeth, rhagfarn, anghredinaeth, dychymygion, a choel-grefydd; ond fe wna Crist, trwy arfau ysprydol yr efengyl, ei dryllio trwy'r byd cyn bo hir.

MAHALATH. (*Can hyfryd*) Merch Ismael, Gen. xxviii, 9. Diau fod canu yn ddyledswydd. Y mae y pethau eanlynol yn profi hyn: 1, Esiampl angylion, Job xxxviii, 7, Luc ii, 18. 2, Esiampl y patriarchiaid, ac eglwys Dduw dan yr hen Destament: fe ganodd Israel yn ardderchog yn ol dyfod trwy'r môr coch, ac wrth gysegru'r deml ac yn amser Jehosaphat, Exo. xv, 2. Croa. xx, 12. 3, Esiampl Orist: fe ganodd gyda'r diagyblion y nos y bradychwyd ef, i ddangos ei fod yn myned i ddioddef o'i fodd, ac i osod canu mawl mewn grym o dan y Testament newydd. 4, Esiampl yr apostolion, Act, xvi, 25. 5, Y mae gorchymynion Duw yn profi hyn, Salm xxx, 4. Ond pan y byddom yn canu mawl i Dduw, 1, Y mae yn gweddu i ni ganu â'r holl galon, Salm ix, 1, Eph. v, 19. 2, Gyda pharch mawr, Exod. xv, 11. 3, Yn ddeallus, Salm. xlvii, 7, 1 Cor. xiv, 15. 4, Canu yn llafar, Salm v, 1, a lv, 1. 5, Yn llawen, Salm lxxxi, 1. 6, Dylem ganu oddiar ddibeu cywir, ac yn enw Crist, Eph. iii, 21, Heb. xiii, 15. Ond fe fydd canu hyfryd iawn gan y saint yn y nefoedd; sef am eu hethol yn Nghrist er cyn seiliad y byd, am eu prynu â gwaed calon y Meichiau, am eu galw trwy ras, am eu cyfiawnbau a'u gwisgo yn nghyfiawnder y Cyfryngwr, am eu sancteiddio trwy yr Yspryd Glân a'u cynnal mewn cyflwr o ras, am eu dal ar y rhiwiau serth, am eu dychwelyd o'u gwrthgiliau, am eu diddanu yn eu holl orthrymderau, ac am eu trosglwyddo yn ddiangol trwy afon angeu i dir y bywyd.

MAHANAIM. (*Dau lu, neu ddau faes*) Dinas yn perthyn i'r Lefiaid yn Llwyth Gad, Jos. xxi, 38. Jacob a roddodd yr enw hwn i'r lle, oddiwrth y weledigaeth o angylion a gafodd efe yma, Gen. xxxii, 2. 1, Y mae dau lu yn trigo yn y byd hwn, sef plant Duw a phlant y diafol: y mae plant Duw yn tebygoli i Dduw, ac y mae plant y diafol yn debyg i'r diafol, ac yn ei wasnawethu â'u holl egni. 2, Y mae dau lu yn yr eglwys oreu ar y ddaear; sef Israeliaid yn wir yn y rhai nid oes twyll, a rhagrithwyr bradyehus a thwyllodrus. 3, Y

mae dau lu yn nghalon y Cristion duwiolaf; sef anian sanctaidd ac anian lygredig; y mae'r enawd yn rhyfela yn erbyn yr yspryd, a'r yspryd yn erbyn y enawd: y mae deddf yn yr aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl. 4, Y mae dau lu yn y byd tragwyddol; sef llu nefol a llu uffernol, llu dedwydd a llu truenus, llu gogoneddus a llu gwarthus.

MAHANEH-DAN. (*Trigfa Duw*) Lle yn Juda, Barn. xviii, 12. Trigfa Duw yw nefoedd y gogoniant, a'i eglwys ar y ddaear, a chalon ddrylllog' pechadur edifeiriol: y mae efe yn trigo yn Sion trwy ei air a'i Yspryd, a'i bresenoldeb diddanol, addysgiadol, a chynnorthwyol.

MAHARI. (*Yr hwn sydd yn prysuro*) 2 Sam. xxiii, 28, 1 Cron. xxvii, 13: Y mae pob dyn yn prysuro tuag angeu, barn, a thragwyddoldeb; ie, y mae pawb yn prysuro tuag un o ddwy dalaitb, naill ai i dragwyddol orfoledd neu i dragwyddol dristwch, i dragwyddol gyfoeth neu i dragwyddol dlodi; ac y mae Crist yn prysuro i ddyfod i'r farn i alw pawb i gyfrif, ac y mae yn rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawd!e Crist.

MAHER-SHALAL-HASH-BAZ. (*Prysuero i'r yspail.*) Enw arwyddocaol a roddwyd ar fab y proffwyd Esay, i ddangos y byddai i'r Assyriaid brysuero i gyflawnu y barnedigaethan rhagddywededig ar Israel, Esay viii, 1. Fe ddeil barn Duw yr annuwiol yn fuan iawn; ac fe ga ei yspeilio cyn b'o hir o'i holl lawenydd, a'i gyfoeth, a'i obaith am byth; ie, yr hyn sydd ganddo a ddygir oddi arno.

MAIR. (*Chwerw neu dderchafedig*) Mat. i, 18: Y mae yr holl saint wedi cael eu derchafu yn nghyfiawnder Crist uwchlaw melltithion y ddeddf, ac i heddwch a Duw, ac i'r berthynas oruchaf, ac i'r gymdeithas foreddigeiddiaf.

MALCHIA. (*Yr Arglwydd yw fy mrenin*)—Malchiel, y brenin fy Duw:—Malchisua, fy mrenin yw fy Iaehaudwr, mab Saul: nawr yw braint teulu Sion; y mae

Crist yn Frenin ac yn Iachawdwr iddynt; ac y mae yn Iachawdwr anfethedig, ni bu neb erioed farw dan ei law: *efe a ddichon yn gwbl iachau*.—Malcus, *brenin*, gwas yr archoffeiriad, yr hwn y torodd Pedr ei glust ef.—Malothi, *cyflawnder*, mab Heman.—Maimre, *gwrthryfelgar*, brawd Esgol.—1 Cron. vi, 40, Num. xxvi, 45, 1 Sam. xxxi, 2, Ioan xviii, 10, 1 Cron. xxv, 4, 29, Gen. xiii, 18.

MANASSEH. (*Anghofio*) Mab hynaf Joseph, Gen. xli, 50. Y mae dyn yn dueddol i anghofio pethau pwysig a chofio gwagedd a phethau diles; ac y mae'r saint yn anghofio eu gofidiau pan y byddo Duw yn gwenu mewn modd neillduol ar eu heneidiau.

MANOAH. (*Gorphwysfa*) Gwr o lwyth Dan, tad Samson, Barn. xiii, 2. Y mae gorphwysfa etto yn ol i bobl Dduw.

MARAH. (*Chwerwder*) Sef y dyfroedd chwerwon a gafodd Israel yn fuan ar ol dyfod trwy'r môr coch. Y mae plant Duw yn cyfarfod â llawer o bethau chwerwon iawn ar eu tair tua'r Ganaan nefol; ond y mae profiad o gariad Crist, a bendithion angeu'r groes, yn melusu'r dyfroedd chwerwaf i'r saint.

MARALAH. (*Chwerwder neu derchafiad*) Dinas yn Zabulon, Jos. xix, 11.—Maranatha, *y mae yr Arglwydd yn dyfod*, neu, medd rhai, *melltigedig wyt ti*. Ddiao fod yr Arglwydd Iesu yn dyfod ar frys i farnu'r byd, ac fe fydd yr holl rai annuwiol a'r rhagrithwyr yn cael eu tragywyddol esgymuno y bore hwnw, 1 Cor. xvi, 22.

MARC. (*Disglaer, boneddig*) Mae yr holl saint yn ddisglaer yn nghyfiawnder Crist, ac yn foneddigaidd ac yn hawdd eu trin, a byddant yn disgleirio fel yr haul byth yn nheyrnas eu tad.

MARESAH. (*O'r pen, neu o'r dechreuad*) Mab Laadah.—Marsena, *chwerwder*.—Martha, *chwerwi*.—Mattaniah, *rhodd Duw*, mab Heman.—Matthew, *rhodd*, un o'r efangylwyr.—1 Cron. iv, 21, Esther i, 14, 1 Cron. xxv, 4.

MEDEBAH. (*Dwfr blinder*) Dinas yn llwyth Reuben, Jos. xiii, 16. Mae'r saint yn cael llawer o ddwfr blinder yma yn y byd; blinder o wawd ac erlid yr annuwil; blinder o dlodi, cystuddiau, a gwasgfeuon; blinder o ofnau ac amheton:

"Ond pe gorfyddai ar y rhai'n, 'rhyd glyn wylofain dramwy;
"Gosodir ffynon iddyn' nhw', a'r gwlaw a leinw fwy-fwy.

MEHETABEEL. (*Mor dda yw Duw*) Mab Delaiah, Neh. vi, 10. Y mae Duw Israel yn anfeidrol ac yn hanfodol dda, ac yn gwneud daioni i bawb. *Daionus yw'r Arglwydd i bawb, a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd.*

MEHUCAEL. (*Cyhoeddwr Duw*) Gen. iv, 18. Y mae yn gweddu i bob pregethwr gyhoeddi anfeidrol gariad Duw at fyd colledig yn anfonaid ei unig anedig Fab i'r byd i farw yn lle pechaduriaid. *Felly y carodd Duw'r byd, fel y rhoddodd efe ei unig anedig Fab; fel na choller pwy bynag a greddo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol.*

MELCHISEDEC. (*Brenin cyfiawnder*) Brenin Salem ydoedd, ac offeiriad i'r Duw goruchaf: yr oedd yn gysgod hynod o Grist, ein Harchoffeiriad mawr ni.

MEPHIBOSHETH. (*Gwarth fy ngenau*) Mab Saul.—Merab, *yr hwn sydd yn ymladd*, merch Saul.—Meraiab, *chwerwder*, mab Seraiah.—Marathaim, *chwerwderau*, talaith yn ngwlad Caldea.—2 Sam. xxi, 8, 9, 1 Sam. xiv, 40, Neh. xii, 12, Jer. i, 21.

MERIBAH. (*Cynen, ymryson*) Exod. xvii, 1. Hunan ac uchel drem yw yr achos o bob ymryson: trwy falchder yn unig y cyffry cynnen: y mae yn gwbl groes i gariad, addfwynder, a thangnefedd; ac y mae yn cael ei wahardd yn fynych yn y gair.

MEROS. (*Dirgel, cyfrinach*) Enw dinas. Fe gafodd ei thrigolion eu melltithio, am na ddaethant i ymladd o blaid Israel yn erbyn eu gelynion cedyrn. Diâu fe gaiff pawb nad yw yn gyflawn o blaid Crist a'i achos yn y byd hwn eu tragwyddol ddiarddel a'u melltithio yn nydd y farn. Barn. v, 23.

MESLEMITH. (*Heddychlonrwydd*) Mab Imer.—Mesulam, *heddychol*, 1 Cron. ix, 12, 1 Cron. ix, 7. Fe'n cynghorir yn y gair i gadw undeb yr Yspryd yn nghwlwm taagnefedd, ac i ddityr heddych a phawb, a sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd: hyd y mae ynom byddwn heddychlon a phob dyn.—Methuselah, *yspait angeu*, mab Enoch.—Mabsam, *yr hwn sydd yn cywilyddio*, mab Ismael, Gen v, 22, Gen. xxv, 13.

MICHAEL. (*Pwy fel Duw*) Dan. xii, 1. Diau mai Crist a feddyr wrth Michael yr archangel. 1, Pwy fel Duw, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb. 2, Pwy fel Duw, yn holl-bresenol, holl-wybodol, a holl-aliog. 3, Pwy fel Duw mewn doethineb, cyfiawnder, a sancteiddrwydd. 4, Pwy fel Duw o ran cariad, daroni, a thrugaredd. 5, Pwy fel Duw yn ei weithrededd. 6, Pwy fel Duw yn ei ogoniant. Ond y mae Crist yn anfeidrol Duw, ac y mae yn sefyll dros ei bobl, ac efe a lwyrr ddadleu eu dadl hwynt.

MICHAEL. (*Pwy sydd berffaith*) Merch Saul.—Mimas, *cuddriedig*, dinas yn Benjamin.—Migdal-Gad, *tŵr Gad*, dinas yn Juda.—Milo, *llewndid neu gylwnder*.—Miriam, *derchafedig*, chwaer Moses ac Aara.—Misham, *eu hachubwr*, mab Elpaal.—Misma, *yr hwn sydd yn gwrando*, mab Ismael.—Mispa, *gwylcedydd*, dinas yn Juda.—1 Sam. xiii, 5, Jos. xv, 37, 2 Cron. xxxii, 5, Exod. xxi, 22, 1 Cron. viii, 12, Gen. xxv, 14, Jos. xv, 38.

MISAE. (*Yr hwn sydd yn gofyn*) Jos. xix, 26. Mae Duw'n gofyn ufudd-dod oddi wrthym ni, ac fe weddai i ninnau ofyn maddeuant a thrugaredd gan Dduw: yr hwn sydd yn gofyn sydd yn derbyn, a'r hwn sydd yn ceisio sydd yn cael.

MISERERHATHAM. (*Dyfroedl poethion, neu beiriau poethion*) Jos. xi, 8. Mae plant Duw'n cael eu talfu i lawer o beiriau poethion yma yn y byd; sef i chwerau peched iddynt, i brod eu ffydd ac i ddwyn eu gras i weithredu yn swy cryf ac anfwg, ac hefyd i godi eu

serch oddiwrth y byd, ac i'w pŵer oddiwrth eu serod a'u llygredd; ond hwy a ddeuant allan o'r holl beiriau fel yr aur wedi ei buro.

MICHA. (*Melustler*) Un o wersyllfaoedd yr Israeliaid yn yr anialwch, Num. xxxiii, 28, 29. Er fod plant Duw yn cael llawer o chwærwder a thralod yma yn y byd, etto y maent yn cael peth meluster hefyd weithiau; yn neillduol pan y byddo yr Arglwydd yn rhoi ei bresenoldeb cysurol iddynt, ac yn tywallt cariad Crist yn eu calonau, ac yn cymhwyso yr addewidion at eu cyflyrau, ac yn rhoddi profiad o faddeuant pechod i'w heneidiau.

MISRAIM. (*Gorthrymderau*) Ail fab Cam, Gen. x, 6, 13. Y mae Crist yn dywedyd wrth ei ddisgyblion, Yn y byd gorthrymder a gewch, ac mai trwy lawer o orthrymdefau y mae yn rhaid mœyned i mewn i deyrnas Dduw.

Gorthrymder ar orthrymder, sy'n nglyn wyllofaia trist,
Ac ergyd ar ol ergyd, ar bawb o weision Crist;
Ond etto wedi'r cwbl, pob ergyd yn ei le,
I yru'r etifeddiion, nes nes i deyrnas ne'.

MNASON. [*Ymofynydd manwl*] Hen ddisgybl o Cyprus, ag oedd yn arfer lettya'r Cristionogion gynt. Act. xxi, 16. Braint fawr yw bod yn hen ddisgybl i Grist. Y mae hen ddisgyblion Crist yn ymofynwyr manwl: 1, Y maent yn ymofyn yn fanwl a ydyw'r weinidogaeth sydd yn cael ei thraddodi yn gyson â gair Duw. 2, Y maent yn ymofyn yn fanwl a ydyw y ddisgybliaeth yn cael ei chario yn mlaen yn ol rheol y gair. 3, Y maent yn ymofyn yn fanwl a ydyw eu fydd a'u hedifeirwch, eu gobaith a'u cariad, o'r iawn ryw; ie, a ydynt wedi dyfod i mewn trwy'r drws i eglwys Dduw, ac a oes olew gras ganddynt, ac a ydynt yn feddiannol ar wreiddyn y matter, ac a ydyw y graig safadwy o dan eu henaid.

MOSES. [*Un a dynwyd allan o'r dyfroedd*] Brawd Aaron ydoedd, Heb. xi, 23. Y mae yr holl saint yn cael eu tyngu allan o afon pechod a llygredigaeth, a hwy a gânt eu tyngu allan yn fuan o holl dyfroedd.

gofidiau a gorthrymderau y byd pechadurus hwn, ac a gânt eu derchafu i'r gwynfyd a'r gogoniant mwyaf.

NAAM. [*Hardd*] Mab Caleb ydoedd, 1 Cron. iv, 15. Y mae pob Cristion yn hardd yn aghyfiawnder Crist, a gwaith saneteiddiol yr Yspryd Glân; ie, y maent yn ewyllysgar yn nydd nerth Duw, mewn harddwch saneteiddrwydd.

NAAMAH. [*Hyfryd*] Merch Lamech, Gen. iv, 22. Y mae yn hyfryd gan y duwiol addoli Duw a chymdeithasu â'r saint: mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd! ac y mae ffyrdd crefydd yn hyfrydwch, a i holl lwybrau yn heddwoch i'r duwion.

NAARAI. [*Fy mhlant bychain*] Un o gedyrn Dafydd ydoedd, 1 Cron. xi, 27. Fe weddai i'r duwion fod fel plant bychain, i chwenych o ddiwyll iaeth y gair, fel y cynnyddont trwyddo ef.—Naaran, *plentyn bychan*, dinas yn Ephraim.—Naarath, *ieuengctid*.—Naboth, *proffwydoliaethau*.—Nachon, *darparedig*.—Nadab, *rhodd ewyllysgar*, mab Aaron.—Nahaliel, *etifeddiaeth Duw*, gwersyllfa'r Israeiliaid yn yr anialwch. 1 Cron. vii, 28, Jos. xvi, 7. 1 Bren. xxi, 1, 1 Cron. xiii, 9, Exod. vi, 32, Num. xxi, 19.

NABAL. [*Ynfyd*] Gwr cyfoethog caled a drwg ag oedd yn byw yn amser y brenin Dafydd, 1 Sam. xxv. Y mae pob dyn annuwiol yn ynfyd iawn, am ei fod yn gwrthryfela yn erbyn Duw hollalluog, yn caru cyfoeth daear yn fwy nag elw duwioldeb, yn gofalu mwy am bethau amser nag am bethau tragwyddol, ac yn dewis gwagedd o flaen sylwedd. *O ynfyd, y nos hon y gofynant dy ennid oddiworthyt*.—Nahalal, *clodfawr*, dinas yn Zabulon.—Nahath, *gorphwysfa*, mab Reuel.—Nain, *hardd*, enw dinas lle y cododd Crist fab y wraig weddw o farw i fyw.—Naioth, *harddwch*, dinas yn agos i Ramah.—Naomi, *prydfarth*, *tirion*, gwraig Elimelech.—Nathan, *rhodd*, proffwyd didderbyn wyneb yn amser Dafydd.—Nathaniel, *rhodd Duw*.—Nathanmelech, *rhodd y brenin*.—Jos. xix, 15, Gen. xxxvi, 13, Luc vii, 11—15, 1 Sam. xix, 23, Ruth i, 2, Num. i, 8, 2 Bren. xxiii, 11.

NAPHTALI. (*Ymdrech*) Mab Jacob, Gen. xxx, 7, 8. Y mae yn ofynol fod pawb yn ymdrechgar gydâ gwaith yr Arglwydd: dylem ymdrechu cyrhaedd mwy o wybodaeth o bethau ysprydol, ymdrechu taenu gwybodaeth o Grist a dwyn ereill i adnabyddiaeth o'r gwirionedd, a dylem ymdrechu distrywio pechod, a thynu caerau annuwioldeb i lawr i'r llwch.

NAPHTUHIM. (*Agoriadau*) Mab Mizraim, Gen. x, 13. Ond gan Grist y mae agoriadau uffern a marwolaeth; y mae efe yn cau fel nas gall neb agoryd, ac yn agoryd fel nas gall neb gau; y mae pob awdurdod ganddo yn y nef ac ar y ddaear.

NARCISSUS. (*Syndod*) Rhuf. xvi, 11. Fe ddeil tragywyddol syndod yr annuwiolion yn nydd tanbaid y farn, am iddynt wrthod a diystyru un mor ogoneddus a Iesu Grist, ac am iddynt ddamnio eu heneidiau am fwyniant pechod dros amser.

NAZAREAD. (*Ymneillduo*) Num. vi, 3, 4. Fe ddylai pawb ymneillduo oddiwrth bechod a thraddodiadau dynol, a chymeryd gair Duw yn rheol ffydd ac ymarferiad.

NAZARETH. (*Blodeuog*) Dinas yn llwyth Zabulon. Yma y cenedlwyd dynoliaeth Crist; yma y blodeuodd y wialen o gyff Jesse; yma y blagurodd y plannigyn enwog; yma y bu Iesu fyw fwyaf hyd nes oedd tua deg ar hugain oed.

NAHUM. (*Diddanydd*) Proffwyd enwog ydoedd. Y mae yn ddyledswydd ar holl weinidogion y gair i geisio diddanu a chysuro eglwys Dduw yma yn mynd y gorthrymderau. *Cysurwch, cysurwch fy mhobl, medd eich Duw; dywedwch wrth fodd calon Jerusalem.*—Nabalat, *yr hwn sydd yn ffrwythloni*, dinas yn llwyth Benjamin.—Nebo, *yr hwn sy'n proffwydo*, y mynydd lle y bu Moses farw.—Nehemiah, *diddanwch*.—Ner, *disgleirdeb*, tād Abner.—Nergal, *gwyhiedydd*, enw eilun.—Nedabiah, *rhodd yr Arghwydd*, mab Jeconiah.—Neriah, *goleuni yr Arghwydd*.—Nethaniah, *rhodd yr Arghwydd*.—Nezib, *colafn*, enw dinas.—Nibsan, *yr*

hon sydd yn Uefarn.—Nicanor, *buddugoliaethus.*—Nicodemus, *grazed gwairion.*—Nicapolis, *dinas y fuddugoliaeth.*—Nimrod, *gwrthryfelwr*, mab Cus.—Nicolas, *buddugoliaeth y bobl.*—Nimsi, *gwaredol*, tad Jehu. 1 Sam. xiv, 50, 2 Bren. xvii, 30, 1 Cron. iii, 18, Jer. xxii, 11, 2 Bren. xxv, 2, 3, Jos. xv, 43, Jos. xv, 62, Act. vi, 5, Ioan. iii, 1, Tit. iii, 12, * Gen. x, 9, Act. vi, 5, 1 Bren. xix, 16.

NEBUCHODONOSOR. (*Griddfanau barn*) Brenin Babilon. Fe fydd yr annuwiolion yn griddfan yn ddyohrynlyd yn y farn ddiweddaf, wrth gosio am y breintiau a gam-ddefnyddiwyd ganddynt yn y byd, ac wrth feddwl am mor lleied peth y darfu iddynt werthu Crist a'r nefoedd, ac wrth feddwl fod yn rhaid ymadael oddiwrth ffynon dedwyddwch a phob dafn o drugaredd dros dragywyddoldeb.—Nebuzaradan, *ffrwythau barn*, Jer. xxxix, 9.—Nebusarsadan, *ffrwythau yn gwasgaru*, Jer. xlv, 13. Un o bemaethiaid bronin Babilon. O na byddai ffrwythau gras, a pher-arogl yr efengyl, yn gwasgaru trwy yr holl byd.

NOAH. (*diddantoch neu orphwysfa*) Mab Lamech, Gen. vii, 1. Gelwir ef yn bregethwr cyfiawnder: yr oedd wedi derbyn cyfiawnder Crist, ac yn ei bregeth i areill, am chwech ugain mlynedd, tra y bu yn adeiladu yr arch, trwy yr hon y condemniodd efe y byd: 1, Condemniodd y byd, trwy gyfiawnhau Duw yn y farn fygwthiedig arnynt. 2, Condemniodd y byd, trwy gredu ac ufuddhau i Dduw, pan oedd y byd yn byw mewn anghrediniaeth ac anufudd-dod. 3, Condemniodd y byd hefyd, trwy gymeradwyo'r farn a ddaeth er mor ddychrynlyd. 4, Trwy rybyddio'r byd, a'i wneud yn gwbl anesgusodol.

OBADIAH. (*Gwas yr Arglwydd*) Un o'r profiwydi.—Obal, *henaint*, wythfed mab Joatan, Gen. x, 28.—Obed; *gwas*, mab Boaz, o Ruth, Ruth iv, 17.

OLA. (*Yr hon sy'n wylu*) 1 Cron. xxvii, 30. Y mae'r duwiol yn wylu llawer am ei bechod ei hun, ac am anuriedoldeb yr oes yn gyffredinol.

ODED. (*Cynnal*) Tad y profwyd Azariah, 2 Cron. xv, 1. Y mae yr Arglwydd yn cynnal ei bobl o dan bob amgylchiad; ac y mae wedi addaw rhoi nerth i'r diffygiol, ac amlhau cryfder i'r dirym.—Og, *gwatwarwr*, brenin Basan.—Onan, *gofid*, mab Juda. Y mae llawer mab yn ofid mawr i'w dad ac i'w holl berthynasau; ac y mae yr holl ieuengetid ag sydd yn euog o bechod Onan yn sier o ddwyn gofid o euogrydd i'w cydwybodau, ac mewn perygl o farw dan farn Duw, ac wynebu tragwyddol ofidiau tu draw i'r bedd.—Deut. iii, 11, Gen. xxxviii, 7.

ONESIMUS. (*Defnyddiol*) Gwas Philemon. Mae yn fraint fawr i ddyn fod yn ddefnyddiol; sef yn ei deulu, yn ei gymydogeath, ac yn y wladwriaeth; ac yn neillduol yn eglwys Dduw; trwy weddio, canu, cynghori, ac addysgu'r ieuengetid yn yr ysgolion Sabbothol, a thrwy gyfranu yn ewyllysgar at gario achos Duw yn mlaen yn y byd.

ONESIPHORUS. (*Yn dwyn elw*) Cristion enwog yn amser Paul, 2 Tim. iv, 19. Nid oes dim yn dwyn cymaint o elw a gwir grefydd; gwell yw ei marsiandiaeth hi na marsiandiaeth o arian, a'i chynrych sydd well nag aur coeth: elw mawr yw duwioldeb gyda boddlonrwydd: elw yw duwioldeb a gyflawn foddiona yr enaid; golud gwell ac un parhaus ydyw; ie, elw a ddeil ydyw pan byddo trysorau daear yn ffiamio, a'r holl elfenau gan wir wres yn toddi.

ORPAH. (*Y gwddf.*) Gwraig mab Elimelech. Yr oedd yn ddarluniad neillduol o wrthgiliwr yn cefnu ar eglwys Dduw: hi ddechreuodd gychwyn tua gwlad Israel, ond yr oedd ei chalon yn ol gyda duwiau Moab, a hi a ymadawodd â Naomi, er ei bod yn ymadael dan wylo; felly y gwelwyd llawer yn troi eu cefnau ar eglwys Dduw, er eu bod yn ymadael dan wylo.—Othni, *fy amser*, mab Semiah, un o gedyrn Dafydd. Y mae amser pob dyn yn fyr iawn, ac yn myned heibio yn gynt na gwenol gwehydd; ac yn myned heibio fel tarth, ac yn diflannu fel cysgod, ac ni saif.—Othniel,

amser Duw, mab Cenaz. Y mae yn gweddu i bawb wneud ei ddyledswydd yn ddiwyd, yn egniol, a ffyddlon, a disgwyl am lwyddiant, diddanwch, ac ymwared yn amser Duw.—2 Cron. xxvi, 7, Num. xxxii, 12.

OZEM. (*Ymprydiwr*)—Paarai, *agoriad*.—Padon, *prynedigaeath*.—Pagiél, *rhagflaeniad Duw*.—Paltiel, *gwaredigaeath Duw*.—Pamphilia, *oll yn ddymunol*.—Paran, *harddwoch*.—Parfaim, *ffrwythlon*.—Parmenas, *yr hwn sydd yn aros*.—Pharnach, *ffrwythau peraid*.—Parsandatha, *datguddiad o flinder*.—1 Cron. ii, 15, 2 Sam. xxiii, 35, Ezra ii, 44, Num. vii, 72, Num. xxxiv, 26, Act. xiii, 13, Deut. xxxiii, 2, 2 Cron. iii, 6, Act. vi, 5, 6, Num. xxxiv, 25, Est. ix, 7.

PARUAH. (*Blodeuog*) Tad Jehosaphat. O na bai pawb yn fwy blodeuog mewn rhinweddau Crist'nogol: dylem flodeuo mewn cariad brawdol, mewn gostyng-eiddrwydd a hunan-ymwadiad, mewn gwybodaeth egwyddorol a phrofiadol, ac mewn zel a diwydrwydd gydâ gwaith yr Arglwydd: *y rhai a blawyd yn nhŷ yr Arglwydd, a flodeuant yn nghynteddoedd eu Duw*.—Pasdammim, *llanerch waedtyd*, lle yn Jûda.—Pasur, *helaethwr, rhydd-did*, mab Immer yr offeiriad.—Paul, *bychan*. Cafodd ei argyhoeddi a'i ddychwelyd mewn modd tra rhyfedd. Yr oedd tri pheth i'w gweled yn eglur yn ei ddychweliad: 1, Ei etholiad gan Dduw. 2, Effeithioldeb ei alwad. 3, Rhadlonrwydd gras yn achub un o'r pechaduriaid penaf: dyma sail gadarn i beidio anobeithio yn nhrugaredd Duw.—1 Cron. xi, 13, Jer. xx, 1, Act. ix, xxvi, 13.

PECAHIAH. (*Yr Arglwydd sydd yn agor*) Mab Menahem, 2 Bren. xv, 22. Y mae yr Arglwydd Crist yn agor fel nas gall neb gau, ac yn cau fel nas gall neb agor. 1, Y mae yn agor drws i'r efengyl gael ei pharegethu. 2, Y mae yn agor calonau dynion i'w derbyn: efe a agorodd galon Lydia. 3, Y mae yn agor eu geneuau i fynegi ei foliant.—Pedabzur, *gwaredwyr cadarn*.—Pedahel, *adbryniad Duw*.—Pelaiah, *dirgelwch yr Arglwydd*.—Num. i, 10, Num. ii, 20, Neh. viii, 7.

PELALIAH. (*Yr hun sydd yn gweddio'r Arglwydd*) Un o'r offeiriad, Neh. xi, 12. Y mae yr Arglwydd yn wrthrych anfeidrol addas i weddio arno: 1, Y mae yn holl-gyfoethog, a phob peth ganddo ar gyfer ein hangen. 2, Y mae yn holl-alluog i'n gwaredu. 3, Y mae yn anfeidrol ddoeth, i oruwch-lywodraethu pob peth er ein daioni. 4, Y mae yn ewyllysgar i gyfranu i'r penaf o bechaduriaid. 5, Y mae yn llawn trugaredd a thosturi at rai anhaeddiannol. Y mae yn ddyledswydd arnom weddio, 1, Am fod Duw yn gorchymyn i ni weddio—*Gweddiwch yn ddibaid*. 2, Am mai arfer duwiolion yn mhob oes yw gweddio. 3, Am fod pethau mawr wedi cael eu gwneud mewn attebiad i weddi. 4, Am fod bygythion trymion yn cael eu cyhoeddi uwch ben y rhai diweddi.

PELATIAH. (*Yr Arglwydd yn gwared*)—Peleg, rhaniad, mab Heber, a brawd Joctan.—Peniel, *wyneb Duw*.—Perezuzza, *rhwygiad Uzza*.—Pergamus, *derchafiad*.—Pethahiah, *porth yr Arglwydd*.—Pethuel, *genau Duw*.—Peulthai, *fy ngweithredoedd*.—Pildas, *distryw*, mab Nachor.—1 Cron. iv, 42, Gen. x, 25, Gen. xxxii, 30, 2 Sam. vi, 8, Dat. ii, 12, 1 Cron. xxiv, 16, Joel i, 1, 1 Crop. xxvi, 5, Gen. xxii, 20.

PHALTI. (*Gwaredigaeth*) Mab Lais, a gwr Michal, merch Saul, 1 Sam. xxv, 44.—Phalu, *rhyfeddol*, mab Reuben, Gen. xlvi, 9. Ond nid oes neb yn rhyfeddol iawn ond Crist: *gelwir ei enw ef, Rhyfeddol*. 1; Y mae yn rhyfeddol yn ei berson, fel Immanuel, Duw a dyn: *Mawr yw dirgelwch durwoldeb, Duw a ymdangosodd yn y cnawd*. 2, Y mae yn rhyfeddol yn ei briodoliaethau; sef yn ei gariad, ei ddoethineb, ei allu, a'i ffyddlondeb. 3, Mae yn rhyfeddol yn ei swyddau Cyfryngol, fel Proffwyd, Offeiriad, a Breinin. 4, Yn ei drysorau anchwiliadwy. 5, Mae yn rhyfeddol yn ei ddioddefiadau a rhinwedd ei aberth. 6, Mae yn rhyfeddol o ran ei gyd-ymdeimlad â'i blant.

PHARAOH. (*Gwasgarwr, neu yspeithwr, neu brenin*) Pharpar, *yn peri frwyth*, un o afonydd Damascus—

Philadelphia, *brawdgarwch*, neu *brawdoliaeth*, dinas yn Asia—Philemon, *serchog*.—Philip, *rhyfelgar*, neu *un a fyddo'n hoffi meirch*.—2 Bren. v, 12, Dat. iii, 7.

PHILOLOGUS. (*Carwr y gair*) Rhuf. xvi, 15. Y mae gair Duw yn teilyngu cael ei garu gan bawb, oblegid doethineb ei Awdwr, cywirdeb ei hanesion, ardderchawgrwydd ei athrawiaeth, melusder ei addewidion a'i newyddion, ac addasrwydd ei reolau a'i gyfarwyddiadau. Y mae pawb ag sydd yn caru'r gair yn ei barchu ef, yn myfyrio arno, yn ei chwilio yn ddyfal, yn ymdrechgu ei ddeall, ac yn ei drysori yn eu cof a'u myfyrdodau.

PHLEGON. [*Tanllyd*] Rhuf. xvi, 14. Dylai pawb fod yn danllyd yn erbyn pechod, ac yn zelog iawn gydâg âchos Iesu Grist, ac yn wresog yn yr yspryd yn gwasanaethu'r Arglwydd.—Phrygia, *diffwrwyth*, gwlad yn Asia leiaf, Act. xvi, 6. Yma yr oedd Caerdroia, yr hon a fu yn hynod o enwog yn yr amser gynt—Phurah, *ffwrwythlon*, enw llange Gedeon, Barn. vii, 10, 11.

RAAMAH. (*Mawredd*)—Rabbath, *lliaws*, enw dinas, Gen. x, 7, Deut. iii, 11—Racem, *gwag*, mab Seres, 1 Cron. vii, 16. Y mae pob dyn wrth natur yn wag o'r hyn sydd dda; sef yn wag o gariad at Dduw, o wybodaeth gywir o Dduw, ac yn wag o ofn duwiol a pharch i ddeddfau yr Arglwydd.

RACHAL. (*Niweidiol*) Dinas yn Juda, 1 Sam. xxx, 29. Y mae cyfeiliornadau, a thraddodiadau, ac esiamplau drwg, yn niweidiol iawn i eneidiau dynion—Radai, *amddiffynwr*, mab Jesse, a brawd Dafydd, 1 Cron. ii, 15. Crist yw'r Amddiffynwr a'r amddiffynfa a all ddiogelu pechadur yn wyneb pob perygl, ac nid oes geidwad ond efe.

RAHAM. (*Ymysgaroedd*)—Rahel, *dafad*—Ram, *derchafedig*—Rapha, *seibiant*—Reaiah, *gweledigaeth yr Arglwydd*—Rebecca, *tewder*—Reeliah, *synwr yr Arglwydd*—Rephabiah, *yr Arglwydd fy ehangwr*—Rehoboam, *ehangydd y bobl*—Rehoboth, *ehangwr*—1 Cron. ii, 44, 1 Cron. ii, 10, 1 Cron. viii, 2, 1 Cron.

ii, 4, Gen. xxiv, 14, Ezra ii, 2, 1 Cron. xxiii, 17, 1 Bren. xiv, 21, Gen. xxvi, 22.

REHUM. (*Trugarog*) Enw un o'r Lefaid, Ezra ii, 2. Y mae Duw yn drugarog ac yn raslawn, yn Dad y trugareddau ac yn Dduw pob diddanwch, ac y mae yn hoff ganddo drugaredd.

REL. (*Fy nghyfaill*)—Remaliah, *derchafiad yr Arglwydd*—Rephael, *meddyginiaeth Duw*—Rephaiah, *meddyginiaeth yr Arglwydd*—Rephidim, *gorphwysfa-oedd*—1 Bren. i, 8, 2 Bren. xv, 25, 1 Cron. xxvi, 7, Exod. xvii, 1.

RESEPH. (*Saeth boeth*) Mab Rephah, 1 Cron. vii, 25. Y mae y diafol yn taflu ei bicellau tanllyd a'i saethau poethion yn aml at blant Duw yma yn y byd; ond y mae tarian y ffydd yn diffoddi holl bicellau tanllyd y fall.

REUBEN. (*Gweloch fab*)—Reuel, *cyfaill Duw*, yr un a Raguel neu Jethro, y mae yn debygol, Gen. xxxvii, 40. Os ydym yn gyfeillion i Dduw, yr ydym yn cymdeithasu âg ef, ac yn dywedyd ein cwbl wrtho, ac yn ymddiried yn ddiysgog ynddo; ac y mae Duw yn egluro ei feddwl i ninnau, ac yn rhoddi ei gyfrinach neillduol i ni.

REZIN. (*Ewyllysiwr da*)—Ribai, *yr hun sydd yn lliosogi*—Ribla, *mawredd iddo*—Rimmon, *derchafedig*—Riphath, *meddyginiaeth*—2 Sam. xiii, 29, Jer. xxix, 5, Jos. xxi, 35, Gen. x, 3.

ROHGAH. (*Meddw*) Mab Samer, o lwyth Aser, 1 Cron. vii, 34. Y mae meddwod yn bechod mawr: y mae yn dyrusu y synwrau, yn afradloni'r trugareddau, anesmythau'r teulu, yn anghymwys dyn at bob dyledswydd, ac yn gwneud dyn yn agored i bob drwg, ac yn cau o'r nefoedd oddieithr edifarhau.

ROMANTIEZER. (*Derchafiad cymhorth*) 1 Cron. xv, 4—Ruth, *digonol*, gwraig mab Elimelech: dychwelodd gyda Naomi i wlad Israel: trodd Orpah yn ol, ond fe lynnodd Ruth: y mae yn ddarluniad neillduol o wir Gristion.

SALLABBIN. (*Cynnalwr y galon*) Dinas yn Dan; Jos. xix, 42. Nid oes neb a gynnal galon dyn yn wyneb angeu ond Iesu Grist, a gwir grefydd a duwioldeb—*Pallodd fy nghnawd a'm calon; ond nerth fy nghalon a'm rhan yw Duw yn dragywydd*—Ond O! fel y bydd calon y dyn annuwiol yn soddi mewn tristwch ac anobaith tragywyddol, yn wyneb angeu!—*Saaph, un sydd yn meddwl*, mab Jahdai—*Sabbethai, fy ngorphwysfa*, un o benaethiaid y Lefiaid—*Sacar, meddwod*, un o gedyrn Dafydd.—1 Cron. ii, 47, Neh. xi, 16, 1 Cron. xi, 35.

SALATHIEL. (*Gofynais gan Dduw*) Tad Zorobabel, 1 Cron. iii, 17. Y mae yn gweddu i bawb ofyn gan Dduw: os bydd eisiau doethineb, gofyned gan Dduw; os bydd eisiau trugareddau naturiol, gofyned gan Dduw; os bydd eisiau maddeuant pechod, nerth yn ol y dydd, cysur mewn gorthrynderau, neu gyfarwyddyd mewn amgylchiadau dyrus, gofynwch gan Dduw.

SALMANESER. (*Heddwch yn rhwym*)—*Salmon, heddychol*—*Samgar, difethiad dieithr*—*Sambuth, distryw*—*Samos, tywod*, ynys yn y môr canoldir—*Samson, haulog*—*Samuel, a archwyd gan Dduw*—*Sanbalat, perth ddargel*—*Sarai, fy nhwysoges*, gwraig Abraham.—2 Bren. xvii, 3, Mat. i, 4, Barn. iii, 31, 1 Cron. xxvii, 8, Barn. xiii, 2, 3, Neh. xiii, 28.

SARETHSAHAR. (*Dull y boreu*) Dull boreu'r farn fydd fel y canlyn: 1, Boreu ofnadwy a dychrynlyd—*Y nefoedd a ant heibio gyda thwrf, a'r elfenau gan wir wres a doddant*. 2, Boreu o ddatguddiad ac amlygiad pob dirgelion. 3, Boreu mawr o ran ei waith; sef codi y meirw o'u beddau, galw holl drigolion daer i gyfrif, a didol y drwg oddiwrth y da. 4, Boreu mawr o ran ei ganlyniadau; bydd yn foreu o lawenydd i'r duwiol, ac o dristwch a galar i'r annuwiol.

SARGON. (*Tynwr ymaith yr amddiffynfa*) Bronin Assyria ydoedd, Esay xx, 1—*Sarid, adfywiad*, dinas yn Zabulon. Yr ydym yn gobeithio cael gwled di-

wygiad ac adfywiad ar grefydd, trwy'r byd, cyn b'o hir: fe enir cenedl ar unwaith, ac fe ddaw teyrnasocdd y byd yn eiddo'n Harglwydd ni a'i Grist ef, ac fe â Sion yn ben moliant ar y ddaear.—Saron, *cân*, enw ardaloedd yn ngwlad Canaan—Saretan, *gorthrymder*, enw dinas yn agos i'r Iorddonen, sef yn agos i ddinas Adam, ac yn mhell iawn o'r fan y safodd yr Iorddonen yn bentwr, pan aeth Israel trwyddi i wlad Canaan—Sarsechim, *llywodraethwr y peraroglan*, un o dywysogion Babylon—Saul, *gofymedig*, un o freninocdd Israel—Scefa, *darparedig*, un o archoffeiriaid yr Iuddewon.—Jos. xix, 10; Can. ii, 1, Jos. iii, 16, Jer. xxxix, 3, Act. xix, 13.

SEARJASUB. (*Gweddill a ddychwel*) Un o feibion y proffwyd Esay. Enw yn arwyddo y byddai gweddill o Israel i ddychwelyd at yr Arglwydd eu Duw a Dafydd eu brenin: hwy a ddychwelant oddiwrth y cysgodau at y Sylwedd mawr; oddiwrth y grefydd Iuddewig at y grefydd Gristionogol; oddiwrth y ddeddf at yr efengyl, i ymofyn cyfiawnhad ger bron Duw; ac, fe ddichon, o'r holl wledydd y gwasgarwyd hwynt iddynt, i wlad Canaan i breswyllo.

SEBA. (*Meddwyn, neu ffynon y lle*)—Sebaniah, yr Arglwydd a ddychwelodd—Sebarim, *rhwygiadan*, lle rhwng Ai a Bethel—Seber, *rhwygiad*, mab Caleb—Sebuel, *gorphwysfa Duw*, mab hynaf Gerson—Secacah, *cysgod*, dinas yn Juda—Sechaniah, yr Arglwydd yn agos—Sechu, *tŵr gwyliaidoriaeth*, lle nodedig am fod yno ffynon ardderchog—Sechem, *rhan, braich, ysgwydd*, neu *gadernid*—Sehon, *diwreiddio*, brenin yr Amoriaid.—Gen. x, 7, 1 Cron. xv, 24, Neh. ix, 14, Jos. vii, 5, 1 Cron. ii, 48, 1 Cron. xxiii, 16, Jos. xv, 61, 1 Cron. iii, 21, 1 Sam. xix, 22, Num. xxvi, 31. Num. xxi, 21.

SELAH. (*Derchafu*) Sef derchafu y meddwl neu y llais: nôd cerddoriaeth yw, i gyfarwyddo cantorion y deml i newid neu i dderchafu eu lleisiau.—Sela-Har-malecoth, *craig y gwahaniadan*, 1 Sam. xxiii, 28.

SELUMMIEL. (*Heddwch Duw*) Penaeth llwyth Simeon, Num. i, 6. Mae pawb wrth natur yn elynion i Dduw, ond y mae Crist wedi gwneuthur heddwch trwy waed ei groes ef.—Sëm, *enwogrwydd*, ail fab Noah, Gen. v, 32—Semaraim, *nodd*, dinas yn agos i Bethel, Jos. xviii, 22—Senacherib, *perth dinystriad*, brenin Assyria, Esay xxxvii, 37.

SEPHAT. (*Yr hwn sydd yn canfod*) Dinas yn llwyth Simeon, Barn. i, 17. Ond nid oes neb yn canfod pob peth ond Duw: y mae pob peth yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef, am yr hwn yr ydym yn sôn.

SEPHORAH. (*Prydferthwch.*) Merch Jethro, a gwrraig Moses, Exod. ii, 21—Sera, *disgleirdeb*, mab Reuel, ac ŵyr Esau, Gen. xxxvi, 13—Seraiah, *tywysog yr Arglwydd*, ysgifenydd Dafydd, 2 Sam. viii, 17—Serfiah, *cadwyni yr Arglwydd*, merch Jesse, a chwaer Dafydd, a mam Joab, 1 Cron. ii, 15—Sielag, *mesur gwasgedig*, y ddinas a roddodd brenin Gath i Ddafydd, Jos. xix, 5, 1 Sam. xxvii, 6—Sicron, *meddwodod*, dinas yn Juda—Sihor, *cymysglyd, afonyw*, enw afon—Silhim, *cenhadau*, enw dinas yn rhandir Juda—Siloam, *anfonedig*, llyn neu ffynon yn agos i Jerusalem.—Jos. xv, 11, Jos. xiii, 3, Jos. xv, 32, Ioan ix, 6.

SILOH. (*Tangnefeddwr, neu rhoddwr heddwch*) Gen. xlix, 10—Simei, *yr hwn sydd yn gwrando*, mab Gera, yr hwn a felltithiodd Ddafydd, ac fe'i rhoddwyd i farwolaeth gan Solomon, 2 Sam. xvi, 5—11—Simeon, *chlywed*, neu *yr hwn sydd yn gwrando*, ail fab Jacob—Sinai, *perth*, mynydd nodedig yn Arabia, ar ba un y rhoddodd yr Arglwydd y gyfraith i Moses—Sephtan, *barnwr*, tad Cemuel—Solomon, *heddychol*, mab Dafydd, brenin Israel—Sophar, *codi'n foreu*, un o gyfeillion Job, Job ii, 11. Fe ddylai dynion godi'n foreu, yn moreuddydd eu hieuengetid, i geisio yr Arglwydd, ac i weithio yn ei winllan: 1, Am fod y gwaith yn fawr. 2, Am fod y dydd yn fyr. 3, Am fod nos anghou yn dyfod yn fuan iawn.

SOPHATHAH. (*Cansyddwn*) Enw dyffryn ydyw, 2 Cron. xiv, 10. Pan y byddom ni yn myned i lawr i ddyffryn cysgod angeu, ni a ganfyddwn lawer o bethau: 1, Mor ffol yw i ddyn ymfalchio ar ei lendid a'i gryfder. 2, Mor wag yw'r byd. 3, Mor werthfawr ac angenrheidiol yw gwir grefydd. 4, Mor fyr yw'n hamser, ac y dylem ymofyn am iachawdwriaeth o flaen dim arall.

STEPHAN. (*Coron*) Y merthyr cyntaf o dan yr oruchwyliaeth efangylaidd: cafodd goron o ferthyrddod ar y ddaear, a choron o ogoniant yn y nef.

SULAMEES. (*Heddychol*) Y mae yr eglwys yn cael yr enw hwn am ei bod wedi priodi Crist, yr hwn sydd yn swy na Solomon, ac yn Dywysog y tangnefedd. Can. vi, 13.—Susan, *lili*, dinas ardderchog yn Persia.

TAANACH. (*Yr hwn sydd yn dy gystuddio*) Dinas yn rhandir Manasseh, Jos. xvii, 13. Y mae y byd, y pechod, a'r diafol yn cystuddio llawer ar y duwiol, yma ar y ddaear.—Taanathsiloh, *tori y ffigysbren*, enw lle, Jos. xvi, 6—Tabbath, *daioni*, enw lle, Barn. vii, 22.—Tabeel, *Duw da*, Ezra iv, 7. Y mae daioni yn hanfodol, yn wreiddiol, ac yn anghyfnewidiol yn y Jehofa.—Tabrimmon, *pomgranad da*, tad Benhadad—Tahan, *trugarog*, mab Ephraim—Tahapanes, *cuddiedig*, dinas yn yr Aipht—1 Bren. xv, 18, Num. xxvi, 35, Jer. ii, 16.

TALMAI. (*Fy nhristwch*) Mab Anac, Jos. xv, 14. Y mae llawer o bethau yn achos o dristwch mawr i'r duwiolion; sef y gweddillion o lygredd ag sydd yn nglŷn â hwynt yn barhaus yma yn y byd, llithriadau galarus Cristionogion, pechodau rhyfygus yr annuwolion, yn nghyd â cholli gwedd wyneb yr Arglwydd.

TALMON. (*Darpariad*) Lefiad, un o borthorion y deml—Tamar, *palmwydden*, yr oedd llawer o'r un enw: merch-yn-nghyfraith Juda.—1 Cron. ix, 17, Gen. xxxviii, 6.

TANHUMETH. (*Diddanwch neu edifeirwch*) Mab Serajah, Jer. xl, 8. Mae Crist yn ddiddanwch Israel,

ae y mae yr Yspryd Glân yn Ddiddanydd, ac y mae y duwiofion yn rhodio weithiau yn ofa yr Arglwydd ac yn niddanwch yr Yspryd Glân : ond nid oes neb yn cael gwir ddiddanwch heb wir edifeirwch.

TEBAH. (*Elofruddiaeth*) Mab Nachor, Gen. xxii, 24. Y mae dynion yn euog o dori'r chweched gorchymyn trwy lawer ffordd: 1, Trwy lettya meddyliau drwg yn y galon, Mat. xv, 19. 2, Trwy lid a chenfigen, a chasineb at ereill, 1 Ioan iii, 15. 3, Trwy gyfeillachu ac uno â dynion drwg ac annuwiol: *Gwel-aist leidr, cytunaist ag ef*, Diar. i, 16. 4, Trwy gondemnio'r diniwaid, a bod yn achos o'i farwolaeth. 5, Trwy athrodiaeth, a chario chwedlan rhwng dynion a'u gilydd, ag a fyddo yn achos o gynnen a chenfigen. 6, Trwy ddwyn cam-dystiolaeth yn erbyn ereill mewn un achos o bwys, Lef. xix, 16. Y mae chwennychiad cybyddlyd a balohder wedi bod yn achos o lofruddiaeth: cof am Ahab, Jezebel, a Haman.

TEBALIAH. (*Golchiad yr Arglwydd*) Mab Hosah, un o'r porthorion yn y demt, 1 Cron. xxvi, 11. Y mae pawb wrth natur yn arian ac yn llygredig; y mae eu deall, eu cof, eu serehiadau, eu hewyllys, a'u cydwyllyd yn arian: ond y mae gan Dduw lwybr i'w golchi: sef trwy waed Crist, a thrwy olobiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glân.

TECOA. (*Udgorn*) Dinas yn Juda, yn mha un yr oedd y profwyd Amos yn byw cyn iddo gael eialw gan Dduw, Amos i, 1.

TELAH. (*Gostyngeiddrwydd*) Mab Repha, 1 Cro. vii, 25. Mae'n gweddu i hawb fod yn ostyngedig. Mae gostyngeiddrwydd yn gynnwysedig yn y pethau cantynol: 1, Mewn gwir ystyriaeth barohus o farredd Duw. 2, Mewn ystyriaeth deimladwy o'n gwaeledd ein hunain. 3, Mewn sanctaidd ymwrthodiad a phob gwag ogoniant. 4, Mewn gweddaidd ystyriaeth o'n lle a'n sefyllfa, ac ymddwyn yn weddaidd yn ein sefyllfa. 5, Mewn neidio cymeryd tramgwydd yn ddiachos, a bod yn hon ac yn barod i gymodi. 6, Mewn ymddibyniad

gwastadol ar Dduw am bob peth angenrheidiol. 7, Mewn bod yn ddiolchgar o galon i Dduw a dynion am bob cynawynasau.

TELASSAR. (*Yn crogi tywysogion*) Talaith yn Asia—Telem, *ysglyfaeth*, dinas yn Juda—Teraphim, *brwyrychnoyr*, math o ddelw ydoedd—Tertulus, *celwyddwr*, areithiwr yn amser Felics—Tiberias, *gwledigaeth dda*, dinas enwog yn agos i fôr Galilea—Ticfath, *gobaith** tad Salum—Tidal, *torwr yr iau*, brenin y cenedloedd—Timna, *rhwystr*, gorddetch-wraig Eliphaz—Timnathserah, *delw yr awul*, dinas yn Ephraim—2 Cron. xix, 12, Jos. xv, 24, 1 Sam. xv, 4, Hos. iii, 4, Act. xxiv, 1, Ioan vi, 36. 2 Cron. xxxiv, 22, Gen. xiv, 1. Gen. xxxvi, 12, Jos. xix, 50.

TIMOTHEUS. (*Anrhydeddwr Duw*) Efangylwr doeth: yr oedd er yn fachgen yn gwybod yr ysgrythur lân. Y mae yn gweddu i bawb anrhydeddu'r Arglwydd: 1, Trwy olygu ei ogoniant yn y cyfan. 2, Trwy gyfaddef ein pechodau ger ei fron. 3, Trwy gredu ac ymddiried yn ddisigl ynddo. 4, Trwy ddwyn firwythau sanctaidd. 5, Trwy foddioni i'w drefniadau. 6, Trwy fed yn siriol a llawen o dan bob gorthrymderau. 7, Trwy sefyll dros y gwirionedd. 8, Trwy ganu ei glodydd, galw arno, ei addoli yn gywir, a bod yn ddiolchgar iddo.

TIPSAH. (*Mynediad*) Dinas yn rhandir Ephraim—Tiras, *yr hwn sydd yn dinystrio*, seithfed mab Japheth—Tiria, *holwr*, mab Jehaleleel o dylwyth Caleb—Tirzah, *haelionus*, merch Zalpaad—Tob-Adoniah, *Duw da*, un o'r Lefiaid ydoedd, ag oedd yn byw yn amser Jehosaphat—Togarmah, *cadarn*, trydydd mab Gomer—Thadeus, *moliannydd*—Theophilus, *carwr neu gyfaill Duw*—Ucal, *un galluog*. Nid oes neb yn holl-alluog ond Duw.—2 Bren. xv, 16, Gen. x, 2, 1 Cron. iv, 16, Num. xxvi, 33, Gen. x, 3, Mat. x, 3, Luc i, 3, Diar. xxx, 1.

URIEL. (*Duw yw fy ngoleuni*) 1 Cron. vi, 24.

*Am Obaith, gwel "TRYBORAU'N GRON."

Y mae Duw, trwy ei air a'i Yspryd, yn goleuo dynion: 1, I ganfod purdeb ac ysprydolrwydd y gyfraith. 2, I ganfod drwg pechod. 3, I ganfod gwagder y byd. 4, I ganfod gwerth a pherygl yr enaid. 5, I ganfod annigonolrwydd eu cyfiawnderau eu hunain. 6, I ganfod addasrwydd a digonolrwydd Crist ar gyfer eu hangen.

UZ. (*Cynghor*) Mab Aram, Gen. x, 23. Y mae cynghor yn dda yn aml, ac y mae yn gweddu i Gristionogion gynghori eu gilydd bob dydd tra y gelwir hi Heddyw. 1, Dylent gynghori eu gilydd i rodio yn addas i efengyl Crist. 2, I chwilio yn fanwl am rym duwioldeb, ac i beidio adeiladu ar y tywod. 3, I ymgelyd rhag achlusuron pechod a themptasiynau y diafol. 4, Dylent gynghori eu gilydd i beidio troi yn ol, ond i lynu wrth yr Arglwydd o lwyrfyd calon.

UZZA. (*Cadernid*) 2 Sam. vi, 6. Fe weddai i bob Cristion fod yn gadarn yn y ffydd, ac ymwroli ac ymnerthu yn y gras sydd yn Nghrist Iesu.

UZZIEL. (*Nerth Duw*) Num. iii, 27. Mae Duw yn anfeidfol nerthol; ac yn rhoddi nerth i'r diffygiol, ac yn amlhau cryfder i'r rhai dirym.

ZAAANANNIM. (*Ysgogiadau*) Dinas yn Naphtali. Jos. xix, 33. Y mae yn gweddu i bawb ysgogi yn mlaen, 1, Mewn mwy o wybodaeth o bethau ysprydol. 2, Mewn ffydd, gobaith, cariad, amynedd, a gostyng-eiddrwydd. 3, Mewn nefolrwydd meddwl a sanctieddrwydd, a chynnydd ar ddelw Duw.

ZABAR. (*Rhedegwr*) Ezra x, 28. Y mae pawb yn rhedeg gyrfa tua byd o dragywyddol sylwedd; ac y mae yn ofynol i bawb redeg wrth reol y gair; a rhedeg trwy amynedd, gan edrych ar Iesu, Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni.

ZABDIEL. (*Rhan Duw*)^{*} Tad Jasobeam, 1 Cron. xvii, 2. Duw yw rhan ac etifeddiaeth ei bobl, Gal. iii, 24. 1, Duw yn ei holl briodoliaethau. 2, Crist yn ei holl Gyfryngdod. 3, Yr Yspryd Glân yn ei holl ddylanwadau. 4, Y nesoedd yn ei holl gyfiawnderau.

Y mae rhan y Cristion yn rhan dda, yn rhan ddigonol, ac yn rhan ddidreulio a diddarfod. Os ydym yn gwneud Duw yn rhan i ni; 1, Mae dymuniad hiraethlon ynom am gael adnabod ein bod mewn heddwch âg ef. 2, Y mae ystyriaeth o agosrwydd Duw attom yn ddi-ddanwch i'n meddwl. 3, Y mae gofal ynom i rodio dan deimlad o'i holl-bresenoldeb. 4, Mae gofal ynom i ymwrthod â phechod, yr hwn sydd yn cymylu rhyngom a gwedd ei wyneb. 5, Y mae hiraeth ynom i gael mwynhâd o hono yn moddion gras. 6, Yr ydym yn caru cyfeillachur â'i bobl. 7, Yr ydym yn foddlon i ddioddef pob peth drosto. 8, Yr ydym yn gobeithio cael ei fwynhau wyneb yn wyneb. Y mae'r saint yn rhan ac etifeddiaeth i Dduw, Jer. x, 16. 1, Y mae'r saint yn rhan ac yn etifeddiaeth i Dduw trwy ei etholiad o honynt yn y cynghor tragywyddol. 2, Trwy bryniad drudfawr. 3, Trwy oresgyniad, a'u gwarediad o feddiant y diafol: byddant yn briodoledd iddo byth. 1 Pedr i, 2, Act. xx, 28, Col. i, 12, Mal. iii, 17.

ZABULON. (*Trigfan neu gynnysgaeth*) Mab Jacob, Gen. xxx, 20. Y mae Duw yn trigo gyda ei bobl trwy ei air a'i Ysryd, a'i bresenoldeb cysurol a diddanol.

ZACCHEUS. (*Pur*) Pen publican ydoedd o ran ei swydd, yr hwn a alwodd Iesu yn effeithiol, Luc xix, 10. Ond nid oes un dyn yr bur wrth natur, ond yn llawn o aflendid: ond y mae Crist wedi rhoddi ei hun dros ei bobl, i'w prynu oddiwrth bob anwiredd, ac i'w puru iddo ei hun.

ZADOC. (*Cyfiawen*) Mab Abitub, archoffeiriad yn amser Saul. Nid oes neb yn gyfiaw wrth natur; nis gall neb gyrhaedd cyfiawnder trwy ddiem o'i eiddo ei hun; ac ni chaff neb fyned i'r nefoedd heb gyfiawnder mor berffaith ag y mae'r gyfraith yn ofyn: ond y mae gan y Cristion gyfiawnder triphlyg: 1, Cyfiawnder cyrifol Crist am yr enaid. 2, Cyfiawnder egwyddorol yn yr enaid. 3, Cyfiawnder ymarferol yn y fuchedd.

ZAHAM. (*Anmhuredd*) Mab Rehoboam. Y mae llawer o anmhuredd yn y Cristion goreu, ac yn yr

eglwys buraf yma yn y byd. *Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom.*

ZALMONAH. (*Eich delw*) Un o wersyllfaoedd Israel yn yr anialwch. Mae delw-addoliaeth yn drosedd ar y ddeddf foesol, ac yn ffaidd gan Dduw: ond y mae lle i ofni fod miloedd yn ngwlad yr efengyl yn euog o'r pechod hwn yn eu meddwl, er nad ydynt yn cadw delwau yn eu tai. 2 Sam. xv, 17, 2 Cron. xi, 19. Num. xxxiii, 41.

ZALPHAAD. (*Cysgod neu ofn*) Mab Hopher, Num. xxvi, 33.—Zamzummiad, *beiau mawrion*. Y mae dynion yn euog o feiau mawr yn eu meddwl, eu geiriau, a'u hymddygiadau. Y mae beiau mawr yn gyffredin yn dwyn gwarth mawr yn y byd, euogrwydd mawr yn angeu, a chosp fawr yn y byd tragwyddol. Gen. xiv. 5, Deut. ii, 20.

ZANOA. (*Anghof.*) Mab Jocuthiel, 1 Cron. iv, 18. Mae dynion yn dueddol iawn i anghofio pethau pwysig a gwerthfawr, a chofio pethau diles: 1, Y maent yn dueddol i anghofio y gorchymynion mwyaf difrifol. 2, I anghofio yr addewidion mwyaf melus. 3, I anghofio y bygythion mwyaf sobr a dychrynlyd. 4, I anghofio yr athrawiaeth fwyaf gogoneddus. 5, I anghofio y rheolau mwyaf ardderchog. Dylem ddal yn well ar y pethau a glywsom, rhag un amser i ni eu gollwng hwy i gollu.

ZAPHNATH-PAANEAH. (*Chwiliwr neu ddehonglwr dirgeledigaethau, neu iachawdwr y byd; neu trysor o gysur ardderchog*) Eirw a roddwyd ar Joseph yn yr Aipht, Gen. xli, 45. Y mae Crist yn llenwi yr enw hwn yn gyflawn. 1, Y mae wedi egluro meddwl, cynghor, ac ewyllys Duw i bechaduriaid: y dirgelwch oedd guddiedig er oesoedd ac er cenedlaethau, yr awr hon a eglurwyd i'w saint ef. 2, Y mae Crist yn cael ei alw yn iachawdwr y byd: y mae yn iachawdwr ordeiniedig ac o ddwyfol osodiad: hwn a rag-ordeiniwyd er cyn sylfaenu'r byd; hwn a dderchafodd Duw â'i

ddeheulaw, yn Dywysog ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel a maddeuant pechodau: y mae yn Iachawdwr galluog; eu Gwardwr hwynt sydd gryf, Arglwydd y lluoedd yw ei enw; y mae yn llefaru mewn cyfiawnder, ac yn gadarn i iachau; y mae wedi cael ei osod yn iachawdwriaeth hyd eithaf y ddaear: y mae yn Iachawdwr rhad, parod, ac ewyllysgar. 3, Y mae Crist yn drysor o gysur ardderchog i'w eglwys: 1, Y mae Person Crist yn achos o gysur mawr i'w eglwys. 2, Y mae swyddau Crist yn achos o gysur i'w bobl. 3, Y mae priodoliaethau Crist yn drysor o gysur; sef ei gariad, ei ddoethineb, ei holl-bresenoldeb, ei ffyddlondeb, a'i anghyfnewidioldeb. 4, Y mae teitlau Crist yn achos cysur; y mae yn haul, ffynon, noddfa, cysgod craig fawr, pren afalau, &c. 5, Y mae cyfiawnder a thrysorau Crist yn achos cysur iddynt. 6, Y mae marwolaeth Crist ar Galfaria yn achos cysur a gorfoledd iddynt. 7, Y mae adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw, a'i esgyniad i'r nefoedd, yn achos gorfoledd iddynt. 8, Y mae addewidion Crist yn achos cysur mawr i'r duwiolion. 9, Y mae eiriolaeth Crist ar ddeheulaw'r Tad yn achos o fawr orfoledd iddynt.

ZARAH. (*Crachen*) Mab Juda.—Zared, *disgyniad chwynn*, afon y tu hwnt i'r Iorddome, yn rhedeg i'r môr marw.—Gen. xxxviii, 28, 29, Num. xxi, 12.

ZATTU. (*Olew-wydd*) Un o'r rhai a seliodd y cyfamod â'r Arglwydd, wedi eu dychweliad o Babylon, Neh. x, 14. Y mae'r duwiol yn cael ei gyffelybu i'r olewydd, Hos. xiv, 6; sef yn hardd, yn dyfadwy, yn ffurwythlon, ac o-hir barhad; ac y mae'r olew gras sydd ynddynt yn gwneud i wyneb y byd ddisgleirio.

ZAZA. (*Disglaer*) Mab Jonathan, 1 Cron. ii, 33. Y mae y duwiolion i gyd yn ddisglaer yn ngolwg Duw, yn nghyfiawnder Crist; a byddant yn ddisglaer mewn sancteiddrwydd ar ol mayned i'r nef.

ZEBEDIAH. (*Rhan yr Arglwydd*) Ezra viii, 8. Rhan yr Arglwydd yw ei bobl: y maent yn eiddo iddo trwy etholedigaeth, prynedigaeth, ail-enedigaeth, a

mabwysiad.—Zeba, *aberth*, tywysog y Midianiaid—Zebedeus, *rhan*, tad Iago ac Ioan.—Barn. viii, 5. Mat. iv, 21.

ZEBOIM. (*Geifr*) Un o'r dinasoedd a ddinystriwyd gan dân o'r nefoedd, Gen. xix, 24. Y mae dynion annuwiol yn cael eu cyffelybu i eifr: yn ddrwg eu harogl, yn aflan, yn niweidiol i ddefaid Crist, ac yn sathru porfeydd breision yr efengyl, yn gymysg â phraidd yr Immanuel: ond fe'u didolir yn llwyr cyn b'o hir.

ZEBUDAH. (*Cynnysgaeddedig*) Mam Jehoiacim, brenin Juda, 2 Bren. xxiii, 36. Y mae'r duwiol wedi cael ei gynnysgaeddu â doniau yr Yspryd Glân; sef â ffydd, gobaith, cariad, gostyngeiddrwydd; amynedd, a hunan-ymwadiad.

ZEBUL. (*Preswylfod*) Tywysog Abimelec, mab Gedeon, Barn. ix, 28.—Zechariah, *coffadwriaeth yr Arglwydd*, mab Berachia, a phroffwyd enwog i'r Arglwydd. Y mae yr Arglwydd yn cadw coffadwriaeth o holl feddyliau, geiriau, ac ymddygiadau pechaduriaid; ac o holl ocheneidiau, griddfanau, dagrau, a chystuddiau ei blant: ac y mae yn gweddu i ninnau gadw coffadwriaeth barchus o hono yntau, yn ol gorchymyn Crist, *Cwnewch hyn er coffa am danaf.*

ZEDECIAH. (*Yr Arghwydd yn fy nhysfiawnder*) Mab Josiah, 2 Bren. xxiv, 17. Yr Arglwydd Iesu yw Cyfiawnder ei saint, yn ei ufudd-dod moesol a diodd-efol: y mae efe wedi cael ei wneuthur i ni gan Dduw yn ddoethineb, yn gyfiawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth: yr hwn a wnaeth efe yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef.

ZEDEUR. (*Goleuni galluog*) Tad Etizar, Num. i, 5. Y mae Crist yn yr efengyl yn oleuni galluog ac yn oleuni mawr, ac y mae yn troi dynion o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef, ac yn eu symud o dywyllwch i'w deyrnas ogoneddus ei hun.

ZEEB. (*Blaidd*) Tywysog Midian, Barn. vii, 25. Y mae gau athrawon yn cael eu cyffelybu i fleiddiaid,

Esay lvi, 10, 11. 1, Y maent yn caru tywyllwch o ddychymygion a chyfeiliornadau, 2, Maent yn cashau y goleuni o wir athrawiaeth bur yr efengyl. 3, Y maent yn ddychryn i saint effro Duw. 4, Y maent yn greulon, yn gyfrwys, ac yn ysglyfaethus.

ZELZAH. (*Cysgodol*) Enw lle ar gyffiniau rhandir Benjamin, 1 Sam. x, 2. Y mae Crist yn gysgod craig fawr mewn tir sychedig; y mae efe yn gysgod y dydd rhag y gwres; efe yw'r pren afalau, o dan gysgod pa un y mae yr eglwys yn eistedd, ac yn ymborthi ar ei ffrwythau melus a danteithiol. Mae cysgod yn Nghrist yn wyneb gorthrymderau'r byd, a gwres profedig-aethau tanllyd y diafol; ie, y mae cysgod yn Nghrist rhag melltirion y ddeddf a digofaint Duw: y mae cysgod yn ei gariad, yn ei gyfamod, ac yn ei aberth a'i iawn anfeidrol ef.

ZEMIRAH. (*Cân*) Mab Beecher, o lwyth Benjamin, 1 Croh. vii, 8. Diau fod canu mawr yn ddyledswydd; ac fe fydd y saint yn canu yn hyfryd yn y nefoedd, am eu hethol cyn bod y byd, am eu prynu ar Galfaria, am eu galw â galwedigaeth effeithiol, am eu gwisgo yn nghysawnder Crist, am faddeu eu holl bechodau, a'u gotchi yn ngwaed yr Oen; am eu mabwysiadu i deulu Duw, eu cynnal ar y rhiwiau serth, eu dilyn a'u harwain trwy'r anialwch mawr ac ofnadwy, a'u trosglwyddo yn ddihangol trwy'r Iorddonen i dir gwynfyd, ac i ehang faesydd a bryniau anfarwoldeb.

ZENAN. (*Oerfel*) Dinas yn Juda, Jos. xv, 37. Ni ddylai neb fod yn oer mewn crefydd ac yn ngwaith Iesu Crist; ond yn wresog yn yr Yspryd yn gwasanaethu yr Arglwydd: fe weddai fod ein calonau yn llosgi ynom pan y byddo efe yn ymddiddan â ni ar y ffordd.

ZENAS. (*Byw*) Cyfreithiwr duwiol ydoedd, yn amser yr Apostol Paul, Titus iii, 13. Y mae'n gweddu i bawb fod yn fywiog yn ngwaith yr Arglwydd: peth trwm iawn yw gweled dynion yn gysglyd ac yn farwaidd gydâ gwaith o gymaint pwys. Y mae gan bob

dyn duwiol fywyd cyfiawnhaol, sancteiddiol, a chysurol, ac y mae ganddo hawl i fywyd tragywyddol ar fryniau gogoniant.

ZEPHANIAH. (*Dirgelwch yr Arglwydd*). Proffwyd enwog ydoedd. Y mae anfeidrol ddirgelwch yn yr Arglwydd: sef yn ei hanfod ac yn yr undeb sydd rhwng Personau y Drindod a'u gilydd. Y mae anfeidrol ddirgelwch yn yr undeb personol a gymerodd le rhwng tragywyddol Berson y Gair a'n natur ni, yn mru y forwyn: *mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnaud.* Y mae goruchwyliaeth ei raglun-iaeth yn llawn o ddirgelwch: *y mae ei ffyrdd yn y mor, a'i lwybrau yn y dyfroedd mawrion; ni adwaenir ei ol—lwybrau tragywyddol sydd iddo.* Y mae dirgelwch yn yr undeb ysprydol sydd rhwng Crist a'i eglwys: *y dirgelwch hwn sydd fawr; eithr am Grist ac am yr eglwys yr wyf fi yn dywedyd.* Hefyd, y mae dirgelwch mawr yn y gymdeithas sydd yn cael ei chario yn mlaen rhwng yr Arglwydd a'r enaid duwiol: *dirgelwch yr Arglwydd sydd gyda y rhai uniawn, a'i gyfmod hefyd i'r cyfarwyddo hwynt.*

ZEPHO. (*Yr hwn sydd yn canfod*) Mab Eliphaz, Gen. xxxvi, 15. Mae Duw yn canfod pob peth sydd wedi myned liebio, a phob peth sydd yn bresenol, a phob peth ag sydd etto i ddyfod: y mae yn canfod pob meddwl a phob gweithred o eiddo ei greaduriaid: y mae pob peth yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef, am yr hwn yr ydym yn sôn.

ZER. (*Gorthrymder*) Dinas yn Naphtali, Jos. xix, 35. Y mae'r byd hwn yn llawn gorthrymder i'r duwiolion, y mae yn rhaid myned trwy lawer o orthrymderau i mewn i deyrnas Dduw.

ZERAHIAH. (*Disgleirdeb yr Arglwydd*). Mab Uzzi yr archoffeiriad. Fe wna yr Arglwydd ddifetha dyn pechod âg Yspryd ei enau, a'i ddileu â disgleirdeb ei ddyfodiad: fe wna disgleirdeb dyfodiad yr Arglwydd Iesu, yn ei deyrnasiad breniniaethol trwy'r efengyl,

ddistrywio a dileu Pabyddiaeth, eilun-addoliaeth, a Mahometaniaeth i ffwrdd o'r byd.

ZEREDAH. (*Plannigyn grymus*) Dinas o Ephraim, 1 Bren. xi, 26. Y mae Crist yn cael ei alw yn Blannigyn enwog; sef yn enwog o ran ei nodd a'i ireidd-dra, yn enwog o ran ei gangenau, yn enwog o ran ei ffurwythau, ac o ran ei gysgod; ac y mae Crist hefyd yn anfeidrol rymus.

ZERI. (*Rhwymau*) Mab Jeduthun, 1 Cron. xxv, 3. Y mae tragwyddol rhwymau a charchar anobeithiol yn aros dynion annuwiol tu draw i'r bedd; y maent yn awr yn rhwym gan gadwynau eu pechodau: ond gan i Grist gymeryd ei rwymo tua Chalfaria, fe gaiff miloedd eu rhyddhau oddiwrth lywodraeth eu pechodau.—Zeror, *rhwym*, mab Becorath, gorhendaid y brenia Saul, 1 Sam. ix, 1.

ZETHAN. (*Olew-wydd*) Mab Ladan, Lefiaid o deulu Gerson, 1 Cron. xxiii, 8.—Zibeon, *preswylfa anwiredd*, tad Aholibamah, Gen. xxxvi, 21. Y mae calon dyn di-ailenedig yn breswylfa i bob pechod ac anwiredd. 2, Y mae yr eglwys Babaidd yn breswylfa i bob anwiredd, twyll, a ffeidd-dra. 3, Y mae temlau y Paganïaid yn breswylfa i lawer o dwyll, dichell, ac anwiredd. Ond y mae y wir eglwys yn breswylfa ac yn golofn y gwirionedd.

ZICHRI. (*Cofiadur*) Gwr grymus o lwyth Ephraim, 2 Cron. xxviii, 7. Y mae yn gweddu i bawb gofio yn wastadol am y Duw holl-bresenol, am freuoldeb ein cyrph daearol, am fanyldra y farn gyffredinol, ac am agosrwydd y byd tragwyddol.

ZIHA. (*Melus*) Mab Abihael, o Gad, 1 Cron. v, 13. Y mae gair Duw yn felus iawn i'r duwiol; sef athrawiaeth, galwadau, ac addewidion y gair; ac y mae cyfeillach y saint â Duw ac â'u gilydd yn hynod o felus.

ZILPAH. (*Diystyrllud*) Llawforwyn Leah, a mam Gad ac Aser. Y mae llawer o'r dynion duwiolaf yn cael eu diystyru yma yn y byd, oblegid eu bod yn ar-

ddel Crist, ac yn byw yn dduwiol, ac yn cymeryd gair Duw yn rheol i'w ffydd a'u hymddygiad.

"Pwy fatter sydd i'r rhael a i gyd,

"Gael eu dirmygu gan y byd ?

"Mae'u henwau da, eu parch, a'u bri,

"Yn nghadw yn y nefoedd fry."

ZIMMAH. (*Meddwl*) Tad Joah, o deulu Gerson, 2 Cron. xxix, 12. Y mae yn gweddu i bawb feddwl llawer am yr Arglwydd, a meddwl pa fodd y mae yn sefyll rhyngddynt ag ef, a meddwl llawer am angeu, barn, a byd tragwyddol.

ZIMRAN. (*Can*) Mab cyntaf Abraham o Ceturah. —Zimri, *fy maes*, mab Zerah, ac wyr Tamar, o Juda. Gen. xxv, 2. 1 Cron. ii, 6.

ZION. (*Sychder*) Mynydd ar ba un yr oedd rhan o ddinas Jerusalem yn sefyll. Y mae eglwys Dduw dan y Testament newydd yn cael ei galw yn *Zion*: 1, Mae yn lle preswylfa Duw. 2, Yn wrthrych cariad neillduol Duw. 3, Yn llawenydd yr holl dddear.

ZIPHON. (*Gan lawenydd*) Dinas o du'r gogledd i wlad Canaan, Num, xxxiv, 9. Y mae lle i ofni mai llawenydd gau sydd gan lawer: nid oes dim gwir lawenydd gau heb ond y duwiolion: *byr yw gorfoledd yr annuwiolion, a llawenydd y rhagrithwyr dros fuanud awr.*

ZIZ. (*Blodeuyn*) Yma y gorchfygodd Jehosaphat yr Amoriaid a'r Moabïaid, 2 Cron. xx, 16. 1, Y mae y saint a'u grasusau yn cael eu cyffelybu i flodau. 2, Y mae dynolryw yn gyffredin, mewn ieuengctid a llwyddiant, yn cael eu cyffelybu i flodau: er mor hardd eu hymddangosiadau, etto y maent yn gwywo yn wneb cystudd ac angeu: ond ni wywa blodau gras.

ZOAN. (*Ysgogiad*) Dinas yn yr Aipht: yn maesydd Zoan y gwsaeth Moses ei wyrthiau rhyfeddol y'ngwydd dewiniaid yr Aipht, Num. xiii, 22, Salm lxxviii, 12. Y mae pawb yn ysgogi at Dduw neu at bechod, tua'r nefoedd neu tuag uffern.

ZOHELETH. (*Ymlusgo*) Maen nodedig, oedd wrth Hynon En-Rogel, wrth fur Jerusalem, 1 Bren. i, 9.

ZOHETH. (*Ysgaru*) Un o lwyth Simeon, 1 Cron. iv, 20. Y mae pechod wedi ysgaru dynion oddiwrth Dduw: *eich pechodau a'ch anwireddau a ysgarodd rhyngoch chiwi a'ch Duw.* Y mae angeu yn ysgaru perthynasau hawddgar a hoff oddiwrth eu gilydd; ac yn ysgaru corph ac enaid oddiwrth eu gilydd dros amser; ac fe ddiddolir y duwiol o blith yr annuwiol, yn llwyr ac am dragywyddoldeb, yn moreu'r farn.

ZOPHAH. (*Deddf.*) Mab Helem, o Aser. 1 Cron. vii, 35. Fe sonia'r Bibl am lawer deddf: fe gafodd tair deddf eu rhoddi gan Dduw i Israel: 1, Y ddeddf foesol. 2, Y ddeddf seremoniol. 3, Y ddeddf farnol. Fe sonia'r Bibl am ddeddf gweithredoedd, deddf ffydd, deddf Yspryd y bywyd, deddf pechod a marwolaeth, deddf y meddwl, a deddf yn yr aelodau.

ZORAH. (*Gwahanglwyf.*) Dinas yn Dan, lle genedigol Samson, Barn. xvi, 31. Y mae pawb wrth natur yn llawn o'r gwahanglwyf o bechod: 'y mae, fel y gwahanglwyf, yn ffiadd a drewedig, yn cau allan o'r gwersyll sanctaidd, yn analluogi dyn i wneuthur dim er gogoniant i Dduw, y mae yn chwyddo yr enaid mewn balchder, yn gwneud dyn i losgi mewn trachwantau, ac yn sychedig am wagedd.

ZOKOBABEL. (*Dieithr yn Babel*) Mab Salathiel, un o deulu breninol Dafydd, Mat. i, 12. Zorobabel a sylfaenodd yr ail deml yn Jerusalem; efe hefyd, fel offeryn, a'i gorphenodd. Yr oedd yn gysgod neillduol o Grist, Adeiladwr mawr ei eglwys.

ZURISADAI. (*Yr Arglwydd yw fy nghraig*) Num. i, 6.—Zuriel, *Duw yw fy nghraig*, Num. iii, 35. Fe ddywed Moses, *Canys nid fel ein craig ni y mae eu craig hwynt; a bydded ein gelymion yn farnwyr.* Craig yr annuwiolion yw cyfoeth daearol, hunan-ddoethineb, hunan-gyfiawnder, lluosogrwydd o feirch a cherbydau, milwyr, ac arfau rhyfel: ond oraig y duwiol yw Arglwydd Dduw y duwiau. 1, Mae efe yn graig iddynt yn ei arfaeth a'i dragywyddol fwriadau: *Cyngkor yr Arglwydd a saif yn dragywydd—y mae cadarn sail*

Duw yn sefyll, a chanddo y sel hon. 2, Y mae efe yn graig yn ei briodoliaethau; sef yn ei gariad, yn ei allu, ei gyfiawnder, ei ffyddlondeb, a'i ddoethineb. *Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn amhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf.* 3, Y mae efe yn graig iddynt yn ei gyfamod: y mae'r cyfamod gras yn dragywyddol o ran ei luniaethad, yn gadarn ac yn sicr. *Y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant: eithr fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, a chyfamod fy heddi ni syff, medd yr Arglwydd.* 4, Y mae efe yn graig iddynt yn nghyfyngdod ei Fab; y mae ei beron, ei enwau, ei swyddau, ei iawn, ei glwyfau, a'i eiriolaeth, yn graig iddynt. Y mae craig y duwiol yn rhagori yn mhell ar graig yr annuwiol: 1, Y mae yn rhagori, am ei bod yn gyfleus ac yn agos attom beblymhor. *Duw sydd noddfa a nerth i ni, cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.* 2, Y mae yn rhagori, am fod pob cyflawnder yaddo i wneud enaid yn ddedwydd: os yn dlawd, y mae yma berlau i'th gyfoethogi; os yn newynog, y mae yma fel i'th ddiwallu; os yn sychedig, y mae yn y graig hon ddwfr bywiol i'th ddisychedu. O fy enaid, tyred yn mlaen, i yfed o'r graig ysprydol hon. 3, Y mae craig y duwiol yn rhagori, am ei bod yn sicr o ddiogelu rhag pob perygl: y mae yn gysgod craig fawr mewn tir sychedig: fe wna hon ddiogelu rhag ceullysg o felltithion Sinai, rhag glwlaw o ddigofaiut, rhag ystormydd o euogrwydd, a gwres profedigaethau. *A phabell fydd yn gysgod y dydd rhag gwres, ac yn noddfa ac yn ddiddos rhag tymhestl a rhag glwaw, Esay. iv, 6.* 4, Y mae yn rhagori, am ei bod yn sicr o sefyll yn ddigryn yn wyneb pob cyfnewidiadau. *Y nefoedd a'r ddaear a grynant; ond yr Arglwydd fydd gobaith ei bobl, a chadernid meibion Israel, Joel iii, 16.* Mae ein craig ni yn rhagori ar ddawiau, cadernid, a chyfoeth yr Aiphitiaid; a bydded ein gelynyon yn farnwyr: y mae yn drech na'r Amaleciaid; a bydded ein gelynyon yn farnwyr: y mae yn drech na Dagon a holl ddelwau y cenedloedd, a bydded ein gelynyon yn farn-

wyr. 1, Dysgw'n beidio eros mewn un gau noddfa.
2, Dysgw'n ymddiried, llawenhau, a gorfoleddu yn Nuw; Craig ein iachawdwriaeth. *Caned preswylhwr y graig, bloeddiant o ben y mynyddoedd.*

II. SYLWIADAU AR AMRYW O'R CYFFEL- YBIAETHAU YSGRYTHUROL.

Mewn fordd o Ymddiddan rhwng CALEB a JOSUA.

CALEB. PA beth yw Duw?

JOSUA. *Yspryd yw Duw; a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef addoli mewn Yspryd ac mewn gwirionedd, Ioan iv, 24.*

Caleb. Pa fath Yspryd yw Duw?

Josua. 1, Tragwyddol ddiddechreu a diddiwedd. Salm xc, 2, Esay xl, 28, Gen. xxi, 33, Hab. i, 12, Rhuf. xvi, 26. 2, Yspryd anghyfnewidiol yn ei natur a'i holl briodoliaethau, Salm cii, 12, Iago i, 17, Mat. iii, 6. 3, Yspryd anfeidrol ac anchwiliadwy, Job xi, 7—9, Jer. xxiii, 24. 4, Yspryd hollalluog ac anfeidrol ddoeth, Gen. xvii, 1, Jer. xxxii, 17, Marc x, 27, Job ix, 4, a xii, 13, a xxxvi, 5, Dan. ii, 20, Rhuf. xi, 33, a xvi, 27, 1 Tim. i, 17, Judas 25. 5, Yspryd holl-bresenol a holl-wybodol, Job xi, 19, Salm cxxxix, 7—10, 1 Bren. viii, 27, 1 Sam. ii, 3, Salm cxlvii, 5, 1 Ioan iii, 20. 6, Yspryd llawn o gyfiawnder a sancteiddrwydd, Salm cxlv, 17, 1 Sam. ii, 2, Dat. iv, 8. 7, Yspryd llawn o ddaioni a thrugaredd, Salm cxlv, 9, Exod. xxxiv, 6, 7. 8, Yspryd llawn o wirionedd a ffyddlondeb, Deut. vii, 9, Deut. xxxii, 4, Salm xxxi, 5. 9, Yspryd anfarwol a diddadfeilio, Dan. iv, 34, Dat. x, 6, 1 Tim. i, 17.

Caleb. Pa beth sydd i'w ddeall wrth *wyneb* Duw yn yr ysgrythurau?

Josua. 1, Disgleirdeb ei natur a dirgelwch ei hanfod, Exod. xxxiii, 20—23. Ac efe a ddywedodd, Ni

elli weled fy wyneb: canys ni'm gwel dyn a byw. 2, Ei gariad, ei drugaredd, ei ewylllys da, a'i gy-suron i'w blant, Salm lxxx, 3, Dan. ix, 17. 3, Ymddangosiad gogoneddus yr Arglwydd ar Sinai, Deut. v, 4, Num. xii, 8. 4, Ordinhadau ac addoliad Duw: dywedir fod Cain wedi myned allan o wydd yr Arglwydd; a bod Jonah wedi cyfodi i ffoi i Tarsis oddi ger bron yr Arglwydd; sef oddiwrth ei eglwys a'i addoliad, Gen. iv, 14, 16, Jonah i, 3. 5, Digofaint Duw yn cael ei egluro yn ei farnedigaethau ar bechaduriaid, Jer. xxi, 10. Canys mi a osodais fy wyneb yn erbyn y ddinas hon er drwg ac nid er da, medd yr Arglwydd. 2 Thes. i, 9, 1 Pedr iii, 12. 6, Mwynhâd hyfrydon o Dduw yn y nefoedd, 1 Cor. xiii, 12. Canys gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych mewn dameg; ond yna wyneb yn wyneb. Dat. xxii, 3, 4. A'i weision ef a'i gwasanaethant ef; a hwy a gânt weled ei wyneb ef bob amser. O! y fath fraint ym cael byw yn llewyrch wyneb yr Arglwydd yma ar y ddaear: y mae gwedd ei wyneb yn melusu dyfroedd chwerwon Mara; y mae gwedd ei wyneb yn tynu'r beichiau trymion i lawr, ac yn peri i'r gelynion fyned yn ol yn ngwysg eu cefnau, ac yn gwneud i'w bobl redeg drwy'r byddinoedd a llamu dros y muriau. O Dduw, dercha arnom o lewyrch dy wyneb, a dyro i ni drachefn o orfoledd dy iachawd-wriaeth.

Caleb. Pa beth sydd i'w ddeall wrth *lygaid* Duw yn yr ysgrythurau?

Josua. 1, Ei holl-wybodaeth ef. Salm xi, 4, Y mae ei lygaid ef yn gweled, ei amrantau yn profi meibion dynion. Job xxxiv, 21, Canys ei lygaid ef sydd ar ffyrdd dyn, ac efe a wel ei holl gamrau. Heb. iv, 13, Pob peth sydd yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef, am yr hwn yr ydym yn sôn. 2, Gofal rhagluniaethol a grasol Duw am ei bobl. Deut. xi, 12, Tir yw, yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei ymgeleddu: llygaid yr Arglwydd dy Dduw sydd bob amser arno, o ddechreuad y flwyddyn hyd ddiwedd y flwyddyn hefyd. 1 Bren. ix, 3, Fy llygaid hefyd a'm

calon fydd yno yn wastadol. 2 Cron. xvi, 9, Canys y mae llygaid yr Arglwydd yn edrych ar yr holl ddaear, i'w ddangos ei hun yn gryf gyda y rhai sydd a'u calon yn berffaith gydag ef. Deut. xxxii, 10, Ezra v, 5, Zech. ii, 8. 3, Dwyfol ddigofaint Duw tuag at ei elynion. Amos ix, 4, Ac os ânt i gaethiwed o flaen eu gelynion, oddi yno y gorchymynaf i'r cleddyf, ac efe a'u lladd hwynt: a gosodaf fy ngolwg yn eu herbyn er drwg; ac nid er da iddynt. Esay iii, 8, Canys cwmpodd Jerusalem, a syrthiodd Juda: o herwydd eu tafod hwynt a'u gweithredoedd sydd yn erbyn yr Arglwydd, i gyffroi llygaid ei ogoniant ef. Gau fod llygaid yr Arglwydd fel fflam dân yn cynniwair trwy'r ddaear, a bod pob peth yn noeth ac yn agered i'w llygaid ef; gwelwn, 1, Ynfydrwydd y bobl sydd yn pechu mewn ditgel fanau; ac yn ceisio cuddio eu pechodau: y mae Duw yn canfod yn y tywyllwch yr un ffanug ag yn y goleuni, ac ni chuddia y tywyllwch rhagddo ef. 2, Gwelwn ynfydrwydd y rhai sydd yn profesu crefydd yn rhagrithiol: Duw a ddrwg bob gweithred i farn, a phob peth ditgel i'r amlwg. 3, Gwelwn sail-cysur i'r duwiol o dan bob amgylchiad: y mae Duw yn gweled eu holl adfyd, eu cystudd, a'u dagrau.

Caleb. Pa beth sydd i'w ddeall wrth *glustiau* yr Arglwydd yn y gair?

Josua. 1, El waith yn gwrandó ac yn ateb gwedd-iau ei blant yn eu cyfyngderau. Salm x, 17, Arglwydd; clywaist ddymuniaid y tlodion: parottoi eu calon hwynt, gwrendy dy glust arnynt. Salm xxxi, 3, Gogwydda dy glust attaf, a gwared fi ar frys. Salm cxxx, 2, Arglwydd, clyw fy llesain; ystyried dy glustiau wrth les fy ngweddiau. 2, Gwaith Duw yn gwybod am, ac yn sylwi'n fanwl ar bechodau dynion. Num. xi, 1, A'r bobl, fel tuchanwyr, oeddynt sin yn nghlustiau'r Arglwydd; a chlywodd yr Arglwydd hyn, a'i ddig a'nny-nodd, Iago v, 4, A llesain y rhai a fedasant a llaeth i mewn i glustiau Arglwydd y lluoedd.

Caleb. Pa beth sydd i'w ddeall wrth *ffroenau* yr Arglwydd?

Josua. 1, Digofaint Duw at ei elynion. 2 Sam. xxii, 9, 16, Job iv, 9, Salm xviii, 15. Exod. xv, 8, Trwy chwythiad dy ffroenau y casglwyd y dyfroedd yn nghyd; y ffrydiau a safasant fel pentwr; y dyfnderau a geulasant yn nghanol y môr. 2, Atgasrwydd Duw at eilun-addoliaeth a phob pechod. Esay lxxv, 5, Y rhai hyn sydd fâg yn fy ffroenau, tân yn llosgi ar hyd y dydd. 3, Gwaith Duw yn cymeradwyo firwythau gras y duwiolion. Phil. iv, 18, Šef arogl peraidd, aberth cymeradwy, boddlawm gan Dduw.

Caleb. Pa beth sydd i'w ddeall wrth *enau* yr Arglwydd yn y gair?

Josua. 1, Ei ewyllys da a'i ofal rhagluniaethol am ei greaduriaid. Deut. viii, 3, Fel y gwnei efe i ti wybod nad trwy fara yn unig y bydd byw dyn; ond trwy bob gair ar sydd yn dyfod allan o enau yr Arglwydd y bydd byw dyn. 2, Bygythion Duw yn cael eu cyflawnu yn nhywalltiad ei farnedigaethau ar yr annuwiolion. Ac efe a dery'r ddaear â gwialen ei enau, ac âg anadl ei wesusau y lladd efe yr anwir, Esay xi, 4. 2 Thes. ii, 8, Ac yna y datguddir yr anwir hwnw, yr hwn a ddifetha yr Arglwydd âg Ysryd ei enau, ac a ddilea â disgleirdeb ei ddyfodiad. 3, Addewidion melus yr efengyl. Can. v, 16, Melus odiaeth yw ei enau; ie, y mae efe oll yn hawddgar. Salm xix, 10, Mwy dymunol ynt nag aur, ie, nag aur coeth lawer: melusach hefyd na'r mel, ac na diferiad y diliau mel.

Caleb. Pa beth sydd i'w ddeall wrth *fraich* yr Arglwydd yn yr ysgrhythurau.

Josua. 1, Eiallu a'i awdurdod. Exod. xv, 16, Ofn ac arswyd a syrth arnynt: gan fawredd dy fraich y tawant fel carreg; nes myned trwodd o'th bobl di, Arglwydd, nes myned o'r bobl a ennillaist ti trwodd. Salm lxxxix, 13, Y mae i ti fraich a chadernid, cadarn yw dy law ac uchel yw dy ddeheulaw. Esay xxx, 30, A'r Arglwydd a wna glywed arddorchawgrwydd ei lais,

ac a ddengys ddisgyniad ei fraich, mewn digter lliidiog, ac â fflam dân ysol, â gwasgarfa, ac â thymestl, ac â cherrig cenllysg. Esay li, 9, Deffro, deffro, gwisg dy nerth, O fraich yr Arglwydd; fel yn y dyddiau gynt, yn yr oesoedd gynt. Edrych hefyd Esay lix, 16, Esay lrii, 8, Salm cxxxvi, 11, 12. Jer. xxxii, 17, O Arglwydd Dduw, wele ti a wnaethost y nefoedd a'r ddaear, â'th fawr allu, ac â'th fraich estynedig: nid oes dim rhy anhawdd i ti. 2, Athrawiaeth yr efengyl. Esay lii, 10, Diosgodd yr Arglwydd fraich ei sancteiddrwydd yn ngolwg yr holl genedloedd; a holl gyrau'r ddaear a welant iachawdwriaeth ein Duw ni. 3, Crist, y Cyfryngwr, yr hwn yw gallu Duw a doethineb Duw. Esay liii, 1, Pwy a gredodd i'n hymadrodd, ac i bwy y datguddiwyd braich yr Arglwydd?

Caleb. Pa beth sydd i'w ddeall wrth *law* a *deheulaw* Duw yn y Bibl?

Josua. 1, Ei dragywyddol amcanion a'i fwriadau sefydlog. Act. iv, 27, 28, Canys, mewn gwirionedd, yn y ddinas hon yr ymgunnollodd yn erbyn dy sanctaidd Fab Iesu, yr hwn a eneiniaist ti, Herod a Phontius Pilat, gyda'r cenedloedd a phobl Israel, i wneuthur pa bethau bynag a ragluniodd dy law a'th gynghor di eu gwneuthur. 2, Gweithrediad ei allu yn gyffredinol. Job xii, 9, Pwy ni wyr yn y rhai hyn oll, mai llaw yr Arglwydd a wnaeth hyn. Salm xcv, 5, Y môr sydd eiddo, ac efe a'i gwnaeth; a'i ddwyllaw a luniasant y sychdir. 3, Ei gadernid anfeidrol yn diogelu ac yn amddiffyn, ac yn gwaredu ei bobl, a'i ofal am danynt. Deut. xxxiii, 3, Caru y mae efe y bobl, ei holl saint ydynt yn ei law. Ioan x, 29, Y mae fy nhad i yn fwy na phawb, ac ni ddwg neb hwynt allan o law fy nhad i. Salm cxviii, 15, 16; Exod. xv, 6. Cofiaf flynyddoedd deheulaw y Goruchaf, Salm lxxvii, 10. 4, Ei farnedigaethau a'i geryddon. Exod. ix, 3, Job xix, 21, Salm xxi, 8, a xxxviii, 2, Act. xiii, 11. 5, Mae deheulaw Duw yn arwyddo gorfoledd, aprhydedd, gogoniant, a'r awdurdod uchaf: yn yr ystyr hyn y dywedir fod

Crist yn eistedd ar ddeheulaw'r Mawredd, yn y goruwchleoedd. Salm cx, 1, Mat. xxii, 44.

Caleb. Pa beth sydd i'w ddeall wrth enaid Duw?

Josua. Ei natur, ei ewyllys, ei gariad, a'i gyfeillach: mae ei enaid yn foddlon yn ei Fab; mae ei enaid yn cashau y drygionus; ac nid yw ei enaid yn foddlon i'r rhai sydd yn tynu yn ol. Esay xliii, 1, Salm xi, 5, Heb. x, 38.

Caleb. Pa beth sydd i'w ddeall wrth galon Duw yn y gair?

Josua. 1, Ei natur a'i hanfod, Gen. vi, 6. Ac edifarhaodd ar yr Arglwydd wneuthur o hono ddyn ar y ddaear, ac efe a ymofidiodd yn ei galon. 2, Ei fwriad a'i ewyllys. Gen. viii, 21, A dywedodd yr Arglwydd yn ei galon, Ni 'chwanegaf fellithio'r ddaear mwy er mwyn dyn. 3, Ei gariad a'i ewyllys da. Act. xiii, 22, Cefais Dafydd fab Jesse, gwr yn ol fy nghalon, yr hwn a gyflawna fy holl ewyllys. Jer. xxxii, 41.

Caleb. Pa beth yw rhai o'r enwau cydmariaethol y mae yr Arglwydd yn gael yn yr ysgrythurau?

Josua. 1, Y mae yn cael ei alw yn Ffynon: i ddangos ei burdeb, ei gyflawnder, ei barhâd, a rhadlonrwydd ei fendithion. Jer. ii, 13, Canys dau ddrwg a wnaeth fy mhobl; hwy a'm gadawsant i, Ffynon y dyfroedd byw, ac a gloddiasant iddynt eu hunain bydewau wedi eu tori, ni ddoliant ddwfr.

2, Mae yn cael ei alw yn Haul; i ddangos ei fawredd, ei ddisgleirdeb, a'i ogoniant; a'i fod yn Dad y goleuni, yn adfywio yr holl greadigaeth, ac yn anghyfnewidiol. Salm lxxxiv, 11, Canys haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw: yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant: ni attal efe ddim daioni oddiwrth y rhai a roddiant yn berffaith.

3, Y mae yn cael ei gyffelybu i dân. Deut. iv, 24, Oblegid yr Arglwydd dy Dduw sydd dân ysol, a Duw eiddigus. Esay x, 17, A bydd goleuni Israel yn dân, a'i ogoniant yn fflam; ac efe a lysg ac a ysa ei ddrain a'i fieri mewn un dydd.

4, Y mae yn cael ei alw yn Oleuni, 1 Ioan i, 5; A hon yw y genadwri a glywsom ganddo ef, ac yr ydym yn ei hadrodd i chwi, Mai goleuni yw Duw, ac nad oes yddo ddim tywyllwch. Salm xxvii, 1, Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm iachawdwriaeth: rhag pwy yr ofnaf? yr Arglwydd yw nerth fy mywyd: rhag pwy y dychrynaf?

5, Y mae Duw yn cael ei gyddmaru i fangre afonydd a ffrydiau llydain. Esay xxxiii, 21, Eithr yr Arglwydd ardderchog fydd yno i ni yn fangre afonydd a ffrydiau llydain: y rhwyf-long nid â trwyddo, a llong odidawg nid â drosto.

6, Y mae yn cael ei alw yn Graig. Dent. xxxii, 4, 31, Efe yw y Graig: perffaith yw ei weithred. Canys nid fel ein Craig ni y mae eu craig hwynt: a bydded ein gelynyon yn farnwyr.

7, Y mae yn cael ei alw yn Noddfa. Dent. xxxiii, 27. Dy noddfa yw Duw tragywyddol; oddi tanodd y mae y breichiau tragywyddol: efe a wthia dy elyn o' th flaen, ac a ddywed, Difetha ef. Salm xlvii, 1, Duw sydd noddfa a nerth i ni, cymborth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

8, Y mae yn cael ei alw yn Dŵr ac yn Amddiffynfa. Diar. xviii, 10, Tŵr cadarn yw enw yr Arglwydd; atto y rhed y cyfiawn, ac y mae yn ddiogel. Salm xviii, 2, 3.

9, Y mae yn cael ei alw yn Lloches. Salm xxxii, 7, Ti ydwyt loches i mi; cedwi fi rhag ing: amgylchyni fi â chaniadau ymwarded.

10, Y mae Duw yn cael ei alw yn Darian. Gen. xv, 1, Wedi y pethau hyn, y daeth gair yr Arglwydd at Abram mewn gweledigaeth, gan ddywedyd, Nac ofna Abram: myfi ydyw dy darian, dy wobr mawr iawn. Salm iii, 3, Ond tydi, Arglwydd, ydwyt darian i mi; fy ngogomiant a derchafydd fy mhen. Salm xxviii, 7, Yr Arglwydd yw fy nerth a'm tarian: ynddo ef yr ymddriedodd fy nghalon, a mi a gynnorthwywyd. Salm lix, 11. Salm lxxxiv, 9, O Dduw ein tarian, gwel, ac edrych ar wyneb dy enoiniog. Salm cxix, 114, Fy lloches a'm

tarian ydwyt: yn dy air y gobeithiaf. **Diar. ii, 7,** Tariau yw efe i'r sawl a rodiant yn uniawn. **Deut. 33, 29.**

11, Y mae yn cael ei gyffelybu i fur o dân. **Zech. ii, 5,** Canys byddaf iddi yn fur o dân o amgylch, medd yr Arglwydd, a byddaf yn ogoniant yn ei chanol.

12, Y mae yn cael ei alw yn Breswylfa. **Salm xc, 1,** **Ti, Arglwydd, fuost yn breswylfa i ni yn mhob cenedlaeth.** **Salm xci, 9,** Am i ti wneuthur yr Arglwydd fy noddfa, sef y Goruchaf, yn breswylfa i ti.

13, Y mae yn cael ei gyffelybu i faen Jaspus a Sardin. **Dat. iv, 3,** A'r hwn oedd yn eistedd oedd yn debyg yr olwg arno i faen jaspus a sardin: ac yr oedd enfys o amgylch yr orseddfaingc, yn debyg yr olwg arno i smaragdus.

14, Y mae yr Arglwydd yn cael ei alw yn Rhan ac yn Etifeddiaeth. **Salm xvi, 5, 6.** Yr Arglwydd yw rhan fy etifeddiaeth i a'm phiol; ti a gynneli fy nghoelbren. **Salm cxix, 57,** O Arglwydd, fy rhan ydwyt: dywedais y cadwn dy eiriau.

Caleb. I ba bethau drachefn y cyffelybir ef yn y gair?

Josua. 1, Y mae yn cael ei gyffelybu i wr o ryfel. **Exod. xv, 3,** Yr Arglwydd sydd ryfelwr: yr Arglwydd yw ei enw. **1 Sam. xvii, 47,** Canys eiddo'r Arglwydd yw y rhyfel, ac efe a'ch rhydd yn ein llaw ni. **2 Sam. xxii, 35,** Efe sydd yn dysgu fy nwyllaw i ryfel. **2 Cron. xx, 15,** Fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthy chwi, Nac ofnwch ac na ddigalonwch rhag y dyrfa fawr hon: canys nid eiddoch chwi y rhyfel, ond eiddo Duw.

2, Y mae yn cael ei alw yn Adeiladydd. **Heb. iii, 4,** Ond yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw. **Salm cii, 16,** Pan adeilado yr Arglwydd Sion, y gwelir ef yn ei ogoniant.

3, Y mae yn cael ei alw yn Llafurwr. **Ioan xv, 1,** Myfi yw y wir winwydden, a'm Tad yw y Llafurwr. **1 Cor. iii, 9,** Llafurwaith Duw ydych chi.

4, Y mae yn cael ei gyffelybu i wr o berehen tŷ. Mat. xxi, 33, Clywch ddamag arall: yr oedd rhyw wr o berchen tŷ, yr hwn a blannodd winllan, ac a osododd gae yn ei chylch hi, ac a gloddiodd ynddi win-wryf, ac a adeiladodd dŵr, ac a'i gosododd hi allan i lafurwyr, ac a aeth oddi cartref.

5, Y mae yn cael ei gyffelybu i grochenydd. Rhuf. ix, 21, Onid oes awdurdod i'r crochenydd ar y pridd-gist, i wneuthur, o'r un telpyn pridd, un llestr i barch ac arall i anmharch.

6, Y mae yn cael ei gyffelybu i lew, i lewpart, ac i arth. Hos. xiii, 7, 8, Ond mi a fyddaf fel llew iddynt, megis llewpart ar y ffordd y disgwyliaf hwynt, cyfarfyddaf â hwynt fel arth wedi colli ei chenawon.

7, Y mae Duw, yn ei farnedigaethau, yn cael ei gyffelybu i wyfyn. Hos. v, 12, Am hyny byddaf fel gwyfyn i Ebraim, ac fel pydredd i dŷ Juda.

8, Y mae yn cael ei alw yn Fugail. Salm xxiii, 1, Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf.

Caleb. Pa ham y mae Duw yn cael ei gyffelybu i adeiladwr?

Josua. Salm cii, 16, *Pan adeilado yr Arglwydd Sion, y gwelir ef yn ei ogoniant.* 1. Mae'r Arglwydd yma yn cael ei gyffelybu i adeiladwr: 1, Fel adeiladwr, y mae yn tynu'r cynllun yn mlaen llaw, ac yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun, ac yn ol yr arfaeth dragywyddol: yn ol yr arfaeth y danfonodd ei Fab i'r byd; yn ol yr arfaeth y mae yn galw, yn cyf-iawnhau, ac yn sancteiddio pechaduriaid. 2, Fel adeiladydd, y mae yn gofalu am osod sylfaen gadarn a safadwy: felly y mae Duw wedi gosod sylfaen safadwy yn Sion, a'r hwn a gred ynddo ni frysia: sylfaen arall nis gall neb ei gosod, heblaw yr un a osodwyd, yr hwn yw Iesu Grist. 3, Fel adeiladwr, y mae yn gosod y defnyddiau yn eu lle ac mewn iawn drefn, ac yn uno yr holl adeilad â'i gilydd. 4, Fel adeiladydd cywraint, y mae yn ymhyfrydu yn ei waith, ac yn cael anrhydedd oddi wrtho yn ol ei orphen.

II, Gwelwn yma yr hyn y mae Duw yn adeiladu, sef Sion, neu ei eglwys. Y mae Duw yn adeiladu Sion, 1, Trwy ychwanegu ati o nifer y rhai a fyddant gadwedig. 2, Trwy gynyddu ei grasusau; sef cynnyddu ffydd ei bobl, a chynnyddu eu cariad, eu gostyngedd-rwydd, a'u hamynedd. 3, Trwy eu harddu â sancteiddrwydd. 4, Trwy eu cysuro a'u diddanu yn eu holl orthrymderau.

III, Fe fydd gogoniant Duw yn tywynu yn rhyfedd yn ngorpheniad adeiladaeth Sion. *Pan adeilado yr Arglwydd Sion, fe'i gwelir yn ei ogoniant.* 1, Fe fydd gogoniant ei holl briodoliaethau yn tywynu yn rhyfedd yn ngorpheniad adeiladaeth Sion: sef gogoniant ei ddoethineb, ei gariad, ei allu, ei gyfiawnder, a'i sancteiddrwydd; ie, gogoniant ei drugaredd, ei amynedd, ei wionedd, a'i ffyddlondeb. 2, Fe fydd gogoniant ei arfaeth a'i dragywyddot furiadau yn tywynu yn rhyfedd pan adeilado yr Arglwydd Sion. 3, Fe fydd gogoniant cyfryngod Crist yn tywynu yn ardderchag iawn; sef gogoniant ei berson, ei swyddau, a'i dysorau; ac hefyd, fe fydd gogoniant ei aberth yn tywynu yn rhyfedd yn y bore hwnw. 4, Fe fydd gogoniant gweithrediadau grasol yr Yspryd Glân yn tywynu yn ogoneddus yn ngorpheniad Sion; sef ei ogoniant fel Argyhoeddydd, Arweinydd, Diddanydd, a Sancteiddydd.

Caleb. Pa ham y mae Duw yn oael ei alw yn Rhyfelwr, neu yn Wr o ryfel, yn y gair?

Josua. 1, I ddangos fod ganddo elymion lawer. 2, Am ei fod yn dysgu ei filwyr i ryfela, Salm cxliv, 1. 3, Fel gwr o ryfel, y mae yn gwisgo ei filwyr â ohyflawn arfogath, Eph. vi, 12—18. 4, Fel tywysog neu wr o ryfel, y mae yn codi baner yr efengyl i fynu; ie, y mae efe yn codi baner i'r oenbedloedd, Esay v, 26, Esay xlix, 9, Esay lxii, 10. 5, Fel pen-ryfelwr, y mae yn peri udganu mewn udgorn, i gasgu ei filwyr yn nghyd a'u rhybyddio i ymbarotio i ryfel. Joel ii, 1, Ezech. ix, 14, Esay xxxv, 13, Dat. xi, 15, Mat. xxiv, 31. 6, Fel pen-ryfelwr, y mae yn cynnyg amodau

heddwch i'w elynion. 2 Cor. v, 20, Diar. i, 22, Mat. xxiii, 37. 7, Fel pen-rhyfelwr, y mae yn annog ei filwyr i fod yn wrol ar y maes. Esay li, 7, 1 Tim. vi, 12. 8, Fel gwr o ryfel, y mae yn gofalu yn neillduol am ei filwyr, ac yn eu porthi, ei hymgeleddu, a'u gwiago. Zech. iii, 4, Dat xxi, 7.

Caleb. Pa fath ryfelwr yw Duw ?

Josua. 1, Y mae yn rhyfelwr cyfiawn. Salm xi, 7, Salm lxxxix, 14. 2, Rhyfelwr medrus. 2 Pedr ii, 9. 3, Rhyfelwr cadarn ac ofnadwy, Salm lxxvi, 3—7. 4, Rhyfelwr gwybodus a doeth ydyw, Salm ii, 2—5, 1 Cor. i, 19, 20. 5, Rhyfelwr buddugohaethus ac anorchfygol ydyw, Esay xlii, 13, 14, Salm xlvi, 9, 10, Job xxiii, 13, Esay xl, 15, 17. 6, Rhyfelwr sydd yn weddu ar luoedd lluosog iawn ydyw. Salm ciii, 19, Deut xxxii, 30, Heb. i, 7.

Caleb. Yn mha bethau y mae Duw, fel pen-rhyfelwr, yn rhagori ar bawb ereill ?

Josua. 1, Y mae ereill yn agored i syrthio a marw yn y rhyfel; ond y mae Duw yn anfarwol. 2, Y mae trysorau rhyfelwyr y byd yn agored i ddarfod; ond y mae trysorau Duw yn ddirreulio. 3, Gall pen-rhyfelwyr y byd ladd, ond nis gallant fywchau; ond fe all Duw fywchau y neb y myno. 4, Ni all pen-rhyfelwyr naturiol ryfela fel y mynont, oblegid y mae terfynau wedi eu gosod iddynt gan Dduw; ond fe all Duw wneuthur fel y myno â'i holl greaduriaid. 1, Gwelwn oddi yma, fod y rhai sydd yn ryfela â phobl Dduw yn ryfela â Duw ei hun. 2, Pan fyddom yn myned allan i ryfela â gelynion ein heneidiau, awn fel Dafydd, yn enw Arglwydd y lluoedd, Duw byddinoedd Israel. 3, Gwelwn drueni y rhai sydd yn gwrthryfela yn erbyn Duw; y maent yn sic o gael eu dryllio yn ddisymwth, fel na byddo meddygimaeth. Am hyny, bydded i'w elynion i'w eu harsau i lawr.

Caleb. Pa ham y mae Duw yn cael ei gyffelybu i Fur o dân? Zech. ii, 5.

Josua. 1, Mae mur yn gwahanu rhwng y rhai a fyddo o'i fewn a'r rhai a fyddo o'r tu allan iddo; felly y mae Duw yn gwahanu ei bobl oddiwrth y byd. 2, Mae mur yn cysylltu trigolion dinas â'u gilydd; felly y mae Duw yn Nghrist yn cysylltu'r holl saint â'u gilydd. 3, Y mae mur yn amddiffyn ac yn diogelu dinasoedd; felly y mae yr Arglwydd yn ei briodoliaethau, ei ragluniaeth, ei iachawdwriaeth, a'i angylion yn diogelu ac yn amddiffyn ei eglwys. *Dinas gadarn sydd i ni: Duw a esyd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur.* 4, Y mae y mur yn agos at y ddinas a'i thrigolion; felly y mae yr Arglwydd o amgylch ei bobl, o'r pryd hwn hyd yn dragywydd. *Agos yw yr Arglwydd at rhai oll a alwant ar ei enw.* 5, Y mae mur yn adeilad cadarn; felly y mae yn yr Arglwydd Dduw gadarnid dragywyddol.

Caleb. Pa ham mur o dân?

Josua. 1, I ddangos ei fod yn diogelu ei blant yn nghanol anialwch y byd presenol. 2, Fel mur o dân, y mae yr Arglwydd yn cadw bwystfilod rheibus, a'r llew rhuadwy, draw oddiwrth ei bobl. 3, Fel mur o dân, y mae yn ddychrynlyd i'r gelynyddion o bob rhy. 4, Peth peryglus yw ymosod yn erbyn mur o dân; felly peth peryglus yw ymosod a rhyfela yn erbyn y Duw hollalluog. 5, Fel mur o dân, y mae Duw yn cynnesu ac yn goleuo ei bobl, ar y nosau mwyaf tywyll ac yn y gauaf mwyaf oer: ond nis gall mur o dân ddiogelu ond y corph yn unig; ond fe wna Duw ddiogelu yr enaid hefyd. 2, Gellir difa grym mur o dân naturiol; ond nid oes a all ddifa grym yr Hollalluog; y mae yn anfeidrol gadarn, yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd.

1, Gwelwn fawr ofal yr Arglwydd am ei eglwys sef yn ei diogelu ar bob moment, *a phyrth uffern na gorchfygant hi.* 2, Chwiliwn a ydym o nifer y rhai sydd yn gyd-ddinasyddion â'r saint ac yn deulu Duw iŵ, a ydym o fewn i'r mur yma, os ydym, yr ydym yn ddiogel fel y llofrudd yn y ddinas noddfa.

Caleb. Pa ham y mae yr Arglwydd yn cael ei gyfflybu i dŵr cadarn? Diar. xviii, 10.

Josua. 1, Fel tŵr cadarn, y mae yn llawn o arfau rhyfel, ac arfogaeth i'w holl filwyr. Eph. vi, 10—15, 2 Cor. x, 4. 2, Fel tŵr cadarn, y mae ynddo gyflawnder o ymborth ysprydol i'r holl filwyr ffyddlon. 3, Fel tŵr cadarn, efe a ddiogela'r saint yn wyneb holl ruthriadau eu gelymion: y mae en bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw. 4, Fel tŵr cadarn, nid achub neb ond a fyddo ynddo; sef mewn cyfamod âg ef, ac mewn undeb ffydd â Iesu Grist. 5, Fel tŵr cadarn, y mae y saint yn ddiogel ynddo, ac yn sier o gael eu gwneud yn fuddugoliaethwyr ar eu holl elynion. 6, Fel tŵr cadarn, y mae yn digalon i'r gelymion, ac yn peri iddynt gilio draw: o fewn i'r Tŵr yma fe wna'r saint saethu at eu gelymion a'u gorchfygu.

II, Y modd y mae Duw yn dŵr cadarn; sef o ran ei enw. *Tŵr cadarn yw enw yr Arglwydd.* Wrth enw yr Arglwydd y mae i ni ddeall y pethau canlynol: 1, Efe ei hun, yn ei natur a'i hanfod. Salm xx, 1, Salm xxiii, 1. 2, Ei enwau a'i deitlau, megis Jehofa-Jeire, Jehofa-Nissi, Jehofa-Shalom, &c. 3, Ei briodoliaethau; sef ei holl-bresenoldeb, ei holl-wybodaeth, ei ddoethi- aeb, ei allu, ei ddaioni, ei wirionedd, a'i ffyddlondeb. 4, Ei awdurdod anfeidrol. 5, Ei anrhydedd a'i ogoniant. 6, Ei efengyl a'i achos. Ond y mae Duw yn rhagori ar un tŵr cadarn naturiol: 1, Mae tŵr naturiol yn agored i ddadfeilio; ond y mae Duw yn ddiddadfeilio ac yn anghyfnewidiol. 2, Gellir cymeryd tŵr naturiol pan y byddo'r preswylwyr yn eu trymgwsg; ond ni huna Ceidwad Israel. 3, Gellir gorchfygu tŵr naturiol trwy newyn; ond y mae cyflawnder tragywyddol yn yr Arglwydd. Dysgwn beidio aros yn un man tu yma i fod yn Nuw, trwy gyfamod tragywyddol: ynddo ef yn unig y mae diogelwch.

Caleb. Pa ham y mae Duw'n cael ei alw'n Lloches?

Josua. Salm xxxii, 7, *Ti ydwynt loches i mi; cedw i rhag ing; amgylchyni fi a chaniadau ymwared.*

1, Mae lloches yn lle gadarn; felly y mae Duw yn anfeidrol gadarn, fel craig fawr, ac fe fydd y saint yn ddiogel yn nghysgod yr Hollalluog: *Bydd yn drigfa gadarn*, medd Dafydd, *i mi ddyfod iddi bob amser.* 2, Mae lloches yn lle dirgel a chuddiedig; felly y mae Duw o ran ei natur a'i hanfod: *ni welodd neb Dduw erioed*: ac y mae bywyd y saint wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw. 3, Fel lloches, y mae Duw yn ddiogel i w blant rhag eu holl elynion: *ysprydol.* 4, Fel lloches, y mae Duw yn ei Fab yn nodded rhag gwres ac ystormydd, gwlawogydd a thywydd garw: y mae efe yn gysgod y dydd rhag y gwres, yn ddiddos rhag y dymhestl a rhag y gwlaw. 5, Mae lloches gadarn yn gwneud dyn yn ddiofn; felly y mae'r Cristion yn ddiofn yn ei Dduw.

Addysg. 1, *Garfed*: Duw yn lloches; ffown atto yn mhob trallod. 2, *Aroswn yn y lloches yma yn barhaus*. hyd ond elo pob aflwydd heibio.

Caleb. Pa ham y mae Duw yn cael ei alw yn Darian?

Josua. Salm lxxxiv, 11, *Haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw.* 1, Fel tarian, y mae yn gadarn, fel nas gall picellau tanlyd y fall ddim treiddio trwyddo. 2, Fel tarian, y mae yn ddefnyddiol i'r saint yn mhob brwydr. 3, Fel tarian, y mae yn ddefnyddiol i ddiogelu yr holl ddyn. 4, Fel tarian, y mae yn diogelu arfogaeth y saint hefyd; sef eu holl rasusau. 5, Fel tarian, y mae yn gwneud y saint yn ddiofn a di-arswyd yn wyneb eu gelynion; fel y dywed Duw wrth Abram, *Nac ofna, myfi yw dy darian, a th webr mawr iawn.* 6, Pan fwrio'r milwr ei darian ymaith, y mae yn agored i gael ei glwyfo; felly, os â dynion i ymadael â Duw ânt yn agored i bob drwg. 7, Y mae yn rhaid gwneud defnydd o darian cyn y byddo o un lleshad; felly y mae yn rhaid i ninnau ddefnyddio Duw, trwy ffydd, yn wyneb ein holl elynion. Ond y mae Duw yn rhagori ar bob tarian naturiol: 1, Nis gall tarian naturiol ddiogela ond y corph; ond fe all Duw ddiogelu corph ac enaid. 2, Y mae yn bosibl dryllio tarian naturiol; ond

y mae Duw yn gadarn ac yn anorchfygol. *Addysg 1*, Gan fod Duw yn darian; na anturiwn i faes y rhyfel heb Dduw. 2, Gan fod Duw yn darian, gall y Cristion fod yn hyderus yr emill ef y fuddugoliaeth.

Caleb. Pa ham y mae Duw yn cael ei gyffelybu i grochenydd? Rhuf. ix, 21.

Josua. Y mae'r geiriau yn cael eu llefaru i ddangos pen-arglwyddiaeth Duw: 1, Y mae y crochenydd yn gwneuthur llestri o bridd y ddaear: felly y gwnaeth Duw gorph dyn o bridd y ddaear, yn hardd ac yn brydferth. 2, Fel crochenydd, y mae Duw wedi bwrriadu yn ei feddwl pa fodd i wneud ei holl waith i gyd. *Hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll erioed.* 3, Y mae'r crochenydd yn gwneud ei lestri o wahanol ddull a maintioli, ac yn eu llunio i wahanol wasanaeth: felly y mae Duw yn gwneud ei greaduriaid i wahanol wasanaeth, ac yn amrywio o ran eu maintioli, eu tegwch, a'u harddwch. 4, Y mae awdurdod gan y crochenydd i wneud o'r un telpyn pridd, un llestr i barch ac arall i amharch: felly y mae gan Dduw awdurdod i wneud fel y myno a'i holl greaduriaid; ac nis gall neb ofyn iddo, Pa ham yr ydwyf yn gwneuthur fel hyn neu fel arall? 5, Mae llestri y crochenydd yn frau iawn a hawdd eu dryllio: felly y mae cyrph dynion; cyrph o glai ydynt; ie, llestri pridd ydynt, fel y dywedodd Duw wrth Adda, *Pridd wyt ac i'r pridd y dychweli.* 6, Y mae gofal mawr gan y crochenydd am ei lestri; felly y mae gofal mawr gan yr Arglwydd am ei bobl: *gan fwrw eich holl ofal arno ef, canys y mae efe yn gofalu am danoch chi:* os yw Duw yn gofalu am adar y tô a llyisiau y maes, pa faint mwy y gofala efe am y rhai sydd o ychydig ffydd.

Addysg 1, Gan mai pridd ydym, ac fel clai'r crochenydd, dysgwn fod yn isel ger bron Duw. 2, Gwelwn na chafodd dyn ddim ei wneud er ei fwyn ei hun; ond i ogoneddu Duw ac i wasanaethu ei genhedlaeth. 3, Ystyriwn fod Duw yn Ben-Arglwydd ar ei holl greaduriaid, ac nid gwiw i neb ddadleu yn erbyn yr Arglwydd, ond fe ddylai pawb foddloni i'w drefn ddoeth,

sanctaidd, a da, a dywedyd fel Eli, *Yr Arglwydd yw efe, gunaed yr hyn a fyddo da yn ei olwg.* 4, Gan mai llestri pridd ydym, yr ydym yn sicr o fyned yn ddrylliau yn wyneb ergydion angeu, brenin dychryn-iadau.

Caleb. Pa ham y mae Duw yn cael ei gyffelybu i Dâd ysol? Heb. xii, 29.

Josua. 1, Y mae tân ysol, pan doru allan mewn tŷ neu ddinas, yn ddychrynlyd, yn arswydus, ac yn ofnadwy iawn; felly y mae digofaint Duw. Pwy a saif o'i flaen pan enyno ei ddigter? ei lid a dywelltir fel tân, a'r creigiau a fwrir i lawr ganddo. Cynneuasoch dân yn fy nig, yr hwn a lysg byth. O! beth y mae yr annuwiol yn ei wneud wrth gablu Duw, ac wrth dori ei Sabbathau; ond cynneu tân, yn nig y Duwdod, i'w losgi yn oes oesoedd. 2, Mae tân yn tori allan yn aml yn dra disymwth; felly y mae digofaint yr Arglwydd: yn yr awr na thybiodd y cyn-ddiluwiaid y daeth y diluw, ac a'u cymerodd hwynt oll ymaith; yn yr awr na thybiodd y Sodomiaid y dinystriwyd hwynt gan dân a brwmstan o'r nefoedd: yn yr awr na thybiodd Pharaoh y boddwyd ef yn y môr: yn yr awr na thybiodd Nebucodonosor y trowyd ef o blith dynion i bori gwellt y maes: yn yr awr na thybiodd Belsassar y bu efe farw, yn ol clywed y ddedryd, Mene, Tecel! *Pan ddywedant, Tangnefedd a diogelwch, yna y mae dinystr disymwth yn dyfod ar eu gwarthaf, ac ni ddihangant hwy ddim.* Dan. v, 5, 6. 1 The. v, 3. 3, Y mae tân yn tori allan yn aml yn y nos, pan fyddo dynion yn eu trymgwsg ac heb feddwl dim am dano; felly y mae digofaint Duw yn dal dynion annuwiol yn y nos o anwybodaeth, a phan y byddont yn cysgu mewn difatterwch. Dydd yr Arglwydd a ddaw megis lleidr yn y nos; yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio gyda thwrf, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir: a chan fod yn rhaid i hyn i gyd ymollwng, pa ryw fath ddynion a ddylech chiwi fod, mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb? Ar haner nos y bu gwaedd, Wele, y mae'r priodfab yn dyfod; ewch allan.

i gyfarfod âg ef. Na chysgwn, fel rhai ereill, eithr gwyliwn a byddwn sobr. 2 Pedr iii, 10, 11, Mat. xxv, 6, 1 Thes. v, 6. 4, Y mae tân, pan dorô ef allan, yn difrodi'r cyfan o'i flaen: felly y mae tân digofaint y Duw hollalluog; fe ddifa holl lawenydd a gobaith yr annuwiolion am byth, fel y dywed Dafydd, Dy law a gaiff afael ar dy holl elynion, a th ddeheulaw a gaiff afael ar dy gaseion; ti a'u gwnei hwynt fel ffwrn danllyd yn amser dy lid: yr Arglwydd yn ei ddigllonedd a'u llwngc hwynt, a'r tan a'u hysa hwynt. Ein Duw ni a ddaw, ac ni bydd ddistaw: tân a ysa o'i flaen ef, a thymhestl ddirfawr fydd o'i amgylch. Ac y mae y ddaear wedi ei rhoddi i gadw i dân, erbyn dydd y farn, a distryw yr anwir ddyinion. Salm xxi, 8, 9, Esay lxxvi, 15, Sef. iii, 8, Salm l, 3, 2 Pedr iii, 7. 5, Nid yw'r tân yn arbed un peth a losgo, os caiff afael arno; fe losg y palas gwychaf yn gystal a'r tŷ gwaelaf: felly fe dywallt Duw ei ddigofaint ar freninoedd yr un modd ag ar y tlodion, os bydd wedi cael ei ddigio ganddynt: nid oes derbyn wyneb gydâg ef. Dydd Arglwydd y lluoedd sydd ar bob balch ac uchel; canys ni thycia cyfoeth yn nydd digofaint, ond cyfiawnder a wared rhag angy: eu haur a'u harian ni ddichon eu hachub hwynt yn niwrnod llid yr Arglwydd; ond â thân ei eiddigedd yr ysir yr holl dir: canys gwna yr Arglwydd ddyben prysur ar holl breswylwyr y ddaear. Esay ii, 12—17, Sef. i, 18. 6, Y mae coed, drain, gwair, a sofr, yn ddefnyddiau ag y cymer tân afael ynddynt yn fuan: felly y mae tân digofaint Duw yn sier o gymeryd gafael mewn annuwiolion, a rhagrithwyr yn eglwys Dduw. A thra yr ymddyrysant fel drain, yna yr ysir hwynt fel sofr wedi llawn wywo. Wle'r dydd yn dyfod, yn llosgi megis ffwrn; a'r holl feilchion, a holl weithredwyr anwiredd a fyddant sofr; a'r dydd sydd yn dyfod a'u llysg hwynt, medd Arglwydd y lluoedd, fel nas gadawo iddynt na gwreiddyn na changen. Nahum i, 6, 10, Mal. iv, 1, 1 Cor. iii, 12. 7, O bob elfen mewn natur, yr elfen dân yw'r un mwyaf poenus, ofnadwy, a dychrynlyd: felly y peth mwyaf poenus o

bob peth yw digofaint Duw. Pwy a saif o flaen ei lid ef? ie, pwy a saif pan enyno ei ddigter? Peth ofnadwy yw syrthio yn nwyllaw y Duw byw. Wele enw'r Arglwydd yn dyfod o bell, yn llosgi gan ei ddigofaint ef, ei wesusau a lanwyd o ddigter, a'i dafod sydd megis tân ysol; ei anadl hefyd fydd fel afon lifeiriol: ac efe a wna glywed ei lais, ac a ddengys ddisgyniad ei fraich, mewn digter llidiog, â gwasgarfa, ac â thymhestl, ac â cherig cenllysg. Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus: dyma ran eu phiol hwynt. Esay xi, 4, a xxx, 27, 33, Salm xi, 6. 8, Fe wna tân ysol ddinystro mawr mewn vchydig amser: felly y gwna digofaint Duw hollalluog. Mewn un awr y daw dinystro Babylon ysprydol; sef marwolaeth, galar, a newyn, a hi a losgir â thân. A bydd goleuni Israel yn dân, a'i Sanct yn fflam: ac efe a lysg ac a ysa ei ddrain a'i fieri mewn un dydd. Esay x, 17, Dat. xviii, 8. Ond nis gall tân naturiol ysu dim ond defnyddiau teimladwy: ond fe boena digofaint Duw eneidiau yr annuwiolion. Y mae tân naturiol yn ddi-foddadwy; ond y mae tân digofaint Duw ar yr annuwiol yn uffern yn anniffoddadwy. Y mae Duw yn dân ysol i holl ddiastiaid uffern; bydd yn dân ysol i bawb ag sydd yn para i fyw yn eu pechodau; bydd yn dân ysol i holl erlidwyr crefydd, ac i'r rhagrithwyr yn Sion, ac hefyd i'r holl wrthgilwyr anedifeiriol.

Addysg 1, Gwelwn mor ddrwg yw pechod: nid oes dim ond pechod yn cyffroi digofaint Duw. 2, Dysgw'n wneud brys i ffoi i glwyfau yr Immanuel, rhag y llid a fydd a'r digofaint sydd ar ddyfod. *Amen.*

Caleb. Pa ham y mae yn cael ei gyffelybu i Lew, i Lewpard, ac i Arth wedi colli ei chenawon? Hos. xiii, 7, 8. *Ond mi a fyddaf fel llew iddynt; megis llewopard ar y ffordd y disgwyliaf hwynt; cyfarfyddaf a hwynt fel arth wedi colli ei chenawon.*

Josua. Amcan y geiriau yw gosod allan ddigofaint dychrynlyd yr Hollalluog tuag at yr annuwiolion, a'r dinystro disymwth a'u cyferfydd hwynt. Creadur dychrynlyd ac arswydus yw llew; felly, fe fydd y Duw

tragywyddol yn ddychrynlyd ac yn arswydus i'r annuwiolion, pan ddelo ef i'w cyfarfod yn ffordd ei farnedigaethau. Rhuodd y llew, Pwy nid ofna? yr Arglwydd Ior a lefarodd, Pwy ni phroffwyda? Salm lxxvi, 5, 6, 7. Tydi wyt ofnadwy, pwy a saif o'th flaen pan enyno dy ddigter? Efe a dyr ymaith yspryd tywysogion: y mae efe yn ofnadwy i freninoedd y ddaear. Salm lxxvi, 12, Hab. iii, 16. 2, Y mae llawer o fawrhydi yn ymddangos yn y llew; brenin y creaduriaid ereill ydyw, a ffoant ymaith pan yr ymddangoso efe: felly y mae mawrhydi a gogoniant anfeidrol yn perthyn i'r Duw tragwyddol; Brenin y breninoedd ydyw, ac y mae efe yn gwisgo gogoniant a harddwch. Os yw llid brenin naturiol fel rhuad llew, pa faint mwy yw llid y Duw hollalluog! Fe fydd pawb o'i elynion am ffoi ac ymguddio pan enyno ei ddigofaint ef. Pa beth a wnewch yn nydd yr ymweliad, ac yn y distryw a ddaw o bell? at bwy y fflowch am gynnorthwy? a pha le y gadewch eich gogoniant? Bydd llawer am ymguddio yn ogfeydd a chreigiau y mynyddoedd: ond y mae llygaid yr Arglwydd yn cynniwair trwy yr holl ddaear, ac ni lecha neb mewn dirgelleoedd fel nas cenfydd Duw hwynt. Esay x, 3, Dat. vi, 16. 3, Y mae'r llew yn gryf a chalonog iawn; ni thry yn ol er neb: felly y mae yn yr Arglwydd Dduw gadernid tragwyddol: pwy fel efe yn mhlith meibion y cedyrn? efe a rwyga fel na byddo gwaredydd. Salm l, 22. 4, Fe ddywed naturiaethwyr ei fod yn caru cyfiawnder yn hynod: felly, yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder, ac efe a dal i bob dyn yn ol ei weithred. Cyfiawn a chywir yw dy farnedigaethau di, O Frenin y saint. Salm xi, 7, Rhuf. ii, 6, 2 Thes. i, 6, 7. 5, Dywedir am y llew, ei fod yn craffu yn fanol ar y sawl a'i niweidio, ac y gwna ef adnabod y cyfryw yn mhlith cannoedd: beth bynag am hyny, y mae Duw yn sylwi yn fanol ar y rhai sydd yn tori ei orchymymion, ac yn gwrthryfela yn ei erbyn; ac efe a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel i'r amlwg, pa un bynag ai da ai drwg a fyddo. 6, Dywedir am y llew, nad ydyw yn

cysgu ond ychydig: ond diau nad yw Ceidwad Israel yn huno nac yn hepian. Salm cxxi, 4. 7, Dywedir na syrthia'r llew ar un dyn, os na bydd yn dra newynog, neu wedi ei gyffroi yn ddirfawr: felly, nid yw yr Arglwydd yn tywallt ei farnedigaethau a'i ddigofaint ar neb, heb iddo gael ei ddirfawr anfoddloni; ac y mae yn rhybyddio dynion trwy lawer dull a modd, cyn iddo dywallt ei farnedigaethau arnynt. Rhybyddiodd y cynddiluwiaid, trwy ei was Noah; rhybyddiodd y Sodomiaid, trwy ei was Lot; rhybyddiodd yr Iuddewon a Jerusalem, lawer gwaith a llawer modd, cyn iddo ei gosod yn ddfrod. 8, Dywedir am y llew, os syrthia dyn o'i flaen i erfyn ganddo, y gwna efe ei arbed: beth bynag am hyny, y mae yn sicr pwy bynag a ym-ostyngo'n edifeiriol o flaen Duw, yn nydd gras, y mae yn sicr o gael ei arbed, a chael trugaredd: fe arbedodd Manasseh; fe arbedodd y Ninifeaid; ac fe arbedodd Saul yr erlidiwr.

Caleb. Pa ham y mae yn cael ei gyffelybu i lew-pard?

Josua. 1, Y mae y llew-pard yn greadur cyflym iawn: dywedir am feirch y Caldeaid, eu bod yn fuanach na'r llew-pardiaid, (Hab. i, 8) felly y mae Duw yn gyflym ac yn ddisymwth weithiau yn tywallt barn ar annuwiolion: buan iawn, medd Duw, y dychwelaf eich tâl ar eich pen eich hunain; ac fe fydd yn dyst cyflym yn erbyn ei holl elynion. Joel iii, 4, Mal. iii, 5. 2, Y mae y llew-pard yn gwylio am amser cyfaddas i gael gafael yn ei ysglyfaeth: felly y mae Duw yn gwylio ar holl gamrau a ffyrdd yr annuwiolion, ac yn yr awr na thybiont y deil ei ddigofaint afael ynddynt. 3, Dywedir fod y llew-pard weithiau yn gorwedd yn hir yn ddistaw, ond pan y cyfodo, fe syrth yn chwerw ar ei ysglyfaeth: felly, fe fydd yr Arglwydd yn ofnadwy i'w elynion, yn ol iddynt dreulio dydd ei hir amynedd ef allan, Tewais er ys talm, distewais, ymattehais: llefaf fel gwraig yn esgor, difwynaf a difethaf ar unwaith. Esay xlii, 14. 4, Dywedir fod y llew-pard yn elyn annghymodadwy a'r ddraig: felly y mae Duw yn elyn annghymodadwy a'r

diafol, sef yr hen sarph uffernol; ac y mae gelyniaeth hefyd rhwng y ddau hâd.

Caleb. Pa ham y mae Duw yn cael ei gyffelybu i Arth?

Josua. 1, Y mae yr arth yn greadur dychrynlyd a distrywgar iawn: fe ddarfu dwy arth ladd dau blentyn a deugain ar yr unwaith gynt, am iddynt ddiystyru Eliseus y proffwyd: felly fe ddial Duw ar ei elynion mewn modd dychrynlyd, yn ol cael ei hir ddogio. Pwy a edwyn nerth dy soriant! canys fel y mae dy ofn y mae dy ddigter. Salm xc, 11. 2, Dywedir nad yw yr arth yn ymladd â dyn yn ewyllysgar, nes cael ei chyffroi a'i gyru i hyny: felly nid o'i fodd y blina ac y cystuddia yr Arglwydd blant dynion. Galar. iii, 38, Hos. xi, 8. 3, Dywedir fod gan yr arth garjad mawr at eirhai bach: felly, mae Duw yn caru ei bobl, ei holl saint ydynt yn ei law. 4, Y mae yr arth yn lliidiog iawn pan gollo ei chenawon, fe wna ei goreu i ddial ar bawb a'u niweidio: felly, y mae Duw yn ddigllon wrth bawb a niweidio ei blant, ac a'u herlidio. Y neb a gyffyrddo â chwi sydd yn cyffwrdd â chanwyll fy llygad, medd yr Arglwydd. Oni ddial Duw ei etholedigion, y rhai sydd yn llefain arno ddydd a nos.

Addysg 1, Os yw Duw i'w elynion fel Llew, ac Arth wedi colli ei chenawon, dychryned pechaduriaid rhag iddo eu difetha o'r ffordd, pan gyneuo ei lid ef ond ychydig. 2, Gwelwn fawr ddrwg pechod, oblegid pechod yn unig sydd yn annog Duw i ddigofaint. 3, Dysgwn ymostwng yn isel wrth ei draed, i erfyn am gymod âg ef trwy waed y groes; y mae efe yn awr yn eistedd ar orsedd gras, yn foddlon cymodi â'r penaf o bechaduriaid, ar gyfrif aberth ei Fab.

Caleb. Pa ham y mae Duw yn cael ei gyffelybu i Wr o berchen tŷ? Mat. xxi, 33.

Josua. 1, Fel gwr o berchen tŷ, y mae yn gosod pob peth mewn trefn yn ei dŷ. 2, Y mae yn rhoddi gwaith priodol i bob un o'i deulu, ac yn eu dysgu i wneud eu gwaith. 3, Fel gwr o berchen tŷ, y mae yn dar-

paru cynnalïaeth i'w deulu. 4, Fel gwr da o berchen tŷ, y mae Duw yn caru ei deulu, ac yn gofalu am danynt. 5, Fel gwr da o berchen tŷ, y mae yn cydymddwyn llawer â gwendidau ac amherffeithrwydd ei deulu. 6, Fel gwr da o berchen tŷ, y mae yn cydymdeimlo âg adfyd ei deulu. 7, Fel gwr da o berchen tŷ, y mae yn cyfeillachu yn siriol â'i deulu. 8, Fel gwr da o berchen tŷ, y mae yn ceryddu ei deulu am eu troseddau a'u camymddygiadau. 9, Fel gwr da o berchen tŷ, y mae yn troi y gweision drwg ac aflywodraethus allan o'i deulu, ac o blith ei blant. 10, Fel gwr da o berchen tŷ, y mae yn deilwng o gael ei ofni a'i barchu gan ei deulu. 11, Fel gwr da o berchen tŷ, y mae yn gofyn ffyddlondeb, onestrwydd, a diwydrwydd gan ei deulu. Qnd y mae Duw, fel gwr o berchen tŷ, yn rhagori ar bawb ereill. 1, O ran rhifedi ei weision. 2, O ran doethineb i drin ei deulu. 3, Y mae Duw, fel gwr o berchen tŷ, yn aml gartref gyda'i holl deulu; ac hefyd y mae yn anfarwol.

Caleb. Pa ham y mae Duw yn cael ei gyffelybu i wyfyn? Hos. v, 12, *Am hyny y byddaf fel gwyfyn i dŷ Ephraim, ac fel pydredd i dŷ Juda.*

Josua. 1, Y mae'r gwyfyn yn difa'r dilledyn yn raddol: felly y mae barnedigaethau yr Atglwydd yn difa gwlad neu genedl weithiau yn raddol iawn. 2, Y mae y gwyfyn yn difa yn ddirgelaidd iawn: felly, y mae barn Duw yn dyfod yn ddirgelaidd iawn ar ddynion weithiau, ac yn ddirybydd, fel lleidr yn y nos. 3, Y mae'r gwyfyn yn difa yn ddiarwybod i ddynion; felly y mae barnau ysprydol Duw yn difa dynion heb wybod iddynt. Taenodd penwyni ar Ephraim, ac nis gwybu efe. 4, Y dillad hynny ag sydd yn cael eu cadw yn fudr y mae'r gwyfyn yn ddifa yn gyffredin: felly ar ddynion arian a halogedig y mae barn Duw yn dyfod yn gyffredin. 5, Fe wna'r gwyfyn ddifwyno'r dilledyn mwyaf gwerthfawr, os gwna efe ymaflyd ynddo.

Caleb. Pa fodd y mae Duw fel gwyfyn i wlad neu genedl?

Josua. 1, Y mae fel gwyfyn yn eu hysprydoedd, trwy eu gwneud yn llwfr a digalon, trwy fod diogi a chysgadrwydd yn cymeryd gafael ynddynt, a thrwy fod annghariad yn llenwi eu calonau. 2, Mae fel gwyfyn yn eu cynghorion, trwy eu rhwystro i ganfod dichellion ac ymosodiadau eu gelynyon, a'u dyrysu yn eu meddyliau a'u bwriadau. 3, Y mae fel gwyfyn yn eu meddiannau a'u cyfoeth; sef trwy fod eu masnach yn darfod, a'u masnachwyr yn tori, a hwythau yn myned yn dlotach ac yn wanach heb wybod iddynt. 4, Y mae fel gwyfyn yn eu blaenoriaid; sef trwy symud y rhai doethaf o honynt i ffwrdd, trwy angeu, a gadael ereill i ymbalfalu yn y tywyllwch, ac i ymddyrysu yn eu hamcanion. 5, Y mae fel gwyfyn iddynt yn eu crefydd, trwy fod eu llygaid yn cael eu dallu, a'u gadael i gredu celwydd yn lle y gwirionedd, ac i bentru iddynt eu hunain athrawon, gan fod eu clustiau wedi merwino.

Caleb. Pa ham y mae Duw, o ran ei fendithion ysprydol, yn cael eu gydmaru i *wlith*? Hos. xiv, 5, *Byddaf fel gwllith i Israel, ac efe a flodeua fel lili.*

Josua. Y mae llawer o bethau yn cael eu cydmaru i *wlith* yn yr ysgrythyrau: 1, Dioddefiadau chwervon Crist er mwyn ei eglwys. Can. v, 2, Llanwyd fy mhett gan *wlith*, a'm gwallt gan ddefnyau'r nos. 2, Athrawiaeth dirion yr efengyl. Deut. xxxii, 2, Fy ymadrodd a ddifera fel gwllaw, ac fel gwllith-wllaw ar ir-wellt, ac fel cafodyd ar laswellt. 3, Undeb a brawdgarwch y saint. Salm cxxxiii, 2. 4, Canlynwyr Iesu, o ran eu hamdra, yn amser y llwyddiant mawr yn y Mil Blynnyddoedd, fel y gwllith o groth y wawr. Salm cx, 3. 5, Adferiad Israel o gaethiwed; yr hyn hefyd sydd ddarluniad o adgyfodiad y meirw yn y dydd olaf. Esay xxvi, 19, Canys dy *wlith* sydd fel gwllith llysiâu, a'r ddaear a fwrw ei meirw allan. 6, Zêl a doniau rhagrithwyr. Eich mwynder sydd yn ymado fel cwmwl y boreuol, ac fel gwllith boreuol. 7, Bendithion ysbrydol Duw i'w eglwys. *Byddaf fel gwllith i Israel, ac efe a flodeua fel y lili.* Yma gwnaf ddau sylw:

I, Pa ham y mae bendithion ysprydol yn cael ei cydmaru i wlith. II, Yr effeithiau dymunol sydd yn cyd-fyned â dyfodiad y gwllith yma i eglwys Dduw. I, Pa ham y mae bendithion ysprydol yn cael eu cydmaru i wlith: 1, Y mae'r gwllith yn disgyn yn ddirgelaidd ac yn anweledig; felly y mae bendithion ysprydol. 2, Y mae'r gwllith yn adfywio'r egin a'r plannigion ag oedd yn ymddangos o'r blaen yn wywedig ac yn farwaitd; felly y mae bendithion ysprydol yn ireiddio ac yn adfywio'r saint gydâ gwaith yr Arglwydd: geiriau Crist, yspryd ydynt, a bywyd ydynt. 3, Fe wna gwllith ireiddio a thynereu'r ddaear, pan fyddo wedi caledu a chrino gan y gwres; felly, fe wna bendithion ysprydol ireiddio a thynereu cyflyrau a phrofiadau'r saint, ag oedd wedi crino gan wres haul profedigaethau, ac fe ddaw a'r pechaduriaid cyndynaf yn iraidd. *Tywlltaf ddyfroedd ar y sychedig, a ffrydiau ar y sychdir: tywlltaf fy Yspryd ar dy had, a'm bendith ar dy hiliogaeth.* Esay xi, 19, a xliv, 3, a xli, 18, a xxxv, 7. 4, Mae'r gwllith yn disgyn yn anrhwystradwy, nid oes neb a all ei rwystro a'i attal; felly y mae bendithion ysprydol yn dyfod i bechaduriaid. 5, Oddi uchod y mae'r gwllith yn dyfod; gelwir ef *gwllith y nefoedd*: felly y mae bendithion ysprydol yn dyfod oddi uchod, sef o'r nefoedd. i bechaduriaid. *Pob rhoddiad daionus, a phob rhoddberffaith, oddi uchod y mae, yn disgyn oddiwrth Dad y goleuni,* Iago i, 17. 6, Y mae'r gwllith yn aml ac yn aneirif, nid oes modd i'w cyfrif; felly y mae bendithion ysprydol Duw i bechaduriaid: y mae efe yn bendithio ei bobl a phob bendith ysprydol. Eph. i, 3. 7, Cyfrifid tir heb wlith arno o dan y felltith: felly y mae pawb ag sydd heb dderbyn gras a bendithion ysprydol o dan felltith y ddeddf a digofaint y Duw hollalluog. 8, Y mae'r gwllith yn rhad i bawb ag sydd yn ei dderbyn: felly y mae gras a bendithion yr iachawdwriaeth. *Nid o weithredoedd cyfiawnder, y rhai a wnaethom ni; eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nym, trwy olchiad yr ad-enedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glan.* II, Yr effeithiau dymunol o ddyfod-

iad y gwllith yma i'r eglwys: 1, *Blodeuo fel y lili*: y mae yr eglwys yn cael ei ohydmaru i lili yn mysg y drain, am ei bod yn hardd er bod yn mysg drain o ofalon a gorthrymderau y byd, ac erlid yr annuwiol. Llysieuyn gwan yw'r lili; felly y mae'r eglwys ynddi ei hun: y mae'r lili yn tyfu yn uchel; felly y mae y saint mewn meddyliau nefolaidd, ac yn plygu eu penau tua'r ddaear mewn gostyngeiddrwydd: y mae'r lili yn blodeuo yn hynod; felly y mae eglwys Dduw pan y byddo'r gwllith o fendithion ysprydol yn disgyn arni; sef mewn cariad brawdol, mewn gostyngeiddrwydd, mewn amynedd o dan y groes, ac mewn zêl a diwydrwydd gydâ gwaith yr Arglwydd. 2, *Lledu ei gwraidd fel Libanus*: y mae hyn yn cynnwys eu cynnydd mewn gras a rhifedi, a'u cadernid i ddal yn wyneb ystormydd o brofedigaethau. Fe ddywedir am y cedrwydd, eu bod yn gwreiddio yn y graig: felly y mae y saint yn gwreiddio yn Nghrist, Craig yr oesoedd. 3, *Ei geingciau a gerddant*; i ddangos fod yr eglwys yn helaethu ei therfynau, ac hefyd ei bod yn cynnyddu mewn rhifedi, gras, a doniau. 4, *Bydd ei degwch fel yr olew-wydden*; sef yn hardd mewn sancteiddrwydd trwy ddylanwadau yr Yspryd Glân: y mae olew yn dyfod o'r olew-wydden i beri i bethau oleuo; felly, y mae'r saint yn oleuni i'r byd, trwy eu hathrawiaeth iach, eu disgyblaeth reolaidd, a'u bywyd sanctaidd. 5, Dwyn ffrwyth sanctaidd ergogoniant i Dduw: *Ffrwyth yr Yspryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwyn-der, dirwest.* Gal. v, 22.

Caleb. Pa ham y mae Duw yn cael ei gyffelybu i Dyst? Mal. iii, 5, *A byddaf dyst cystym yn erbyn yr hudolion, ac yn erbyn y godinebwyr; ac yn erbyn yr anudonwyr, ac yn erbyn cam-attalwyr cyflog y cyflog-edig, a'r rhai sydd yn gorthrymu'r weddw, a'r am-ddifad, a'r dieithr, ac heb fy ofni i, medd Arglwydd y lluoedd.*

Josua. 1, Y mae yn ofynol i dyst cywir fod yn wybodus o'r hyn a fyddo ganddo i dystiolaethu o'i blaid

neu yn ei erbyn: felly, y mae yr Arglwydd yn hollwybodol; y mae ei lygaid fel y fflam dân, y mae efe yn deall ein meddwl o bell, ac nid oes air ar ein tafod nad yw ef yn gwybod am dano. 2, Y mae yn ofynol i dyst cywir fod yn ddyrn craff, ac o sylw manwl: felly, y mae yr Arglwydd yn sylwi yn fanwl ar holl feddyliau, geiriau, ac ymddygiadau dynolryw. 3, Y mae yn ofynol i dyst cywir fod yn bresenol pan y byddo'r weithred yn cael ei chyflawnu: felly y mae Duw yn holl-bresenol; nid oes un weithred bechadurus yn cael ei chyflawnu heb fod yn ngwyddfod Duw, ac y mae efe yn canfod yn y tywyllwch yr un ffunud ag yn y goleuni, y mae pob peth yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef. 4, Y mae yn ofynol i dyst fod yn eirwir: felly, nid dyn yw Duw, i ddywedyd celwydd; Duw'r gwirionedd ac heb anwiredd yw efe. 5, Mae'n ofynol i dyst fod yn gyfiawn ac onest: felly, y mae yr Arglwydd yn gyfiawn yn ei holl fyrd, ac yn sanctaidd yn ei holl weithredoedd. 6, Y mae yn ofynol i dyst cywir fod yn ddeduedd a didderbyn wyneb na gwobrau: felly nid yw yr Arglwydd yn gweled bod yn dda i wneud cam a gwr yn ei fatter, ac nid oes derbyn wyneb ger bron Duw. Rhuf. ii, 11, Galar. iii, 36. 7, Mae yn ofynol i dyst cywir nid yn unig adrodd a dywedyd y gwirionedd, oed hefyd adrodd yr holl wirionedd: felly fe wna Duw ddywedyd yr holl wirionedd am ein cyflwr a'n hymddygiadau ni. *Duw a dduw bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynag fyddo ai da ai drwg*, Freg. xii, 14. 8, Yn ol tystiolaeth y tyst y bydd y ddedryd i gael ei chyhoeddi: felly, yn ol tystiolaeth Duw yn ei air y bydd dedryd y farn ddiweddfaf yn cael ei chyhoeddi: *Y gair a lesarais i, medd Crist, honw a'ch barna chi.*

Caleb. Pa ham y mae Duw yn cael ei gyffelybu i Farnwr? Heb. xii, 23, *At Dduw, Barnwr pawb.*

Josua: 1, Mae yn ofynol i farnwr fod yn ddyrn da: felly y mae Duw yn wreiddiol ac yn hanfodol dda. *Daionus yw yr Arglwydd i bawb, a'i drwgaredd sydd ar ei holl weithredoedd.* 2, Y mae yn ofynol i farnwr

fod yn ddoeth a gwybodus iawn: felly, y mae Duw yn anfeidrol ddoeth ac yn holl-wybodol; y mae yn cael ei alw y *Duw unig Ddoeth*, Rhuf. xvi, 27, 1 Ioan iii, 20, Heb. iv, 13. 3, Y mae yn rhaid fod gan farnwr gyfreithiau i farnu wrthynt: felly y mae gan Dduw gyfreithiau wrth ba rai y bydd efe yn barnu; sef deddf natur, deddf Sinai, a deddf yr efengyl, Rhuf. i, 20, a ii, 12. 4, Fel barnwr da, y mae Duw yn gyfiawn, ac ni dderbyn wyneb na gwobrau neb, Act. x, 34, 35, 1 Pedr ii, 23. 5, Fel barnwr cyfiawn, nid yw Duw yn cospi neb o'i greaduriaid yn drymach na haeddiant eu trosedd, Iago ii, 13, Job xxxvi, 18. 6, Fel barnwr, fe gyhoedda Duw ddedryd ar y troseddwyr wrth real uniawn y gyfraith, Mat. xxv, 34, Act. xvii, 31. 7, Y mae gan farnwyr swyddogion addas i osod eu dedryd mewn grym: felly, y mae gan Dduw luoedd o angylion, pa rai sydd fel fflam dân, i ddienyddio y troseddwyr, yn ol dedryd y Barnwr, Mat. xxii, 13. 8, Fe ddylid parchu barnwr a'i ofni, fel un wedi ei wisgo â dychryn, pan yn eistedd ar orsedd barn: felly, y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy; am hyny, *Ofnwch Dduw, a rhoddwch iddo ogoniant; oblegid daeth awr ei farn ef: ac addolwch yr hwn a wnaeth y nef, a'r ddaear, a'r mor, a'r ffynonau dyfroedd*, Dat. xiv, 7. 9, Y mae gan farnwr awdurdod i oedi cyflawniad ei ddedryd: felly y mae gan Dduw'r nefoedd; y mae efe yn fynych yn oedi tywallt ei farn ar ei elynion: oedodd dywallt y farn ar y eyn-ddiluwiaid ac ar y Ninifeaid, a rhoddodd amser i Jesebel edifarhau, Dat. ii, 21. 10, Y mae gan farnwyr ddadleuwyr yn y llys, i ddadleu achos y carcharorion: felly, y mae gan Dduw Ddadleuwr i ddadleu achos pechaduriaid, cyn cyhoeddi y ddedryd dragywyddol uwch eu penau, sef ei Fab ei hun. *Os pecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn*, 1 Ioan i, 2. 11, Y mae llyfrau gan farnwyr, lle y gosodir gweithredoedd drwg y troseddwyr a'u dedryd ar lawr: felly y mae cof-lyfr gan Dduw, a phan fyddo'r barn yn eistedd, bydd i'r llyfrau gaet eu hagoryd; sef lyfr y gyfraith, llyfr yr efengyl, llyfr colliadwriaeth.

Duw, a llyfr cydwybod; ac fe gâ pawb eu barnu yn ol y pethau a fyddo wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau, yn ol eu gweithredoedd, Dat. xx, 12. 12, Fel barnwr, fe wna Duw amddiffyn ei ogoniant ei hun ac anrhydedd ei gyfraith, Esay, xlii, 8—21. O! ymofynwn am gymod ar frys, oblegid yn awr yw yr amser cymeradwy, yn awr yw dydd yr iachawdwriaeth.

III. MYFYRDODAU AR RAI O'R ENWAU CYDMARIAETHOL AG Y MAE CRIST Y CYFRYNGWR YN GAEL YN Y GAIR.

Menn ffordd o Ymddiddan rhwng Marc a Luc.

Marc. PA enwau cydmariaethol y mae Crist yn gael yn yr ysgrythurau?

Luc. 1, Y mae yn cael ei alw yn angel. Mal. iii, 1. Wele fi yn anfon fy nghenad, ac efe a arloesa'r ffordd o'm blaen i: yn ddisymwth y daw yr Arglwydd, yr hwn yr ydych yn ei geisio, i'w deml; sef Angel y cyfamod, yr hwn yr ydych yn ei chwenych: wele efe yn dyfod. medd Arglwydd y lluoedd. Esay lxiii, 9, Yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd, ac angel ei gydrycholdeb a'u hachubodd hwynt; yn ei gariad, ac yn ei drugaredd y gwaredodd efe hwynt: efe a'u dygodd hwynt, ac a'u harweiniodd yr holl ddyddiau gynt. Dat. x, 1, Ac mi a welais angel cryf arall yn disgyn o'r nef, wedi ei wisgo â chwmwl; ac enfys oedd ar ei ben, a'i wyneb ydoedd fel yr haul, a'i draed fel colofnau o dan.

2, Mae yn cael ei alw yn Gyfryngwr. 1 Tim. ii, 5. Canys un Duw sydd, ac un Gyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu. Heb. xii, 24. Ac at Iesu, Cyfryngwr y Testament newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd, pechadur gwel na'r eiddo Abel. Heb. viii, 6. Ond yn awr, heb gafodd weimidogaeth mwy rhagorol, o gymaint ag y mae yn

Gyfyngwr cyfamod gwell, yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidron gwell. Heb. ix, 15, Ac am hyny y mae efe yn Gyfyngwr y cyfamod newydd, megis trwy fod marwolaeth yn ymwared oddiwrth y troseddau oedd dan y cyfamod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol.

3, Mae yn cael ei alw yn Fachniydd. Heb. vii, 22, Ar destament gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu yn Fachniydd.

4, Mae yn cael ei alw yn Ben. Eph. i, 22, 23, Ac addarostyngodd bob peth dan ei draed ef, ac a'i rhoddes ef yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys, yr hon yw ei gorph ef, a'i gyflawnder ef yr hwn sydd yn eyflawnu oll yn oll. Eph. iv, 15, 16, Eithr, gan fod yn gywir mewn cariad, cynnyddu o honom iddo ef yn mhob peth, yr yr hwn yw'r Pen, sef Crist. Eph. i, 23, Oblegid y gwr yw pen y wraig, megis ag y mae Crist yn ben i'r eglwys; ac efe yw lachawdwr y corph. Col. i, 18, Ac efe yw pen corph yr eglwys: efe yr hwn yw'r dechreuad, y cyntaf-anedig oddiwrth y meirw; fel y byddai efe yn blaenori yn mhob peth.

5, Mae yn cael ei gyffelybu i Destamentwr. Heb. ix, 16, 17, Oblegid lle byddo testament, rhaid yw digwyddo marwolaeth y testamentwr. Canys wedi marw dynion, y mae testament mewn grym: oblegid nid oes etto nerth ynddo tra fyddo y testamentwr yn fyw.

6, Y mae yn cael ei gydmaru i Briodfab. Mat. xxv, 5, 6, A thra yr oedd y priodfab yn aros yn hir, yr hepiasant oll ac yr hunasant. Ac ar haner nos y bu gwaedd, Wele, y mae y priodfab yn dyfod! ewch allan i gyfarfod ag ef.

7, Y mae yn cael ei alw yn Etifedd ac yn Gyntaf-anedig. Mat. xxi, 37, 38, Ac yn ddiweddaf oll, efe a anfonodd attynt ei fab ei hun; gan ddywedyd, Hwyl a barchant fy mab i. A phan welodd y llafurwyr y mab, hwy a ddywedasant yn eu plith eu hunain, Hwn yw yr etifedd; deuwch lladdwn ef, a daliwn ei etifeddiaeth

ef. Heb. i, 2, Yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth, trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd. Heb. i, 6, A thrachefn, pan yw yn dwyn y Cyntaf-anedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angylion Duw ef.

8, Y mae yn cael ei alw yn Gyfaill. Can. v, 16, Dyma fy Anwlyd, dyma fy Nghyfaill, O ferched Jerusalem.

9, Y mae yn cael ei alw yn Frenin, Dat. xix, 16, Ac y mae ganddo, ar ei wisg ac ar ei forddwyd, enw wedi ei ysgrifenu, *Brenin breninoedd, ac Arglwydd arglwyddi*. Salm ii, 6, Minnau a osodais fy Mrenin ar Sion fy mynydd sanctaidd.

10, Y mae yn cael ei alw yn Dywysog. Dan. xii. 1, Ac yn yr amser hwnw y saif Micael, y Tywysog mawr, yr hwn sydd yn sefyll dros feibion dy bobl: yna y bydd amser blinder, y cyfryw ni bu er pan yw cenedl hyd yr amser hwnw: ac yn yr amser hwnw y gwaredir dy holl bobl, y rhai a gaffer yn ysgrifenedig yn y llyfr Act. iii, 14, 15, Eithr chwi a wadasoch y Sanct a'r Cyflawn, ac a ddeisyfasoch roddi i ohwi wr llofruddiog; a Thywysog y bywyd a laddasoch, yr hwn a gododd Duw o feirw; o'r hyn yr ydym ni yn dystion. Heb. ii, 10, Canys gweddus oedd iddo ef, o herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, wedi iddo ddwyn meibion lawer i ogoniant, berffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddiodefadau. Heb. xii, 2, Gan edrych ar Iesu, Pen-Tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni; yr hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddiodefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorsedd-faingc Duw. Dat. i, 5, Ac oddiwrth Iesu Grist, yr hwn yw y Tyst ffyddlon, y Cyntaf-anedig o'r meirw, a Thywysog breninoedd y ddaear.

11, Y mae yn cael ei alw yn Gynghorwr. Essay ix, 6, Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef: a gelwir ei enw ef Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd.

12, Y mae yn cael ei alw yn Farnwr. Act. x, 42, Ac efe a orchymynodd i ni bregethu i'r bobl, a thystiolaethu mai efe yw yr hwn a ordeiniwyd gan Dduw yn Farnwr byw a meirw. Ioan v, 22, Canys y Tad nid yw yn barnu neb: eithr efe a roddes bob barn i'r Mab. 2 Tim. iv, 8, O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw: ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef.

13, Y mae yn cael ei alw yn Eiriolwr. Esay liii, 12: Am hyny y rhanaf iddo ran gyda llawer, ac efe a rana'r yspail gyda'r cedym: am iddo dywallt ei enaid i farwolaeth: ac efe a gyfrifwyd gyda'r troseddwy; ac efe a ddrug bechodau llaweroedd, ac a eiriolodd dros y troseddwy. I Ioan ii, 1, Fy mhlant bychain, y pethau hyn yr wyf yn eu hysgrifenu atoch, fel na phrechoch. Ac o phecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn. Rhuf. viii, 34, Pwy yw yr hwn sydd yn damnio? Crist yw yr hwn a fu farw, ie, yn hytrach, yr hwn a gyfodwyd hefyd; yr hwn hefyd sydd ar ddeheulaw Duw, yr hwn hefyd sydd yn erfyn trosom ni.

14, Mae yn cael ei alw yn Broffwyd ac yn Ddysgawdwr. Act. iii, 22, Canys Moses a ddywedodd wrth y tadau, Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi Broffwyd o'ch brodyr, megis myfi: arno ef y gwrandewch yn mhob peith a ddywedo wrthych. Luc vii, 15, Ac ofn a ddaeth ar bawb: a hwy a ogoneddasant Dduw, gan ddywedyd, Proffwyd mawr a gyfododd yn ein plith; ac, Ymwelodd Duw â'i bobl. Ioan iii, 2, Hwn a ddaeth at yr Iesu liw nos, ac a ddywedodd wrtho, Rabbi, nyny a wyddom mai dysgawdwr wyt ti wedi dyfod oddiwrth Dduw: canys ni allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn yr wyt ti yn eu gwneuthur, oni b'ai fod Duw gydag ef.

15, Mae efe yn cael ei alw yn Dyst ffyddlon a chywir. Dat. iii, 14, Ac at angel eglwys y Laodiceaid, ysgrifena; Y pethau hyn y mae Amen yn eu dywedyd, y Tyst ffyddlon a chywir, dechreuad creadigaeth Duw. Esay lv, 4, Wele, rhoddais ef yn Dyst i'r bobl, yn Flaenor ac yn Athraw i'r bebloedd.

16, Y mae ya cael ei alw yn Apostol ac yn Esgob. Heb. iii, 1, O herwyddi pa han, frodyr sanctaidd, cyfranogion o'r alwedigaeth nefol, ystyriwch Apostol ac Arch-offeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu. 1 Pedr ii, 25, Canys yr oeddych chiwi megis defaid yn myned ar gyfeiliorn; eithr yn awr chiwi a dilychwelwyd at Fugail ac Esgob eich eneidiau.

17, Mae yn cael ei alw yn Archoffeiriad. Heb. iv, 14, 15, Gan fod wrth hynny i ni Archoffeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn yn ein proffes. Canys nid oes i ni archoffeiriad heb fedru cyddioddef gydâ'n gwendid ni; ond wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud â ninnau, etto heb bechod. Heb. vii, 26, Canys y cyfryw Archoffeiriad sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechad uriaid, ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd, oedd weddus i ni.

18, Mae yn cael ei alw yn Rhwygydd. Mica ii, 13, Daw y Rhwygydd i fynu o'u blaen hwynt; rhwygasant, a thramwasant trwy y porth, ac aethant allan trwyddo, a thramwya eu brenin o'u blaen, a'r Arglwydd ar eu penau hwynt.

19, Mae yn cael ei gyffelybu i Hauwr. Mat. xiii, 3—3, Ac efe a lefarodd wrthynt lawer o bethau trwy ddarnegion, gan ddywedyd, Wele, yr Hauwr a aeth allan i hau, &c.

20, Mae yn cael ei alw yn Fugail. Esay xl, 11, Fel bugail y portha efe ei braidd; â'i fraich y casgl efe ei wyn, ac a'u dwg yn eu fynwes, ac a goledda y mamogiaid. Ioan x, 11, 14, Myfi yw y Bugail da. Y bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid. Myfi yw y bugail da; ac a adwaen yr eiddof fi, ac a'm hadwaenir gan yr eiddof fi. Heb. xiii, 20, A Duw yr heddwch, yr hwn a ddug drachefn oddiwrth y meirw ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfamod tragwyddol.

*Ymddiddan dracheſſu, rhwng Paul a Silas, yn nghylch
rhai o Enwau a Thitlau Crist.*

Paul. A ellwch chwi, Silas, adrodd rhai adnodau o'r ysgrythur, ag sydd yn gosod allan enwau a thitlau Crist, y Cyfryngwr?

Silas. 1, Y mae efe yn cael ei gyffelybu i Feddyg. Esay lxiii, 1, Pwy yw hwn yn dyfod o Edom, yn goch ei ddillad o Bosrah? hwn sydd hardd yn ei wisg, yn ymdaith yn amllder ei rym? Myfi, yr hwn a lafaraf mewn cyfiawnder, ac wyf gadarn i iachau. Mat. ix, 12, A phan glybu yr Iesu, efe a ddywedodd wrthynt, Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion. Heb. vii, 25, Am hynny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.

2, Y mae efe yn cael ei gydmaru i burwr a glanhawr arian. Mal. iii, 2, 3, Ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad ef? a phwy a saif pan ymddangoso efe? canys y mae efe fel tân y toddydd, ac fel sebon y golchyddion. Ac efe a eistedd fel purwr a glanhawr arian: ac efe a bura feibion Lefi, ac a'u coetha hwynt fel aur ac fel arian, fel y byddont yn offrymu i'r Arglwydd offrw mewn cyfiawnder. Jer. xxxiii, 8, A mi a'u puraf hwynt oddiwrth eu holl anwiredd a bechasant i'm herbyn; a mi a faddeuaf iddynt eu holl bechodau trwy y rhai y pechasant i'm herbyn, a thrwy y rhai y troseddasant yn fy erbyn. Dan. xii, 10, Llawer a burir, ac a gennir, ac a brofir; eithr y rhai drygionus a wnant ddrygioni: ac ni ddeall yr un o'r rhai drygionus; ond y rhai doethion a ddeallant.

3, Mae yn cael ei alw yn Was. Esay xlii, 1, Wele fy ngwas, yr hwn yr ydwyf yn ei gynnal; fy etholedig, i'r hwn y mae fy enaid yn foddlon: rhoddais fy yspryd arno; efe a ddwg allan farn i'r cenedloedd. Esay lii, 13, Wele, fy ngwas a lwydda; efe a godir, a dderchefir, ac a fydd uchel iawn.

4, Mae yn cael ei gydmaru i adeiladwr. Zech. vi, 12, 13, A llafara wrtho, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, gan ddywedyd, Wele y gwr a'i enw Blaguryn: o'i le hefyd y blagura, ac efe a adeilada deml yr Arglwydd. Ie teml yr Arglwydd a adeilada efe; ac efe a ddwg y gogoniant, ac a eistedd, ac a lywodraetha ar ei frenin-faingc; bydd yn offeiriad hefyd ar ei frenin-faingc: a chynghor hedd a fydd rhyngddynt ill dau. Mat. xvi, 18, Ac yn ydwyf finnau yn dywedyd i ti, mai ti vw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys; a phyrth uffern nis gorchfygant hi.

5, Mae yn cael ei alw yn Rhagflaenor. Heb. vi, 19, 20, Yr hwn sydd genym ni megis angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn byd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen, i'r man yr aeth y rhagflaenor drosom ni, sef Iesu, yr hwn a wnaethpwyd yn Archoffeiriad ya dragywyddol yn ol urdd Melehisedec.

6, Mae yn cael ei gydmaru i Lew. Dat. v, 5, Ac un o'r henuriaid a ddywedodd wrthyf, Nac wyla: wele, y Llew yr hwn sydd o lwyth Juda, Gwreiddyn Dafydd, a orchfygodd i agoryd y llyfr, ac i ddattod ei saith sêl ef.

7, Mae yn cael ei gyffelybu i Oen. Ioan i, 29, Tranoeth Ioan a ganfu yr Iesu yn dyfod atto; ac efe a ddywedodd, Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymâith bechodau'r byd. I Pedr i, 19, Eithr â gwerthfawr wned Crist, megis Oen difeius a difrycheulyd. Dat. v, 6—12, Ac mi a edrychais; ac wele, y'nghanol yr orsedd-faingc a'r pedwar anifail, ac yn nghanol yr henuriaid, yr oedd Oen yn sefyll megis wedi ei ladd, a chanddo saith gora, a saith lygad, y rhai ydyw saith Yspryd Duw wedi ei danfon allan i'r holl ddaear. Dat. vi, 16, Ac a ddywedasant wrth y mynyddoedd a'r creigiau, Syrthiweh arnom ni, a chuddiweh ni o wydd yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac oddiwrth lid yr Oen. Dat. xiv, 1, 4. Ac mi a edrychais; ac wele, Oen yn sefyll ar fynydd Sion, a chydâg ef bedair mil a saith-ugeinmil, a chanddynt enw ei Dad ef yn ysgrifenedig yn eu talcenau. Y rhai hyn yw y rhai sydd yn

dilyn yr Oen pa le bynag yr elo. Y rhai hyn a brynwyd oddiwrth ddyinion, yn flaen-ffrwyth i Dduw ac i'r Oen.

8, Mae efe yn cael ei alw yn Ddelw Duw. 2 Cor. iv, 4, Yn y rhai y dallodd duw y byd hwn feddyliau y rhai digred, fel na thywynai iddynt lewyrch efengyl gogoniant Crist, yr hwn yw delw Duw. Col. i, 15, Yr hwn yw delw y Duw anweledig, cyntaf-anedig pob creadur.

9, Mae'n cael ei alw yn Allu ac yn Ddoethineb Duw. 1 Cor. i, 24, Ond iddynt hwy y rhai a alwyd, Iuddewon a Groegwyr, yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw. Col. ii, 3, Yn yr hwn y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig.

10, Mae yn cael ei alw yn drugaredd ac yn ddawn anrhaethol. Luc i, 72, I gwblhau y drugaredd a'n tadau, ac i gofio ei sanctaidd gyfamod. 2 Cor. ix, 15, Ac i Dduw y byddo'r diolch am ei ddawn anrhaethol.

11, Mae efe yn cael ei alw yn gyfamod ac yn iachawdwriaeth. Esay xlii, 6, Myfi yr Arglwydd a'th elwais mewn cyfiawnder, ac ymaflaf yn dy law, cadwaf di hefyd, a rhoddaf di yn gyfamod pobl, ac yn oleuni cenedloedd. Esay xlix, 8, Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Mewn amser boddlongaryth wrandewais, ac yn nydd iachawdwriaeth y'th gynnorthwyaïs: a mi a'th gadwaf ac a'th roddaf yn gyfamod y bobl, i sierhau y ddaear, i beri etifeddu yr etifeddiaethau anghyfaneddol. Esay xlix, 6, Ac efe a ddywedodd, Gwael yw dy fod yn was i mi, i gyfodi llwythau Jacob, ac i adferu rhai cadwedig Israel: mi a'th roddaf hefyd yn oleuni i'r Cenedloedd, fel y byddech yn iachawdwriaeth i mi hyd eithaf y ddaear.

12, Mae efe yn cael ei alw yn heddwch, ac yn dangnefedd, ac yn ddiddanwch. Mica v, 5, A hwn fydd yr heddwch, pan ddel yr Assyriad i'n tir ni: a phan sathro o fewn ein palasau, yna cyfodwn yn ei erbyn saith fugail, aë wyth o'r dynion penaf. Eph. ii, 14, Canys efe yw ein tangnefedd ni, yr hwn a wnaeth y ddau yn un, ac a ddattododd ganol-fur y gwahaniaeth

rhyngom ni. Luc ii, 25, Ac wele, yr oedd gwr yn Jerusalem, a'i enw Simeon; a'r gwr hwn oedd gyfiawn a duwiol, yn disgwyl am ddi-ddanwch yr Israel: a'r Yspryd Glân oedd arno.

13, Mae efe yn cael ei alw yn fywyd ac yn oleuni. Col. iii, 4, Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gydâg ef mewn gogoniant. Ioan i, 4, 9, Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd oedd oleuni dynion. Hwn ydoedd y gwir Oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd. Ioan viii, 12. Yna y llafarodd yr Iesu wrthynt drachefn, gan ddywedyd, Goleuni y byd ydwyf fi: yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd.

14, Mae yn cael ei alw yn adgyfodiad. Ioan xi, 25, Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd; yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw.

15, Mae yn cael ei alw yn Haul y Cyfiawnder. Mal. iv, 2, Ond haul cyfiawnder a gyfyd i chwi y rhai ydych yn ofni fy enw, â meddyginiaeth yn ei esgyll; a chwi a' ewch allan ac a gynnyddwch megis lloj pasgedig. Luc i, 78, O herwydd tiriondeb trugaredd ein Duw, trwy yr hon yr ymwelodd â ni godiad haul o'r uchelder.

16, Mae yn cael ei alw yn Seren foreu, neu Seren ddydd. Dat. xxii, 16, Myfi yw Gwreiddyn a Hiliogaeth Dafydd, a'r Seren fore eglur. Dat. ii, 28, Ac mi a roddaf iddo y Seren fore. Num. xxiv, 17, Gwelaf ef, ac nid yr awr hon; edrychaf arno, ond nid o agos: daw seren o Jacob, a chyfyd teyrn-wialen o Israel, ac a ddryllia gonglau Moab, ac a ddinystria holl feibion Seth.

17, Mae yn cael ei alw yn Ffynon. Zech. xiii, 1, Y dydd hwnw y bydd ffynon wedi ei hagoryd i dŷ Dafydd, ac i breswylwyr Jerusalem, i bechod ac astendid. Joel iii, 18, A'r dydd hwnw y bydd i'r mynyddoedd ddefnynu melyswin, a'r bryniau a liseiriant o laeth, a

holl ffrydiau Juda a redant gan ddwfr, a ffynon a ddaw allan o dŷ yr Arglwydd, ac a ddyfrhâ ddyffryn Sittim.

18, Mae Crist yn cael ei alw yn bren y bywyd, ac yn bren afalau. Dat. xxii, 2, Yn nghanol ei heol hi, ac o ddau tu yr afon, yr oedd pren y bywyd, yn dwyn deuddeg rhyw ffwrth, bob mis yn rhoddi ei ffwrth: a dail y pren oedd i iachau y cenedloedd. Can. ii, 3, Megis pren afalau yn mysg prenau y coed, felly y mae fy anwylid yn mhlith y meibion: bu dda genyf eistedd dan ei gysgod ef, a'i ffwrth oedd felus i'm genau.

19, Mae yn cael ei gyddmaru i wreiddyn, i blannigyn enwog, ac i winwydden. Dat. xxii, 16, Myfi yw Gwreiddyn a Hiliogaeth Dafydd. Ezec. xxxiv, 29. Cyfodaf iddynt hefyd blannigyn enwog, ac ni byddant mwy wedi trengu o newyn yn y tir, ac ni ddygant mwy waradwydd y cenedloedd. Ioan xv, 1, Myfi yw y wir winwydden, a'm Tad yw y llafurwr.

20, Mae yn cael ei alw yn Rhosyn Saron a Lili y dyffrynoedd. Can. ii, 1, Rhosyn Saron, a lili y dyffrynoedd ydwyf fi.

◆

Ymddiddan drachefn, rhwng Pedr ac Ioan, y'nghylch rhai o Enwau cydmariaethol Crist.

Pedr. A ellwch chwi, Ioan, adrodd yn mhellach rai ysgrythurau, ag sydd yn gosod allan enwau neu ditiau yr Arglwydd Iesu?

Ioan. 1, Mae yn cael ei alw yn bwysi myrr, ac yn gangen o rawn camphir. Can. i, 13, 14, Fy anwylid sydd im' yn bwysi myrr; rhwng fy mronau yr erys dros nos. Cangen o rawn camphir yw fy anwylid i mi, yn ngwinllanoedd Engedi.

2, Mae yn cael ei gyffelybu i wenith ac i flaenffwrth. Ioan xii, 24, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear, a marw, hwnw a erys yn unig: eithr os bydd efe marw, efe a ddwg ffwrth lawer.

Cer. xv, 20, Eithr yn awr Crist a gyfodwyd oddiwrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant.

3, Mae Crist yn cael ei gyffelybu i graig a noddfa. Esay xlii, 11, Y diffeithwch a'i ddinasoedd, dyrchafant eu llef, y maes-drefi a breswylia Cedar; caned preswylwyr y graig, bloeddiant o ben y mynyddoedd. Esay xxxii, 2, A gwr fydd megis yn ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymhestl; megis afonydd dyfroedd mewn sychdir, megis cysgod craig sawr mewn tir sychedig. Mat. xvi, 18, Ac yr ydwyf finnau yn dywedyd i ti, mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys; a phyrth uffern nis gorchfygant hi. Mat. vii, 24, Gan hyny pwy bynag sydd yn gwrandawr fy ngeiriau hyn, ac yn eu gwneuthur, mi a'u cyffelybaf ef i wr doeth, yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y graig.

4, Mae yn cael ei gydmaru i garreg. Dan. ii, 34, 35, Edrych yr oeddit hyd oni thorwyd allan garreg, nid trwy waith dwylaw, a hi a darawodd y ddelw ar ei thraed o haiarn a phridd, ac a'u maluriodd hwynt. A'r garreg yr hon a darawodd y ddelw a aeth yn fynydd mawr, ac a lanwodd yr holl ddaear. Zech. iii, 9, Cans wele, y garreg a roddais ger bron Josuah; ar un garreg y bydd saith o lygaid: wele fi yn naddu ei naddiad hi, medd Arglwydd y lluoedd, a mi a symudaf ymaith a-wiredd y tir hwnw mewn un diwrnod.

5, Mae Crist yn cael ei alw yn ffordd ac yn ddrws. Ioan xiv, 6, Yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, Myfi yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd: nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi. Ioan x, 9, Myfi yw y drws: os â neb i mewn trwof fi, efe a fydd cadwedig; ac efe a â i mewn ac allan, ac a gaiff borfa.

6, Mae yn cael ei alw yn babell. Esay iv, 5, 6, A'r Arglwydd a grea ar bob trigfa o fynydd Sion, ac ar ei gymanfaoedd, gwmwl a mwg y dydd, a llewyrch tân famillyd y nos: cans ar yr holl ogoniant y bydd amddiffyn. A phabell fydd yn gysgod y dydd rhag gwres, ac yn noddfa ac yn ddiddos rhag tymhestl a rhag gwlaw.

7, Mae Crist yn cael ei alw yn Sylfaen ac yn Ben congl-faen. 1 Cor. iii, 11, Canys sylfaen arall nis gall neb ei osod, heblaw yr un a osodwyd, yr hwn yw Iesu Grist. Esay xxviii, 16, Am hyny, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Wele fi yn sylfaenu maen yn Sion, maen profedig, congl-faen gwerthfawr, sylfaen safadwy; ni frysia yr hwn a gredo. Salm cxviii, 22, Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, a aeth yn ben i'r gongl.

8, Mae yn cael ei alw yn Fara'r bywyd, ac yn Fanna cuddiedig. Ioan vi, 35, A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Myfi yw bara'r bywyd: yr hwn sydd yn dyfod attaf fi, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser. Dat. ii, 17, Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi: I'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhoddaf iddo fwyta o'r manna cuddiedig, &c.

9, Mae Crist, o ran ei gyfiawnder cyfrifol a'i rasmusau sancteiddiol, yn cael ei alw yn Wisg ac yn Wisg oreu. Luc xv, 22, A'r tad a ddywedodd wrth ei weision, Dygwch allan y wisg oreu, a gwisgwch am dano ef, a rhoddwch fodrwy ar ei law, ac esgidiau am ei draed. Rhuf. xiii, 14, Eithr gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu Grist, ac na wnewch rag-ddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawnu ei chwantau ef.

10, Mae yn cael ei gydmaru i Berl gwerthfawr ac i Drysor cuddiedig. Mat. xiii, 44, 45, 46, Drachefn, cyffelyb yw teyrnas nefoedd i drysor wedi ei guddio mewn maes; yr hwn wedi ddyn ei gaffael, a'i cuddiodd, ac o lawenydd am dano, sydd yn myned ymaith, ac yn gwerthu yr hyn oll a fedd, ac yn prynu y maes hwnw. Drachefn, cyffelyb yw teyrnas nefoedd i farchnattawr, yn ceisio perlau teg: yr hwn, wedi iddo gaffael un perl gwerthfawr, a aeth ac a werthodd gymaint oll ag a eddai, ac a'i prynodd ef.

11, Y mae cariad Crist yn cael ei gydmaru i Win. Ian. i, 2, 4, Cusaned fi a chusanau ei fin: canys gwe'l wydy gariad na gwin. Y brenia a'm dug i i'w ystaf-

elliau: ni a ymhyfrydyn ac a ymlawenhawn ynot: ni a gofiwn dy gariad yn fwy na gwin: y rhai uniawn sydd yn dy garu.

☞ Gwel Sylwiadau ar Deitlau Crist yn y Llyfr a elwir "PERLAU CALFARIA."

IV. SYLWIADAU A MYFYRDODAU AR RAI O'R ENWAU A RODDIR AR YR YSPRYD GLAN YN Y BIBL.

Mewn dull o Ymddiddan rhwng PEDR ac IOAN.

Pedr. PA beth yw rhai o'r enwau a roddir i'r Yspryd Glân yn y gair?

Ioan. 1, Mae efe yn cael ei alw yn Yspryd tragwyddol, am ei fod yn ddi-ddechreu ac yn ddi-ddiwedd, Heb. ix, 14. 2, Mae yn cael ei alw yn Yspryd y gogoniant; y mae yn anfeidrol ogoneddus ynddo ei hun, ac yn gwneud gwaith gogoneddus yn ei bobl, ac yn eu parottoi i dragwyddol ogoniant, 1 Pedr iv, 14. 3, Yspryd Crist ac Yspryd y Mab, 1 Pedr i, 11, Rhuf. viii, 9, Gal: iv, 6. 4, Mae yn cael ei alw yn Yspryd daionus; y mae yn hanfodol dda ynddo ei hun, ac yn gweithredu yn ddaionus yn eneidiau ei bobl, Salm cxliii, 10, Neh. ix, 20. 5, Mae yn cael ei alw yn Yspryd yr addewid, oblegid mai efe yw addewid fawr y Testament newydd, a'i fod yn cymhwyso yr addewidion drwodd at ei bobl, Eph. i, 13, Luc xxiv, 49, Act. i, 4, Act. ii, 33. 6, Mae yn cael ei alw yn Yspryd y gras, am mai rhad rodd heb ei haeddu ydyw, ac am ei fod yn planu egwyddor o ras yn eneidiau ei bobl, Heb. x, 29. 7, Mae yn cael ei alw yn Yspryd y bywyd, Rhuf. viii, 2. 8, Mae yn cael ei alw yn Yspryd datguddiad, yn Yspryd gwybodaeth, ac yn Yspryd y gwirionedd, Eph. i, 17, Esey xi, 2, Ioan iv, 17. 9, Mae yn cael ei alw yn Yspryd Glân ac yn Yspryd sancteiddiad, Act. iii, 14, 15, Rhuf. i, 4.

Pedr. Pa rai yw rhai o'r enwau cydmariaethol a roddir i'r Yspryd Glân yn y gair?

Ioan. 1, Mae yn cael ei gydmaru i Eiriolwr neu Erfyniwr, Rhuf. viii, 26, 27. 2, Mae yn cael ei gydmaru i Dyst, neu un ag a fyddo yn dwyn tystiolaeth bwysig, Rhuf. viii, 16, Act. xx, 23, 1 Ioan v, 7. 3, Mae yn cael ei gydmaru i Arweinydd ac i Dywysydd, Salm xiv, 10, Ioan xvi, 13, Rhuf. viii, 14. 4, Mae yn cael ei alw yn Ddiddanydd, Ioan xiv, 26, Act. ix, 31. 5, Mae yn cael ei gydmaru i Drigiannydd a Phreswyllydd, Rhuf. viii, 9, Eph. ii, 22. 6, Mae yn cael ei gydmaru i golomen, Mat. iii, 16. 7, Mae yn cael ei gydmaru i dân, Mat. iii, 11, Act. ii, 3, 4, 1 Thes. v, 19. 8, Mae'r Yspryd Glân yn cael ei gydmaru i wynt, Ioan iii, 8, Ezec. xxxvii, 9, Can. iv, 16, Act. ii, 2. 9, Mae yn cael ei gydmaru i ddwfr, i ffynon, ac i afonydd, Esay xxxv, 6, a lxiv, 3, 4, Diar. i, 23, Ezec. xxxvi, 25, Joel ii, 28, Zec. xii, 10, Ioan iv, 15. 10, Mae yn cael ei gydmaru i olew ac ennaint, Act. x, 38, Heb. i, 9, Zec. iv, 12. 11, Mae yn cael ei gydmaru i sêl ac ernes, Eph. i, 13, 14, Eph. iv, 30.

Pedr. Gwnewch ychydig o sylwiadau ar yr Yspryd Glân fel Diddanydd.

Ioan. 1, Mi sylwaf ar gynnwysiad yr enw: y mae'r enw Diddanydd yn arwyddo fod rhyw rai mewn tristwch ac adfyd, a'u bod mewn possibylrwydd o dderbyn diddanwch, a bod yr Yspryd Glân yn anfeidrol addas i'w diddanu, a'i fod yn yrraweled â'i bobl yn aml ac yn cyfrannu ar gyfer en hangenion. 2, Mi sylwaf ar y modd y mae yr Yspryd Glân yn diddanu ei blant: sef, trwy ddangos iddynt sylfaenau gwir ddiddanwch, a'r hyn a wnaeth ac a ddiodeffodd Crist erddynt a throstynt; trwy dywallt cariad Crist yn eu calonau, a thrwy gymhwyso ei addewidion adref attynt; trwy ddangos y caiff pob peth gyd-weithio er eu daioni, na phery eu gofidiau ddim yn hir, a bod coron a theyrnas yn eu haros tu draw i'r bedd. 3, Mi sylwaf pa fath ddiddanwch yw diddanwch yr Yspryd Glân: sef, 1, Diddanwch gwirioneddol ydyw. 2, Y mae yn darostwng yr enaid

i'r llwch. 3, Y mae yn ddiddanwch melus iawn, Can. i, 2. 4, Diddanwch sanctaidd ag sydd yn boddloni yr enaid ydyw. 5, Diddanwch gogoneddus a thragywyddol ydyw. Rhuf. xv, 13, Ioan xvi, 24, Salm iv, 7, Luc i, 47, Heb. vi, 18, 1' Pedr i, 8.

Pedr. Gwnewch ychydig o sylwiadau ar yr Yspryd Glân fel Arweinydd. Gal. v, 18, Rhuf. viii, 14.

Ioan. I, Mi sylwaf ar gynnwysiad y swydd o arwain. 1, Mae yn cynnwys fod gynion yn ddieithr i'r ffordd y dylent rodio: *ffordd tangnefedd nid adnabuant*: ond y mae Duw, trwy ei Yspryd, yn cyfeirio eu traed i ffordd tangnefedd, Rhuf. iii, 17, Luc i, 79. 2, Mae arweinydd yn dra angenrheidiol; felly y mae arweinyddiad yr Yspryd Glân yn dra angenrheidiol i'r saint, tra yn teithio trwy anialwch y byd presenol: y mae Duw yn arwain ei bobl trwy yr anialwch mawr ac ofnadwy, lle y mae seirph ac ysgorpionau; sef i'r dyberf o'u darostwng a'u profi, a gwneud lles iddynt yn y diwedd, Deut. viii, 15, 16. 3, Mae arweinydd yn dra angenrheidiol i'r deillion a'r anghyfarwydd; felly y mae Duw, trwy ei Yspryd, yn arwain y deillion ar hyd ffordd nid adnabuant, ac yn gwneud y tywyllwch yn oleuni o'u blaen, a'r pethau ceimion yn uniawn, Esay xlii, 16. 4, Fel arweinydd ffyddlon, y mae yr Yspryd Glân yn dangos y perygl o droi i lwybrau gau: 1, Y mae efe yn dangos y perygl o droi i lwybr rhyfyg. 2, O droi i lwybr anobaith. 3, Llwybr cyfeiliornadau a thraddodiadau dynol. 4, Llwybr anufudd-dod. 5, Llwybr balchder. 6, Llwybr rhagrith. 7, Llwybr gwrthgiliad. 5, Fel arweinydd ffyddlon a chyfarwydd, y mae'r Yspryd Glân yn rhyddhau y saint o'u hofnau a'u dychrynfeydd. 6, Fel arweinydd, y mae yn rhoddi cyfarwyddiadau addas pa fodd i ymddwyn yn mhob sefyllfa.

II, Mi sylwaf pa fath Arweinydd ydyw yr Yspryd Glân. 1, Y mae yn arweinydd cysurus a diddanol. 2, Y mae yn arweinydd addfwyn ac amyneddgar. 3, Mae yn arweinydd gwirioneddol a digyfeitiorni. 4, Y mae yn arweinydd cyffredinol i'r holl saint. 5, Mae

yn arweinydd gwastadol a diffino: *ni fina ac ni ddiffygia Duw tragwyddoldeb.*

III, Mi sylwaf o ba le ac i ba le y mae yr Yspryd Glân yn arwain ei bobl. 1, Y mae yn eu harwain oddiwrth gyfeiliornadau dinystriol, ac oddiwrth anysytiriaeth, pechod, a gwagedd. 2, Y mae yn eu harwain i iawn adnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu, a threfn yr iachawdwriaeth. 3, Y mae yn eu harwain i edifarhau am bechod, ac i ddyffryn gostyngeiddrwydd a hunanymwadiad. 4, Y mae yn eu harwain at orsedd gras, i weddio am faddeuant o'u pechodau mawrion ac aml. 5, Y mae yn eu harwain at gyfryngdod, gwaed, a chyfiawnder gwerthfawr a digonol yr Arglwydd Iesu. 6, Y mae efe yn eu harwain i garu yr Arglwydd ac i gyflwyno eu hunain iddo. 7, Y mae efe yn eu harwain, i borfeydd gwelltog y gair a'r ordinhadau, a cherllaw y dyfroedd tawel. 8, Y mae efe yn eu harwain i rodio llwybrau sancteiddrwydd, ac i'r ystafelloedd hyfryd o gymdeithas â Duw. 9, Y mae efe yn eu harwain i faes y gwaed, i ryfela â'u gelynyon; ac y mae yn eu gwisgo â'r arfogaeth ysprydol. 10, Efe a'u harwain yn y diwedd yn ddiogel trwy ddyffryn cysgod angeu i mewn i'r Ganaan nefol, ac i dawel fryniau gogoniant, ac i ehang faesydd gwlad gorfoledd. Clod iddo. *Amen.*

Pedr. Gwnewch rai sylwiadau ar yr Yspryd Glân fel Dysgawdwr a natur ei ddisgeidiaeth.

Ioan. I, Mi sylwaf ar yr Yspryd Glân fel Dysgawdwr. 1, Mae yn ofynol fod doethineb a deall yn perthyn i Ddysgawdwr; felly y mae anfeidrol ddoethineb yn perthyn i'r Yspryd Glân. 2, Fel dysgawdwr, y mae yr Yspryd Glân yn egluro pethau dyfnion a thywyll, Eph. iii, 3, 4, 5. 3, Fel dysgawdwr, y mae yn cymeryd llawer o bwyll ac amynedd i ddisgu ei bobl, mewn modd graddol, yn nirgelion teyrnas nefoedd. 4, Fel dysgawdwr, y mae yn llefaru yn arw ac yn arfer y wialen weithiau. 5, Fel dysgawdwr, y mae yn cael ei ddiystyru gan lawer.

II, Mi sylwaf ar y gwersi y mae efe yn eu dysgu.

1, Y mae yn dysgu dynion i weled mawr ddrwg pechod.
 2, Y mae yn eu dysgu i weled annigonolrwydd pob peth o'u heiddo eu hunain i fod yn iawn am eu pechodau. 3, Y mae yn dysgu iddynt weled addasrwydd a chyflawnder Crist ar gyfer eu hangen; y mae golud Crist yn anchwiliadwy. 4, Y mae yn dysgu iddynt weled gwagter y byd, hawddgarwch sancteiddrwydd, a mawr werth crefydd a duwioldeb.

III, Mi sylwaf fod gwahaniaeth mawr rhwng dysgeidiaeth yr Yspryd Glân a dynol ddysgeidiaeth. 1, Y mae balchder ac ymffrost yn cyd-fyned â dynol ddysgeidiaeth; ond y mae hunan-ymwadiad mawr yn cyd-fyned â dysgeidiaeth yr Yspryd Glân. 2, Y mae byrbwylldra ac anfoddlonrwydd yn cyd-fyned â dynol ddysgeidiaeth; ond y mae pwyll, boddlonrwydd, ac amynedd mawr yn cyd-fyned â dysgeidiaeth yr Yspryd Glân. 3, Y mae sychder yspryd a diffrwythder yn ngwaith yr Arglwydd yn cyd-fyned â dynol ddysgeidiaeth; ond y mae dysgeidiaeth yr Yspryd Glân yn dwyn dynion yn iraidd eu hyspryd ac yn frwythlon yn ngwaith yr Arglwydd. 4, Y mae ystyfnigrwydd a sarugrwydd yn cyd-fyned yn aml â dynol ddysgeidiaeth; ond y mae dysgeidiaeth yr Yspryd Glân yn dwyn dynion yn dosturiol, yn foneddigaidd, yn addfwyn, ac yn hawdd eu trin. Iago iii, 17.

Pedr. Gwnewch rai sylwiadau ar yr Yspryd Glân dan y gydmariaeth o Wynt.

Ioan. 1, Mae'r gwynt yn anweledig, er fod ei effeithau yn weledig; felly y mae yr Yspryd Glân. 2, Y mae y gwynt yn chwythu yn ol ewyllys Duw; felly y mae yr Yspryd Glân yn ail-eni ac yn sancteiddio pechaduriaid. 3, Y mae y gwynt yn puro yr awyr, ac yn ymlid y niwl ac yn gwasgaru y cymylau; felly y mae yr Yspryd Glân yn puro pechaduriaid, ac yn ymlid y niwl a'r cymylau o dywyllwech i ffwrdd o'u calonau. 4, Mae'r gwynt o duedd i oeri; felly y mae yr Yspryd Glân yn oeri y gwres o lygredd a nwydau llygredig sedd yn nghalonau ei bobl. 5, Y mae y gwynt yn

dreiddiol; felly, fe dreiddia yr Yspryd Glân, o ran ei weithrediadau sancteiddiol; trwy holl gynneddfau yr enaid. 6, Mae'r gwynt yn chwythu mor gryf a nerthol weithiau fel ag y mae yn diwreiddio coed cryfion ac yn noethi tai; felly y mae yr Yspryd Glân yn gweithio mor rymus weithiau, yn ei weithrediadau argyhoeddiadol, fel y mae yn diwreiddio dymion oddiar eu hen egwydd-orion, ac yn noethi'r tô o hunan-gyfiawnder oddi am eu heneidiau, fel y delont i lefain allan, Pa beth a wnawn fel y byddom cadwedig. 7, Mae y gwynt yn peri i ryw fath o flodau wywo, a chrino, a diflannu yn fuan; felly fe wna awelon yr Yspryd Glân wywo a chrino y blodau o falchder ag sydd yn nghalonau y duwiolion. 8, Mae y gwynt yn ddefnyddiol i beri i'r egin a'r glaswellt dyfu ac adfywio; felly y mae awelon yr Yspryd Glân yn adfywio'r saint, ac yn eu cynnyddu mewn gras a doniau ysprydol. 9, Mae y gwynt yn ddefnyddiol i ffrwythloni ac i addfedu yr ŷd, yn amser y cynbauaf; felly y mae awelon yr Yspryd Glân yn ffrwythloni y saint mewn sancteiddrwydd, ac yn eu haddfedu i'r nefoedd. 10, Mae y gwynt yn ddefnyddiol i nithio ac i ysgaru yr ŷs oddiwyth y gwenith; felly y mae gwynt yr Yspryd Glân ysgaru yn y duwiolion oddiwyth yr ŷs o lygredd. 11, Mae y gwynt yn ddefnyddiol i hwylio y llongau ar hyd y moroedd; felly y mae awelon yr Yspryd Glân yn ddefnyddiol i hwylio y saint tua'r nefoedd, a'u dwyn i'r porthladd a ddymunant. 12, Mae y gwynt yn ddefnyddiol i wasgaru y peraroglau mewn gerddia pherllanoedd; felly y mae'r Yspryd Glân yn gwasgaru peraroglau gras y duwiolion, ac yn eu gwneud i aroglu yn beraidd yma yn y byd.

Pedr. Gwnewch ychydig sylwiadau ar yr Yspryd Glân o dan y gydmariaeth o Olew. Heb. i, 9.

Ioan. 1, Mae yr olew o duedd i feddalhau ac i ddarostwng chwydd mewn cnawd; felly y mae yr Yspryd Glân, yn ei weithrediadau cadwedigol, yn meddalhau calonau dnyion, ac yn darostwng y chwydd o falchder: *yr hwn sydd yn ymchwyddo, nid yw uniawn ei enaid ynddo.* 2, Mae math o olew ag sydd yn feddygin-

iaethol iawn: dywedir i'r Samaritan trugarog dywallt olew a gwin yn archollion y gwr a syrthiodd yn mhllith lladron: felly, y mae yr Yspryd Glân, trwy ei rasusau cadwedigol, yn meddyginaethu ei bobl oddiwrth eu clwyfau o halogrwydd a gwrthgiliadau. Luc x, 34, Esay i, 5, 6, Iago v, 14. 3, Mae rhinwedd mewn rhyw fath o olew i harddu ac i dynu brychau o gnawd dyn, a gwneud i'r wyneb ddysgleirio. Salmi civ, 15, *Ac olew i beri i'r wyneb ddysgleirio.* Felly, y mae rhinwedd yn ngrasusau yr Yspryd Glân i harddu dynion mewn gweithredoedd da, a'u gwneud i ddysgleirio mewn sancteiddrwydd, ac i dynu yr holl frychau o lygrededd o'u calonau. Eph. v, 27, Esther iii, 3. 4, Mae rhinwedd mewn olew i gadw cyrph dynion rhag braenu a rhag llygredigaeth, am hyny fe fyddid yn enneinio cyrph y meirw gynt; felly y mae rhinwedd yn ngras yr Yspryd Glân i gadw'r dynion duwiol rhag ymlygru gyda y byd annuwiol. 5, Mae rhinwedd mewn rhyw fath o olew neu ennaint i gryfhau ac i iachau llygaid gweinion; felly y mae yr Yspryd Glân yn cryfhau ffydd y saint, ac yn ehangu eu deall mewn pethau ysprydol. *Ira hefyd dy lygaid ag eli llygaid, fel y gwelech,* Dat. iii, 18. 6, Mae rhinwedd mewn rhyw fath o olew i ystytho ac i gryfhau giau ac aelodau gweinion; felly, y mae yr Yspryd Glân yn ystytho ewyllysiau cyndyn ei bobl, ac yn eu cryfhau a'u cadarnhau yn y gwirionedd: *Da;* medd yr apostol, *fod y galon wedi ei chryfhau a gras.* 7, Mae rhinwedd mewn rhyw fath o olew i iachau diffyg anadl; felly y mae yr Yspryd Glân yn cryfhau anadl gweddi y saint, wrth ddringo'r tylau serth, pan yn teithio tua'r Ganaan nefol: y mae Duw wedi addaw tywallt ar ei bobl yspryd gras a gweddiau. 8, Mae'r olew o gynneddf dreiddiol; felly y mae yr Yspryd Glân, trwy yr efengyl, yn treiddio ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r yspryd, a'r cymalau a'r mêr; ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon: ac y mae yn chwilio pob peth, ie dyfion bethau Duw hefyd. 9, Yr oedd olew yn cael ei arferyd yn aml gynt yn yr aberthau Iuddewig a'r bwyd offrm o dan y

gyfraith seremoniol; felly y mae yn ofynol i ninnau gael olew yr Yspryd Glân yn ein holl aberthau efangylaidd: ni bydd ein gweddïau, na'n cymuno, na'n hebyrth moliant yn gymeradwy, ar allor y Jehofa, heb yr olew gwerthfawr hwn. Num. xv, 4. 10, Mae rhinwedd gynaliol a meithrinol mewn olew; felly yn ngrasusau yr Yspryd Glân. 1 Bren. xvii, 12, Ezech. xvi, 13. 11, Mae olew o duedd brenhinol, fe ddaw i fynu trwy'r cyfan; felly y mae gras yn sicr o ddyfod i fynu, ac efe a ynnill y fuddugoliaeth yn llwyr yn y diwedd. 12, Mae olew yn ddefnyddiol i beri i lampau gynneu a goleuo; felly y mae olew yr Yspryd Glân, neu ras cadwedigol, yn gwneud i'r saint oleuo mewn rhinweddau sanctaidd yma yn y byd tywyll hwn. 13, Yr oedd olew yn cael ei arferyd gynt i gysegru ac i enneinio offeiriaid a breninoedd i'w swyddau pwysig ac ardderchog; felly fe gafodd Crist ei enneinio â'r Yspryd Glân, ie *ag olew llawenydd tu hwnt i'w gyfeillion*; ac y mae y duwion hefyd yn cael eu gwneud yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw, trwy yr olew sanctaidd yma.

Pedr. Gwnewch rai sylwiadau ar yr Yspryd Glân fel Sêl. Eph. i, 13, *Wedi i chwi gredu, y'ch seliwyd trov Lan Yspryd yr addewid.*

Ioan. I, Mi sylwaf ar y weithred a nodir yma, sef selio. 1, Mae sêl yn gadael ei hargraff ar y cwyr; felly y mae yr Yspryd Glân yn gadael ei argraff ar y luwion: y mae yn argraffu sancteiddrwydd ar eu leall, fel y maent yn dyfod i ddeall ac amgyffred pethau ysprydol; y mae yn argraffu sancteiddrwydd ar eu cof, fel y delont i anghofio pethau drwg ac i gofio pethau ysprydol, ac i ddal yn well ar y pethau y maent yn rlywed; y mae yn argraffu sancteiddrwydd ar eu hewllys, fel y delont yn blygedig ac yn ufudd i ewllyls Duw; y mae yn argraffu sancteiddrwydd ar eu serchidau, fel y delont i garu yr Arglwydd a phethau ysprydol, ac i roddi eu serch ar y pethau sydd uchod; y mae yn argraffu sancteiddrwydd ar eu cydwybod, ac yn uro eu cydwybodau oddiwrth weithredoedd meirwon, i y delont i wasanaethu y gwir a'r bywiol Dduw; ac y

mae yn argraffu sancteiddrwydd ar eu holl ymddygiadau, fel y delont i lewyrchu mewn cariad, sancteiddrwydd, a gweithredoedd da.

2, Mae y sêl yn newid agwedd y cŵyr; felly y mae yr Yspryd Glan yn newid agwedd pawb ag aydd yn cael eu selio ganddo: y mae yn newid agwedd eu hegwyddor, eu dyben, a'u holl feddwl; ac hefyd y mae yn newid agwedd eu holl ymddygiad: y mae yn gwneud y balch yn ostyngedig, y cellweirus yn ddfrifol, yr aflan yn ddiwair, y meddw yn sofr, y cybydd yn haelionus, yr anghyfiawn yn gyhawn, a'r lleidr yn onest: y mae efe yn eu dwyn i roddi heibio yr han ddyn, o ran yr ymarweddiad cyntaf, ac i wisgo y dyn newydd. *Od oes neb yn Ngrist, y mae efe yn greadur newydd.*

3, Mae y sêl yn cadarnhau gweithredoedd; felly y mae yr Yspryd Glan yn cadarnhau y saint yn eu cyfammodol sefyllfa; ac yn cadarnhau eu ffydd, eu gobaiith, a'u cariad; ac yn cadarnhau eu meddwl yn y gwirionedd. *Ezec. xxxvi, 27; Rhoddaf hefyd fy Yspryd o'ch mewn, a gunaf i chi rodio yn fy neudfau, a chadw fy marnedigaethau a'u gwneuthur.* *Essay lix, 21, A minnau, dyma fy nghyfammod a hwynt, medd yr Arglwydd; Fy Yspryd yr hon sydd arnat, a'm geiriau y rhai a osodais yn dy enau, ni chiliaint o'th enau, nac o enau dy had, nac o enau had dy had; medd yr Arglwydd, o hyn allan byth.* Mae y weithred yn ddigon cadarn, y mae wedi ei selio â sêl y Brenin Alpha.

4, Mae y sêl yn cael ei harfer i wahaniaethu eiddo a meddiannau dynion oddiwrth eu gilydd; felly y mae yr Yspryd Glan yn gwahaniaethu y saint oddiwrth bawb eraill, trwy argraffu sancteiddrwydd a delw Crist arnynt: y maent yn dwyn nodau yr Arglwydd Iesu; sef boddlonrwydd, amynedd, gostyngedd, ufuddod, ac ymostyngiad i ewyllys Duw: y mae gwasan-aethwyr Duw yn cael eu selio yn eu talcenau, (Da t. vii, 3) ond nôd y bwystfil sydd yn nhalcenau canlynwyr y bwystfil: y mae gwahaniaeth mawr rhyngddynt: y mae y gwr a'r corn du yn nodi y rhai sydd yn galaru am anwiredd y ddinas. *Ezec. ix, 11.*

5, Mae sêl yn cael ei harfer i ddiogelu pethau; felly y mae yr Yspryd Glan yn diogelu y saint, mewn modd tymhorol ac ysprydol, ac yn eu diogelu mewn cyflwr o ras hyd y diwedd. *Gan fod yn hyderus yn hyn, y bydd i'r hwn a ddechreuodd ynoch waith da, ei orphen hyd ddydd Iesu Grist.* Phil. i, 6.

6, Mae sêl yn cael ei harfer i ddirgelu pethau; felly y mae y saint yn cael eu galw yn rhai dirgel Duw, ac y mae wedi rhoddi eu bywyd i gadw mewn lle digon dirgel, sef *wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw*; ac y mae yr undeb sydd rhyngddynt a Christ, a'r gymdeithas felus sydd rhyngddynt a Duw, yn ddirgel hollol oddiwrth y byd.

7, Mae rhai yn twyll-fathu sêl a delw y brenin weithiau; felly y mae rhagrithwyr yn eglwys Dduw; y mae ganddynt rith o edifeirwch, o gariad, o flydd, o zêl, &c. Ond fe chwilir Jerusalem & llusernau, ac fe ymwelir â'r dynion sydd yn ceulo ar eu sorod.

II, Yr wyf yn sylwi pa bryd y maent yn cael eu selio, sef *wedi iddynt gredu*; sef, 1, Wedi iddynt ddyfod i galonog goffeidio y dystioiaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab. 2, Wedi iddynt wneuthur derbyniad o Grist yn ei holl swyddau. 3, Wedi iddynt ddyfod i ymorphwys arno am bob bendith i'w heneidiau.

III, Yr wyf yn sylwi ar y modd y maent yn cael eu selio, sef trwy Lân Yspryd yr addewid: y mae yn cael ei alw yn *Lân Yspryd*, am mai ei brif orchwyl yn y cyf-ammud newydd yw sancteiddio pechaduriaid; y mae yn cael ei alw yn *Yspryd yr addewid*, am mai efe yw addewid fawr y Testament newydd, ac am ei fod yn cymhwyso yr addewidion adref at ei blant.

Holwn ein hunain a ydym ni wedi ein selio: os do, fe feddalhawyd ein calonau, ac y mae ein cydwybodau wedi cael eu gwneud yn dyner iawn. 2, Os ydym wedi ein selio, y mae delw sanctaidd Crist i'w gwyled arnom. 3, Os ydym wedi ein selio, y mae ein meddwl yn ysprydol ac yn nefolaidd iawn. O bydded fod ein hym-arweddiad ni oll yn y nefoedd. *Amen.*

Pedr. Gwnewch rai sylwiadau ar yr Yspryd Glan fel Ernes. Eph. i, 14, *Yr hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni, hyd bryniad y pŵrcas, i fawl ei ogoniant ef.*

Ioan. I, Mi sylwaf fod y saint yn etifeddion. 1, Y maent yn etifeddion trwy enedigaeth newydd. *Y rhai ni aned o waed, nac o ewylllys y cnawd, nac o ewylllys gwr, eithr o Dduw. Oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.* Ioan i, 13, a iii, 3. Y mae dynion yn yr enedigaeth gyntaf yn etifeddion uffern a damnedigaeth, ac yn elynion i Dduw; ond yn yr ail enedigaeth y maent yn dyfod yn gyfeillion i Dduw ac yn etifeddion teyrnas nefoedd: yn yr enedigaeth gyntaf y mae pechod yn teyrnasu; ond yn yr ail enedigaeth y mae gras yn dyfod i'r orsedd: yn yr enedigaeth gyntaf yr ydym yn dwyn delw y daearol; ond yn yr ail enedigaeth yr ydym yn dyfod i ddwyn delw y nefol: yn yr enedigaeth gyntaf yr ydym yn blant diafol; ond yn yr ail enedigaeth yr ydym yn dyfod yn blant i Dduw. *Ac os plant, etifeddion hefyd; sef etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion a Christ.* Rhuf. viii, 17.

2, Maent yn etifeddion trwy briodas: y maent wedi ymbriodi â Christ, etifedd pob peth; yr oedd merch yr hen Amoriad yn ddigon tlawd hyd nes y priododd hi yr etifedd, ac yna fe'i derchafwyd i sefyllfa uchel ac ardderchog iawn. Dyma briodas anrhydeddus a manteisiol iawn: y dydd y priododd merch yr Amoriad Fab y Brenin Alpha: hi gafodd freichledau o onestrwydd, a chadwyn aur am ei gwddf, a thlws ar ei thalcen, a choron o ddeuddeg seren ar ei phen.

3, Mae y saint yn etifeddion trwy destament, neu ewylllys: y mae y Tad a'r Mab wedi ei rhoddi iddynt mewn ewylllys. *A hyn yw ewylllys yr hwn a'm hanfonodd i; cael o bob un ar sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragynyddol. A minnau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragynyddol; ac ni chyfrgollant byth. Y Tad, y rhar a roddarist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi, fel y gwelont fy ngogoniant.* Mat. xviii, 14, Ioan vi, 39, 40, a x, 28, 29, a xvii, 24.

II, Yr wyf yn sylwi ar natur ei hetifeddiaeth. 1, Y mae yn etifeddiaeth sanctaidd; y mae mor bur, fel na fagiff seiriff pechod byth yno, ac nid â i mewn-iddi ddim aflan; am hyny ni fydd yno ddim afiechyd, ni ddywed neb o'r preswylwyr, Claf ydwyf mwyach; ni fydd yno ddim rhyfel, dim annghariad, dim ofnau galar na marwolaeth. 2, Etifeddiaeth gyflawn a helaeth iawn ydyw, y mae yn cael ei galw yn deyrnas ac yn wlad well; y mae yno gyflawnder o heddwch, o oleuni, a mwynhad o Dduw dros byth. 3, Etifeddiaeth ddiogel ydyw, nis gall lladron ei hyspeilio, na'r tân ei llosgi, na'r môr ei dinystrio; ac nis gall neb ei gwario byth. 4, Etifeddiaeth rád i ni ydyw, er iddi sefyll yn ddrud iawn i Grist ein Cyfathrachwr; nid yn ol ein gweithredoedd ni, eithr yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras. 5, Etifeddiaeth barhaus a thragywyddol ydyw.

III, Yr ydwyf yn sylwi ar ernest yr etifeddiaeth, yr hwn, sef yr Yspryd Glân. 1, I mae ernest yn arwyddo fod cytundeb wedi bod; y mae Duw wedi gwneyd cyfamod â'i bobl, ac y mae ei bobl wedi gwneyd cyfamod âg yntau, a chweddi cyflwyno eu hunain iddo, ac fe aeth yn gytundeb, a derbyniwyd yr ernest. 2, Y mae yr ernest o'r un natur a'r cyflawn-daliad, felly y mae y rhyddid, yr heddwch, y llawenydd, y sancteiddrwydd, a'r mwynhad, ag y mae'r cristion yn ei gael yma o'r un natur, o ran gwerth, a'r hyn sydd yn ei aros yn y nefoedd. 3, Nid yw yr ernest ond bach mewn cyferbyniad i'r hyn y mae yn ei ddiogeli; felly nid yw yr heddwch, y llawenydd, a'r mwynhad sydd yma ond bach iawn at yr hyn sydd yn ol. 4, Y mae yr ernest yn diogelu yr etifeddiaeth, felly y mae preswylfod yr Yspryd Glân yn yr enaid yn sicr o ddiogelu y nefoedd i'r Cristion yn y diwedd, ac y mae yn ffynon ynddo, yn tarddu i fywyd tragywyddol.

IV, Yr wyf yn sylwi ar y dyben o'r cwbl, sef er mawl gogoniant ei ras ef. Prif ddyben Duw yn yr iechydwr-iaeth yw mawl gogoniant ei ras ef, dyma ei ddyben yn ethol, yn ail-eni, yn cyfiawnhau, yn maddeu, yn dychwelyd o wrthgildadau, yn cynal, yn sancteiddio a

gogoneddu, sef er mawl gogoniant ei ras ef. Addysg 1, Chwiliwn yn fanwl a ydym yn blant, os plant, etifeddion hefyd, sef etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ. 2, Os etifeddion, gwelwn mor lleied o achos sydd genym i gynfigeni wrth lwyddiant yr annuwiol. 3, Gwelwn y sail sydd genym i fod yn foddlon mewn gorthrymderau, os dyoddefwn, ni a deyrnaswn. 4, Os cawsom yr earnest, peidiwn bod mor ffol a cheisio cynyg yr earnest yn ol, trwy fywyd penrydd. 5, Diolchwn i'r gwr, sef i Dduw, am na chymer efe ddim o'r earnest yn ol. Y mae y gweithredoedd wedi cael eu gwneyd yn ddigon cadarn. *Cysfamod fy hedd ni sylf*, medd yr Arglwydd; y mae cadarn sail Duw yn sefyll, a chanddo y sel hon, Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef.

Pedr. Gwnewch rai sylwadau ar yr Yspryd Glân a'r iechydwriaeth, o dan y gydmariaeth o afon, Salm xli, 4. *Y mae afon a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Dduw.*

Ioan. 1, Y mae cyflawnder o ddwfr yn gyffredin mewn afon, felly y mae cyflawnder yn yr Yspryd Glân a'r iechydwriaeth. 2, Y mae afon yn agored, ac yn rhad i bawb; felly y mae rhoddion a grasusau'r Yspryd Glân yn rhad i'r penaf o bechaduriaid. 3, Y mae rhai afonydd yn ddwfn iawn, felly y mae natur, a phriodoliaethau, cyngor, a gweithrediadau yr Yspryd Glân, Rhuf. viii, 27. 4, Y mae afon yn elfen addas i bysgod, felly y mae'r credinwyr yn rhodio yn yr Yspryd, o egw, ddor ac anian. 5, Y mae afonydd yn ddefnyddiol i olchi, i lanhau, ac i gario bydreddi ffwrdd, felly y mae yr Yspryd Glân a bendithion yr iechydwriaeth yn glanhau eglwys Dduw oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd. 6, Y mae afonydd yn ddefnyddiol i gario ymgeledd a thrysorau i drefydd a dinasoedd, felly y mae yr Yspryd Glân yn cario ymgeledd a thrysorau gwerthfawr o Gaersalem Newydd i eglwys Dduw yma yn y byd. 7, Y mae afonydd weithiau yn llifo ac yn torri dros y glanau, felly yr Yspryd Glân ar wyl y Pentecost, ac a lifa fel dros y glanau yn amser y llwyddiant mawr yn y mil blynnydoedd. 8, Y mae afonydd yn ffrwythloni ac yn peri i'r coed fyddo ar ei glan i dyfi ac

i flaguro yn hynod, felly y mae'r duwiolion *fel prenau wedi eu plannu ar lan afonydd dyfroedd, yn dwyn ffrwyth yn ei bryd, a'i ddalen ni wywa.* 9, Y mae rhai afonydd mor ddwfn ac mor gryf, fel y gallant ddal i fynu y llongau mwyaf, felly y mae'r Yspryd Glân yn ddigon cryf i ddal i fynu holl bwysau yr eglwys. 10, Y mae afonydd yn gwahanu rhwng un wlad a'r llall, felly y mae'r Yspryd Glân yn gwahanu'r eglwys oddiwrth y byd. 11, Y mae rhinwedd feddyginiaethol mewn afonydd, felly y mae yn yr Yspryd Glân ac afon yr iechydwrïaeth rinwedd feddyginiaethol rhag y chwydd o falchder, rhag darfodedigaeth o wrthgiliad, hefyd rhag tywyllwch, mudandod, marweidd-dra, a byddarni ysbrydol, ie, y mae yn meddyginiaethu y pla a'r gwa-hanglwyf o bechod, ac yn dda rhag gwendid a chloffi ni ysbrydol, fe lama'r cloff fel hydd, ac fe gân tafod y mudan, canys dyfroedd a dyr allan yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch, *Esay xxxv, 6.* 12, Y mae rhinwedd yn yr afon hon i ddi-sychedi'r sychedig, ac i ddiffodd tân o lygredd; ffrydiau'r afon hon, 1, yw'r grasusau nefol. 2, Yr ordinhadau sanctaidd. 3, Yr addewidion mawr iawn a gwerthfawr, fe ddichon i afonydd naturiol rewi a sychu i fynu, ond ni sycha'r afon hon, y mae yn para i redeg haf a gauaf, ac fe olcha'r afon hon aflendid yr enaid, ac a dor ei syched am byth.

V. SYLWIADAU A MYFYRDODAU AR RAI O'R CYDMARIAETHAU A'R ENWAU A RODDIR I'R GAIR A'R EFENGYL YN Y BIBL.

Mewn dull o ymddiddan rhwng PAUL a SILAS:

Paul. Pa beth yw rhai o'r enwau ac y mae'r efengyl yn ei gael yn y Bibl?

Silas. 1, Y mae yn cael ei alw yn air y cymod, 2 Cor. v, 18.

2, Y mae yn cael ei galw yn efengyl y tangnefedd, Eph. vi, 15.

3, Gras Duw, efengyl gras, a gair ei ras ef, Tit. ii, 11. Act. xx, 24—32.

4, Y mae yn cael ei galw yn efengyl y deyrnas, Mat. xxiv, 14.

5, Y mae yn cael ei galw yn air y bywyd, Phil. ii, 16.

6, Y mae yn cael ei galw yn allu Duw, Rhuf. i, 16.

7, Y mae yn cael ei galw yn anchwiliadwy olud Crist, Eph. iii, 8.

8, Y mae yn cael ei galw yn air y ffydd, ac yn air ffyddlon, Rhuf. x, 8. Tit. i, 9.

9, Y mae yn cael ei galw yn weinidogaeth yr Yspryd, 2 Cor. iii. 8.

10, Y mae yn cael ei galw yn efengyl a gair yr echydwriaeth, Eph. i, 13. Act. xiii, 26.

Paul. Paham y mae yr efengyl yn cael ei galw yn air y cymod?

Silas. 1, Am ei bod yn datguddio y cyfrwng trwy ba un y mae cael Cymod, sef Iesu Grist, yr hwn yw ein tangnefedd ni. 2, Am ei bod yn gosod allan natur y cymod, sef rhad, anrhydeddus, a pharhaus, ie, cymod tragwyddol ydyw. 3, Am ei bod yn gosod allan effeithiau y cymod, sef heddwch cydwybod, heddwch a rhagluniaeth cymdeithas â Duw, a llawenydd yn yr Yspryd Glân.

Paul. Paham y mae yr efengyl yn cael ei galw yn ras Duw, ac yn air ei ras ef?

Silas. 1, Am mai rhad rodd o eiddo Duw i ni yw yr efengyl. 2, Am ei bod yn egluro Duw fel un trugarog a graslawn. 3, Am ei bod yn foddion i feithrin a chynnyddu gras yn enaid y Cristion.

Paul. Paham y mae yr efengyl yn cael ei galw yn efengyl y deyrnas?

Silas. 1, Am ei bod yn dangos y ffordd i deyrnas Dduw. 2, Am ei bod yn gosod allan natur a breintiau teyrnas Dduw. 3, Am ei bod yn foddion i barotol dynion i deyrnas nefoedd.

Paul. Paham y mae'r efengyl yn cael ei galw yn air y bywyd?

Silas. 1, Am ei bod yn datguddio Crist, bywyd y Cristion, Col. iii, 4. 2, Am ei bod yn dangos y ffordd i

fywyd tragwyddol. 3, Am ei bod yn foddion yn llaw yr Yspryd i roddi bywyd i bechaduriaid, ac adfywio y saint yn ngwaith yr Arglwydd. 4, Am ei bod yn arwain y duwiolion i fywyd tragwyddol; *a'th gyngor y'm harweini, ac wedi hynny y'm cymeri i ogomiant.*

Paul. 1 ba bethau yn mhellach y mae gair Duw yn cael ei gyddmaru?

Silas. 1. Y mae yn cael ei gyddmaru i Dân, Jer. xxiii, 28, 29.

2, Y mae yn cael ei gyddmaru i oleuni, 2 Pedr i, 19. 2 Cor. iv, 4—6.

3, Y mae yn cael ei gyddmaru i lusern, Salm cxix, 105.

4, Y mae yn cael ei gyddmaru i wlaw a gwlyth, Deut. xxxii, 2.

5, Y mae yn cael ei gyffelybu i ddyfroedd ac afonydd, Esay xxxv, 6, 7. a lv, i. Zech. xiv, 8.

6, Y mae yn cael ei gyddmaru i hâd da, Luc viii, 11. Mat. xiii, 24. Jer. xxiii, 28.

7, Y mae yn cael ei gyddmaru i fêl, Salm xix, 10. a cxix, 103. Dat. x, 9. Can. v, 16.

8, Y mae yn cael ei gyddmaru i laeth, 1 Pedr ii, 1. Heb. v, 12.

9, Y mae yn cael ei gyddmaru i aur ac arian, Salm cxix, 72. a xii, 6.

10, Y mae yn cael ei gyddmaru i wialen, Salm xxiii, 4. a cx, 2.

11, Y mae yn cael ei gyddmaru i ordd, Jer. xxiii, 29.

12, Y mae yn cael ei gyddmaru i gleddyf a saethau, Eph. vi, 17. Heb. iv, 12. Dat. i, 16. Salm xv, 5.

13, Fe'i cydmerir i farch gwyn, Dat. vi, 2. a xix, 11.

14, Fe'i cydmerir i udgorn, Esay xxvii, 12.

15, Y mae yn cael ei gyddmaru i rwyd, Mat. xiii, 47.

16, Y mae yr efengyl yn cael ei chyddmaru i drysor, 2 Cor. iv, 7.

17, Y mae yn cael ei gyddmaru i ddrych, 2 Cor. iii, 18. Iago i, 23.

18, Y mae yn cael ei galw yn hyfryd-lais, ac yn newyddion da, Salm lxxxix, 15. Luc ii, 10.

Aed y fwyn efengyl oleu, i holl gonglau pella'r byd,
 A chyhoedded ryfeddodau, a rhinweddau'r Aberth drud:
 Enw'r Iesu elo'n glodfawr, ac yn werthfawr trwy bob gwlad,
 A doed miloedd dirifedi i glodfori'r Dwyfol wa'd :
 Doed yr Indiaid a'r Barbariaid, a'r Paganiaid o bob rhyw
 At yr Iesu'n ddirifedi, oll dan gredu, i gael byw ;
 Y mae bywyd i farwollion gwyr archollion marwol loes,
 A diogelwch i fyrddiynau, trwy riaweddau angau'r groes.

Paul. Paham y mae'r Gair yn cael ei gydmaru i dân?

Silas. 1, Fel tân y mae yn goleuo pechaduriaid. 2, Fel tân y mae yn difa ac yn llosgi llygredd y Cristion. 3, Fel tân y mae dan arddeliad yr Yspryd Glân yn toddi calonau pechaduriaid, ac yn eu gwneyd yn addas i dderbyn delw'r brenin Alpha. 4, Fel tân y mae yn hynod o dreiddiol ; fe dreiddia trwy holl gynheddfau yr enaid. 5, Y mae'r tân yn tebygoli pethau iddo ei hun, felly y mae y Gair, o dan arddeliad yr Yspryd, yn tebygoli dynion i Dduw mewn sanoteiddrwydd. 6, Y mae'r tân yn gwresogi, yn adfywio, ac yn cysuro, felly y mae gair Duw yn gwresogi calonau pechaduriaid, yn adfywio'r saint, ac yn eu cysuro a'u dadluddedu. 7, Fel tân y mae yn puro y duwiolion oddiwrth eu holl sorod.

Paul. Paham y mae'r gair yn cael ei gydmaru i goleuni?

Silas. 1, Y mae'r goleuni yn hyfryd iawn, fel y dywed Solomon, *Hyfryd yw i'r llygaid weled yr haul.* felly y mae yr efengyl yn hyfryd iawn gan y duwiol. 2, Y mae y goleuni yn dreiddiol, felly y mae yr efengyl a gair Duw yn gyffredinol ; y mae yn tréiddio trwy y meddwl, yr ewyllys, y gydwytod, a'r holl serchiadau i gyd ; bywiol yw gair Duw, a nerthol, a llymach nag un eleddyf daufiniog, yn cyrhaeddyd trwodd o wahaniad yr enaid a'r yspryd, y cymalau a'r mêr, ac yn barnu meddwliau a bwriadau y galon. 3, Y mae y goleuni yn dangos pethau yn eu lliw a'u hagwedd eu hunain, felly y mae yr efengyl, neu air Duw, y mae yn dangos mawredd a gogoniant y Jehafa, yn ei natur a'i briodoliaethau y mae yn dangos y gyfraith yn ei manyldra, ei hysbryd olrwydd, a'i ehangderau ; y mae yn dangos y bywyd yn ei wagter a'i siomedigaethau, ei brofedigaethau a

gyfnewidioldeb; y mae yn dangos gwerth crefydd, a'i dymynoldeb; y mae yn dangos manyldra y farn, a gogoniant a llawenydd y nefoedd, yn nghyd â'r trueni ofnadwy, a'r ocheneidiau diddiwedd, a'r poenau anghueol, a'r gwasgfeion tragywyddol ag sydd yn aros yr annuwiol y tu draw i'r bedd, ac yn dangos Crist ynnigonolrwydd ei abertb, a'i barodrwydd iaolub. 4, Mae y goleuni yn gyfarwyddiadol, felly y mae yr efengyl yn rhoddi cyfarwyddiadau addas pa fodd y mae pawb i ymddwyn yn mhob amgylchjad, ie, y mae yn rhoddi cyfarwyddyd pa fodd i ymddwyn tu ag at Dduw a dynion, a thu ag at greaduriaid afresymol; y mae yn gyfarwyddyd addas pa fodd y mae i frenhinoedd ymddwyn at eu deiliaid, a'r deiliaid tu ag at eu brenhinoedd, a pha fodd y mae i wyr ymddwyn at eu gwraegedd, a'r gwraegedd at eu gwyr, a pha fodd y mae i rieni ymddwyn at eu plant, a'r plant tu ag at eu rhieni, a pha fodd y mae i frodyr ymddwyn at eu chwiorydd, a'r chwiorydd at eu brodyr, a pha fodd y mae i feistrad ymddwyn at eu gweision, a'r gweision tu ag at eu meistraid, a pha fodd y mae i weinidogion ymddwyn tu ag at eu praudd, neu eu heglwysi, a'r eglwysi tu ag at eu bugëiliaid, a pha fodd y mae aelodau eglwysig i ymddwyn at eu gilydd, ac hefyd pa fodd y mae y naill ddyn a'r naill gymydog i ymddwyn y naill tu ag at y llall; a phe bai pawb yn byw yn ol y rheol euraidd hon, O mor hyfryd fyddai arnom ar y ddaear! Am hynny gweddiwn, *Gwnefer dy ewylllys ar y ddaear, megis ag y mae yn y nefoedd.* 5, Y mae y goleuni yn bur, dysglaer, a gogoneddus, felly y mae yr efengyl, y mae yn ogoneddus o ran ei Hawdwr, ei hathrawiaeth, ei nhewyddion, ei datguddiadau, ei haddewidion, ei galwadau, a'i holl reolau i gyd; efengyl ogoneddus y bendigedig Dduw ydyw, y mae yn warth ac yn ofnadwy fod neb heb broffesu yr efengyl ogoneddus hon.

Paul. Paham y mae y Gair yn cael ei gydmaru i gleddyf?

Silas. 1, Y mae y cleddyf yn offeryn ag sydd yn cael ei arferyd a'i ddefnyddio gan filwyr, felly y mae holl filwyr Iesu Grist yn defnyddio cleddyf y Gair yn erbyn

balchder, cybydd-dod, traddodiadau dynol, ac yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion ag sydd yn atal y gwirionedd trwy anghyfiawnder, ac yn erbyn pob gwagedd ac oferedd. 2, Y mae'r cleddyf yn offeryn amddiffynol a dinystriol, felly y mae Gair Duw yn amddiffyn y saint rhag temtasiynau y diafol, ac yn dinystrio eu gelynyon; dyma glëddyf heb ei fath? 3, Y mae cleddyf yn offeryn llym a miniog, felly y mae cleddyf y Gair; dyma'r cleddyf a barodd i lwynau Belsassar ymddatod, ac i Ffelicis ddychrynu; y mae hwn yn trywanu brenhinoedd, ac yn torri pen llawer gwlad, Heb. iv, 12, 4, Fe wna cleddyf dorri aelod neu aelodau ffwrdd ar darawiad amrant, felly fe wna cleddyf y Gair dorri y llaw ddeau neu y fraich ddeau o bechodau anwylaf ffwrdd ar darawiad amrant, pan dan arddeliad yr Yspryd Glân, sef y godineb, y meddwod, y cybydd-dod, y lledrad, a'r holl faswedd a'r gwagedd i gyd, ac a ddaw a'r dyn i ddywedyd fel Ephraim, *Beth sydd i mi mwyach a wnelwyf ag eulunod?* 5, Y mae'r cleddyf yn offeryn buddigoliaethus, felly y mae cleddyf y Gair. Y mae y Cristion, neu y saint, yn sicr o orchfygu trwy waed yr Oen, a thrwy air dystiolaeth; bydd i'r wireglwys gael y fuddigoliaeth ar Babyddiaeth, Mahometaniaeth, a holl eulun-addoliaeth y byd, cyn hir; canys arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr. Y mae y Gair yn cael ei alw yn Glëddyf yr Yspryd, 1, am mae yr Yspryd Glân yw ei awdwr. 2, Am ei fod yn ysprydol o ran ei natur. 3, Am ei fod yn amddiffyn ac yn diogelu yspryd dyn rhag gelynyon ysprydol, *am hyny gwisgwch am danoch holl arfogaeth Duw, fel y galloch sefyll yn y dydd drwg.* Diolchwn i Dduw am glëddyf yr Yspryd, a boddlonwn i draddodi ein holl bechodau anwylaf i gael eu lladd gan glëddyf y Gair.

Paul. Paham y mae y Gair yn cael ei gydmaru i wlaw?

Silas. 1, Y mae gwlaw yn disgyn o'r nefoedd, felly y mae y Gair a bendithion ysbrydol, yn disgyn o'r nefoedd; pob rhoddiad daionus a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae yn disgyn, oddi wrth Dad y goleuni,

gyda'r hwn nid oes cyfnewidiad na chysgod troedigaeth. 2, Y mae y gwlaw yn disgyn yn ol dwyfol gyfarwydd- yd yr Arglwydd, y mae efe yn gwlawio ar un ddinas, ac heb wlawio ar y ddinas arall, felly y mae'r efengyl a bendithion ysprydol; *Mi a drugarhaf, wrth yr hwn y trugarhawyf ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf.* 3, Y mae rhai gwledydd heb fawr o wlaw un amser, megis gwlad yr Aifft, felly y mae rhai gwledydd ac ardaloedd heb yr efengyl, ac y mae cyfgyrau llawer o bechaduriaid fel tir cras, ac fel mynydd sych Gilboa heb na gwllith na gwlaw arnynt. 4, Y mae y gwlaw yn disgyn yn raddol iawn weithiau, felly yn raddol y roddwyd y datguddiad dwyfol, ac yn raddol y mae yr efengyl yn myned yn mlaen, ac yn llwyddo yn y byd, fel y gareg a dorwyd o'r mynydd, ac fel dyfroedd Ezeiel, a'r hedyn mwstard, ond fe wna gwybodaeth o ogoniant yr Arglwydd do'r ddaear, fel y mae'r dyfroedd yn toi'r môr. 5, Y mae'r gwlaw yn dyfod yn anwrthwynebol, neu yn ben-arglwyddiaethol, nid oes neb a all ei rwystro, felly y mae yr efengyl o ran ei thaeniad, ei llwyddiant, a'i heffeithiau; gallu Duw yw hi er iechydwrriaeth i bob un o'r rhai sydd yn credu, a gair Duw nis rhwymir. 6, Y mae'r gwlaw yn fendithiol iawn i'r ddaear, yn enwedig os bydd yr haul i wresogi y ddaear yn fuan ar ei ol, felly y mae'r efengyl yn fendithiol iawn i eneidiau dynion, os bydd i Grist, Haul y cyfiawnder, dywynu arnynt yn ei wres a'i oleu nefol. 7, Y mae'r gwlaw yn ireiddio, yn meddalhau, ac yn ffywythloni y ddaear, felly y mae yr efengyl yn ireiddio ac yn meddalhau calonau pechaduriaid, ac yn eu dwyn i ffrwythloni mewn duwioldeb a sancteiddrwydd. 8, Y mae Duw wedi trefnu y cymylau i gario y gwlaw, felly y mae Duw, wedi trefnu ei weinidogion i gario ei efengyl i blith y Cenhedloedd; y mae y trysor hwn mewn llestri pridd, fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni. 9, Barn drom yw bod yn hir heb wlaw, felly barn drom yw bod heb efengyl a gair yr iechydwrriaeth hon. O Arglwydd, gwlawia wlaw yr efengyl, a bendithion ysbrydol ar yr holl genhedloedd, ac na fydded y ddedfryd ofn- adwy a dychrynlyd hono yn hongian uwch ein penau,

Ac i'r cymylau y gorchymynaf na wlaioni wla arni, Esay v, 6.

Paul. Paham y mae y gair yn cael ei gydmaru i fel yn y Bibl?

Silas. 1, Y mae'r mêl yn hynod o felus, felly y mae gorchymynion, athrawiaeth, addewidion, a galwadau'r Gair yn hynod o felus i'r duwiol, ac i'r enaid profiadol. 2, Gwna'r mêl felysu y pethau mwyaf chwerw, felly fe wna'r efengyl ac addewidion y Gair felysu cystuddiau, erledigaethau, a gorthrymderau y saint, ie, fe wna croes Crist felysu holl ddyfroedd Mara i'r duwiolion. 3, Er mor felus yw y mêl, y mae rhai yn ei gasau ac yn ei ffeiddio, ac fe wna y llawn sathru ar y dil mêl, felly y mae'r beilchion a'r human-lawnion yn sathru ar yr efengyl, ac yn casau gair yr iechydwriaeth. 4, Y mae rhinwedd mewn mêl i feddalhau, i feddyginiaethu, ac i ddarostwng chwydd, felly y mae rhinwedd yn yr efengyl i ddarostwng balchder dynion, a'u meddyginiaethu oddiwrth glwyfau pechod. 5, Y mae rhinwedd yn y mêl i buro ac i lanhau, felly y mae rhinwedd yn yr efengyl a bendithion yr iechydwriaeth i buro dynion, a'u glanhau oddiwrth eu holl bechodau, Ioan xv, 3. Salm cxix, 9. O fy enaid, dysg i fod yn ddiwyd i sugno mêl o gysuron o holl athrawiaeth ac addewidion y Gair.

Paul. Paham y mae y Gair yn cael ei gydmaru i Ddrych? *Gweled yr ydym yr awr hon mewn drych, mewn dameg, ond yna wyneb yn wyneb.*

Silas. 1, Mae'r drych yn dangos pethau yn eglur o flaen y llygaid naturiol, felly y mae'r Gair yn dangos pethau ysbrydol yn eglur o flaen llygaid y meddwl i'r dyn duwiol, ag sydd wedi cael aniaid newydd a'i oleuo gan Yspryd Duw. 2, Y mae rhai drychau yn dangos pethau nas gellir eu canfod a llygad noeth, felly y mae yr efengyl, yn dangos pethau nas gellir eu canfod trwy oleuni natur. 3, Y mae rhai drychau yn dangos pethau bychain yn fawr a phethau pell yn agos, felly y mae yr efengyl yn dangos pethau sydd yn fach yn ngolwg rheswm cnawdol, yn fawr iawn, ac yn dangos angau, barn, a thragywyddoldeb, yn ein hymyl: yn ngwyneb

drych y Gair a rhagluniaeth, gallwn ddywedyd nad oes ond megis cam rhngom ni âg angau. 4, Fe genfydd dyn ei wynebpryd ei hun mewn drych, felly y cenfydd dyn ei gyflwr yn eglur yn nrych cywir yr ysgrythyrau sanctaidd. 5, Y mae rhai yn ymhyfydu yn fawr i edrych mewn drychau, i gael gweled a ydynt yn lân, ac wedi eu gwigo yn hardd ac yn brydferth, felly y mae Cristion yn ymhyfydu edrych i ddrych y Gair, i edrychi a ydyw wedi cael ei wisgo yn nghyfiawnder Crist, ac wedi cael ei addurno â sancteiddrwydd ac â grasusau yr Yspryd Glân. 1, Gwelwn ymfydrwydd y rhai sydd yn treulio llawer o'u hamser i edrych i'r drychau naturiol, yn lle edrych ar bethau ysprydol yn nrych yr efengyl dragywyddol. 2, Nid yw y dyn dall naturiol yn gwneyd un defnydd o'r drychau naturiol, felly nid yw y dall ysprydol yn gwneud un defnydd sylweddol o ddrych yr ysgrythyrau.

Paul. Paham y mae'r Gair yn cael ei gydmaru i lamp neu lusern?

Silas. 1, Ar gyfrif eu defnyddioldeb, sef goleuo dynion mewn byd tywyll, llawn o ddyrswch ac anialwch. 2, Am ei fod yn agored i gael ei symyd o un gongl o'r byd i'r gongl arall, Dat. ii, 5. 3, Am fod yr Yspryd Glân fel olew yn peri iddo gynu mewn byd tywyll. 4, Am ei fod yn ddefnyddiol i oleuo'r saint idd eu hystafelloedd tragywyddol. 5, I ddangos nad yw y goleu ag yr ydym yn ei gael yma i'w gydmaru â'r goleuni sydd yn aros i'r duwiolion yn y nefoedd. Y mae yr efengyl, 1, yn lamp ddwyfel. 2, Lamp ddysglaer danllyd. 3, Lamp gyffredinol i Iuddewon a Chenhedloedd. 4, Lamp ogoneddus ac anniffoddol ydyw.

VI. MYFYRDODAU AR RAI O'R ENWAU CYD-MARIAETHOL AG Y MAE DYNOLRYW AC ANNUWIOLION YN GYFFREDINOL YN EI GAEL YN Y GAIR.

Mewn dull o Ymddiddan rhng SEM a JAPHETH.

Sem. I ba bethau y mae yr annuwolion yn cael eu ydmaru yn y Gair?

- Japheth.* 1, Fe'u cydmerir i anifeiliaid, Preg. iii, 18,
 19. Salm xlix, 12. Judas x. 2 Pedr ii, 12.
 2, Y maent yn cael eu cydmaru i deirw, Salm xxii, 12, 13.
 3, Y maent yn cael eu cydmaru i asynod, Job xi, 12.
 Jer. ii, 23.
 4, Y maent yn cael eu cydmaru i adar, Dan. iv, 12.
 5, Cydmerir hwynt i gŵn gwancus ac aflan, 2 Sam.
 ix, 8. Dat. xxii, 15.
 6, Y maent yn cael eu cydmaru i wellt a blodau,
 Esay xl, 7, 8. Iago i, 10, 11. Job xiv, 1, 2.
 7, Maent yn cael eu cydmaru i soff, Job xiii, 25, a
 xxi, 18. Esay iv, 24. Nah. i, 10. Mal. iv, 1.
 8, Y maent yn cael eu cydmaru i eifr, Mat. xxv, 32.
 9, Cydmerir hwynt i efrau, Mat. xiii, 25.
 10, Cydmerir hwynt i rai noethion, Dat. iii, 17, 18.
 11, Cydmerir hwynt i ddyeithriaid, Col. i, 21.
 12, Y maent yn cael eu cydmaru i rai dioglyd a segur,
 Diar. vi, 6, 9.
 13, Maent yn cael eu cydmaru i blentyn newydd ei
 eni yn ymdrabaeddu yn ei waed, Ezech. xvi, 6.
 14, Y maent yn cael eu cydmaru i rai clwyfus afiach,
 Esay i, 5, 6.
 15, Y maent yn cael eu cydmaru i rai meirw, Eph. ii, 1.
 16, Cydmerir hwynt i ddreigiau, Esay xliii, 20.
 17, Y maent yn cael eu cydmaru i seirph a gwiberod,
 Mat. iii, 7. Esay xi, 8. Salm lviii, 4, 5.
 18, Cydmerir hwynt i feirch porthiannus, Jer. v, 8, 9.
 19, Cydmerir hwynt i fân us, Salm i, 4. Mat. iii, 12.
 20, Y maent yn cael eu galw yn weision pechod,
 Ioan viii, 34.
Sem. I ba bethau yn mhellach y mae yr annuwiolion
 yn cael eu cydmaru yn y Gair?
Japh. 1, Y maent yn cael eu cydmaru i ddynion
 meddwon, Esay xxix, 9, 10.
 2, Y maent yn cael eu cydmaru i yspeilwyr, Mal. iii, 8, 9.
 3, Y maent yn cael eu cydmaru i ddeillion, Dat. iii,
 17. Mat. xv, 14.
 4, Y maent yn cael eu galw yn ynyfdion, Diar. i, 22.
 5, Y maent yn cael eu galw yn ddaear, Dat. vii, 3.
 Jer. xxii, 29.

6, Maent yn cael eu cydmaru i fynyddoedd a bryniau, Esay xli, 14, 15, 16. 7, Maent yn cael eu cydmaru i anialwch a diffeithwch, Esay xxxv, 1, 6, 7. 8, Maent yn cael eu cydmaru i ddrain a mieri, Esay lv, 13, Can. u, 2. 9, Maent yn cael eu cydmaru i'r môr, Esay lviii, 20, Jer. xvii, 12. 10, Maent yn cael eu cydmaru i olewydd gwyllt ac i lawryf gwyrdd, Rhuf. xi, 17, Salm xxxvii, 35. 11, Maent yn cael eu galw yn Ganaaneaid, Zec. xiv, 21. 12, Maent yn cael eu cydmaru i dderwen a'i dail yn syrthio, ac i ardd heb ddwfr ynddi, Esay i, 30. 13, Maent yn cael eu cydmaru i ddefnyn o gelwra a mân lwch y clorianau, Esay xl, 15, 17. 14, Maent yn cael eu cydmaru i annerod hardd a gwyllt, Esay xv, 5, Jer. xlvi, 20, Jer. xlviii, 24. 15, Maent yn cael eu cydmaru i'r grug yn yr anialwch, Jer. xvii, 6. 16, Maent yn cael eu cydmaru i lewod, Salm xvii, 12, Salm vii, 2, 2 Tim. iv, 17. 17, Maent yn cael eu cydmaru i ddefaid cyfrgolledig a gwasgaredig, Ezec. xxxiv, 16, Jer. i, 6, 7. 18, Maent yn cael eu cydmaru i goed drwg a diffrwyth, Mat. iii, 10. 19, Maent yn cael eu cydmaru i arian gwrthodedig, Jer. iii, 30. 20, Maent yn cael eu cydmaru i wenyn a gwybed, Esay vii, 18. 21, Maent yn cael eu cydmaru i esgyrn sychion, Ezec. xxxvii, 16—19. 22, Mae gelynyion Sion yn cael eu cydmaru i wynt ac i gymylau, Jer. iv, 11, 12, 13. 23, Maent yn cael eu cydmaru i eryrod, Galat. iv, 19. 24, Maent yn cael eu cydmaru i eirth a baeddod, Diar. xvii, 12, Salm lxxx, 13. 25, Maent yn cael eu cydmaru i unicorniaid, Salm xxii, 21. 26, Maent yn cael eu cydmaru i'r pryf-coppyn, Esay lix, 5. 27, Maent yn cael eu cydmaru i dir-eras a sych, Esay xxxv, 6, 7. 28, Maent yn cael eu galw yn gleddyf yr Arglwydd, Salm xvii, 13, 14. 29, Maent yn cael eu cydmaru i bres, alcam, haiarn, a phlwm, Ezec. xxii, 18—21. 30, Maent yn cael eu cydmaru i lysiau blagurog, ac i laswellt pen tai, Salm xcii, 7, Salm cxxix, 5, 6, 7.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i anifeiliaid?

Japh. I ddangos eu bod yn greulon, yn anuffydd, ac yn wylltton iawn, hyd nes y caiffent eu dosi a'u

llarieiddio trwy iau hyfryd ac esmwyth yr Arglwydd Iesu. 2, Am eu bod yn anwybodus am bethau ysprydol; sef am Dduw a threfn yr iachawdwriaeth; fel y dywed Dafydd, *Mor ynfyd oeddwn, ac heb wybod; anifail oeddwn o'th flaen di. Yr ŷch a edwyn ei feddiannydd, a'r asyn breseb ei berchenog: ond Israel nid edwyn, fy mhobl ni ddeall.* Salm lxxiii, 22, Esay i, 3. 3, Am eu bod yn gwingo yn aml yn erbyn symbylau yr Arglwydd Iesu; sef yn erbyn ei ragluniaeth, ei efengyl, ei geryddon, a'i argyhoeddiadau, Act. ix, 5. 4, Fel anifeiliaid y maent yn byw yn dorfeydd lliosog ar fynyddoedd gwagedd y byd, ac ar ddolydd a dyffrynoedd dyfyrwch cawdol, ac yn ymgryfhau mewn pechod. 5, Fel anifeiliaid, y maent yn hynod o afresymol: y mae yn beth rhesymol i ddyn wasanaethu Duw, ond y mae yn afresymol iddo wasanaethu pechod a diafol, Rhuf. xii, 1. O gwnefer ni oll yn ddynion duwiol, ufydd, ac amyneddgar; a phlyger ni oll dan iau dirion Iesu Crist, canys y mae ei iau ef yn esmwyth, a'i faich yn ysgafn.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i deirw? Salm xxii, 12.

Japh. 1, I ddangos eu bod yn gryf, ac yn ymnerthu mewn pechod a drygioni: y maent yn ddoethion i wneuthur drwg, ond gwneuthur da nis medrant ac nis mynant. 2, I ddangos eu bod yn rhuo yn ddirfawr, ac yn cablu Duw a'i bethau sanctaidd; ac yn erlid, yn gwawdio, yn dryllio, ac yn niweidio saint yr Arglwydd. 3, I ddangos ei bod yn anhawdd eu dofi a'u llarieiddio, a'u bod heb gynefino dim â iau Iesu Grist. 4, I ddangos eu bod yn tewychu, ac yn pwyntio, ac yn addfedu i'r lladdfa dragywyddol, *Fel defaid y gosodir hwynt yn uffern; anheu a ymborth arnynt; a'u teguoch a dderfydd yn y bedd, o'u cartref.*

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i asynod? Job xi, 11, *Dyn gwag er hyny a gymer arno fod yn ddoeth; er geni dyn fel llodn asyn gwylt.*

Japh. I, Ni a welwn yma fod dyn wrth natur yn wag o bob peth da: nid yw yn wag o dywyllwch; yr oeddech

ohwi gynt yn dywyllwch: nid yw yn wag o falchder; gan uchder ei ffroen ni chais Dduw: nid yw yn wag o dwyll a rhagrith; y mae y galon yn fwy ei thwyll na dim, drwg diobaith ydyw, pwy a'i hedwyn? nid yw yn wag o gasineb at Dduw a gelyniaeth tuag atto; syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw. Ond, 1, Y maent yn wag o gariad at Dduw; yn hystungwyr, yn athrodwyr, yn gas ganddynt Dduw. 2, Y maent yn wag o ddelw Duw; y maent wedi colli cyfiawnder a sancteiddrwydd gwreiddiol. 3, Y maent yn wag o ofn duwiol; nid oes ofn Duw o flaen eu llygaid. 4, Maent yn wag o ddoethineb ysprydol; y mae dynion yn ddoethion i wneuthur drwg, ond gwneuthur da nis medrant.

II, Gwelwn yma falchder dyn annuwiol, sef cymeryd arno fod yn ddoeth. 1, Y mae yn cymeryd arno fod yn ddoeth, trwy rag-ofalu yn ormodol am bethau y byd presenol: y mae gofalon bydol a thwyll cyfoeth yn tagu y gair, ac y mae yn myned yn ddirfwrth. 2, Trwy dori ffordd iddo ei hun i geisio myned i'r nefoedd, heb law y ffordd a drefnodd yr Arglwydd, gan osod i fynu eu cyfiawnderau eu hunain, ac nid ymostyngasant i gyfiawnder Duw. 3, Trwy geisio yehwanegu rhyw bethau at ordinhadau Crist, yn groes i'r gwirionedd dwyfol. 4, Trwy geisio gwisgo'r gwirionedd syml a'u dychymygiion eu hunain.

III, Gwelwn yma hefyd waeledd dyn wrth natur, sef fel llwdn asyn gwyllt. 1, Y mae dyn, fel llwdn asyn gwyllt, yn ystyfnig, yn gyndyn, ac yn anhawdd ei ddofi. 2, Y mae dyn, fel llwdn asyn gwyllt, yn caru bod ar fynyddoedd gwagedd y byd, ac mewn anialwch o ddieithrwech oddiwirth Dduw. 3, Y mae dyn, fel llwdn asyn gwyllt, yn anhawdd ei ddal a'i ddofi; ac y mae ei iaith a'i lais tyngedig, a'i regfeydd a'i lŵn anllad, yn hynod o atgas gan Dduw a dynion. Ond yn ei mis y cair hi. Jer. ii, 24.

Sem. Pa ham y mae yr annuwiolion yn cael eu cyfelybu i eifr?

Japh. 1, Am eu bod yn aflan, a'u harogl yn fflaidd ac yn ddrewedig, ac y mae eu hymddiddanion drwg yn

llygru mcesau da. 2, Am eu bod yn ymborthi ar lysiau gwenwynllyd pechod, ie, yn ymborthi ar wynt, ac yn bwyttu pechod fel bara. 3, Am eu bod yn dra niweidiol i ddefaid diniwed yr addfwyn Emmanuel: ond cânt eu llwyr ddi-doli oddi wrthynt yn moreu'r farn. 4, Am eu bod yn dringo i fynu i greigiau rhyfyg, balchder, ac uchel drem; ac yn anghofio'r Duw a'u gwnaeth, ac yn diystyru craig eu hiachawdwriaeth.

Sem. Pa ham y mae yr annuwiolion yn cael eu cydmaru i foch yn y Bibl? *Mat. vii, 6, Na roddwch eich peth sanctaidd i'r cŵn, ac na thesbroch eich gemau o flaen y troch.*

Japh. 1, I ddangos eu bod yn aflan ac yn ymdreiglo yn aml yn y llaid o bechodau ffaidd a gwaradwyddus. 2, I ddangos eu bod yn ystyfnig ac yn hynod o gyndyn, ac yn anhawdd iawn eu troi yn ol o lwybrau pechod. 3, I ddangos nae ydynt yn enoi eu cil ar wirioneddau Duw, nae yn gymhyfydu ynddo, yn myfyrio, nae yn ymborthi arno. 4, I ddangos eu bod yn dra niweidiol i wmlen Crist, ac yn eisiau ei chloddio a'i dinystrio yn aml. *Salm lxxx, 13, Y baedd o'r coed a'i turia, a bwystfil y maes a'i pawr.* 5, I ddangos eu bod yn sathru trugareddau gwerthfawr yr Arglwydd o dan eu traed, mewn eithaf anystyriaeth. 6, I ddangos fod yn anhawdd iawn gaddynt gyfodi o gysgadwydd pechod ac esmwythder cnawdol. 7, I ddangos eu bod yn rhuo ac yn crech-leisio yn ddychrynllyd, o dan geryddon a barnedigathau cyfiawn y Jehofa.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i gwn? *Phil. iii, 2.*

Japh. 1, I ddangos eu bod yn aflan ac yn ysglyf-
nesthis. 2, I ddangos eu bod yn gysglyd a diog iawn,
yn ngwaith a gwasanaeth yr Arglwydd. 3, I ddangos
eu bod yn greulon ac yn aflywodraethus. 4, Am eu
bod yn enoi ac yn traflyngeu plant Duw, ac yn cyfarth
yn aml ar eu hol yma yn y byd. 5, I ddangos eu bod
yn wanegus iawn am y byd hwn a'i drysorau, ac yn an-
hawdd eu digoni: *ni chydabyddant a'u digon.* 6, I
ddangos y cânt eu cau allan yn llwyr o blith plant Sion:

oddi allan y mae'r cwn, a'r swyn-gyfareddwyr: y maent allan o gyfamod Duw, o'i heddwch a'i gymdeithas; a byddant allan o'r nefoedd dros byth, os na chânt eu cyfnewid trwy ras.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i lwynogod?

Japh. 1, I ddangos eu bod yn gyfrwys ac yn ysglyfaethus: y mae plant y byd hwn yn gallach yn eu cenhedlaeth na phlant y goleuni. 2, I ddangos eu bod yn ddrwg ac yn drwm eu barogl trwy bechod. 3, I ddangos fod eu llwybrau yn hynod o geimion: *troisom baub iv ffordd ei hun.* 4, I ddangos eu bod yn dra niweidiol i braidd a gwiillan Crist.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i seirph?

Japh. 1, I ddangos eu bod yn llawn o wenwyn pechod, lliid, a malais: *gwenwyn aspiaid sydd dan eu iafodau.* 2, Am eu bod yn ymddangos yn hardd oddi allan, pan yn mwynbau hawddfyd a llwyddiant bydol. 3, Am eu bod yn ymhyfrydu bod yn y ddaear, ac yn brathu yn ddychrynlyd, trwy eu heriedigaethau, a'u geiriau caledion ac enllibus. 4, Am eu bod yn gwenwyno ereill, trwy eu cyfeiliornadau a'u drwg fucheddau.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i bysgod?

Japh. 1, Am eu bod yn hynod o liosog, ac yn eu helfen yn môr gwagedd y byd. 2, Am eu bod yn difa ac yn dnystrjo eu galydd. Ond byddant yn sier o gael eu dal yn rhwydau Duw cyn pen hir; sef yn rhwyd ei efengyl, neu yn rhwyd ei farnedigaethau.

Sem. Pa ham y maent y cael eu cydmaru i ddynion meddwon?

Japh. 1, I ddangos eu bod yn ymddigryfu ac yn ymddyfyr mewn drygioni. 2, I ddangos eu bod yn dal ar bob cyfteustra i ddilyn mwyniant pechod. 3, Am nad ydynt yn cyfrif dim yn rhy werthfawr i'w rodde am ddyfyrweli crawdol. 4, I ddangos eu bod yn bodd i ac yn gwanbau eu synwyrwau wrth ddilyn gwagedd y byd. 5, Am eu bod yn gynnwyllyd, yn gyodyn, ac yn anhawdd eu perswadio i fod yn llonydd a distaw. 6, Am

eu bod yn ymfrostgar, yn waedwyllt, ac yn wag-siaradus. 7, Am eu bod o niwed ac yn ofid mawr i'w teuluoedd, ac yn agored i syrthio'n ddisymwrth i ddinystyr.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i ddi-eithriad?

Japh. 1, Y maent yn ddieithr i Dduw'r Tad; sef i adnabyddiaeth o hono, i gariad atto, ac i gymdeithas âg ef. 2, Y maent yn ddieithr i Grist y Cyfryngwr; nid adnabu y byd ef: *y mae un yn sefyll yn eich plith chwi, yr hwn nid adwaenoch chwi*: y maent yn ddieithr i Grist o ran ei berson, ei swyddau cyfryngol, ac hefyd i rinweddau ei aberth. 3, Y maent yn ddieithr i'r Ysryd Glân felargyhoeddydd, sancteidddydd, a diddanydd. 4, Y maent yn ddieithr iddynt eu hunain; sef i dwyll eu calon, ac i'r plâ echryslon o lygredd ag sydd yn nglyn â hwynt yn barhaus. 5, Y maent yn ddieithr i ddrwg pechod, a'i ganlyniadau ofnadwy a dychrynllyd. 6, Y maent yn ddieithr i lwybr y cymod, trwy Gyfryngwr y Testament newydd: *ffordd tangnefedd nid adnabuant*. 7, Y maent yn ddieithr i lawenydd a hyfrydwch gwir grefydd; Dafydd a ddywed, Rhoddaist fwy o lawenydd yn fy nghalon na'r amser yr amlhaodd eu hŷd a'u gwin hwynt.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i rai ffol ac ynfyd?

Japh. 1, Am eu bod yn casâu goleuni yr efengyl, ac yn caru y tywyllwch yn fwy nag ef. 2, Am eu bod yn dewis y cibau o wagedd o flaen gwleddoedd dant-eithiol yr efengyl, a'r mës o ffurfioldeb o flaen perlau duwioldeb. 3, Am eu bod yn cellwair â phechod, ac yn ofni dynion ac am eu boddloni yn fwy nag am foddloni Duw. 4, Am eu bod yn gofalu mwy am y corph nag am yr enaid, ac am bethau amserol nag am bethau tragwyddol.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i ddynion diog?

Japh. 1, Am eu bod yn esgeuluso y pethau mwyaf wysig, sef gogoniant Duw ac iachawdwriaeth eu henliau. 2, Am eu bod yn dueddol i oedi dyfod at eu

gwaith a'u dyledswydd hyd ryw amser i ddyfod. 3, Am eu bod yn rhoi llawer o esgusodion gwag dros eu hymddygiadau, ac yn barod i ddywedyd fod llew mawr ar y ffordd. 4, Am eu bod yn barod i ddigaloni yn wyneb ychydig o anhawsderau, ac yn peidio defnyddio eu talentau, ac yn gadael i chwyn a danadl gyfodi yn ngwinllan eu calonau.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i rai noethion?

Japh. 1, Am eu bod yn amddifaid o gyfiawnder gwreiddiol, ac heb dderbyn cyfiawnder Crist. 2, Am eu bod yn amddifaid o sancteiddrwydd yr Yspryd Glân, i'w harddu ac i addurno eu heneidiau. 3, Am eu bod yn agored i waradwydd, gwarth, a chywilydd. 4, Am eu bod yn agored i oerni a rhew o anghrediniaeth. 5, Am eu bod yn agored i gael eu niweidio a'u drygu gan y drain o ofalon bydol, a'r pryf o euogrwydd damniol. 6, Am eu bod yn agored i gael eu niweidio gan wres haul profedigaethau, a themtasiynau y gelyn diafol. 7, Am eu bod yn anaddas i gymdeithasu â phendefigion y nef, a dinasyddion Caersalem newydd.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i blentyn yn ymdrybaeddu yn ei waed?

Japh. 1, I ddangos eu bod yn llawn o bechod a llygredd. 2, I ddangos eu bod yn analluog i wneud dim drostynt eu hunain i gyrhaedd iachawdwriaeth. 3, Am eu bod heb gael eu gwisgo yn nghyfiawnder Crist, na'u golchi yn ffynon Calfaria.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i'r Canaan-aid?

Japh. 1, I ddangos eu bod o dan felltith cyfraith Duw, yn y tŷ ac yn y maes. 2, I ddangos eu bod yn ofid parhaus i'r duwiolion, ac fel drain yn eu hystlys. 3, I ddangos eu bod yn addfedu i farn, a dwyfol soriant y Jehofa.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu galw yn wrthryfelwyr?

Japh. 1, Am eu bod wedi ymgyfodi yn erbyn Duw a'i gyfiawn lywodraeth. 2, Am eu bod yn gwrthwya-ebu ei achos, ac yn anufyddhau i'w gyfreithiau. 3, Am eu bod am dafu'r goron oddi am ei ben, a'i dynu i lawr oddiar ei orsedd. 4, Am eu bod yn taro o blaid gelyn Duw, sef y diafol, ac yn gwneud eu goreu i gario ei achos yn mlaen yn y byd.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i gaethion?

Japh. 1, Am eu bod yn cael eu gorchfygu gan ddi-afol a phechod. 2, Am eu bod wedi cael eu hamddi-fadu o rydd-did ysprydol. 3, Am eu bod wedi cael eu rhwymo gan gadwyn o anghrediniaeth a damniol eu-ogrwydd.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i ddrain a dyrsni?

Japh. 1, I ddangos eu bod o dan felltith y gyfraith. 2, Am eu bod yn brathu ac yn niweidio'r duwiohon. 3, Am eu bod yn agored i dân digofaint yr Hollalluog.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i'r môr?

Japh. 1, I ddangos eu bod yn fawr eu swm, ac yn rhoi yn ddirfawr mewn gwagedd ac oferedd, a rheg-feydd a llŵn anllad. 2, Am eu bod yn hynod o af-lynydd ac yn llawn terfysg. 3, I ddangos eu bod yn rhyfeddol o gryf, ac yn ymchwyddo yn hynod mewn balchder ac uchel drem. 4, Am eu bod yn bwrw allan laid o gyfeiliornadau, ac ymddygiadau arian a phech- adurus. 5, Y mae llawer yn cael collection mawr wrth ddilyn y môr; felly hefyd wrth ddilyn y byd annuwiol. O cofiwn am y cwestiwn hwnw, *Pa lesad i ddyw, os ynitll efe yr koll fydd, a chotti ei enaid ei hun? nes pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?*

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i dir cras a syehdir?

Japh. 1, I ddangos nad oes dim firwythau sancteidd- rwydd yn tyfu arnynt. 2, I ddangos nad oes dim caf- edydd o wlaw o fendithion ysprydol yn disgyn arnynt. 3, I ddangos fod eu calonau wedi caledu trwy dwyll- od.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i efrau?

Japh. 1, I ddangos eu bod yn afiach o ran eu hegwyddorion. 2, Am eu bod yn cyd-dyfur â gwenith Duw. 3, I ddangos y cânt eu casglu yn llwyr o blith y gwenith, yn moreu'r farn, a'u rhwymio yn ysgubau i'w llwyr losgi.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i fis?

Japh. 1, I ddangos eu bod yn ysgafn a disylwedd. 2, Am eu bod yn ddiwerth a diddefnydd, mewn ystyr ysprydol. 3, Am eu bod yn agored i gael eu hymllid gan wynt ac ystormydd barnedigaeithau a digofaint Duw, *fel man us, yr hun a chwâl y gwyt ymaith: canys yr annwiofion ni safant yn y farn, na phrechaduriaid yr ngkynnulleidfa y rhai cyfiawn.* 4, Am eu bod yn danwydd addfed i'r tân tragwyddol.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i feirch porthianrus?

Japh. 1, I ddangos eu bod yn gryfion, yn feilchion, yn wylltion, ac yn anhawdd eu llywodraethu. 2, I ddangos eu bod yn hyf, yn greulon, ac yn ddychrynllyd. 3, I ddangos eu bod yn llawn gwres o lid, malais, a chynddemiogrwydd. 4, I ddangos eu bod yn wynebu y perygl mwyaf yn anystyriol ac yn ddiarswyd. 5, I ddangos eu bod yn denu, yn galw, ac yn gweryru ar oreill i wneuthur drygioni gyda hwynt. Jer. v, 8.

Sem. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i eiryod? Galar. iv, 19.

Japh. 1, I ddangos eu balchder a'u huchel drem. 2, I ddangos eu bod yn deicheltgar ac yn gyfrwys. 3, I ddangos eu bod yn asan, yn greulon, ac yn ysglyf-aethus. 4, I ddangos fod eu llais a'u hiaith uffernol yn gas, yn ffiâidd, ac yn anghymeradwy gan Dduw. 5, I ddangos eu bod yn mayned yn lluoedd yn aml, gyda brys, i dywallt gwaed.



VII. MYFYRDODAU AR RAI O'R ENWAU A'R CYDMARIAETHAU AG Y MAE Y DUW- IOLION YN GAEL YN Y GAIR.

Mewn dull o Ymddiddan rhwng Marc a Luc.

Marc. PA beth yw rhai o'r enwau ag y mae y duw-
iolion yn gael yn y gair ?

Luc. 1, Y maent yn cael eu galw yn genedl sanct-
aidd, 1 Pedr ii, 9, Deut. iv, 7. 2, Y maent yn cael eu
galw yn ddinasyddion, Eph. ii, 19. 3, Y maent yn
cael eu galw yn benedfigion, Salm cxiii, 8. 4, Y maent
yn cael eu galw yn bobl yn preswyllo eu hunain, Num.
xxiii, 9. 5, Y maent yn cael eu cyffelybu i fabanod neu
blant bychain, 1 Pedr ii, 2, Heb. v, 13. 6, Y maent
yn cael eu cyffelybu i ferched neu forwynion, Mat.
xxv, 1, Can. i, 3. 7, Y maent yn cael eu cydmaru i
bererimion, 1 Pedr ii, 10, Heb. xi, 13. 8, Y maent yn
cael eu cydmaru i redegwyr mewn gyrfa, 1 Cor. ix,
24, Heb. xii, 1. 9, Y maent yn cael eu cydmaru i
filwyr, 2 Tim. ii, 3, Eph. vi, 13. 10, Y maent yn cael
eu galw yn weision, Esay liv, 17. 11, Y maent yn
cael eu galw yn blant i Dduw, Gal. iii, 26, Ioan i, 12.
12, Y maent yn cael eu galw yn bobl briodol i Dduw,
1 Pedr ii, 9. 13, Y maent yn cael eu galw yn frodyr,
Heb. iii, 1, Gal. vi, 1. 14, Y maent yn cael eu galw
yn dystion, Esay xliii, 10. 15, Y maent yn cael eu
galw yn rhai umawn, Can. ii, 4. 16, Y maent yn cael
eu galw yn farchnattawyr, Mat. xiii, 46. 17, Y maent
yn cael eu galw yn etifeddion. Rhuf. viii, 17, Heb. vi,
17, 18. 18, Y maent yn cael eu galw yn rhai doethion,
Dan. xii, 10.

Marc. I ba bethau yn mhellach y cyffelybir y duw-
iolion yn y Gair ?

Luc. Fe'u cyffelybir i Eryrod, Esay xl, 31. 2, Fe'u
cyffelybir i Golomenod, Esay lx, 8. 3, Y maent yn
cael eu cyffelybu i Hyrddod, Salm xlii, 1. Esay xxxv,
6. 4, Y maent yn cael eu cyffelybu i Braidd neu
Defaid, Ioan x, 1—4. 5, Y maent yn cael eu cyffel-

ybu i Aderyn brith, Jer. xii, 9. 6, Maent yn cael eu cydmaru i goed Cedar, Salm xcii, 12. 7, Maent yn cael eu cydmaru i goed Myrtwydd, Zech. i, 8. 8, Maent yn cael eu cydmaru i Bomgranadau, Can. vii, 12. 9, Maent yn cael eu cydmaru i Winwydd ac Olewydd, Hos. xiv, 6, 7. 10, Maent yn cael eu cydmaru i Lili yn mysg y drain, Can. ii, 2. Hos. xiv, 5. 11, Maent yn cael eu cydmaru i Bentewynion, Zech. iii, 2. 12, Maent yn cael eu cydmaru i Wenith, Mat. xiii, 30. 13, Maent yn cael eu galw yn Hâd a Llafur enaid Crist, Esay liii, 11. 14, Maent yn cael eu cydmaru i Adar, Can. ii, 11. 15, Maent yn cael eu cyffelybu i Wlith, Salm cx, 3. 16, Maent yn cael eu galw yn Ganwyll llygad Duw, Zech. ii, 8. 17, Maent yn cael eu galw yn Dlysau neu briodoledd Duw, Mal. iii, 17. 18, Maent yn cael eu cydmaru i Aur, Job xxiii, 10.

☞ Gwel Sylwiadau ar Enwau y Saint yn y Llyfr a elwir, 'BLEDAN PARADWYS.'

VIII. MYFYRDODAU AR RAI O'R ENWAU A RODDIR I EGLWYS DDUW YN YR YSGRYTHURAU.

Pedr. PA beth yw rhai o'r enwau a roddir ar Eglwys Dduw yn y gair?

Ioan. 1, Y mae yn cael ei galw yn wraig, Dat. xii, 1, Dat. xix, 7. 2, Y mae yn cael ei galw yn fam, Gal. iv, 26, Can. iii, 4, 8. 3, Y mae yn cael ei galw yn ddinas, Salm xlvi, 4, Esay xxvi, 1. 4, Y mae yn cael ei galw yn llu banerog, Can. vi, 4. 5, Y mae yn cael ei galw yn deulu, Gal. vi, 10, Eph. ii, 19. 6, Y mae yn cael ei galw yn golomen, Can. i, 15, a ii, 14. 7, Y mae yn cael ei galw yn winwydden, Hos. xiv, 7. 8, Y mae yn cael ei chyffelybu i berth yn llosgi, Ekod. xxxi, 6. 9, Y mae yn cael ei galw yn gyflawnder Crist, Eph. i, 23. 10, Y mae yn cael ei galw yn nefoddedd, Dat. viii, 1, a xi, 15, a xiv, 6. 11, Y mae yn

cael ei chyffelybu i'r lleuad, Can. vi, 10. 12, Y mae yn cael ei chyffelybu i ffynon seliedig, Can. iv, 12. 13, Y mae yn cael ei chyffelybu i ffynydd, Esay xxv, 6. 14, Y mae yn cael ei chydmaru i ardd a gwinllan, Esay v, 1—5. Can. iv, 13, 14. 15, Y mae yn cael ei chydmaru i lawr dyrnu, Mat. iii, 12. 16, Y mae yn cael ei galw yn Jerusalem newydd, Dat. xxi, 2, 10, 11. 17, Y mae yn cael ei galw yn dyf, Salm xciii, 5, Heb. iii, 6. 18, Y mae yn cael ei chyffelybu i babell a theml, Salm xv, 1, 1 Cor. iii, 16, Dat. iii, 12. 19, Y mae yn cael ei galw yn ganwyllbren aur, Dat. i, 20, Zec. iv, 2. 20, Y mae yn cael ei chyffelybu i dân, Obed. 18. 21, Y mae yn cael ei chyffelybu i'r meirch yn ngherbydau Pharaoh, Can. i, 9.

IX. MYFYRDODAU AR YR ANGYLION.

Mewn dull o ymddiddan rhwng DANIEL ac AMOS.

Daniel. Pa beth yw rhai o'r enwau a roddir i'r angylion yn y Gair?

Amos, 1, Maent yn cael eu galw yn Ser y borau, ac yn Feibion Duw, Job xxxviii, 7. 2, Maent yn cael eu galw yn Dywysogaethau ac Awdurdodau, Col. i, 16. Eph. i, 20, 21. 1 Pedr iii, 22. 3, Maent yn cael eu galw yn Wersyll Duw, Gen. xxxii, 1, 2. 4, Maent yn cael eu galw yn Wylwyr, Dan. iv, 13—17. 5, Maent yn cael eu galw yn Gerubiaid, Salm xviii, 10. Ezech. xi, 22. 6, Maent yn cael eu galw yn Seraphiaid, Esay vi, 2. 7, Maent yn cael eu cyffelybu i feirch a cherbydau tanllyd, 2 Bren. ii, 11, a vi, 17. Salm lxxviii, 17. 8, Maent yn cael eu galw yn Weision a Gweinidogion, Heb. i, 14.

Daniel. Pa ham y maent yn cael ei galw yn Ser y borau?

Amos. 1, I ddangos eu bod yn bddoliaethu er dechreuad y greadigaeth. 2, I ddangos eu bod yn hardd ac yn ardderchog a gogoneddus o ran natur. 3, I ddangos eu bod yn gyson yn eu bysgogiadau, mewn ufudd-

dod i ewyllys Duw. 4, I ddangos eu bod yn ddefnyddiol iawn i'r saint cyn i Haul y cyfiawnder godi, a chyn i ddydd goleu o wynfyd tragwyddol lewyrchu arnynt: Ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i weini er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwr-iaeth.

Daniel. Pa ham y maent yn cael eu galw yn Feibion Duw?

Amos. 1, Am iddynt dderbyn eu bod a'u bywyd oddi wrtho. 2, Am eu bod yn tebygoli iddo mewn sanct-eidrwydd. 3, Am eu bod yn anwyl iawn ganddo; y maent wedi eu caru â chariad tragwyddol a'u hethol ganddo, a'u diogelu yn Nghrist y Cyfryngwr, canys ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll. 4, Am eu bod yn cael ei gyfrinach mewn modd neillduol. 5, Am eu bod yn barod i ufuddhau iddo yn wastadol.

Daniel. Pa ham y maent yn cael eu galw yn Wersyll neu yn Fyddin?

Amos. 1, I ddangos eu bod dan awdurdod Crist, Tywysog ein hiachawdwriaeth ni. 2, I ddangos eu bod oll yn cadw eu lle, ac mewn iawn drefn. 3, I ddangos eu bod yn diogelu y saint, ac yn difrodi eu gelynyon. 4, I ddangos y byddant yn gorfoleddu yn rhyfedd yn ol i Grist, eu Pen-tywysog, enill y fuddugol-iaeth ar ei holl elynion.

Daniel. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i Gerbydau a Meireh tanllyd?

Amos. 1, I ddangos eu bod yn ddefnyddiol i ddiogelu y saint, a'u trosglwyddo i'r nefoedd. 2, I ddangos eu bod yn nerthol ac yn gadarn. 3, I ddangos eu cyflymdra yn ngwasanaeth Duw. 4, I ddangos eu bod yn ddychrynlyd i elynion y saint, ac yn sier o'u gorchfygu.

Daniel. Pa ham y maent yn cael eu galw yn Gerubiaid?

Amos. I ddangos eu nerth, eu cryfder, a'u cadernid.

Daniel. Pa ham y maent yn cael eu galw yn Seraphiaid?

Amos. I ddangos eu gwresogrwydd a'u zel danlyd yn ngwaith yr Arglwydd.

Daniel. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i weision?

Amos. I ddangos eu bod yn barod i weini i Grist, a thrwy Grist i weini i'r saint.

Daniel. Yn mha amgylchiadau y bu yr angylion yn gweini i Grist?

Amos. 1, Yr oeddynt yn gweini iddo yn ei enedig-aeth, sef mynegu ei enedigaeth i'r bugeiliaid, a chanu yn ardderchog y boreu y ganed ef, Luc ii, 9, 10, 11, 13. 2, Yr oeddynt yn gweini iddo yn ei demtiad yn yr anial-wch, Mat. iv, 11. 3, Yr oeddynt yn gweini iddo yn ei ehwys gwaedlyd a'i dristwch yn ngardd Gethsemane, Luc xxii, 43. 4, Yr oeddynt yn gweini iddo yn ei adgyfodiad oddi wrth y meirw, Mat. xxviii, 2. Ioan xx, 12. 5, Yr oeddynt yn gweini iddo yn ei esgyniad i'r nefoedd, Salm lxviii, 17, 18. Act. i, 10. 6, Hwyllyddant yn gweini iddo etto yn ei ddyfodiad i farnu y byd, Mat. xxv, 31.

Daniel. Pa fodd y mae yr angylion yn gweini i'r saint?

Amos. 1, Trwy eu gwaredu o gyfyngderau, fel y darfu iddynt waredu Lot o Sodom, a'r Apostolion o'r carchar, Gen. xix, 15, 16, 18. 2, Trwy eu diogelu yn nghanol peryglon. Angel a gauodd safnau y llewod rhag niweidio Daniel, Dan. vi, 22. 3, Y maent yn gweini i'r saint, trwy amlygu meddwl Duw iddynt, a'u cyfarwyddo i wneyd yn ol ei feddwl, Act. x, 3. Mat. i, 20. 4, Y maent yn gweini iddynt trwy eu llwyddo yn eu galwedigaethau tymhorol a chyfreithlon. Gen. xxiv, 7. 5, Trwy orchfygu a dinystrio eu gelynion, 2 Bren. xix, 35. 6, Maent yn gweini iddynt yn angau, trwy drosglwyddo eu heneidiau i fynwes Abraham, Luc xvi, 22. 7, Byddant yn gweini iddynt yn moreu y farn ddiweddfaf, sef boreu y Jubil hyfryd, pan gano'r udgorn mawr, Mat. xiii, 39, 40. a xxiv, 31.

“Angylion ddont yn gyson rifedi gwllith y wawr,
Rhont eu coronau euraidd o flaen y faingc i lawr,
A chwariant eu telynau y'nghyd a'r saint yn un,
Byth, byth ni chasant ddigon am Ddauddod yn y dyn.”

X. MYFYRDODAU AR RAI O'R ENWAU AG Y MAE GWEINIDOGION YR EFENGYL YN GAEL YN Y GAIR.

Mewn dull o ymddiddan rhwng PAUL a SILAS.

Paul. Pa beth yw rhai o'r enwau a roddir i weinidogion yr efengyl yn y gair?

Silas. 1, Maent yn cael eu galw yn angylion, Dat. i, 20. a ii, 12, 18. a iii, 1, 7, 14. 2, Blaenoriaid a llywodraethwyr, Heb. xiii, 7. 1 Thes. v, 12. 3, Maent yn cael eu galw yn bedwar anifail, Dat. iv, 6—9. 4, Maent yn cael eu galw yn genhadau dros Grist, 2 Cor. v, 18—20. 5, Maent yn cael eu galw yn dystion, Dat. xi, 3. 6, Maent yn cael eu cydmaru i dadau, 1 Cor. iv, 13. 1 Thes. ii, 11. 7, Maent yn cael eu cydmaru i filwyr, 2 Tim. ii, 3, 4. 8, Maent yn cael eu cydmaru i wylwyr, Heb. xiii, 17. Esay xxi, 11, 12. 9, Maent yn cael eu cydmaru i udganwyr mewn udgyrn, Esay lviii, 1. 10, Maent yn cael eu galw yn olygwyr a bugeiliaid, Act. xx, 28. 11, Maent yn cael eu cydmaru i bysgodwyr a fyddo yn poeni ar hyd nos, Mat. iv, 19. Ezec. xlvii, 10. 12, Maent yn cael eu galw yn oruchwylwyr, 1 Cor. iv, 1. 13, Maent yn cael eu galw yn berarogl Crist, 2 Cor. ii, 14. 14, Maent yn cael eu galw yn oleuni y byd, Mat, v, 16. 15, Maent yn cael eu cydmaru i ser, Dan. xii, 3. Dat. i, 20. 16, Maent yn cael eu cydmaru i gymylau, Esay v, 6. 17, Maent yn cael eu cydmaru i lestri pridd, 2 Cor. iv, 7. 18, Maent yn cael eu galw yn halen y ddaear, Mat. v, 13. 19, Maent yn cael eu cydmaru i ganwyllau, Ioan, v, 35. Mat. v, 15. 20, Maent yn cael eu cydmaru i blannwyr ac adeiladwyr, 1 Cor, iii, 6, 7, 10.

Paul. Pa ham y mae gweinidogion yr efengyl yn cael eu cydmaru i angylion?

Silas. Nid am y gallant fyw heb ymborth a dillad yn fwy nac eraill, ond, yn 1, i ddangos eu bod wedi cael eu hanfon a'u hawdurdodi gan Dduw i gyhoeddi ei feddwl i bechaduriaid. 2, Am eu bod yn meddu ar

ddoethineb a gwybodaeth helaeth, a'u meddyliau yn gweithredu ar bethau ysbrydol a nefolaidd. 3, I ddangos eu bod yn ufuddhau i Dduw, ac yn gwneuthur ei ewyllys, ac yn ddiwyd iawn yn ei wasanaeth. 4, I ddangos eu bod yn byw yn agos at orsedd Duw, ac yn cael gradd helaeth o'i feddwl, ac yn cyfeillachu llawer ag ef. 5, Am eu bod yn ymhyfrydu edrych i mewn i ddirgelwch y prynedigaeth, a threfn yr iachawdwriaeth fawr trwy Iesu Grist, ar yr hyn bethau y mae yr angylion yn chwennychu edrych. 6, Am eu bod yn gwylio dros y saint, ac yn eu diddanu mewn gorthrymderau.

Paul. Pa ham y maent yn cael eu galw yn bedwar anifail yn llawn o lygaid?

Silas. 1, Maent yn cael eu galw yn bedwar, i ddangos eu bod yn cario cenadwri yr efengyl i bedwar cwr y byd. 2, Dywedir eu bod yn llawn o lygaid o'r tu ol ac o'r tu blaen, i ddangos eu bod yn meddiannu ar wybodaeth helaeth, a'u bod yn myfyrio llawer ar gariad tragwyddol Duw at ei bobl, ac hefyd eu bod yn cadw eu golwg yn mlaen at ddydd sofr y farn olaf, ac ar y gwynfyd tragwyddol ag sydd yn aros y duwiol, a'r gosp ofnadwy sydd yn aros yr annuwiol tu draw i'r bedd. 3, Dywedir fod ganddynt bedwar wyneb: wyneb dyn, i ddangos eu bod yn ddoeth, yn dirion, yn serchog, ac yn cyd-deimlo ag eraill; wyneb llew i ddangos eu bod yn hy, yn galonog, ac fod eu gweinidogaeth fygythiol yn ddychrynlyd i'r annuwiol; wyneb fŷch, i ddangos eu bod yn llafurus, yn amyneddgar, yn gryf, a dianwadal yn eu hymdrechiadau gydâg achos Duw; wyneb eryr, i ddangos eu bod yn gryf ac yn graff o ran eu golygiadau ar bethau ysbrydol, ac yn ehedeg yn uchel o ran eu myfyrodau ar bethau ysbrydol, nefolaidd, a thragywyddol.

Paul. Pa ham y maent yn cael eu galw yn flaenoriaid ac yn llywodraethwyr?

Silas. 1, I ddangos mai hwynt hwy yw y swyddogion uchaf yn eglwys Dduw, ac mai eu dyledswydd yw ymdrechu i gadw iawn drefn yn ngwersyll y saint. 2, I ddangos mai eu dyledswydd yw egluro cyfraith Crist eglwys, a chymhell y bobl i ufuddhau i reolau yr

efengyl. 3, I ddangos y dylent ofalu fod pawb o deulu y ffydd yn cael ymgeledd addas i'w heneidiau a'u bwyd ysbrydol yn ei bryd.

Paul. Pa ham y maent yn cael eu galw yn genhadau dros Grist?

Silas. 1, Am eu bod wedi cael eu danfon a'u hawdurdodi ganddo i gyhoeddi amodau heddwch i clynon a gwrthryfelwyr. 2, Am eu bod wedi cael eu danfon i gynyg amodau priodas rhwng etifedd y nefoedd â merch yr hen Amoriad. 3, I ddangos eu bod wedi cael eu danfon i gynyg amodau marchnadyddiaeth rhwng nef a daear. 4, I ddangos y dylent fod yn ddirifol, deeth, a ffyddlon, yn eu cenadwri. 5, I ddangos y dylai dynion eu derbyn a'u parchu fel cenhadon oddi wrth Frenin y brenhinoedd. 6, I ddangos eu bod yn gofidio ac yn blino'n ddirfawr os bydd eu cenadwri yn cael ei gwrthod a'i diystyru. 7, I ddangos y bydd yn rhaid iddynt roddi cyfrif yn y farn, ger bron Brenin y nefoedd, am eu holl ymddygiadau fel cenhadau dros Grist. 8, I ddangos mai mawr fydd trueni gwrthodwyr a diystyrwyr eu cenadwri.

Paul. Pa ham y maent yn cael eu galw yn dystion?

Silas. 1, Am eu bod yn tystiolaethu am Dduw yn ei briodoliaethau. 2, Am Grist o ran ei berson, ei swyddau, ei drysorau, a rhinweddau ei aberth, a'i barodrwydd i dderbyn pechaduriaid. 3, Am yr Yspryd Glân yn ei ddilanwadau sancteiddiol. 4, Maent yn tystiolaethu am werth a gogoniant crefydd a duwioldeb. 5, Yn erbyn anghrist, annuwioldeb, a gwagedd y byd. Fêsonir yn yr unfed bennod ar ddeg o lyfr y Datguddiad am y ddau dyst yn cael eu lladd yn heolydd y ddinas fawr; diehon fod hyn yn gosod allan y bydd i ryw attalfa neillduol i ddyfod ar y Bibl Gymdeithas, ac ar y Gymdeithas Genhadol dros ryw yspaid o amser; dyma'r ddwy gymdeithas ardderchocaf a fu yn y byd erioed; y maent yn myned yn mlaen trwy y byd law yn llaw, ac yn cario eu tystiolaeth ogoneddus i blith yr holl genhedloedd; dyma'r ddau bingcyn olewydden sydd yn tywailt allan o honynt eu hunain yr olew euraid.

Paul. Pa ham y mae gweinidogion yr efengyl yn cael eu galw yn dadau?

Silas. 1, I ddangos eu cariad at, a'u gofal neillduol am saint yr Arglwydd. 2, I ddangos eu bod yn dysgu ac yn porthi y duwiolion, ac yn torri iddynt o fara'r bywyd. 3, I ddangos eu bod yn cyd-yrdeinlo â'r gwan, ac yn eu meithryn a'u magu yn ngeiriau'r ffydd. 4, Y maent yn cael eu galw yn dadau, i ddangos eu bod yn deilwng o barch, anrhydedd, ac ufudd-dod.

Paul. Pa ham y maent yn cael eu galw yn wylwyr?

Silas. 1, I ddangos fod eu swydd a'u gwaith yn rhyfeddol o bwysig, ac o osodiad Crist, Brenin yr eglwys. 2, Am eu bod yn gwylio dros eueidiau eu cyd-greaduriaid. 3, Am mai eu dyledswydd yw rhybuddio dynion o'u perygl, a dywedyd am arwyddion yr amseroedd. 4, Am os byddant yn anffyddlon yn eu cenadwri, fe fydd Duw yn gofyn gwaed eu gwrandawyr ar eu dwylaw hwy.

Paul. Pa ham y maent yn cael eu galw yn udganwyr mewn udgyrn?

Silas. 1, Am eu bod yn rhybuddio dynion o'u perygl, ac yn derchafu eu llais fel yr udgorn, ac yn mynegi i Israel eu camweddau a'u pechodau i dy Jacob. 2, Am eu bod yn rhybuddio dynion mewn modd difrifol, i ymbarotoi i ryfela o dan faner y Brenin Silo, yn erbyn y byd, y cnawd, a'r diafol. 3, Am eu bod yn gwahodd dynion mewn modd hyfryd i wleddoedd danteithiol a rhadlawn efengyl gras. 4, Am eu bod yn cyhoeddi Jubil o ryddid a gorphwysfa dragywyddol i'r duwiolion tu draw i'r byd a'r bedd.

Paul. Pa ham y maent yn cael eu galw yn ser?

Silas. 1, Am eu bod yn aml iawn o ran eu rhifedi; yr Arglwydd a roddes y gair, a mawr yw mintai y rhai a'i pregethant. 2, I ddangos eu bod yn harddu ac yn addurno ffurfafen yr eglwys. 3, I ddangos eu bod yn amrywio o ran eu gwybodaeth, eu doniau, a'u talentau. 4, Mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant; ddangos eu bod yn ddefnyddiol iawn i'r saint yn y

nos o orthrymderau'r byd presennol, ac yn gyfarwyddyd wrth forio trwy y tonau tymhestlog tua'r Gaersalem nefol. 5, I ddangos eu bod yn uchel o ran eu swydd, ac yn nefolaidd o ran eu serchiadau, eu meddyliau, a'u myfyrdodau.

Paul. Pa ham y maent yn cael eu cydmaru i lestri pridd?

Silas. I ddangos eu bod yn wael yn ngolwg llawer, a'u bod yn freuol; ac mai crgyd bychan a wnaiff eu dryllio; a'u bod yn dal trysorau neillduol o werthfawr; y mae genym y trysor hwn mewn llestri pridd, fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni.

Paul. Pa ham y maent yn cael eu galw yn oleuni?

Silas. Y mae y gair yn dywedyd, Beth bynag sydd yn egluro goleuni yw; felly y mae gweinidogion yr efengyl yn egluro Crist yn ngogoniant ei berson, ei addasrwydd, ei swyddau, a digonolrwydd ei aberth, ac yn dangos gwagter y byd, drwg pechod, a gwerth crefydd a duwioldeb: ac hefyd y maent yn oleuni trwy eu esamplau da a'u bywyd addas.

- 1 Chwi wylwyr Sion oll, deffrowch,
A chlust yn ostyngedig rhowch;
Derbyniwch 'n awr o enau Duw
Eich swydd dra gwerthfawr, pwysfawr yw.
- 2 O gwylwch dros eneidiau drud,
Er mwyn pa rai daeth Crist i'r byd;
Eneidiau byth a orfydd byw
Dan wenau neu ddigofaint Duw.
- 3 Nid gwaith yw hwn o fychan bwys;
Ond gwaith sy'n gofyn gofal dwys;
Gwaith lanwai galon angel cry,
Llawn waith i ddwylaw 'n Prynwr fu.

III. AM HANESION YSGRYTHUROL.

Seth. PA HANESION yn neillduol sydd yn Llyfr Genesis?

Enos. 1, Am greadigaeth y byd yn yspaid chwe' diwrnod. 2, Am sefyllfa dderchafedig dyn mewn di-

niweidrwydd, Gen. i. 3, Am ordeiniad a sancteiddiad y Sabbath, Gen. ii, 2, 3. 4, Am waith Duw yn gosod Adda yn Eden, i lafurio'r ardd a'i ehadw, Gen. ii. 15. 5, Am waith Duw yn rhoddi gorchymyn pendant i'r dyn, i fod yn rheol ufydd-dod iddo, Gen. ii, 16, 17. 6, Am waith Adda yn rhoddi enwau priodol ar yr holl greaduriaid, Gen. ii, 19. 7, Am y modd rhyfedd y cafodd Adda wraig, Gen. ii, 21, 22, 23, 24. 8, Am gwmp dyn trwy budoliaeth y sarph, Gen. iii, 1—6. 9, Am waith ein rhieni cyntaf yn gwnio dail figys i wneuthur arffedogau, Gen. iii, 7, 8. 10, Am waith yr Arglwydd yn galw ar ol Adda, ac yn rhoddi addewid o Waredwr, ac yn eu gwisgo â pheisiau crwyn, Gen. iii, 9, 15, 21. 11, Am waith Duw yn cyhoeddi y trueni a'r felldith a ddaeth i mewn trwy bechod, ac yn troi y dyn allan o ardd Eden, Gen. iii, 16—19, 24. 12, Am enedigaeth Cain ac Abel, a'u celfyddyd pan ddaethant i oedran, Gen. iv, 1, 2. 13, Am eu crefydd, a'u dull o addoli yr Arglwydd, Gen. iv, 3, 4. 14, Am waith Cain yn lladd Abel ei frawd, Gen. iv, 8. 15, Am waith Duw yn cyhoeddi melfdith uwch ben Cain am ladd Abel, Gen. iv, 11, 12. 16, Am y dychryn a'r euogrwydd a ymaffodd yn Cain mewn canlyniad, Gen. iv, 13, 14. 17, Am waith Cain yn myned allan o wydd yr Arglwydd i dir Nod, ac yn adeiladu dinas yno, ac yn ei galw yn Enoch, yn ol enw ei fab, Gen. iv, 16, 17. 18, Am waith Lamech yn cymeryd dwy o wraigedd, Gen. iv, 19. 19, Am ddechreuad llawer o gelfyddydau ac offer cerdd, Gen. iv, 21, 22. 20, Am genedlaethau Adda, a'u hir oes cyn y diluw, Gen. v, 1—21. 21, Am dduwioldeb Enoch, a'i fynediad i'r nefoedd heb brofi marwol-aeth, Gen. v, 24. 22, Am enedigaeth Noah, mab Lamech, Gen. v, 28, 29. 23, Am lawr ddrygioni y cyn-ddiluwiaid yn cyffroi digofaint Duw yn eu herbyn, Gen. vi. 5, 6, 7, 11, 12, 13. 24, Am Dduw yn gorchymyn i Noah wneyd arch o goed Gopher, Gen. vi, 14, 15, 16, 17. 25, Am Noah a'i deula, a'r creaduriaid, yn myned i'r arch, Gen. vii, 1—10. 26, Am oedran Noah pan ddaeth y diluw, Gen. vii, 6, 11. 27, Am ddechreuad cynnydd, a pharhad y diluw, Gen. vii,

11—21. 28, Am bob peth byw yn boddi yn y diluw, ond y rhai oedd yn yr arch, Gen. vii, 21—24. 29, Am y diluw yn treio, a'r arch yn gorphwys ar fynyddoedd yr Ararat, Gen. viii, 3, 4. 30, Am waith Noah yn danfon y gigfran a'r golomen allan o'r arch, a'r golomen yn dychwelyd â dalen olewydden yn ei gylfin hi, Gen. viii, 6—12. 31, Am Noah a'i deulu a'r creaduriaid yn myned allan o'r arch ar orchymyn Duw, Gen. viii, 15—20. 32, Am waith Noah yn adeiladu allor i'r Arglwydd, ac yn offrymu aberth, a Duw yn ei gymeradwyo, Gen. viii, 20, 21. 33, Am Dduw yn addo peidio melltithio'r ddaear mwy, ond y byddai amser hau ac amser medi i bara holl ddyddiau y ddaear, Gen. viii, 21, 22. 34, Am waith Duw yn cadarnhau ei gyfamod â Noah, ac yn gosod y bwa yn y cwmwl, i ddangos na fyddai i'r byd gael ei ddifetha gan ddwfr diluw bythi mwy, Gen. ix, 8—18.

Seth. Pa hanesion rhyfedd sydd etto yn Genesis ar ol y diluw?

Enos. 1, Am Noah yn dechreu bod yn llafurwr, ac yn planu gwinllan, yn yfed o'r gwin, ac yn meddwi, Gen. ix, 20, 21. 2, Am waith Cam yn ymddwyn yn anaddas tuag at ei dad, ac yn cael ei felltithio, a Sem a Japheth yn cael eu bendithio, Gen. ix, 22—27. 3, Am Noah yn byw dri chant a deg a deugain o flynyddoedd wedi y diluw, Gen. ix, 28, 29. 4, Am hanes cenhedlaethau Noah, Gen. x, 1—6. 5, Am Nimrod, brenin cyntaf Babylon, ac Assur, sylfaenwr Ninifeh, Gen. x, 8—12. 6, Am ranu y ddaear yn amser Peleg, Gen. x, 25. 7, Hanes fod pawb o'r un iaith ac o'r un ymadrodd, Gen. xi, 1, 2. 8, Am waith dynion yn adeiladu Tŵr Babel yn ngwastadedd Sinar, a Duw yn cymysgu eu hiaith, ac yn eu gwasgaru ar hyd wyneb yr holl ddaear, Gen. xi, 2—10. 9, Am genhedlaethau Terah, tad Abram, Gen. xi, 27—32. 10, Am waith Duw yn galw Abram o Ur y Caldeaid, ac yn ei fendithio, Gen. xii, 1—4. 11, Am waith Abram yn myned, ar alwad Duw, tua gwlad Canaan, Gen. xii, 5—10. 12, Hanes am newyn trwm yn amser Abram, Gen. xii, 10. 13, Am Abram yn

myned i'r Aipht yn amser y newyn, ac yn gwadu ei wraig rhag ofn i'r Aiphtiaid ei ladd er mwyn cael ei wraig, oblegid ei bod yn hynod o lân; a Pharaoh yn ei chymeryd; a'r Arglwydd yn taro Pharaoh â phlaau mawrion, o blegid Sarai gwraig Abram, Gen. xii, 11—20. 14, Am Abram a'i wraig, a Lot ei nai yn dychwelyd o'r Aipht, ac yn gyfoethog iawn, Gen. xiii, 1, 2. 15, Am y cynen a'r ymryson a gymerodd le rhwng bugeiliaid Abram a bugeiliaid Lot; ac yn ymneillduo oddi wrth eu gilydd, Gen. xiii, 7—10. 16, Am waith Lot yn dewis gwastadedd yr Iorddonen, ac yn cael llawer o ofid oddiwrth y Sodomiaid, Gen. xiii, 11. 17, Am waith yr Arglwydd yn addo gwlad Canaan i Abram, a gwneyd ei had yn aml fel llwch y ddaear; ac Abram yn adeiladu allor i'r Arglwydd yn ngwastadedd Mamre, Gen. xiii, 14—18. 18, Hanes am bedwar brenin yn rhyfela yn erbyn pump, Gen. xiv, 1—4. 19, Am Lot yn cael ei gaethgludo gan ei elynion, Gen. xiv, 12—20. Am Abram yn taro ac yn ymlid y gelynion, ac yn gwaredu Lot, Gen. xiv, 14, 15, 16. 21, Am waith Melchisedec yn rhoddi bara a gwin i Abram, ac yn ei fendithio, Gen. xiv, 18, 19. 22, Am waith Abram yn rhoddi i Melchisedec ddegwm o'r cwbl, Gen. xiv, 20. 23, Am waith yr Arglwydd yn addo mab i Abram, ac y byddai ei had yn lluosog fel ser y nefoedd, Gen. xv, 3—6. 24, Am waith Abram yn darnio'r aberth, ac yn tarfu'r adar ag oedd yn disgyn arno, Gen. xv, 9, 10, 11. 25, Am waith Duw yn addo gwlad Canaan drachefn i Abram, ac yn cadarnhau hyny trwy weledigaeth ryfeddol, Gen. xv, 12—19. 26, Am waith Duw yn newid enw Abram a Sarai, fel arwydd o fendithion mwy iddynt, ac am ordeinio yr enwaediad, Gen. xvii, 17. 27, Am Sara yn anmhiantadwy, ac yn rhoddi Agar yn wraig i Abraham, a Sara yn cystuddio Agar, lithau yn ffoi; angel Duw yn ymddangos iddi, ac yn erchi iddi ddychwelyd yn ol, ac yn mynegi iddi am enedigaeth Ismael, Gen. xvi, 11. 28, Am waith Abraham yn derbyn tri angel i'w dy, Gen. xviii, 1—8. 29, Am waith Duw yn mynegu i Abraham am ddinysr Sodoma, Gen. xviii, 17. 30, Am waith rahan yn eiriol dros Sodoma, Gen. xviii, 23—33.

31, Am waith Lot yn derbyn angylion i'w dy, Gen. xix, 1—4. 32, Am waith yr angylion yn taro'r Sodomaidd â dallineb, Gen. xix, 10, 11. 33, Am waith Lot yn dianc o Sodom, Gen. xix, 15, 16, 17. 34, Am wlawio tân a brwmstan o'r nefoedd ar Sodom a Gomorrah, Gen. xix, 24, 25. 35, Am wraig Lot yn edrych yn ei hol, ac yn cael ei throi yn golofn halen, Gen. xix, 26. 36, Gwaith Lot yn meddwi, ac yn godinebu gyda'i ferched, a genedigaeth Moab ac Ammon o ferched Lot, Gen. xix, 31—38. 37, Am Abraham yn ymdaith yn Gerar, ac yn gwadu ei wraig yno, ac Abimelec yn eichymeryd, Gen. xx, 1, 2. 38, Am waith Duw yn ceryddu Abimelec, ac yntau yn danfon Sara yn ei hol, Gen. xx, 6—12. 39, Am waith Abraham yn gweddio dros Abimelec, a Duw yn ei ateb, Gen. xx, 17, 18. 40, Am enedigaeth Isaac, a'i enwaediad, Gen. xxi, 1—6.

Seth. Pa hanesion neillduol sydd yn llyfr Genesis ar ol genedigaeth Isaac?

Eños. O, y mae llawer iawn o hanesion rhyfedd, megis, 1, Am fwrw Agar ac Ismael allan o deulu Abraham, Gen. xxi, 9—15. 2, Yr angel yn cysuro Agar Gen. xxi, 17—22. 3, Y cyngrair a fu rhwng Abimelec ac Abraham yn Beer-seba, Gen. xxi, 27—34. 4, Duw yn profi Abraham, Gen. xxii, 1, 2. 5, Ffydd ac ufudd-dod Abraham, Gen. xxii, 3—12. 6, Offrymiad Isaac ar ben Moriah; galw y lle Jehofa-jireh, Gen. xxii, 13, 14. 7, Abraham yn cael ei fendithio drachefn, a Duw yn addo bendithio holl genhedloedd y ddaear yn ei had ef, Gen. xxii, 15—18. 8, Plant Nachor, brawd Abraham, a genedigaeth Rebecca, Gen. xxii, 20—24. 9, Oedran a marwolaeth Sara gwraig Abraham, Gen. xxiii, 1, 2. 10, Abraham yn prynu ogof Machpelah ran feibion Heth i fod yn feddiant beddrod, ac yn claddu Sara yno, Gen. xxiii, 17—20. 11, Abraham yn danfon i was i ymfyn gwraig i'w fab Isaac; llwyddiant y was yn ei daith; priodas Isaac a Rebecca, Gen. xxiv, 2. 12, Plant Abraham o Cetura, Gen. xxv, 1—5. 13, Oedran Abraham, ei farwolaeth, a'i gladdedigaeth, Gen. xxv, 7—11. 14, Esau yn gwerthu ei enedigaeth-

faint, Gen. xxv, 29—34. 15, Newyn trwm yn amser Isaac, a Duw yn ei fendithio, ac yn addo gwlad Canaan iddo, a gwneyd ei had yn lluosog iawn, Gen. xxvi, 1—6. 16, Abimelec yn ceryddu Isaac am wadu ei wraig, Gen. xxvi, 7—12. 17, Yr ymryson a fu rhwng y bugeiliaid yn Gerar, Gen. xxvi, 20—26. 18, Abimelec yn gwneyd cyngrair âg Isaac, Gen. xxvi, 28, 29; 30. 19, Priodas Esau, Gen. xxvi, 34, 35. 20, Jacob mewn modd dichellgar yn dwyn bendith Esau, Gen. xxvii, 18—30. 21, Esau yn cashau Jacob, Gen. xxvii, 41. 22, Isaac yn bendithio Jacob, ac yn ei ddanfôn i Mesopotamia at Laban, Gen. xxviii, 1—6. 23, Jacob yn cysgtu at obenydd o garreg yn Bethel, ac yn cael gweledigaeth ryfedd yno, sef, ysgol yn cyraedd o'r nef i'r ddaear, Gen. xxviii, 12, 13. 24, Jacob yn codi colofn, ac yn addunedu i Dduw yn Bethel, Gen. xxviii, 19—22. 25, Jacob yn priodi Leah a Rahel, yn ol gwasanaethu yn yn galed am danynt, Gen. xxix, 21—31. 26, Jacob yn myned yn gyfoethog iawn yn nhy Laban, Gen. xxx, 36—43. 27, Jacob yn ffoi oddi wrth Laban, a Rahel yn lladrata delwau ei thad, Gen. xxxi, 19, 20, 21. 28, Gweledigaeth Jacob yn Mahanaim, Gen. xxxii, 1, 2. 29, Jacob yn ymdrechu â'r angel yn Penuel, Gen. xxxii, 24—33. 30, Caredigrwydd Jacob ac Esau wrth gyfarfod a'u gilydd, Gen. xxxiii, 4, 5. 31, Dinab, merch Jacob, yn cael ei threisio gan Sichem, Gen. xxxiv, 1—6. 32, Duw yn bendithio Jacob yn Bethel, ac yn ei alw yn Israel, Gen. xxxv, 9, 10, 11. 33, Marwolaeth Rahel, a'i chladdedaeth, Gen. xxxiv, 18, 19, 20. 34, Marwolaeth Isaac, a'i gladdedaeth, Gen. xxxv, 28, 29. 35, Cenedlaethau Esau, Gen. xxxvi, 1—6. 36, Breuddwydion Joseph, Gen. xxxvii, 5—12. 37, Tastu Joseph gan ei frodyr i'r pydew, Gen. xxxvii, 23, 24. 38, Gwerthu Joseph i'r Ismaeliaid, a hwythau yn ei werthu i'r Aipht, Gen. xxxvii, 26, 27, 28, 36. 39, Ymddygiad a phechod Onan, Gen. xxxviii, 9, 10.

Seth. Pa hanesion neillduol sydd eto yn Genesis ?

Enos. 1, Am ymddygiad gwaradwyddys Judah at Tamar, Gen. xxxviii, 12—27. 2, Codiad a derchafiad

Joseph yn nhŷ Potiphar, tywysog Pharaoh, Gen. xxxix, 1—7. 3, Gwraig Potiphar yn eeisio temptio Joseph, ac ynteu yn gwrthsefyll y brofedigaeth, Gen. xxxix, 7, 8, 9. 4, Carchariad Joseph ar gam gan Potiphar, Gen. xxxix, 18, 20. 5, Derchafiad Joseph yn y carchar, Gen. xxxix, 21—23. 6, Joseph yn dehongli breuddwydion y pen-trulliad a'r pen-pobydd yn y carchar, Gen. xl, 8—20. 7, Dau freuddwyd Pharaoh, Gen. xli, 1—9. 8, Joseph yn dehongli breuddwyddion Pharaoh, Gen. xli, 25—37. 9, Derchafiad Joseph i fod yn llywydd ar holl wlad yr Aipht, Gen. xli, 37—46. 10, Newyn mawr trwy yr holl wledydd, a dynion o bob parth yn dyfod at Joseph i brynu ŷd, Gen. xli, 55—57. 11, Jacob yn danfon ei ddeg mab i'r Aipht i brynu ŷd, Gen. xlii, 1, 2. 12, Joseph yn adnabod ei frodyr, ac yn llefaru yn arw wrthynt, Gen. xlii, 7—18. 13, Y gofid mawr a gafodd brodyr Joseph, Gen. xlii, 21—38. 14, Dyfais ryfeddol Joseph yn attal ei frodyr, Gen. xlii, 1—14. 15, Araith ryfeddol Juda wrth Joseph, Gen. xlii, 18—34. 16, Joseph yn hysbysu ei hun i'w frodyr, Gen. xlii, 1—16. 17, Joseph yn anfon cerbydau o'r Aipht i gyrchu Jacob ei dad i waered atto, i wlad Gosen, Gen. xlii, 25—28. 18, Jacob a'i deul yn dyfod i'r Aipht, ac yn trigo yn Gosen, Gen. xlii, 5—7, 28. 19, Newyn trwm yn ngwlad yr Aipht, a Joseph yn prynu llawer o dir yr Aipht i Pharaoh, Gen. xlii. 20, Joseph yn ymwelod â'i dad yn ei glefyd, a Jacob yn ei fendithio ei a'i feibion, ac yn cymeryd Ephraim a Manasseh yn eiddo iddo ei hun, Gen. xliii. 21, Jacob yn bendithio ei feibion ac yn marw, Gen. xlii. 22, Cladd-edigaeth Jacob, a Joseph yn cysuro ei frodyr, ac yn marw, Gen. i.

Llyfr Genesis yw y llyfr henaf yn y byd, ac y mae yn cynnwys hanes dros ddwy fil a thri chant o flynddoedd.

S. Gall ysgolhelgion yr Ysgolion Sabbathol ddysgu adrodd yr Hanesion sydd yn llyfr Genesis.

EXODUS.

Caleb. PA Hanesion neillduol sydd yn Exodus?

Josuah. 1, Hanes am Israel yn amlhau yn yr Aipht er cael eu gorthrymu, a Pharaoh yn gorchymyn lladd plant yr Hebreaid a'u boddi yn yr afon, pen. i. 2, Am enedigaeth Moses a'i osod mewn cawell ar lan yr afon, a merch Pharaoh yn ei godi ac yn ei fagu yn fab iddi ei hun, pen. ii, 1—11. 3, Moses yn lladd yr Aiphtwr ac yn ffoi i dir Midian ac yn priodi Siphora, pen. ii, 11—22. 4, Duw yn ymddangos i Moses mewn perth yn llosgi'n dân, ac yn ei ddanfoni i'r Aipht i waredu Israel, pen. iii. 5, Troi gwialen Moses yn sarph yn ei law, a Siphora yn enwaedu ar ei mab, pen. iv. 6, Pharaoh yn ychwanegu gorthrymder Israel, pen. v. 7, Moses yn gwneuthur gwyrthiau yn yr Aipht ac yn troi yr afon yn waed, pen. vii. 8, Y llyflaint a'r llau mewn modd barnol yn ngwlad yr Aipht, pen. viii. 9, Plâ'r cornwydydd a'r cenllysg, pen. ix. 10, Y locustiaid a'r tywyllwch dudew, a chalon Pharaoh yn caledu, pen. x. 11, Lladd y cyntaf-anedig yn ngwlad yr Aipht ac ordeinio y Pasg, pen. xii. 12, Israel yn myned allan o wlad yr Aipht ac yn dwyn esgyrn Joseph gydâ hwynt, pen. xiii. 13, Israel yn cael eu gwaredu trwy'r môr coch a'r Aiphtiaid yn boddi, pen. xiv. 14, Cân ardderchog Moses, pen. xv, 1—20. 15, Moses yn peiddio dyfroedd chwervon Marah, 23—25. 16, Israel yn dyfod i Elim, lle yr oedd deuddeg ffynon a deg palmwydden a thrugain, 27. 17, Duw yn danfon soffieir a manna i Israel, pen. xvi. 18, Israel yn cael dwfr o'r graig, pen. xvii, 5—8. 19, Israel yn gorchfygu Amalec pan oedd Moses yn gweddio, ac Aaron a Hur yn cynnal ei freichiau, 8—14. 20, Moses yn codi allor ac yn ei galw yn Jehofa-Nissi, 15—19. 21, Cyngor call Jethro i Moses, xviii, 13—25. 22, Parottoi y bobl i dderbyn y gyfraith a dychrynllud bresennoldeb Duw ar Sina, xix. 23, Rhoddiad y deg gorchymyn, xx. 24, Amryw o gyfreithiau a defodau, xxi, xxii, a xxiii. 25, Moses yn aros yn y tynydd ddeugafn niwrthod a

deugain nos, xxiv. 26, Portreiad o arch y dystiolaeth ac offrw m ewyllysgar y bobl, xxv. 27, Portreiad o'r tabernacl a'i ddodrefn, xxv, xxvi, xxvii. 28, Gwisgoedd Aaron a'i neillduad ef a'i feibion i'r swydd offeiriadol, xxviii. 29, Defnydd yr arogl-darth, xxx, 34, 35. 30, Galw Besaleel ac Aholiba at waith y tabernacl, xxxi. 31, Israel yn addoli'r llo aur a Moses yn tori llechau y gyfraith, xxxii. 32, Moses yn llefaru wrth Dduw wyneb yn wyneb, ac yn cael ei guddio mewn agen yn y graig, xxxiii. 33, Moses yn dyfod i lawr o fynydd Sina yr ail dro, a'i wyneb yn dysgleirio, xxxiv.

LEFITICUS.

Sem. PA Hanesion neillduol sydd yn llyfr Lefiticus?

Enos. 1, Am drefn y poeth offrw m o eidionau, defaid, geifr, ac adar, pen. i. 2, Y bwyd offrw m, ii. 3, Yr ebyrth hedd, iii. 4, Lladd Nadab ac Abihu am offrymu tân dieithr, x. 5, Yr anifeiliaid glân ac aflan o dan y gyfraith, xi. 6, Plâ y gwahanglwyf a'i arwyddion, xiii. 7, Arwyddion gwahanglwyf mewn tŷ; a'r modd i'w lanhau, xiv. 8, Priodasau anghyfreithlon, xviii. 9, Ail adrodd amryw gyfreithiau, ac am glorianau cyfiawn, xix. 10, Yn erbyn offrymu plant i Moloch, gwahardd myned at ddewiniaid, a gwahardd pob math o halogedigaeth, xx. 11, Priodasau yr offeiriaid, xxi. 12, Y gwyliau; sef y pasg, y sulgwyn, a gwyl yr udgyrn, xxiii. 13, Cosp drom am gablu, xxiv. 14, Blwyddyn y Jubili, xxv. 15, Am ddelwaddoliaeth, xxvi. 16, Am addunedau, xxvii. 17, Am y diofryd heth a'r degwm, xxvii.

NUMERI.

Seth. PA Hanesion neillduol sydd yn Numeri?

Enos. 1, Am waith Duw yn gorchymyn rhifo y bobl

a neillduo y Lefiaid i wasanaeth yr Arglwydd, pen. i. 2, Trefn y llwythau yn eu pebyll, ii. 3, Rhoddi y Lefiaid i Dduw yn lle y cyntaf-anedig, iii. 4, Am symud yr affan allan o'r gwerysll, ac am y dwfr chwerw yn achos yr eiddigedd, v. 5, Cyfraith y Nazareaid, vi. 6, Am oleuo y llusernau, viii. 7, Y cwmwl yn cyfarwyddo Israel, ix. 8, Gwneuthur yr udgyrn arian, x. 9, Y tân dychrynlyd yn Taberah yn cael ei ddiffodd trwy weddi Moses, xi, 1—4. 10, Y bobl yn blycio am gig ac yn alaru ar y manna, xi, 1—10. 11, Duw yn danfon soff-ieir i'r bobl yn ei ddigllonedd, a hwythau yn marw a'r cig rhwng eu dannedd yn Cebroth Hatafah, neu feddau y blys, xi, 31—35. 12, Duw yn taro Miriam â'r gwahanglwyf am ddywedyd yn erbyn Moses, xii, 9—11. 13, Danfon yspiwr i edrych ansawdd gwlad Canaan, xiii. 14, Ffyddlondeb Caleb a Josuah, a'r bobl a roisant anghlod i'r tir yn marw o'r plâ, xiv. 15, Llabyddio dyn am dori'r Sabbath, xv, 32. 16, Dinystr Corah, Dathan, ac Abiram, a lladd pedair mil ar ddeg a saith cant am duchan yn erbyn Moses, xvi. 17, Am wialen Aaron yn blaguro, xvii. 18, Aberthiad yr aner goch, xix. 19, Israel yn cael eu brathu gan y seirph tanllyd a'u hiachau trwy edrych ar y sarph bres, xxi. 20, Asen Balaam yn llefaru, xxii. 21, Dammegion Balaam, xxiii. 22, Proffwydoliaethau Balaam, xxiv. 23, Israel yn Sittim yn godinebu ac yn addoli delwau, a Zimri a Chozbi yn cael eu lladd, xxv. 24, Pedair mil ar hugain o'r Israeliaid yn cael eu lladd am odineb, xxv, 1—9. 25, Merched Salphaad yn ceisio etifeddiaeth, xxvii. 26, Yn erbyn tori adduned, xxx. 27, Yspeilio y Midianiaid a lladd Balaam, xxxi. 27, Dwy daith a deugain yr Israeliaid, xxxiii.

O fewn i'r Bibl par,
 Mae eglur feddwl Duw ;
 Pob lot o hono bery'n hwy
 Na'r nef—gwirionedd yw :
 A llwøn yw ei sail,
 Gwaed Adda'r all yw'r sel ;
 Mwy gwerthfawr yw nag aur Periw,
 Llawn yw o laeth a mêl.

DEUTERONOMIUM.

Pedr. Pa hanesion sydd yn y llyfr hwn?

Ioan. Ath orchfygu Og, brenin Basan, pen. iii. 2, Neillduad y dinasoedd noddfa, pen. iv. 3, Cyhoeddi y bendithion o fynydd Gerazim, a'r melldithion o fynydd Ebal, pen, xxvii, a xxxiii. 4, Cân ardderchog Moses cyn ei farwolaeth, pen. xxxii. 5, Daw yn danfon Moses i fynydd Nebo, i farw yno. 6, Moses yn bendithio deuddeg llwyth Israel; cyn ei ymadawiad, pen. xxxiii. 7, Claddedigaeth Moses yn nhir Moab, a'i oedran yn marw, pen. xxxiv, 6, 7.

LLYFR JOSUAH.

Pedr. Pa hanesion nodedig sydd yn llyfr Josuah?

Ioan. 1, Am waith Josuah yn tarotol y bobl i fynyed trwy yf Iorddoren, Jos. i. 2, Rahab yn derbyn yr yspiwyf yn heddychol, pen. ii. 3, Afon yr Iorddoren yn troi yn ei hol, a holl Israel yn thyned trwodd yn dangol, pen. iii. 4, Codi deuddeg o gerrig, a'u gosod yn golofnan yn Gilgal, yn goffadwriaeth o'u gwaredigaeth, pen. iv. 5, Angel yn ymddangos i Josuah a'i gleddyf noeth yn ei law, pen. v, 13. 6, Israel yn amgylchu Jericho, a'i muriau yn syrthio trwy ganu mewn cyrn hyrddod, a Rahab yn cael ei harbed, pen. vi. 7, Pechod Achan, a'i ddinyst, pen. vii. 8, Josuah yn llosgi dinas Ai, ac yn crogi ei brenia hi, pen, viii, 28; 29. 9, Y Gibeoniaid trwy dwyll yn gwneyd cyfamod â Josuah, pen. ix. 10, Pump o frenhinoedd yn rhyfela yn erbyn Israel yn Gibeon, a Duw yn eurladd â chefrig cenllysg o'r nefoedd, pen. x, 11. 11, Yr haul yn sefyll yn Gibeon, a'r fletad yn nyffryn Arafon, mewn atebiad i weddi Josuah, v. 12, 13. 12, Buddugoliaethau rhyfeddol Josuah. Dal pump o frenhinoedd, a'r tywysogion yn rhoi eu traed ar eu gyddfau, a'u lladd. a'u crogi, x. 21—23. 13, Josuah yn gorchfygu am-

ryw o frenhinoedd, wrth ddyfroedd Merom; yn llosgi Hasor, ac yn goresgyn yr holl wlad, pen. xi. 14, Balaam ddewin yn cael ei ladd, pen. xiii, 22. 15, Josuah yn rhanu gwlad Canaan wrth goelbren rhwng llwythau Israel, pen. xiv, 2. a xv. a xvi. a xvii, &c. 16, Duw yn gorchymyn i Israel neillduo chwech dinas noldfa, pen. xx. 17, Wyth dinas a deugain yn cael eu rhoddi i'r Lefiaid wrth goelbren, pen. xxi. 18, Allor y ddau lwyth, pen. xxii. 19, Oedran Josuah, ei farwolaeth a'i gladdedigaeth, pen. xxiv, 29, 30. Claddu esgyrn Joseph yn Sichem, xxiv. 31. 21, Marwolaeth Eleazar mab Aaron, a'i gladdedigaeth yn mynydd Ephraim, xxiv. 33.

LLYFR Y BARNWYR

Pedr. Pa hanesion neillduol sydd yn y llyfr hwn?

Ioan. 1, Am Israel yn parhau i orchfygu y Canaan-eaid o dan arweiniad Judah, pen. i. 2, Angel yn ceryddu Israel yn Bochim, pen. ii, 1. 3, Othniel, brawd Caleb, yn barnu Israel, pen. iii, 11. 4, Ehwd yn gwaredu Israel, ac yn lladd Eglon brenin Moab a'i ddager, iii. 15—29. 5, Samgar yn lladd cannoedd o'r Philistiaid ag ierthi ychen, iii. 31. 6, Debora a Barac yn gwaredu Israel oddiwrth Jabin a Sisera, pen. iv. 7, Jael, gwraig Heber, yn lladd Sisera, trwy yru hoel trwy ei arlais pan oedd yn cysgu yn ei phabell, pen. iv. 22. 8, Cân ardderchog Debora a Barac yn ol gorchfygu Jabin a Sisera, pen. v. 9, Melltithio Meroz, v. 23. 10, Angel yr Arglwydd yn danfon Gideon i waredu Israel o law y Midianiaid, pen. vi, 11—21. 11, Yr angel yn peri i dân dderchafu o'r graig i ysu anrheg Gideon, pen. vi, 21. 12, Gideon yn codi allor, ac yn ei galw Jehofa-shalom, vi. 24. 13, Gideon yn bwrw allor Baal i lawr, vi. 28. 14, Duw yn rhoi arwydd i Gideon trwy'r enu gwlan, vi. 37. 15, Gideon yn gorchfygu y Midianiaid, trwy ddryllio'r piserau, a chanu mewn udgyrn, a dywedyd, Cleddyf yr Arglwydd a Gideon, vii. 16, Lladd Abiecc a darn o faen melin, ix, 53. 17, Jephtha yn

gorchfygu'r Amoriaid, xi, 32. 18, Gwyr Gilead yn lladd yr Ephramiaid, ac yn eu hadnabod wrth y gair Shibboleth, xii, 5, 6. 19, Angel yr Arglwydd yn ymddangos i Manaoh a'i wraig, a genedigaeth Samson, xiii, 10. 20, Samson yn lladd llew ar y ffordd, ac yn cael mêl yn ysgerbwd yllew wrth ddychwelyd, xiv, 6. 21, Gwledd priodas Samson, xiv, 10. 22, Gwraig Samson yn datguddio eiddychymyg, xiv, 17. 23, Samson yn llosgi fêl y Philistiaid, xv, 3. 24, Samson yn lladd mil o'r Philistiaid â gên asyn îr, xv, 15. 25, Duw yn disychedu Samson mewn modd gwyrthiol, xv, 18, 19. 26, Samson yn cysgu ar liniau Dalilah, ac yn cael ei ddal gan y Philistiaid, xvi. 27, Samson yn tynu tŷ Dagon i lawr, ac yn lladd mwy o'r Philistiaid wrth farw nac a laddodd yn ei holl fywyd, xvi, 28—30. 28, Y Lefiad yn darnio ei ordderch-wraig yn ddeuddeg darn, ac yn ei danfon i holl derfynau Israel, xix, 29. 29, Rhyfel ac ymladdfa ddychrynlyd rhwng Israel â gwyr Benjamin, xx. 30, Meibion Benjamin yn cael gwagedd o ferched Siloh.

LLYFR RUTH.

Pedr. Pa hanes neillduol sydd yn llyfr Ruth?

Ioan. 1, Am Elimelech a Naomi yn myned o Bethlehem i wlad Moab, pan oedd newyn trwm yn Israel, pen. i. 2, Marwolaeth Elimelech a'i ddau fab, yn ngwlad Moab, i. 3, Naomi yn dechreu cychwyn adref i wlad Israel, ac Orpah yn ei gadael, a Ruth yn glynu wrthi, ac yn dychwelyd i Bethlehem, i. 4, Ruth yn lloffa yn maes Boaz, ynteu yn dangos caredigrwydd mawr iddi, ii. 5, Boaz yn priodi Ruth, a hithau yn ymddwyn ar Obed, tad Jesse, a thaid Dafydd, iv.

LLYFR CYNTAF SAMUEL.

Pedr. Pa hanesion neillduol sydd yn y llyfr hwn?

Ioan. 1, Am waith Hannah dduwiol yn gweddio yn

wylofus am blentyn, a geni Samuel iddi, a hithau yn ei gyflwyno i'r Arglwydd, pen. i. 2, Cân ardderehog Hannah, yn dangos ei diolehgarwch, ii, 1—18. 3, Galwad Samuel gan yr Arglwydd, a'i ffyddlondeb yn ei genadwri, iii, 4. Y Philistiaid yn dal yr arch, ya lladd Hophni a Phinees; Eli yn syrthio ac yn marw—galw mab Phinees yn Ichabod, am fod y gogoniant yn ymadael o Israel, iv. 5, Delw Dagon yn dyfod i lawr yn ddaruiau o flaen yr arch, v, 3—8. 6, Y Philistiaid yn danfon yr arch yn ol ar fon newydd, a dwy fuwch flith yn ei thynu, vi, 1—19. 7, Yr Arglwydd yn lladd dros ddeng mil a deugain o wyr Bethshemes am edrych i mewn i'r arch, vi, 19. 8, Yr Arglwydd yn dryllio'r Philistiaid â tharanau mawrion, pan oedd Samuel yn gweddio ac yn aberthu, vii, 9, 10, 11. 9, Samuel yn gosod maen i fynu rhwng Mispah a Sea, ac yn ei alw yn Eben-ezer, vii, 12. 10, Gwendid ac uchder Saul, brenin cyntaf Israel, x, 1, 2. 11, Saul yn ymofyn am asynod ei dad ag oedd wedi myned ar gyfngoll, ix, 4—15. 12, Samuel yn ordeinio Saul yn frenin ar Israel, x, 1—24. 13, Saul yn cael calon arall, x, 9—14. 14, Y taranau a'r gwlaw mawr a ddaeth mewn atebiad i weddi Samuel yn amser y cynhauf gwenith, xii, 16—20. 15, Llu mawr o'r Philistiaid yn wynebu yn erbyn Israel, â deng mil ar hugain o gerbydau, a chwech mil o wyr meirch, xiii, 5—9. 16, Jonathan yn myned rhwng dwy graig serth i amddiffynfa y Philistiaid, xiv, 1, 4. 17, Samuel yn danfon Saul i ddinystrio Amalec, ac ynteu yn ymdwyn yn anffyddlon, a Duw yn ei wrthod ef, xv, 3—23. 18, Samuel yn hadd Agag yn Gilgal, xv, 32, 33. 19, Samuel yn enneinio Dafydd i fod yn frenin ar Israel, xvi, 10—13. 20, Dafydd yn llonyddu yspryd drwg Saul trwy gamu'r delyn iddo, xvi, 21—23. 21, Dafydd yn lladd Goliath â ffon daf, xvii, 49, 50, 51. 22, Jonathan yn daru Dafydd megis ei enaid ei hun, xvii, 1—4. 23, Saul yn oenfigenu wrth Dafydd, xviii, 6—9. 24, Cynddaredd Saul yn torri allan yn erbyn Dafydd, oblegid ei lwyddiant mewn rhyfel, xix, 8, 9, 10. 25, Michal yn siomi Saul ei thad wy osod delw yn ngwely Dafydd, a gadael iddo ynteu iangc, xix, 12—18. 26, Dafydd yn cael bara cysegredig

gan Abimelec, xxi, 6. 27, Dafydd yn cael cleddyf Goliath, xxi. 9. 28, Dafydd yn cymeryd arno ynfydu o flaen Achis brenin Gath, xxi. 13—15. 29, Saul yn gorehymyn lladd offeiriaid yr Arglwydd, xxii, 17, 18. 30, Dafydd yn torri cwr mantell Saul yn yr ogof mewn modd dirgel, ac yn arbed ei fywyd, xxiv, 4—9. 31, Dafydd yn profi ei ddiniweidrwydd ger bron Saul, xxiv. 9—14. 32, Marwolaeth Samuel a'i gladdedigaeth, xxv, i. 33, Sarugrwydd ac ynfydrwydd Nabal, xxv. 9—11. 34, Pwyll a challineb Abigail, gwraig Nabal, xxv. 18, 23, 32—35. 35, Meddwdod a marwolaeth Nabal, xxv. 36—38. 36, Dafydd yn cymeryd Abigail yn wraig iddo, xxv. 40—42. 37, Dafydd yn cymeryd gwaywffon Saul a'r llestr dwfr o'i yml pan oedd ef yn cysgu, xxvi, 11, 12. 38, Saul yn ei gyfyngder yn myned at y ddewines o Endor, xxviii, 7—10. 39, Yr Amaleciaid yn yspeithio Siclag ac yn ei hlosgi â thân, a Dafydd yn eu lladd ac yn rhanu'r yspail, xxx, 1, 16—18. 40, Y Philistiaid yn rhyfela yn erbyn Israel, a Saul yn syrthio ar ei gleddyf ac yn marw: hlosgi corph Saul a chyrph ei feibion, a chladdu eu hesgyrn yn Jabes, xxxi, 3—6, 12, 13.

AIL LYFR SAMUEL.

Pedr. PA Hanesion neitduol sydd yn ail lyfr Samuel?

Ioan. 1, Am yr alarnad ardderchog a wnaeth Dafydd am Saul a Jonathan, pen. i, 17—27. 2, Dafydd yn myned ar orchymyn Duw i fynu i Hebron, ii, 1—4. 3, Am feibion Sersiah, a buandra Asabel, ii, 18. 4, Joab yn lladd Abner a Dafydd yn cyhoeddi barn uwch ben Joab, iii, 27—31. 5, Isboseth yn cael ei ladd yn ei wely, iv, 5—9. 6, Amser teyrnasiad Dafydd a'r lle y bu yn teyrnasu, v, 4, 5. 7, Dafydd yn ennill Sion oddiar y Jebusiaid, v, 7—11. 8, Dafydd yn lladd y Philistiaid yn Baal-perasim, v, 20—25. 9, Uzzah yn cael ei ladd am gyffwrdd â'r arch, vi, 6—8. 10, Yr Arglwydd yn bendithio tŷ Obed-edom am dderbyn yr

arch, vi, 11, 12. 11, Dafydd yn dwyn yr arch i Sion, ac yn offrymu ac yn dawnsio o'i blaen, vi, 13, 14. 12, Michal, merch Saul, yn dirmygu ac yn gwawdio Dafydd am ddawnsio a moliannu o flaen yr arch, vi, 16, 20, 21. 13, Dafydd yn gorchfygu Hadadezer, ac yn ennill oddi arno fil o gerbydau, a saith cant o farchogion, ac ugain mil wŷr traed, viii, 3, 4. 14, Dafydd yn cysegru yr yspail i'r Arglwydd, ac yn enill iddo enw yn nyffryn yr halen, viii, 11—13. 15, Dafydd yn tosturio wrth Mephiboseth gloff, mab Jonathan, ac yn rhoi cynnalïaeth gysurus iddo dros ei holl ddyddiau, ix, 7, 13. 16, Brenin meibion Ammon yn dal gweision Dafydd, ac yn eillio haner eu barfau hwynt, ac yn torri eu dillad yn eu haner, ac yn eu gollwng ymaith, x, 4, 5. 17, Dafydd yn lladd llu mawr o'r Syriaid, x, 18, 19. 18, Drygioni Dafydd yn godinebu gydâ Beth-seba, gwraig Urias yr Hethiad, xi, 2—5. 19, Dafydd yn ychwanegu pechod at bechod, trwy feddwi Urias, ac yn ei ladd â chleddyf meibion Ammon, xi, 12—18. 20, Dafydd yn priodi gwraig Urias, xi, 26, 27. 21, Dameg gall Nathan wrth Dafydd pan oedd yn myned i ddangos ei fai iddo, xii, 1—7. 22, Nathan yn argyhoeddi Dafydd yn llym a didderbyn wyneb, ac yn cyhoeddi barn uwch ei ben, xii, 7—15. 23, Marwolaeth plentyn cyntaf Dafydd o Beth-seba, ac ymddygiad Dafydd yn wyneb yr amgylchiad, xii, 15—24. 24, Genedigaeth Solomon o'r hon a fuasai yn wraig i Urias, xii, 24, 25. 25, Joab yn gwneyd difrod ofnadwy a dychrynllyd ar feibion Ammon, xii, 27, 30, 31. 26, Cariad cnawdol a nwydau gwallgofus Amnon at Tamar, xiii, 1, 2. 27, Cyngor annuwiol Jonadab i Amnon, yn wyneb ei nwydau pechadurus, xiii, 3, 4, 5. 28, Dylais ddichellgar Amnon, xiii, 6—15. 29, Casineb Amnon at Tamar, yn ol iddo gael ei amcan pechadurus, xiii, 15—19. 30, Absalom yn ladd Amnon, xiii, 28, 29. 31, Joab yn gosod gwraig weddw o Tecoa trwy ddameg i droi calon y brenin Dafydd i gyrchu Absalom adref i Jerusalem, xiv, 1—21. 32, Tegwch Absalom a phwysau ei walt ef, xiv, 25, 26. 33, Absalom yn gorchymyn i'w weision losgi cae haidd Joab, xiv, 30. 34, Absalom trwy ei fwyneidd-dra yn lladrata calonau Israel ar ei ol, xv, 4—6.

35, Bradwriaeth Absalom yn erbyn ei dad, xv. 10—12. 36, Dafydd yn gweddio am droi cyngor Ahitophel yn ffolineb, xv. 31. 37, Siba, gwas Mephiboseth, trwy anrhegion a chelwyddau yn cael etifeddiaeth ei feistr, xvi, 1—5. 38, Simeï yn melltithio Dafydd, ac yn tasfu cerrig atto. xvi 5—9. 39, Ymddygiad addfwyn Dafydd yn wynebu Simeï yn ei felltithio, xvi. 11—13. 40, Ahitophel yn ymgrogi am na wnaid ei gyngor ef, xvii. 23. 41, Dafydd yn cael ymborth iddo ei hun a'i filwyr yn Mahanaim, xvii. 27—29. 42, Lladd ugain mil o'r Israeliaid yn ngoed Ephraim, xviii, 6—8. 43, Absalom yn nghrog wrth ei wallt yn y dderwen, a Joab yn eiladd ef, xviii. 9. 44, Ahimas a Chusi yn cario cenadwri at Ddafydd am farwolaeth Absalom, xviii: 28—32. 45, Dafydd yn gafaru yn sawr ar ol Absalom, xviii. 33. 46, Dafydd yn para i alaru ar ol Absalom, xix, 1—5. 47, Joab yn ymresymu â Dafydd yn ddidderbyn wyneb, xix. 5—9. 48, Joab yn lladd Amasa mewn modd bradychus a chreulon, xx, 9, 10. 49, Gwraig ddoeth trwy ei chyngor a'i ffyddlondeb yn achub dinas, xx. 16—23. 50, Tair blynedd o newyn yn amser Dafydd, xxi, 1. 51, Dafydd yn claddu esgyrn Saul a Jonathan, xxi, 13, 14. 52, Dafydd yn lladd gwr corphol â chwech o fysedd ar bob llaw iddo, xx 20—22. 53, Salm o ddiolchgarwch Dafydd am fendithion a gwaredig-aethau, xxii. 54, Geiriau diwedddaf Dafydd. xxiii, 1—4. 55, Hyder Dafydd yn nghyfamod Duw yn wyneb angau, xxiii. 5. 56, Cyflwr gresynol yr annuwiol, xxiii. 6, 7. 57, Dafydd yn llechu yn ogof Adulam, ac yn blysiso am ddwr o bydew Bethlehem, xxiii, 13—18. 58, Dafydd yn pechu trwy orchymyn rhifo'r bobl, xxiv, 2, 3, 9. 59, Calon Dafydd yn ei daro wedi iddo rifo'r bobl, xxiv. 10. 60, Gad yn rhoddi i Ddafydd ei ddewis o dair plâ ddychryntlyd, xxiv 13. 61, Deng mil a thrigain yn cael eu lladd gan yr haint, xxiv. 15. 62, Dafydd yn edifarhau ac yn codi allor ac yn offrymu i'r Arglwydd, a'r plâ a attaliwyd, xxiv. 17, 25.

Gellir byw yn ngwlad efengyl,

▲ chael crefydd oddi fa's ;

▲ meddiannu doniau helaeth,

Heb gael cadwedigol ras ;

Gellir dysgu'r ysgrythyrau,
A'r adnodau oll beb darn,
A bod 'n ol yn ngwyddfod Iesu,
'N casglu parddu yn y farn.

D. S. Byddai'r hanesion rhyfeddol sydd yn mau lyfr Samuelyn fuddiol iawn i'w dygyn a'u hadroddi gan ysgolheigion yr ysgolion Sabbathol.

LLYFR CYNTAF Y BRENHINOEDD.

Pedr. Pa hanesion rhyfeddol sydd yn llyfr cyntaf y Brenhinoedd?

Ioan. 1. Am enneiniad Solomon i fod yn frenin, i, 39, 40. 2. Adoniah yn ffoi ac yn cymeryd noddfa wrth gyrn yr allor, i, 50, 51, 52. 3. Dafydd yn cyngori Solomon i fyw yn dduwiol, ii, 1, 2, 3. 4. Solomon yn priodi merch Pharaoh, iii, .1. 5. Solomon yn dewis doethineb a deall o ffaen pob peth arall, iii, 9—14. 6. Doethineb Solomon yn ymddangos yn ei wasth yn barau rhwng dwy wraig, yn nghylch plentyn byw, iii, 24—28. 7. Rhifedi meirch a phresebau Solomon, iv, 26. 8. Mawr ddoethineb Solomon, iv, 29, 30. 9. Rhifedi diarhebiau a chaniadau Solomon, iv, 32—34. 10. Rhifedi gweithwyr Solomon, v, 15, 16, 17, 18. 11. Yr amser yr adeiladwyd teml Solomon, vi, 1. 12. Maintioli y deml, vi, 2. 13. Y modd y cafodd y gwaith ei gario yn mlaen, vi, 7. 14. Yr amser y buwyd yr adeiladu y deml, vi, 37, 38. 15. Gweddi ryfeddol Solomon wrth gysegri'r deml, viii, 16. 16. Llongau Solomon, ix, 26, 27, 28. 17. Brenhines Seba yn dyfod i weled a chlywed doethineb Solomon, x, 1—14. 18. Pwys yr aur a ddeuai i Solomon bob blwyddyn, x, 14, 15. 19. Y tarianau a'r bweledia wnaeth Solomon, x, 16, 17. 20. Garseddfainge ardderchog Solomon, x, 18—20. 21. Llestri yfed y brenin Solomon, x, 21—24. 22. Cerbydau a marchogion Solomon, x, 26. 23. Gwragedd a gordderchadon Solomon yn ei dynu at gau-dduwiaeth, xi, 3, 4. 24. Marwolaeth Solomon,

xi, 42, 43. 25, Urddo Rehoboam yn frenin, xii, 1. 26, Rehoboam yn gwrthod cynghor yr henuriaid ac yn gwrandao ar y rhai ieuainge, a'r canlyniad niweidiol o hyny, xii, 13—15. 27, Y deg llwyth yn gwrthryfela, xii, 16, 19, 20. 28, Jeroboam yn gosod lloï aur yn Dan a Bethel, xii, 28—32. 29, Llaw Jeroboam yn myned yn ddirfwrth am iddo ei hestyn yn erbyn proffwyd yr Arglwydd, xiii, 1—5. 30, Am y llew yn lladd y proffwyd am anufyddhau i air yr Arglwydd, xiii, 21, 22, 24. 31, Barn Duw yn cael ei chyhoeddi uwch ben Jeroboam, xiv, 11, 12. 32, Am Sisac, brenin yr Aipht, yn yspeilio Jerusalem, xiv, 25, 26. 33, Daionus deyrnasiad Asa, xv, 9—16. 34, Am brophwydoliaeth Jehu yn erbyn Baasa, xvi, 3, 4. 35, Zimri yn llosgi palas y hrenin am ei ben, xvi, 18, 19. 36, Am waith Omri yn prynu mynydd gan Semer ac yn adeiladu Samaria arno, xvi, 24, 25. 37, Am Ahab, mab Omri, yn dechren teyrnasiu, a'i sawr ddrygioni, xvi, 29—31. 38, Mellith Josuah yn dyfod ar Hiel am adeliadu Jericho, xvi, 34. 39, Am Elias yn proffwydo yn erbyn Ahab ac yn cael ei borthi gan y cigfran, xvii, 1—8. 40, Elias yn ambhau olew y wraig weddw o Sarepta, ac yn cael ei borthi yno, xvii, 8—17. 41, Elias yn codi mab y wraig weddw o farw i fyw, xvii, 17—21. 42, Elias yn argyhoeddi proffwydi Baal, trwy fod tân o'r nefoedd yn llosgi ei aberth mewn attebiad i'w weddi, xviii, 20—40. 43, Helaethrwydd o wlaw yn dyfod mewn attebiad i weddi Elias ar ben Carmel, xviii, 41—46. 44, Elias yn cael ei borthi trwy weinidogaeth angel ar ei daith i Horeb, xix, 4—9. 45, Am waith Duw yn galw ar Elias i ddyfod allan o'r ogof, ac yn ymddangos mewn modd neidduel iddo ac yn ymddiddan âg ef, xix, 9—19. 46, Elias yn enneisio Hazael yn frenin ar Syria a Jehu yn frenin ar Israel, xix, 15—17. 47, Am Eliseus yn gadael yr ychen ac yn canlyn Elias, xix, 19, 20. 48, Am ddyn yn cael ei ladd gan lew am beidio gwrandao ar lais yr Arglwydd, xx, 35, 36. 49, Ahab yn chwennych gwinnlan Naboth, xxi, 1—3. 50, Naboth yn cael ei labyddio â meini, xxi, 13. 51, Ahab yn perchenogi gwinnlan Naboth, xxi, 15, 16. 52, Elias yn cyhoeddi

barn Duw ar Ahab, **xxi**, 23—25. 58, Am ryw wr yn tynu mewn bwa ar ei amcan ac yn saethu Ahab rhwng cysylltiadau'r llurig, ac ynteu yn marw, **xxii**, 34, 35.

AIL LYFR Y BRENHINOEDD.

Pedr. PA Hanesion neillduol sydd yn ail lyfr y Brenhinoedd?

Ioan. 1, Am waith Elias yn galw am dân o'r nefoedd i losgi cenhadau Abaziah, **i**, 10—12. 2, Elias yn hollti yr Iorddonen â'i fantell, **ii**, 8. 3, Elias yn esgyn i'r nefoedd mewn cerbyd tanllyd, **ii**, 11—13. 4, Eliseus yn agor afon yr Iorddonen â mantell Elias, **ii**, 14. 5, Eliseus yn iachau dyfroedd Jericho trwy dafu halen i ffynonell y dyfroedd, **ii**, 19—23. 6, Eliseus yn cael dwfr mewn modd gwrthiol, **iii**, 20, 22. 7, Eliseus yn amhau olew y wraig weddw, **iv**, 1—8. 8, Eliseus yn codi mab y Sunamees o farw i fyw, **iv**, 32—38. 9, Am waith Eliseus yn iachau cawl meibion y proffwydi, **iv**, 38—42. 10, Eliseus yn iachau Naaman y Syriad, **v**, 8—15. 11, Gehazi yn myned ar ol Naaman ac yn cymeryd rhoddion ganddo yn enw ei feistr, a'r gwahanglwyf yn glynu wrtho byth, **v**, 20—27. 12, Eliseus yn caniatu i feibion y proffwydi helaethu eu terfynau, ac yn peri i'r haiarn nofio, **vi**, 1—8. 13, Yr Arglwydd yn taro y Syriaid â dallineb mewn attebiad i weddi Eliseus, **vi**, 15—19. 14, Am newyn trwm yn Samaria hyd nes yr oeddynt yn bwyta eu plant eu hunain, **vi**, 25—30. 15, Eliseus yn proffwydo am helaethrwydd annisgwylidaw yn Samaria, **vii**, 1, 2. 16, Am y pedwar gwahanglwyfus yn myned i wersyll y Syriaid ac yn cael cyflawnder yno, **vii**, 3—10. 17, Am saith mlynedd o newyn yn amser Eliseus, **viii**, 1, 2. 18, Am Jehu yn saethu Joram trwy ei galon ac yn ei ladd, **ix**, 23, 24. 19, Marwolaeth Jezebel, **ix**, 33—37. 20, Am Jehu yn peri tori penau deg a thrugain o feibion Ahab, **x**, 7. 21, Jehu yn lladd offeiriaid Baal ac yn llosgi eu delwau, **x**, 25, 26, 22, Am ladd Athaliah, **xi**, 13—17. 23,

Marwolaeth a chladdedaeth Eliseus, ac am un yn cyfodi wrth gyffwrdd â'i esgyrn ef, xiii, 20, 21. 24, Am Menahem yn rhwygo ac yn lladd y gwragedd beich-
 iogion yn Tirsah, xv, 16. 25, Am waith yr Arglwydd yn danfon llewod i ladd rhai o'r cenedloedd yn Samaria, xvii, 25, 26. 26, Am grefydd gymysglyd y Samariaid, xvii, 32—34. 27, Am waith Hezeciah dduwiol yn mal-
 urio y sarph bres, am fod Israel yn arogl-darthu iddi, xviii, 4. 28, Am dduwioldeb Hezeciah, xviii, 5—9. 29, Angel yr Arglwydd yn lladd pump a phedwar
 ngain a chant o filoedd yn ngwersyll yr Assyriaid, xix, 35. 30, Am glefyd Hezeciah ac estyn ei ddyddiau bumtheg mlynedd, xx, 1—8. 31, Am eilun-addoliaeth
 Manasseh a'i waith yn tywallt gwaed gwirion, xxi, 1—8, 16. 32, Duwioldeb Josiah, xxii, 1, 2. 33, Am
 Hulciah yr offeiriad yn cael llyfr y gyfraith ag oedd ar goll, xxii, 8—12. 34, Am eiriau Hulda y broffwydes,
 xxii, 15—20. 35, Am waith Josiah yn darllen llyfr y gyfraith lle y clywai yr holl bobl, xxiii, 1, 2. 36, Am
 waith Josiah yn llosgi esgyrn yr eilun-addolwyr ar allor Bethel, xxiii, 16. 37, Josiah yn cadw pasg ardderchog,
 xxiii, 21, 23. 38, Nebuchodonosor yn yspeilio teml Solomon ac yn dwyn trigolion Jerusalem yn gaeth i
 Babilon, xxiv, 13—17. 39, Y Caldeaid yn tynu llygaid Sedeciah ac yn ei rwymo â gefynau pres, xxv, 7. 40,
 Nebuchodonosor yn llosgi'r deml a phalasau Jerusalem, xxv, 9. 41, Am waith Efil-Merodach, brënin Babilon;
 yn derchafu Joachin o'r carchar, xxv, 27—30.

☞ Fe fyddai yn fuddiol iawn i Ysgolheigion yr Ysgollon Sabbothol ddysgu ac adrodd yr Hanesion sydd yn nau lyfr y Brenhinoedd.

LLYFRAU Y CRONICL.

Am farwolaeth Saul a'r Philistiaid yn crogi ei ben yn nhŷ Dagon, 1 Cron. x, 9, 10. Yr achos o'r farn a ddaeth ar Saul, 1 Cron. x, 13, 14. Am dân yn dyfod o'r nef ar ol i Solomon weddio wrth gysegru'r deml, 2 Cron. vii,

1, 2. Am Jehosaphat yn ofni ei elynion, yn cyhoeddi ympryd, ac yn gweddi, 2 Cron. xx, 1—13. Am broffwydoliaeth Jahaziel, 2 Cron. xx, 14—20. Am Jehosaphat yn gosod cantorion i ganu o flaen ei filwyr, 2 Cron. xx, 20, 21. Am y Moabiaid a thrigolion mynydd Seir yn lladd ei gilydd, 2 Cron. xx, 22—27. Am Jehoram yn marw o glefydau drwg, 2 Cron. xxi, 18, 19. Am Zechariah yn cael ei labyddio yn nghyntedd tŷ yr Arglwydd, 2 Cron. xxiv, 20—23. Uzziah yn cael ei daro â'r gwahan-gtwyf yn ei dalcen, ac yn cael ei dori ymaith o dŷ yr Arglwydd, 2 Cron. xxvi, 19—21. Am Hezeciah yn gorchymyn glanhau tŷ yr Arglwydd, 2 Cron. xxix, 13, 16.

LLYFRAU EZRA, NEHEMIAH, AC ESTHER.

Pedr. PA Hanesion neillduol sydd yn Ezra, Nehemiah, a llyfr Esther?

Iöan. 1, Am ddychweliad Israel o gaethiwed Babilon, Ezra i. 2, Rhifedi'r bobl a ddychwelasant, ii. 3, Cyfodi yr allor yn Jerusalem, ac yn gosod sylfeini'r deml gyda llawenydd mawr, iii. 4, Am rhai yn enllibio'r Iuddewon, ac yn ceisio eu rhwystro i adeiladu y deml, iv. 5, Gwaith y deml yn cael ei ohario yn mlaen, ac yn cael ei gorphen, vi. 6, Ezra yn diwygio y priodasau llygredig, x. 7, Nehemiah yn myned allan liw nos i edrych ansawdd Jerusalem, Neh. ii. 8, Enwau a threfn y rhai a adeiladasant furiau Jerusalem, iii. 9, Bradwriaeth gelynyon yr Iuddewon, iv. 10, Nehemiah yn gorphen adeiladu muriau Jerusalem, vi, 1. 11, Nehemiah yn ceryddu y bobl yn llym am beidio cadw'r Sabbath, xiii. 12, Ahasferus yn gwneyd gwledd frenhinol, a'r frenhines Ffasti yn gwrthod dyfod iddi, Esther ii. 13, Esther yn rhyngu bodd y breinin, ac yn cael ei gwneuthur yn frenhines, ii. 14, Mordecai yn datguddio bradwriaeth, a'r bradwyr yn cael eu crogi, ii, 21. 15, Haman yn cael ei dderohafu, ac yn ceisio gan y renin i ladd yr holl Iuddewon, iii. 16, Yr Iuddewon

yn galaru ac yn ymprydio, iv. 17, Balchder Haman, a'i waith yn gwneyd crog-bren i grogi Mordecai dduw-
iol, v. 18, Derchafiad Mordecai, vi. 19, Haman yn
cael ei grogi ar y crogbren a gyfodasai efe igrogi Mor-
decai, 7. 20, Derchafiad Mordecai, a llawenydd yr
Iaddewon, viii. 21. Crogi deg mab Haman, ix, 13.

Dyma Feibl anwyl Iesu, dyma rodd deheulaw Duw,
Dengys hwn y ffordd i farw, dengys hwn y ffordd i fyw ;
Dengys hwn y codwm enbyd a ga'wd draw yn Eden drist,
Dengys hwn y ffordd i fywyd, trwy adnabod Iesu Grist.

IV. AM WAHANOL ORUCHWYLIAETHAU DUW YN EI RAGLUNIAETH AT DDYNION YN Y BYD.

1, Y mae hyn yn cael ei egluro yn ei waith yn diogelu
Noah a'i deulu pan oedd y byd yn cael ei foddï gan y
diluw. 2, Yn ngwardigaeth Lot o Sodom. 3, Yn
ngwaith yr Israeliad yn amlhau yn yr Aipht pan oedd-
ynt yn cael eu gorhrymu fwyaf. 4, Yn ei waith yn
derchafu Joseph o'r carchar, a'i wneyd yn llywydd ar
holl wlad yr Aipht. 5, Yn ei waith yn diogelu Moses
yn y cawell ar lan yr afon, a merch Pharaoh yn ei gyfodi
ac yn ei fagu yn fab iddi ei hun. 6, Yn ngwaith Duw
yn gwaredu Israel trwy y mor coch, ac yn boddi yr
Aiphtiaid. 7, Yn ngwaith Israel yn cael dyfroedd
chwerwon yn Mara, a deuddeg ffynon a deg palm-
wydden a thrigain yn Elim. 8, Yn ei waith yn porthi
Israel ddeugain mlynedd yn yr anialwch â manna o'r
nef, ac yn rhoi dwfr o'r graig i'w disychedu, ac yn eu
hiachau oddiwrth frathiadau y seirff tanllyd trwy edrych
ar y sarff bres. 9, Yn ngwaith Duw yn agor yr Iordd-
onen o flaen Israel, ac yn rhanu gwlad Canaan yn eti-
feddiaeth rhwng y llwythau. 10, Yn ei waith yn codi
Dafydd o fod yn fugail defaid i fod yn flaenor ac yn
frenin ar Israel. 11, Yn ei waith yn rhoi y fuddugoliaeth
i Gideon, ac yn gorchfygu y Midianiaid trwy dri chan-
gwr. 12, Yn ei waith yn porthi Elias ar lan afon Cer-
ith trwy wennidogaeth cigfrain. 13, Yn ei waith yn

porthi Elias am flwyddyn yn nhy y wraig weddw o Sa-
repta. 14, Yn ei waith yn peri i ddwy arth o'r coed
ddyfod allan a lladd dau blantyn a deugain am wawdio
Eliseus y prophwyd. 15, Yn ngwaith Haman yn cael
ei grogi ar y arog-brea a gododd ef i grogi Mordecai.
16, Yn ngwaith Job yn myned o ganol cyfoeth i ganol-
tylodi, ac yn myned yn gyfoethog iawn drachefn cyn ei
farw. 17, Yn ei waith yn diogelu y llengiau yn ngha-
nol y ffwrn o dân poeth, a'r tân yn llosgi y rhai a'u
tasfodd i mewn. 18, Yn ei waith yn troi Nebuchodonosor
o ganol mawredd a gogoniant i blith anifeiliaid i
bori gwellt y maes, a'i adferu a'i dderchafu drachefn i'r
orsedd. 19, Yn ei waith yn diogelu Daniel yn ffau'r
llewod, a'r llewod yn difa y rhai a'i tasfodd i mewn. 20,
Yn ei waith yn diogelu Jonah yn mol y morfil, a'i ddwyn
i dir sych drachefn. 21, Yn ei waith yn peri i'r eiciaion
dyfu dros Jonah i'w waredu o'i ofid, ac yn ei gymeryd i
ffwrdd drachefn mewn noswaith. 22, Yn ei waith yn
taro ac yn lladd Herod, a'r llau yn ei ysu. 23, Yn ei
waith yn gwaredu Paul a Silas o'r carchar. Y mae ei
holl ffyrdd yn wirionedd, a'i holl lwybrau yn farn; cyfiawn
a chywir yw dy ffyrdd di, O frenin y saint!

Mae myrdd o ryfeddodau yn rhagflaenlaethau Daw,
Mae pob gerchwyllaeth chwerau yn dda i Sion Duw;
Olwynion mewn olwynion sy'n rhoddi i ben,
I ddwyn y saint o'u trafferthol arfaeth nefoedd wen.

V. AM GWYMP BABILON FAWR.

Ioan. Pa beth yw rhai o'r enwau a roddir er y grefydd
Babaidd, neu eglwys Rhufain, yn yr Ysgrythyrau?

Iago. 1, Mae yn cael ei galw yn synagog Satan, Dat.
ii. 9. sef am fod Satan yn preswyllo ynddi, yn ei llywod-
raethu, ac yn cael ei wasanaethu ganddi. 2, Mae yn
cael ei galw yn Sodoma a'r Aipht; Dat. xi. 8. i ddangos
ei bod yn llawn o foethau, balchder, ac astendid o bob
math, a'i bod wedi cael eu nodi i ddinystro disymwth: y
mae yn cael ei galw yn Aipht i ddangos ei bod yn llawn
creulondeb a gorthrymder, a'i bod yn amddifad o wlaw

o fendithion ysprydol, ac yn agored i blaau dychrynlyd yr Arglwydd. 3, Mae yn cael ei galw yn butain fawr, mam puteiniaid a ffeidd-dra'r ddaear, Dat. xvii. 1. sef am ei bod yn ymdroi mewn aflenid yn ddigywilydd, a'i bod yn llawn gweniaith a chyfrwystra, ac yn denu llawer ati trwy ei haddurniadau balch. 4, Mae yn cael ei galw yn nyth i bob aderyn aflan. Dat. xviii. 2. sef offeriaid aflan, cyfeiliornadau dinystriol ac aflan, a meddyliau ac ymdaygiadau aflan. 5, Mae yn cael ei galw yn Babilon fawr, Dat. xvii, 5.

Ioan. Pa ham y mae Pabyddiaeth, neu eglwys Rhufain, yn cael ei galw yn Babilon fawr?

Iago. 1, Yr oedd Babilon yn ddinas fawr a helaeth, ac yn llawn o falchder a dynol-ardderchawgrwydd; felly y mae'r grefydd babaidd wedi bod yn hynod o helaeth, ac yn llawn o falchder, cyfoeth, ac ardderchawgrwydd daearol. 2, Yr oedd Babilon yn ddinas eulun-addolgar, ac yn llawn o ddewiniaid a brudwyr, a delwau ac eulunod; felly y mae eglwys Rhufain yn llawn o dwyll a dychymygion a delwau ac eulun-addoliaeth; y maent yn addoli yr angylion a'r seintiau, a'r groes, a'r bara yn y cymun. 3, Yr oedd Babilon yn llawn o odineb, meddwdod, gloddest, ac aflenid o bob math; felly y mae y grefydd babaidd ac eglwys Rhufain yn cael eu galw yn butain fawr, mam ffeidd-dra'r ddaear. 4, Yr oedd Babilon yn lle erledigaethus a gorthrymus iawn i'r Israeliaid, felly y mae'r Papiastiaid wedi bod yn gorthrymu, yn caethiwo, yn erlid, ac yn merthyrur duwiolion yn y modd mwyaf creulon ac ofnadwy. 5, Yr oedd Nebuchodonosor, brenin Babilon, yn helaeth iawn o ran ei lywodraeth, ac yn fawr iawn ei awdurdod, ac yr oedd ei arswyd ar bawb o'i amgylch; felly y mae y pab o Rufain wedi bod yn fawr iawn ei awdurdod, ac yr oedd ei arswyd un waith ar ymerawdwyr a brenhin- oedd y ddaear. 6, Fe wnaeth brenin Babilon ddinystrofnadwy a dychrynlyd ar ddinas sanctaidd Jerusalem, yr hon oedd degwch bro, ac yn llawenydd yr holl genedlaethau, ac a losgodd deml yr Arglwydd a thrân; felly e wnaeth y pab o Rufain ddifrod galarus ar y grefydd

apostolaidd ac ar eglwys Dduw, ac a losgodd filoedd o'r duwiolion a thystion ffyddlon yr Arglwydd. 7, Cyhoeddwyd cwmp a dinystr Babilon yn mlaen llaw, felly y mae cwmp a dinystr anghrist a phabyddiaeth wedi cael ei gyhoeddi yn eglur iawn yn ngair y gwirionedd; ac fe ddatguddir yr anwir hwnw, yr hwn a ddifa yr Arglwydd âg yspryd ei enau, ac a ddilea â disgleirdeb ei ddyfodiad.

Ioan. Darluniwch im' gwmp Babilon ysbrydol, neu ddinystr Pabyddiaeth.

Iago. 1, Fe fydd cwmp Babilon yn dra disymwth, *Mewn un awr yr anrheithiwyd hi*, Dat. xviii, 17. *Ac angel cadarn a gododd faen megis maen melin mawr, ac a'i bwriodd i'r môr, gan ddywedyd, Fel hyn gyda rhuthr y testir Babilon y ddinas fawr, ac ni cheir hi mwyach*, Dat. xviii, 21. *A Babilon fawr a ddaeth mewn cof gyda Duw*, Dat. xvi, 19. 2, Fe fydd cwmp Babilon yn ofnadwy o ddychrynlyd, Dat. xvi, darllen yr unfed bennod ar bumtheg o'r Datguddiad i gyd. 3, Fe fydd cwmp Babilon yn anghyfodadwy, a'i dinystr yn hollol anadferadwy: darllen y ddaunawfed bennod o'r Datguddiad i gyd, a Dat. xvii, i gyd, ac yna cei weled yn eglur; darllen hefyd yr ysgrythyrau canlynol, Esay xiii, 19—23. a xiv, 22, 23. a xxi, 9. a xlviii, 14. Jer. 1, 2, 3, a 1, 9—17. a 1, 25—46. 4, Fe fydd cwmp Babilon yn achos o lawenydd mawr i Sion Duw, Dat. xviii, 20. a xix, 1—8.

Ioan. Pa beth yw rhai o'r enwau a roddir i'r offeiriad Pabaidd, neu i gau-athrawon yn y gair?

Iago. 1, Maent yn cael eu galw yn ysprydion cythreuliaid, Dat. xvi, 14. sef am eu bod yn cael eu danton gan y diafol, ac yn cario ei achos a'i deyrnas yn mlaen yn y byd, ac yn llawn o lid a malais at achos Crist yn ei burdeb. 2, Maent yn cael eu galw yn lleiddiaid, Zech. xi, 5. sef am eu bod yn peidio rhybuddio dynion o'u perygl, ond yn eu harwain i gollfedigaeth, ac yn eu gwenwyno â'u cyfeiliornadau. 3, Maent yn cael eu cydmaru i ladron, Ioan x, 10. sef am eu bod yn rhedeg i waith y cysegr, a Duw heb eu galw, ac yn yspeilio Crist

o'i ogoniant, a'r saint o'u breintiau a'u cysuron. 4, Maent yn cael eu galw yn dwyllwyr, 2 Tim. iii, 13. sef am eu bod yn cynysgru yr efengyl â'u dychymygrion, ac yn hudo dynion i dderbyn eu cyfeiriadau yn lle di-dwyll laeth y gair. 5, Maent yn cael eu cyffelybu i fleiddiaid, Mat. x, 16. sef am eu bod yn earu y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, ac yn ddechryn i brandd elfro Duw, ac yn niweithio defaid aeddfwyn yr Arglwydd Iesu. 6, Maent yn cael eu cydmaru i ser gwibaog, sef i ddangos mai cyfarwyddwyr anwadal a siomedig ydynt, ac yn atsefydlog o ran eu goleu, eu barn, a'u begwyddorion, Judas 13. Maent yn cael eu cydmaru i ffynonau diddwfr, sef am eu bod yn sier o siomi aneidiau sychedig a lluddedig, 2 Pedr ii, 17. Judas 12. 8, Maent yn cael eu galw yn donau cynddeiriog y môr, sef am eu bod yn hynod o aflonydd, ac yn ohwyddo yn hynod mewn balchedder, ac yn rhoi yn ddirfawr am eu barn a'u crefydd, ac yn dra dychrynlyd i eglwys Dduw, ac yn bwrw allan laid o gyfeiriadau, Judas 13. Ond y mae y boreu bron a gwawrio, pryd y ceiff Sion Duw fuddugoliaeth gyflawn ar anghrist a phabyddiaeth, ac fe leddir y gau-brophwyd ac fe leddir y ddraig sydd yn y môr, a dywedod yr holl bobl Amen.

Daw, daw, y seithfed tro,

Cwmp caeru Jericho ;

Awn gyda'n Dduw, ---

Mor dda yw byw lle bo ;

Daw'r butain fawr i lawr i'r llyn,

A'r Pab a saif a'i ddolwau'n syn ;

Fe gloir yr holl fwystafod

Bydd hynod ganu am hyn.

VI. AM ALWAD YR IUDEWON.

Ioan. Adroddwch im' rai ysgrythyrau ag sydd yn crybwyll am ddiodefiadau yr Iuddewon oblegid eu gwrthgiliadau ?

Iago. Mi gaf adrodd yr adnodau canlynol, Esay i, 5—8. a iii, 24, 25. a xiv, 1—12. a xxix, 1—7. a xxx, 1—6. a xlii, 24, 25. Jer. xiii, 24, 27, a xiv, 17—22. a xv.

3—8. a xvii, 1—5. Ezech. vi, 1—8. a vii, 1—20. a viii, 17, 18.

Ioan. Pa beth oedd rhai o'r pethau a ddioddefodd yr Iuddewon oblegid eu dirywiadau?

Iago. 1, Cawsant eu herlid a'u gormesu yn greulon, Galar. i, 3. *Eu holl erlidwyr a'u goddiweddasant hi mewn lleoedd cyfyng.* 2, Dioddefasant lawer o wawd a dirmyg, Galar. i, 7. *Y gelyniau a'i gwelsant hi, ac a chwaddasant am ben ei Sabbothau hi.* 3, Dioddefasant lawer o drymder meddwl, galar, a thristweh, Galar. i, 2. *Y mae hi yn wylu yn hidl liw nos, ac y mae ei dagrau ar ei gruddiau, heb neb o'i holl gariadau yn eu chysuro.* 4, Dioddefasant lawer o dyfodi a newyn dychrynlyd, Deut. xxviii. 53. *Ffrwyth dy fru, sef cig dy feibion a'th ferched, y rhai a roddodd yr Arglwydd dy Dduw i't, a swyteri yn y gwarchae, ac yn y cyfyngdra a ddiog dy elyn arnat.* Deut. xxviii, 56. *Y wraig dyner a'r foethus yn dy fysg, yr hon ni phroffodd osod gwada ei throed ar y ddaear, gan swyteri a thyneswch, a greulona ei llygad wrth wr ei mynwes, ac wrth ei mab, ac wrth ei merch.* 5, Dioddefasant lawr o blaau a heintiau yn aml, Deut. xxviii. 59. *Yna y gwna'r Arglwydd dy blaau di yn rhyfedd, a phlaau dy had: sef plaau mawron, a pharhaus, a chlefydau drwg a pharhaus. Ac efe a ddiog arnat holl glefydau yr Aipht, y rhai yr ofnaist rhagddynt.* 6, Cafodd llawer o'u gwragedd a'u merched eu amharchu a'u treisio, Galar. v, 11. *Hwy a dreisiasant y gwragedd yn Sion, a'r morwynion yn ninasoedd Juda.* 7, Cafodd llawer o honynt eu rhifo i'r cleddyf, a'u grogi ar bren, Galar. v, 12. *Crogasant dywysogion a'u dwylaw; ni pherchid wynebau yr henafgwyr.* 8, Cafodd eu dinasoedd godidog a'u teral ardderchog eu llosgi â than, Esay i, 7. 9, Darfodedigaeth, llosgfa, a chryd poeth, Deut. xxviii, 22.

Ioan. Pa beth oedd rhai o'r pechodau a gas a dynodd yr holl farnau hyn ar yr Iuddewon?

Iago. 1, Eulun-addoliaeth, 2 Cron. xxxiii, 3—11. 2, Balchder ac uchel drem, Esay iii, 16—26. 3, Godineb

ac anlladrwydd, 1 Cor. 2. 8. 4, Meddwdod a gloddest, Esay v. 11, 12, 13. 5, Cybydd-dod a gormes, Esay v. 7, 8, 9. 6, Myned ar ol dewiniaid a gau-brophwydi, Mich. iii, 11, 12. 7, Anmbarchu a lladd prophwydi yr Arglwydd, Mat. xxiii, 37. 8, Gwrthod a chroeshoelio Iesu Grist, Mat. xxi, 37—42.

Ioan. Enwch im' rai prophwydoliaethau ac addewidion am adferiad yr Iuddewon, a'u dychweliad at yr Arglwydd.

Iago. Gwnaf: y maent yn aml ac yn lluosog iawn, Esay ii, 7. a xxvii, 12, 13. a xlix, 9—26. a lxxv, 9, 10. a xi, 10—16. a lxxvi, 8. Jer. xxiii, 3—8. a xxx, 3—24. a xxxi, 16, 17. a li, 1—24. a xxxii, 37—41. a xlvi, 27, 28. Ezech. xi. 16—20, a xx, 33—45. a xxviii, 25, 26. a xxix, 21. a xxxvi, 21—38. a xxxvii, 21. a xxxiv, 11—17. Dan. xii, 1. Hos. i, 10, 11. a iii, 3, 4, 5.

Ioan. Adroddwch i mi rai pethau etto mewn perthynas i dychweliad yr Iuddewon.

Iago. 1, Hwy a gant eu casglu adref o holl gyrrau y ddaear i wlad Canaan, neu i'r eglwys i breswylio, Esay xxvii, 12, 13. a xliii, 3—8. a lx, 1—22. a xi, 11, 12. Jer. iii, 18, 19. a xvi, 14, 15. a xxiii, 3, 4. a xxx, 10, 11. a xxxi, 7, 8, 9. a xxxii, 37—41. Zech. viii, 7, 8. a x, 8—13. 2, Fe fydd rhai o'r oenhedloedd Cristionogol fel offerynnau neillduol yn llaw Duw i dychwelyd yr Iuddewon adref, ac y mae yn lled debyg mai'r Brutaniaid fyddant, Esay xlix, 22, 23. a lx, 9, 10. a lxxvi, 19, 20. 3, Fe fydd llawer o ryfeddodau, a rhyfeloedd, a thywallt gwaed, trwy lawer o'r byd, cyn dychweliad yr Iuddewon, a sychu afon Euphrates, sef dadymchweliad llywodraeth y Twrc, a lladd y gau-brophwyd, sef dinystrio Mahometaniaeth: darllen Esay xiv. Zech. iii, 8, 9, 10. Ezech. xxviii, 25, 26. Hag. ii, 21, 22. Jer. xxx, 7—11. 2 Cron. xv, 3—8. Num. xxi, 20—24.

Ioan. Pa fath agwedd fydd ar yr Iuddewon yn ol eu dychweliad at yr Arglwydd?

Iago. 1, Byddant yn lluosog iawn, Jer. xxx, 18, 19. 2, Byddant mewn undeb a thangnefedd, ac ni fyddant yn ddwy genedl yn ymryson â'u gilydd mwy,

Esay xi, 13, 14. Jer. iii, 18. Ezeq. xxxvii, 21—27. Hos. i, 11. 3, Byddant yn fuddugoliaethwyr ar eu holl etynion, Esay xli, 14, 15, 16. a xxix, 23. a lx, 12. Joel iii, 19, 20, 21. Mich. v, 7, 8. Obed, xvii, 18. Zech. ix, 16, 17. a x, 5, 6, 7. a xii, 6. 4, Byddant yn mwynhau hawddfyd, diogelwch, a llwyddiant mawr, Esay xxxii, 16—19. a liv, 13, 14. Joel iii, 17, 18. Seph. iii, 13—18. Mich. iv, 3, 4. 5, Byddant yn hynod o egoneddus, ac yn fendith i'r byd yn gyffredinol, Esay lxi, 3, 7, 9. a lxii, 1—8. Jer. xxxiii, 7, 8, 9. Ezeq. xxxiv, 26. Seph. iii, 19, 20. Zech. viii, 13. Esay xix, 24. Amos ix, 11. 6, Ffe fydd dychweliad yr Iuddewon yn achos llawenydd a gorsedd mawr i'r holl eglwysi Cristionogol, Dat. xix, 5—8.

Ioan. A ddylem ni ddymuno a ffræthu yn fawr am droedigaeth a dychweliad yr Iuddewon?

Iago. Dylem yn sicr, 1, Oblegid mai oddi wrthynt hwy y daeth Crist, o ran ei ddynoliaeth, Rhuf. ix, 5. 2, Oblegid mai oddi wrthynt hwy y daeth gair yr Arglwydd yn ei burdeb atom ni, Esay ii, 3. 2 Pedr ii, 21. 3, Am mai caredigion ydynt oblegid y tadan, Rhuf. xi, 28. 4, Oblegid yr oeddynt hwy gynt yn gwaddio ac yn hiræthu am ein troedigaeth ni, y Cenhedloedd: Y mae i ni chwær fechan, heb fronau iddi, pa beth a wnawn i'n chwær y dydd y dywedir am dani? Can. xiii, 8.

O llwydded hen efengyl trwy barthau'r byd o'r bron,
A'r holl Cenhedloedd ddoloi wir goffidlo hon;
A doed yr hen Iuddewon i greu yn y gwa'd,
A llawenhau yn rhyfedd am iachawdwr iaeth rad.

VII. AM LWYDDIANT YR EFENGYL TRWY'R BYD, A GOGONIANT Y MIL BLYNYDDOEDD.

Ioan. Adroddwch im' rai ysgrythyrau ag sydd yn gosod allan lwyddiant yr efengyl, a theyrnasiad Crist trwy'r byd.

Iago. Y maent yn lluosog iawn, ond mi gaf gyfeiriad at rai o honynt, 1, Yn llyfr y salmau—Salm ii, 8, 9. xxii, 27, 28. a lxxvii, 4, 7. a lxxii, 8, 9, 11, 16, 17, 19.

a lxxxvi, 8, 9, a cii, 13—17. a cx, 2, 3. 2, Yn llyfr y profwyd Esay: Esay ii, 1—4, a xi, 10, 11. a xxiv, 16, a xxvii, 6—13. a xl, 5. a xlii, 6, 7. a xlv, 22, 23. a xlix, 6, a xxxv, 6, 7. a li, 4, 5, a lii, 10, 13, 15. a liii, 10—12. a liiv, 1—3, a liv, 4, 5. 3, Yn llyfr Daniel: Dan. ii, 34, 35, 44. a vii, 14, 27. 4, Yn llyfr Joel: Joel ii, 28, 29. a iii, 18. 5, Yn llyfrau Micah a Habaccuc: Mic. iv, 1—3. Hab. ii, 14. 6, Yn llyfrau Haggai, Zechariah, a Malachi: Hag. ii, 6, 7. Zech. ii, 11, a vi, 12, 13, 15. a viii, 20—24. a xiv, 7—9. Mal. i, 11. Mat. viii, 11, a xxiv, 14. Dat. xi, 15.

Mae hen afon wych Ezeziel 'nawr yn myn'd ar led y byd:
Chwi bysgodwyr sefweh arni, 'n danfa rhwydau gwnewch hi'i gyd:
Tua marw fôr Sodoma gwela'i bod hi'n myn'd yn mla'n,
Hi wna feirw filoedd etto 'n fyw i seinio newydd gân.

Esay lv, 13. *Yn lle drain y cyfyd ffynnidwydd yn lle miəri y cyfyd myrtwydd: a hyn fydd i'r Arglwydd yn enw ac yn arwydd tragywyddol, yr hwn ni thorir ymaith.* Y mae y geiriau hyn yn cyfeirio yn llythyrenol at ddychweliad Israel o gaethiwed Babilon; yr oedd llawer o'r hen bobl yn lled alarus a digalon pan ddaethant i olwg eu gwlad, wrth weled eu dinas odidog wedi myned yn anghyfanedd, a'u teml ardderchog wedi ei dinystrio a'i llosgi â than, a'u maesydd ffrwythlon wedi myned yn anialwch ac yn llawn drain a miəri; ond fel pe buasai Dduw yn dywedyd, Peidiwch a llwyr ddi-galoni, fy mendith i oedd yn ei gwneud yn ffrwythlon gynt, fe all fy mendith i ei gwneud felly etto. Ond y mae'r geiriau yn cyfeirio at beth mwy na diwygiad a gwelliant gwlad Canaan ddaearol, sef at ddiwygiad a gwelliant eglwys Dduw yn amser y llwyddiant mawr yn y mil blynnyddoedd. Esay lx, 17. *Yn lle pres y dygaf aur, ac yn lle haiarn y dygaf arian, yn lle coed pres, ac yn lle cerrig haiarn.* Y mae hyn yn dangos fod pethau yn myned ar eu gwell; ond mi sylwaf fel y canlyn: I. Fod achos ac eglwys Dduw yn sicr o fyned ar eu gwell. II, Fod amlygiad o ogoniant manegol y Jehofa, a llwyddiant a gwelliant yr eglwys, wedi eu cys-

sylltu â'u gilydd yn annatodol, a hyn fydd i'r Arglwydd yn enw tragywyddol, yr hwn ni thorri ymaith. 1, Fod achos ac eglwys Dduw yn sier o fyned ar eu gwell; yn lle drain y cyfyd ffynid-wydd, ac yn lle mieri y cyfyd myrtwydd: 1, Fe aeth eglwys Dduw ar ei gwell yn foreu iawn, o ran iddi gael datguddiad ac amlygiad o gyfamod gwell; ni bu Duw erioed yn ymwneyd â dyn am fywyd a dedwyddwch, ond trwy un o ddau gyfamod, naill ai trwy y cyfamod o weithredoedd, neu trwy y cyfamod gras; a diau fod dwy ordeinhâd grefyddol yn perthyn i ddyn dan bob un o'r cyfamodau hyny; y ddwy ordeinhad oedd yn perthyn i ddyn mewn diniweidrwydd oedd y ddau bren hyny ag oedd yn nghanol yr ardd; sef pren y bywyd a phren gwybodaeth da a drwg, bwytta o un, a pheidio bwytta o'r llall: pe buasai Adda yn bwytta o bren y bywyd, a pheidio bwyttâ o'r llall, fe fuasai hyny yn selio iddo dri math o fywyd; 1, bywyd ysbrydol, sef arosiad ei enaid yn nghymdeithas â Daw. 2, Bywyd naturiol, sef arosiad ei gorph a'i enaid mewn undeb â'u gilydd, heb farw byth. 3, Bywyd tragywyddol, sef arosiad ei gorph a'i enaid yn y mwynhad o Dduw a phob dedwyddwch yn oes oesoedd, yn ol iddo gael ei dderchafu uwchlaw sefyllfa o brawf; yr oedd bwytta o ffrwyth y pren gwaharddedig yn selio tair marwolaeth iddo yn y fan. 1, Marwolaeth ysbrydol, sef ysgariaeth ei enaid o gymdeithas â Duw. 2, Marwolaeth naturiol, sef ysgariaeth corph ac enaid oddiwrth eu gilydd dros amser. 3, Marwolaeth dragywyddol, sef ysgariaeth corph ac enaid oddiwrth Dduw a phob dedwyddwch dros byth. Fe gollodd dyn rai pethau trwy y cwmp na chaiff byth mo honynt. 1, Bywyd esmwyth a didrafferth ar y ddaear; *dyn a aned i flinder, fel yr eheda y wreichionen i fynu.* 2, Bywyd tragywyddol heb farw; *gosodwyd i ddynion farw unwaith. Ac yn Adda y mae pawb yn meirw.* 3, Mwynhad o Dduw heb un Cyfryngwr; *Ni elli weled fy wyneb i a byw; ond wele fan yn fy ymyl, ar graig cei sefyll. Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu.* "—Ond buddugoliaeth Calfari ennillodd twy yn ol i mi; mi ganaf tra b'wyf byw."

Ni a gawsom rai pethau trwy ras na chwsem byth mo honynt mewn diniweidrwydd. 1, Cafodd ein natur ni ei huno â thragywyddol berson y Gair yn mru'r forwyn. 2, Cawsom destyn newydd i fyfyrto, sef dirgelwch yr undeb personol a gymerodd le rhwng ein natur ni a'r Gair tragwyddol, ar yr hyn bethau y mae'r angylion yn chwennyachu edrych. 3, Testyn newydd i ganu, sef iechydwrïaeth trwy waed calon yr Immanuel; y mae gan y Cristion dri pheth trwy ras na chyll ef byth mo honynt: 1, Undeb â Christ. 2, Ffydd o ymorphwysiad ar aberth y Cyfryngwr. 3, Hawl i'r nefoedd: ond y mae yn bosibl i ni gollu perlau gwell na daear wrth fyned i gofleidio rhyw eulunod, sef derbyniad mynwesol gan yr eglwys, heddwch tawel yn y gydwbybod, a gwedd siriol wyneb Duw wrth gyflawni dyledswyddau; *dal yr hyn sydd genyt, fel na ddygo neb dy goron di*; gwiliwn a byddwn sobr. Ond fe aeth eglwys Dduw ar ei gwell yn foreu, o ran iddi gael amlygiad o gyfamod gwell. Adda oedd pen y cyfamod gweithredoedd, ond Crist yw pen y cyfamod gras. Nid oedd un Cyfryngwr yn y cyfamod o weithredoedd, ond y mae Crist yn Gyfryngwr ac yn Feichiau yn y cyfamod gras. Nid oedd dim maddeuant am un trosedd yn y cyfamod o weithredoedd, ond y mae maddeuant o'r pechodau mwyaf yn y cyfamod gras. Nid oedd un ffynon i olchi neb yn y cyfamod o weithredoedd, ond y mae ffynon yn y cyfamod gras i olchi y duaf eu lliw, a'u gwneyd yn berffaith lân. Yr oedd dedwyddwch dyn yn ymddibynu ar ei ufuddod personol ei hun yn y cyfamod o weithredoedd, ond y mae yn ymddibynu ar Grist, Craig yr oesoedd, yn y cyfamod gras. Nid oedd un drws i wrthgiliwr i ddychwelyd yn ol at Dduw yn y cyfamod o weithredoedd, ond y mae drws i'r penaf o bechaduriaid i droi yn ol at Dduw yn y cyfamod gras. *Wela, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac nis dichon neb ei gau.* 2. Fe aeth yr eglwys ar ei gwell wedi hyny, o ran iddi gael goruchwiliaeth well. Yr wyf yn meddwl fod goruchwiliaeth Sinai yn rhagori ar yr oruchwiliaeth Batriarchaidd, o gymaint ag i'r eglwys gael rheol ddatguddiedig, ac wedi ei ysgrifenu gan fys Duw ei hun; ond yn ol i Grist

ddyfod i'r byd, a marw ar groesbren Calfaria, a dileu ysgrifenlaw'r ordinhadau, ac yn ol i'r Ysbryd Glân ddisgyn ar wyl y Pentecost, fe gafodd yr eglwys oruchwiliaeth lawer gwell; fe gafodd Crist weinidogaeth mwy rhagorol, yn gymaint a'i fod yn Gyfryngwr cyfamod gwell. Y mae'r oruchwiliaeth efengylaidd yn rhagori ar yr hen oruchwiliaeth o ran rhyddid ac esmwythder; nid oes eisiau offrymu y bustych, yr wyn breision, a'r aneirod cochion yn bresennol, na theithio o bell ffordd i Jerusalem dair gwaith yn y flwyddyn, ac nid ydym ni o dan yr efengyl mewn caethiwed, trwy ofn marwolaeth dros ein holl fywyd; ond y mae iau Crist yn esmwyth, a'i faich yn ysgafn. Y mae yn rhagori o ran helaethrwydd ei thertynau, y mae yn cyraedd Iuddewon a Chenedloedd yn ddiwahaniaeth. Y mae yn rhagori o ran goleuni a helaethach tywalltiadau o'r Ysbryd Glân; ac befyd o ran ei pharhad. Gan ein bod yn derbyn teyrnas ddisigl, bydded genym ras, trwy yr hwn y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn. 8, Fe â eglwys Dduwar ei gwell yn rhyfedd etto yn amser y llwyddiant mawr yn y mil blynnyddoedd.

1, A ar ei gwell o ran goleuni a gwybodaeth; *bydd llewyrch y lleuad fel llewyrch yr haul, a llewyrch yr haul fel llewyrch saith niwrnod*, Esay xxx, 26. Ac fe fydd goleuni yn yr hwyr; *canyis y ddaear a lenwir o wybodaeth gogoniant yr Arglwydd, fel y toa y dyfroedd y môr*, Hab. ii, 14. Ac fe ga'r geiriau hyny eu cyflawni, *Cysod, llewyrcha; canys daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat*. Ni bydd drain o draddodiadau dynol a dychymygion Pabaidd yn blino yr eglwys yr amser hyny.

2, A ar ei gwell o ran ei thriniaethiau disgyblaethol; nis goddefir meddwon, na chybyddion, na chrib-ddailwyr, na difenwyr, yn yr eglwys y pryd hyny, na neb a fyddo yn cysgu yn wirfoddol yn moddion gras, dan swngau pen y bryn. Fe fesurir y deml â chorsen ae â llinyn; fe ga'r ddisgyblaeth ei chario yn mlaen yn ol rheolauraidd y gair.

3, Fe â yr eglwys ar ei gwell o ran undeb a thangnefedd; enw'r ddinas o'r dydd hwnw allan fydd, *Yr Arglwydd sydd yno*, Ezec. xlviii, 35. Un vdyw hi, fy ngholomen, fy nihalog; y maent yn awr

yn un, fel corph i'r un pen, fel priod i'r un gwr, fel cynnifer o feini i'r un sylfaen, fel milwyr i'r un brenin; ac y maent yr un o ran dyben, yr un o ran hawl i'r un etifeddiaeth; ond hwy a ddeuant yn un o ran barn a golygiadau; bydd un Arglwydd, a'i enw yn un, a'r Arglwydd yn frenin ar yr holl ddaear, ac fe adferir i'r bobl wesus bur, fel yr addolant yr Arglwydd âg un ysgwydd, Zeph. iii, 9. Zech. xiv, 9. 4. Fe â yr eglwys ar ei gwell o ran sancteiddrwydd ymarferol. *Dy bobl fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth, mewn harddwch sancteiddrwydd; a bydd sancteiddrwydd ar ffrwynau y meirch. Yr had sanctaidd fydd ei sylwedd hi.* Y mae sancteiddrwydd yn angenrheidiol mewn trefn i ni gael cymdeithas â Duw ar y ddaear, a mwynhad o hono mewn gogoniant. Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd. 5, Fe â yr eglwys ar ei gwell o ran rhyddid a diogelwch gwladwriaethol; ni bydd yno ddrain o erlidwyr, na gormeswyr, na gorthrymwyr, na rhyfel, nac anghariad: *Gwnaf dy farnwyr yn heddychol, a th drethwyr yn gysfawn. Ni chlywir ynot miwyach lais wylofain, na llef gwaedd. Mewn cysfawnder y th sicrheir, a byddi bell oddiwrth orthrymder, canys nid ofni, ac oddiwrth ddychryn, canys ni nesa attat,* Esay liv, 14. a i, 26. a lx, 17. 6, Fe â yr eglwys ar ei gwell o ran helaethach tywalltiadau o'r Ysbryd Glân, i argyhoeddi pechaduriaid cyndyn, ac i ddofi a llareiddio dynion gwylltion a chreulon; *A'r blaidd a drig gyda'r oen, a'r llewpard a orwedd gyd a'r mynn; y llo hefyd, a chenau y llew, a'r anisail bras, fyddant yn nghyd, a bachgen bychan a'u harwain,* Esay xi, 6—9. *Y blaidd a'r oen a borant yn nghyd, y llew fel ŷch a bawr wellt; a'r sarph, llwch fydd ei bwyd hi: ni ddrygant ac ni ddistrywiant yn fy holl fynydd sanctaidd, medd yr Arglwydd,* Esay lxxv, 25. Fe gaiff yr Ysbryd Glân ei dywallt i raddau helaethach, i adfywio, i gysuro, ac i sancteiddio'r duwiolion; Yna y llama y cloff fel hydd, ac y can tafod y mudan; canys dyfroedd a dyr allan yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch, Esay xxxv, 6. 7, Fe â yr eglwys ar ei gwell o ran llwyddiant ac ychwanegiad mewn rhifedi. *Dyma'r amser y bydd mynydd*

tŷ'r Arglwydd wedi ei barotoi yn mhen y mynyddoedd, ac yn dderchafedig goruwch y bryniau, a'r holl genhedloedd yn dilifo atto; ac fe fydd canlynwyr Iesu fel y gwllith o groth y wawr: ac efe a wna i hiliogaeth Jacob wreiddio, ac Israel a flodeua ac a flaendarada, a hwy a lanwant wyneb y byd â chnwd, a daw teyrnas-oedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni, a'i Grist ef, Esay ii, 2. Salm cx, 3. Esay xxvii, 6. 8, Fe â'r eglwys ar ei gwell o ran cysur, llawenydd, a gorfoledd; Eithr llawenychwch a gorfoleddwch yn dragywydd yn y pethau a grewyf fi; canys wele fi yn creu Jerusalem yn orfoledd, a'i phobl yn llawenydd; ac ni chlywir ynddi mwyach lais wylofain, na llef gwaedd, Esay lxxv, 18. Ni bydd y pryd hyny ddim drain o gystuddiau, na gorthrymder, na nemawr yn marw, eithr megis dyddiau pren y bydd dyddiau fy mhobl, a'm hetholedigion a hir fwynhant waith eu dwylaw, Esay lxxv, 20—23. Hi a â ar ei gwell wedi hyny yn moreu caniad yr udgorn mawr, a bydd yr eglwys orfoleddus yn y nef yn rhagori yn phhell ar yr eglwys filwriaethus ar y ddaear: y mae yn gymysglyd yma, ond bydd yn ddigymysg yn y nefoedd; y mae yn drist ac yn alarus yma yn aml, ond bydd yn canu ac yn gorfoleddu byth yn y nefoedd; rhyfelwyr yw'r saint ar y ddaear, ond buddugoliaethus fyddant yn y nefoedd. Y mae'r eglwys yma fel y lleuad yn gyfnewidiol, ond hi fydd mewn sefyllfa ddigyfnewid yn y nefoedd; y mae afon marwolaeth yn rhedeg trwy'r eglwys yma, ond fe fydd afon bywyd ac anfarwoldeb yn rhedeg trwy yr eglwys orfoleddus fry: ni bydd yno ddim drain o anghariad, nac ymryson, ond fe fydd heddwch fel yr afon, a chyfiawnder fel tonau'r môr. II, Fod gogoniant manegol y Drindod wedi ei gysylltu yn annatodol â llwyddiant a gwelliant yr eglwys. 1, Y mae gogoniant priodoliaethau y Tad yn gysylltiedig â gwelliant a pherffeithiad yr eglwys. 2, Y mae amlygiad o ogoniant manegol y Mab yn gysylltiedig â llwyddiant a pherffeithiad yr eglwys. 3, Fe fydd amlygiad o ogoniant yr Ysbryd Glân yn tywynau yn rhyfedd yn mherffeithiad yr eglwys; Pan adeilado yr Arglwydd Sion, a'i gwelir ef yn ei ogoniant, a hyn fydd i'r Arglwydd

yn arwydd, ac yn enw tragywyddol, yr hwn ni thorr ymaith. Fe gaiff enw am ethol pechaduriaid cyn bod byd, am ordeinio ei Fab i fod yn Gyfryngwr, a'i ddanfoni'r byd i farw dros bechaduriaid; fe gaiff enw am argyhoeddi pechaduriaid, a'u dal wrth ddrws uffern, ac am eu hail-eni, eu cyfiawnhau, a'u mabwysiadu, ac fe gaiff enw am faddeu, a sancteiddio, a chynal y gweiniaid ar y rhiwiau serth, a'u trosglwyddo yn ddiangol trwy afon angau i dir y bywyd. Addysg 1, Gan mai ar ei gwell yr aiff hi ar ddynion duwiol, glynwn gyda'r achos yn y tywydd garw. 2, Ystyriwn mai ar ei gwaeth yr aiff hi ar bob dyn annuwiol. Gwae yr anwir, drwg fydd iddo! O gwneler ni oll yn dduwiolion. Amen.

1, Y mae'r dyddiau bron a gwawrio i gael rhwymo'r ddraig a'i had, Ac fe ddofir llewod nerthol trwy rinweddau'r dwyfol wa'd; Drain, a d'rysni, a'r mieri, gaiff eu llosgi gan y tân, Daw tyrfaeodd ddrifedi i glodfori'r Iesu Glan.

2, Yn lle drain fe fydd ffynidwydd dros y gwledydd oll i gyd, Sef duwiolion yn dwyn ffrythau trwy rinweddau'r aberth drud, A'r mieri wedi'u llosgi gan dân Iesu'r nefol Sant, A'r duwiolion ar eu cynnydd, fel y myrtwydd yn y pant.

Dat. xxi, 23, *Ar ddinas nid rhaid iddi wrth yr haul, na'r lleuad, i oleuo ynddi: canys gogoniant Duw a'i goleuodd hi, a'i goleuni hi ydyw yr Oen.* Yn y benod hon ni a gawn ddarluniad o ogoniant eglwys Dduw yn y Mil Blynnyddoedd, neu yn amser y llwyddiant mawr, pan y byddo Sion neu y Jerusalem newydd yn ben moliant ar y ddaear. 1, Fe ddywedir yma ei bod yn disgyn o'r nef; i ddangos ei bod o'r nef o ran ei llwyddiant, ei chynnalïaeth, a'i bendithion; ac am y bydd ei serchiadau, ei meddylïau, a'i hymarweddïad yn nefolaidd. 2, Fe ddywedir fod iddi fur mawr ac uchel; sef dysgyblïaeth a llywodraeth dda yn ei gwahanu oddiwrth gyfeiliornadau a thraddodiadau dynol, a rhaglunïaeth ac iachawdwriaeth Duw yn ei diogelu a'i hamddiffyn. 3, Fe ddywedir fod iddi ddeuddeg porth; tri yn edrych tua'r dwyrain, tri tua'r gorllewin, tri tua'r gogledd, a thri tua'r dehau; i ddangos y bydd dyfodfa helaeth iddi o bedwar ewr y byd. 4, Fe ddywedir fod

ei heol hi o aur pur, fel gwydr gloyw; sef moddion gras yn bur, yn ddysglaer, ac yn ddigymysg â dynol ddychymygiol. 5, Fe ddywedir ei bod yn bedeir-onglog; i ddangos ei chadernid a'i dianwadalwch. 6, Fe ddywedir fod y ddinas o aur pur, fel gwydr gloyw; i ddangos ei gwerthfawrogrwydd, ei phurdeb, ei dysgleirdeb, a'i gogoniant. 7, Fe ddywedir fod ei sylfaen wedi ei harddu â phob rhyw faen gwerthfawr, sef athrawiaeth deuddeg apostol yr Oen: bydd wedi ei hadeiladu ar sail yr apostolion a'r proffwydi, a Iesu Grist ei hun yn Ben congl-faen; ac fe fydd yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb yn cael ei pharchu a'i chredu yn galonog yn y mil blynnyddoedd: 1, Athrawiaeth y Drindod. 2, Etholedigaeth bersonol a diamodol. 3, Pechod gwreiddiol. 4, Duwdod Crist a'i Iawn digonol. 5, Pryaedigaeth neillduol. 6, Galwedigaeth effeithiol trwy yr Yspryd Glân. 7, Cyfiawnhad trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist. 8, Yr angenrheidrwydd o sancteiddrwydd mewn calon a bywyd. 9, Parhad mewn gras hyd y diwedd. 10, Atgyfodiad y meirw i'r cyfiawnion a'r anghyfiawnion hefyd. 11, Manyltra, a chywirdeb, a chyfiawnder y farn dragywyddol. 12, Gogoneddiad y saint, a chosp dragywyddol yr annwylion a'r rhagrithwyr. Neu, wrth y deuddeg perl neu y meini gwerthfawr yma y meddylir amrywiaethau doniau yr Yspryd, neu y rhinweddau Cristionogol ag a fydd yn tywynu yn ardderchog yn y duwiolion yr amser hyny: 1, Jaspis yn arwyddo eu dianwadalwch gyda gwaith Duw. 2, Saphir yn arwyddo meddyliau nefolaidd. 3, Calcedon yn arwyddo eu zêl danlyd gyda gwaith Duw. 4, Smaragdus i arwyddo eu bywiogrwydd gyda chrefydd. 5, Sardonycs, maen o amryw liwiau, i arwyddo amrywiaethau doniau yr Yspryd. 6, Sardius i arwyddo eu calonid a'u gwroldeb, a'u parodrwydd i dywallt eu gwaed dros achos Crist. 7, Chrysolithus yn arwyddo eu cariad gwresog at Dduw, neu eu doethineb a'u gwybodaeth. 8, Beryl, deall cryf yn mhethau Duw. 9, Topazion, tuedd i chwilio i mewn i ddirgelwch yr efengyl. 10, Chrysoprasus yn arwyddo difrifwch meddwl gyda gwaith yr Arglwydd. 11, Hy-

acinthus, llawenydd ysprydol. 12. Amethystus, eu sobrwydd a'u cymedroldeb. Ond i ddychwelyd at y testun: *A'i goleuni hi ydyw yr Oen.* 1. Athrawiaeth: Fod holl oleuni yr eglwys yn deillio oddiwrth aberth yr Arglwydd Iesu Grist. Oen Duw, fel aberth dros bechod, ydyw cyfrwng a sylfaen goleuni yr eglwys. 1. Aberth Crist ydyw cyfrwng holl oleuni cysur yr eglwys: pan dorodd dyn y cyfamod o weithredoedd, fe fachludodd haul a goleuni cysur ar holl ddynolryw; yr ydoedd yn hynod o dywyll ar Adda ar ol iddo bechu cyn iddo gael addewid o hâd y wraig, ac ni buasai yn bosibl i ni gael goleuni cysur byth oni buasai i Grist, ffynon cysur a llawenydd y nef, fyned yn drist ei enaid wrth aberthu ei hun tua Chalfaria. Yr oedd y pethau canlynol yn ein gwneud ni yn hollol anghysurus; sef tlodi, afiechyd, euogrwydd, dyled, colli perthynas gyfamodol gyfeill, gar â Duw, a myned dan wng Brenin y brennoedd: ond yn nhriswch ac aberth Crist ar Galfaria fe gafwyd modd i gyfoethi tlodion, ac i feddyginiaethu cleifion Eden; ie, fe gafwyd modd i dalu y dyled, i symud yr euogrwydd, a ni dwyn yn ol drachefn i gymod a chymdeithas â Duw, ac fe agorwyd ffordd i'r Yspryd Glan ddyfod i waered i wlad y ddaear, i weini cysur a diddanwch i'r saint yn nghanol eu gorthrymderau. 2. Aberth Crist, Oen Duw, ydyw sylfaen a chyfrwng holl oleuni llwyddiant yr eglwys: ni buasai dim gwawr na goleu llwyddiant byth ar Sion oni buasai i Grist roddi ei hun yn aberth dros bechod ar Galfaria, a marw mewn tywyllwch tua'r groes. Offeiriadaeth Crist ydyw sail ei frenhiniaeth Gyfrýngol, ac ar sail ei aberth y mae efe yn marchog ar y march gwyn, ac yn myned allan yn gorchfygu ac i orchfygu, ac yn llywodraethu yn nghanol ei elynion, ac yn plygu dynion i fod yn ewyllysgar yn nydd ei nerth, ac yn dwyn y caffaeliaid o law y cadarn; ac y mae y pell yn cael ei ddwyn yn agos trwy wael Crist: gan i'r gronyn gwenith syrthio i'r ddaear a marw, efe a ddwg trwyth lawer; ac fe fydd i'r Iesu bendigedig weled o lafar ei enaid a chael ei ddiwallu. 3. Aberth Crist, Oen Duw, ydyw sylfaen a chyfrwng holl oleuni datguddiad yr eglwys: yn yr olwg ar aberth Crist ni a

welwn yn eglur y pethau canlynol: 1, Mawr ddrwg pechod: y mae yn sicr fod drwg pechod yn ymaddangos yn yr holl annhrefn sydd yn y greadigaeth, ac yn y niwed mawr ag y mae wedi ei wneud i'r enaid; sef ei dwyllo, ei yspeilic, ei feichio, a'i halogi; ac hefyd y mae drwg pechod i'w weled yn nghystuddiau a helbulon y corph, ac yn ymerodraeth angeu a'r bedd, ac yn ngriddfanau tor-calonus y damnedigion yn uffern dân; ond yn neillduol yn nyfnderoedd darostyngiad Arglwydd y gogoniant; sef yn ei dlodi digyffelyb yn y byd, ei chwys gwaedlyd, ei dristwch, ei ing, a'i loesion yn ngardd Gethsemane, ei fflangelliad ar hyd heolydd Jerusalem, ei goroniad â drain, ei syched, ei groeshoeliad, a'i farwolaeth boenus ar Galfaria. 2, Yn yr olwg ar aberth Crist ni a welwn fawr werth enaid: diau fe ymddengys fod enaid yn werthfawr wrth ystyried ardderchawgrwydd ei natur a'r holl ryfel sydd rhwng nef ac uffern yn ei gylch, ac wrth ystyried y llid ag sydd yn uffern, a'r llawenydd sydd yn y nef ar ddychweliad enaid at Dduw, ac hefyd wrth ystyried y parotoadau mawr sydd gan Dduw ar ei gyfer; ond yn neillduol ni a welwn fawr werth enaid yn wyneb aberth Crist, gan nad allasai dim ond gwaed calon Oen Duw brynu un enaid; Gan waredu ni wared neb ei frawd, ac ni all efe roddi iawn drosto i Dduw. Nid â phethau llygredig, megis arian neu aur y'ch prynwyd, ond â gwerthfawr waed Crist, megis oen difeius a difrycheulyd. 3, Yn yr olwg ar aberth Crist, ni a welwn holl briodoliaethau y Duwdod yn tywynu yn eu gogoniant, a'r gyfraith yn anrhydeddus wrth achub pechaduriaid a haeddodd eu damnio dros byth. Fe ddywedodd Crist, Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear, ac a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur, Ac efe a fawrhaodd y gyfraith, ac a'i gwnaeth yn anrhydeddus. 4, Yn yr olwg ar aberth Crist, ni a welwn fod modd i bechaduriaid truenus i gael eu gwneyd yn dragywyddol ddedwydd; sef modd i gyfoethogi tlodion, i wisgo noethion, i feddyginiaethu cleision, ac i olchi yr aflan yn lân, a'u eymmodi â Duw, a'u codi o ymyl fflamiau i uchder gogoniant. 5, Yn yr olwg ar aberth

Crist ni a welwn y frwydr fwyaf wedi ei hynnill gan Iesu, Tywysog ein hiechydwrïaeth, ar groesbren Cal-faria; fe goncwerodd angau, uffern, a'r bedd; ac a ys-peiliodd dŷwysogaethau, ac a ddiddymodd angau, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl; efe a ddaeth i fynu o Edom, yn goch ei ddillad o Bozra, yn ymdaith yn amllder ei rym: ni gawn ninau goncwero trwy ei goncwest ef, a'n gwneud yn fwy na choncwer-wyr, trwy yr hwn a'n carodd ni. 6, Yn yr olwg ar aberth Crist, ni a welwn yr etifeddiaeth dragywyddol wedi ei hynnill, a drws y nef wedi ei agoryd led y pen, a sail i ganiadau diddiwedd gwlad gorfoledd wedi ei rhoi i lawr mewn gwaed yn nghanol tristwch ar fynydd Golgotha, y tu allan i byrth Jerusalem. II. Addysgiadau: 1, Di-olchwn i'r Drindod, er mor dywyll yr aeth hi arnom trwy dorri'r hengyfamod yn Eden, fe gyfododd Haul arnom trwy waed ac aberth Crist, na fachluda byth yn hollol mwy. 2, Chwiliwn a dreiddiodd peth goleuni i'n cyf-lyrau tywyll ni trwy waed ac aberth y bendigedig Gyf-ryngwr. 3, Gochelwn y pechodau ag sydd yn tueddu i attal goleuni cysur oddiwrthym, ac i guddio rhyngom a'r Haul nefol, sef malais, anghariad, diffrwythdra, a choffeidio a mynwesu pechodau dirgel. 4, Dysgwn lynu gydag achos Duw, ac aroswn yn y tŷ'r nos. Y mae goleuni tragywyddol yn aros Sion ar fryniau go-goniant. *Ni fachluda dy haul mwyach, a'th leuad ni phalla; yr Arglwydd dy Dduw fydd i ti yn oleuni tra-gywyddol, a dyddiau dy alar a ddarfyddant.* O am addfedrwydd i'r annedd-le dawel. Amen.

- 1, Mae gwlad o wynfyd pur heb haint,
Byth yno y teyrnasa'r saint;
Lle nad oes tywyll nos ond dydd,
A phleser heb ddim blinder sydd.
- 2, Mae yno yn drag'wyddol haf,
Ni wywa byth mo'i blodau braf;
Ond angau fel môr cul y sy'
Rhyngom a'r wlad nefolaidd fry.

Dan. ii, 34, 35, *Edrych yr oeddit hyd oni thorwyd allan garreg, nid trwy waith dwylaw, a hi a daraw-odd y ddelw ar ei thraed o haiarn a phridd, ac a'u*

maturiodd hwynt. Yna yr haiarn, y pridd, y pres, yr arian, a'r aur, a gyd-faluriasant, ac oeddynt fel man us yn dyfod o'r lloriau dyrnu haf; a'r gwynt a'u dug hwynt ymaith, ac ni chaed lle iddynt; a'r garreg yr hon a darawodd y ddelw a asth yn fynydd mawr, ac a lanwodd yr holl ddaear. Yr ydym yma yn cael hanes am waith Daniel dduwiol yn dehongli breuddwyd y brenin Nebuchodonosor. Y mae y breuddwyd a'i ddehongliad yn gosod allan gadernid, cynnydd, a buddugoliaeth teyrnas Gyfryngol yr Arglwydd Iesu yma yn y byd, ac yn neillduol yn y mil blynnyddoedd; neu ogoniant yr amser a'r dyddiau diweddf. Ond mi sylwaf fel y canlyn: I, Natur brenhiniaeth Gyfryngol yr Arglwydd Iesu. II, Mi sylwaf ar ei chodiad: hi a dorwyd allan nid trwy waith dwylaw. III, Ei gwaith rhyfeddol yn y byd; sef taro a malurio'r ddelw, a'i gwneud fel mân tis o'r lloriau dyrnu haf. IV, Y canlyniad o'r cwbl; sef myned yn fynydd mawr a llenwi yr holl ddaear. I, Natur brenhiniaeth yr Arglwydd Iesu. 1, Brenhiniaeth ysprydol ydyw: Fy mrenhiniaeth i, medd Crist, nid yw o'r byd hwn: y mae yn ysprydol o ran ei dyben, ei chyfreithiau, ei gwobrwyon, a'i chospedigaethau, ac hefyd o ran ei gogoniant. 2, Brenhiniaeth nerthol a rhadarn ydyw, am hyny y mae yn cael ei chydmaru i garreg. Y mae Crist yn cael ei alw yn Graig ac yn Garreg yn aml yn y gair, i ddangos ei gadernid a'i ddi-anwadalwch: fe ddaliodd yn wyneb tân o erledigaethau a themptasiynau y diafol, ac yn wyneb tân o felltithion y ddeddf a digofaint ei Dad. 3, Brenhiniaeth helaeth a chynnydd-fawr ydyw brenhiniaeth Gyfryngol yr Immanuel: Efe a lywodraetha o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear: fe ddaw teyrnas oedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef; ac efe a ddryllia gonglau Moab, ac a ddinystria holl feibion Seth: fe bortreiadwyd cynnydd teyrnas Crist yn nyfroedd Ezeziel ac yn nameg yr hedyn mawstard. 4, Teyrnas ddisigl a diysgog ydyw. *Gan ein bod ni yn derbyn teyrnas ddisigl, bydded genym ras, trwy yr hwn y gwasan-aethom Dduw wrth ei fodd, gyda gwyllder a pharch-edig ofn.* Fe siglodd y seremoniau Iuddewig, ac fe

ddadymchwelwyd llawer o deyrnasoedd mawrion; ond ni sigla teyrnas Crist: carreg ydyw, hi saif yn ddiysgog yn wyneb pob tywydd. 5, Teyrnas fuddugoliaethus ac anorchfygol ydyw, Dan. ii, 44, *Ac yn nyddiau y brenhinoedd hyn y cyfyd Duw'r nefoedd frenhiniaeth yr hon ni ddistrywir byth: a'r frenhiniaeth ni adewir i eraill; ond hi a faturia, ac a dreulia yr holl frenhiniaethau hyn, a hi a saif yn dragywydd.* 6, Brenhiniaeth barhaus a thragywyddol ydyw: *Ac esfe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd, ac ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd.* II, Mi a sylwaf ar ei chyfodiad: Hi a dorwyd allan o'r myaydd, nid trwy waith dwylaw. Hi a ddaeth allan o gyngor ac arfaeth Duw, pa rai sydd fel mynyddoedd o bres. Hi a dorwyd allan, nid trwy waith dwylaw, I, I ddangos nad oedd gan ddyn un llaw nac amcan yn ordemiad Crist i fod yn Gyfryngwr yn nbragywddoldeb; Duw a dderchafodd un etholedig o'r bobl, ac a osododd gymborth ar un cadarn. Hwn a osododd Duw yn Iawn, yr hwn yn wir a rag-ordemiwyd er cyn sylfaenau'r byd. 2, Nid oedd gan ddyn un llaw yn y cyhoeddiad cyntaf o honi yn Eden; Duw ei hun a gyhoeddodd yr iachawdwriaeth gyntaf, a'r testun oedd *Had y wraig.* 3, Nid oedd gan ddyn un llaw yn ffurfiaid dynoliaeth Crist yn nghroth y forwyn, ond fe'i ffurfiwyd gan yr Yspryd Glân; *Y peth sanctaidd a aner o honot ti a elwir yn Fab Duw.* 4, Am nad oedd gan ddyn un llaw yn ei gynnalid i'r lan o dan ei ddiodefidiadau; *Sethrais y gwyn-wryf fy hunan, ac o'r bobl nid oedd un gyda mi.* 5, Nid oedd gan un dyn ddim llaw yn ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, ond hwn a gyfododd Duw y trydydd dydd, ac fe'i heglorwyd yn Fab Duw, yn ol Yspryd sancteiddiad, trwy ei adgyfodiad oddiwrth y meirw. 6, Nid oedd gan awdurdod na doethineb dynol un llaw yn llwyddiant ei efengyl yn mblith y Cenhedloedd; *Eithr y mae genym y trysor hwn mewn llestri pridd, fel y byddai godidawgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni.* III, Y gwaith rhyfeddol y mae Crist yn ei wneyd trwy ei frenhiniaeth gyfryngol; sef taro'r ddelw, a'i malurio, a'i gwneyd fel mân ũs o'r lloriau

dyrnu haf. 1, Wrth y ddelw y meddylir, yn llythyren-ol, y pedair ymerodraeth, sef y Caldeaid, y Persiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid. 2, Pob gau-grefydd; megis Pabyddiaeth, Mahometaniaeth, a Phaganiaeth. 3, Yr eulunod sydd yn nghalonau pechaduriaid. Yma mi gaf enwi rhai o'r eulunod sydd yn ystafelloedd calonau pechaduriaid, ag sydd yn rhaid eu dinystrio gan deyrnas Crist cyn y caffont fyned i mewn i'r nefoedd. 1, Rhagrith: pen o aur, sef proffes dda; breichiau o arian, moesoldeb allanol: y bol o bres: sef yn llawn o swm mawr disylwedd am grefydd: coesaù o bres, sef yn ddigon hy a chalon-galed i ddyfod yn mlaenat fwrdd yr Arglwydd, er gwybod mai gau ddyben sydd ganddo: traed o haiarn a phridd, i ddangos mai torri ac nid plygu a wna rhagrithiwr o dan wialen disgyblaeth: ond y mae yn rhaid i'rh ragrith gael ei llwyr ddinystrio cyn y caffot ti byth fyned i mewn i deyrnas nefoedd. 2, Hunan a balchder: y mae rhai yn ymfalchio ar eu glendid, eu gwisgoedd, eu cryfder, a'u gwaedoliaeth; ond oddi eithr eich troi a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi i mewn i deyrnas nefoedd. 3, Bydolrwydd a chybydd-dod: *Haws yw i gamel fyned trwy grau y nodwydd ddur, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Duw.* 4, Meddwdod a glythineb: cofiwch, y mae yn rhaid i bob peth drwg sydd ynoch gael ei orchfygu gan ras Crist, cyn y gwelir chwi byth ar fryniau gogoniant. IV, Y canlyniad o'r cwbl; sef llenwi yr holl ddaear. 1, O ran gwybodaeth gyffredinol o ogoniant Crist, a rhinweddau ei aberth; fe fydd gwybodaeth o'i ogoniant yn llenwi y ddaear, fel y toa'r dyfroedd y môr. 2, Fe â yn fawr, ac fe leinw'r holl ddaear o ran ei enw; mawr fydd ei enw o godiad hyd fachludiad haul: *O herwydd paham, Duw a'i tra-derchafodd yntef, ac a roddes iddo enw, yr hwn sydd goruwch pob enw.* 3, A yn fawr, ac fe leinw yr holl ddaear o ran ei lywodraeth: *Ese a lywodraetha o fôr hyd fôr.* 4, A yn fawr, ac fe leinw yr holl ddaear o ran clodydd a'gononiant: *O eithafodd y ddaear y clywsom ganiadau; sef gogoniant i'r Cyfiawn.* 5, A yn fawr, ac fe leinw yr holl ddaear o ran ei ganlynwyr; byddant fel y gwllith o

groth y wawr, hwy a lanwant wyneb y byd â chnwd: daw teyrnasoedd y byd yn eiddo i'n Harglwydd ni. O prysured y boreu pan byddo un Harglwydd, a'i enw yn un, a'r Iesu yn Frenin dros yr holl ddaear. *Amen.*

Salm lxxii, 7, 8. *Yn ei ddyddiau ef y blodeua y cyff-iawn; ac amllder o heddwch fydd tra fyddo lleuad. Ac efe a lywodraetha o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear.* Yma mi sylwaf ar y pethau canlynol: 1, Natur brenhiniaeth Gyfryngol Crist; sef ysprydol, cadarn, helaeth, gynnydd-fawr, ddisigl, buddugoliaethus, a thragywyddol. II, Agwedd ei ddeiliaid ef o dan ei deyrnasiad brenhiniaethol yn y mil blynnyddoedd; sef blodeuo: *Yn ei amser ef y blodeua y cyffawn.* 1, Blodeuant mewn undeb a chariad brawdol; fe adferir iddynt wefus bur fel y cyd-addolant ef âg un ysgwydd. 2, Blodeuant mewn gwybodaeth egwyddorol a phrosifiadol. 3, Blodeuant mewn zel danlyd dros burdeb athrawiaeth, a disgyblaeth, ac yn erbyn traddodiadau dynol. 4, Blodeuant mewn gorfoledd a llawenydd, yn ol cael goruchafiaeth ar anghrist. 5, Blodeuant mewn sancteiddrwydd a phurdeb duwiol: *Efe a fodeua fel y lili, ac a leda ei wraidd megis Libanus;* fe â'r gauaf heibio, ac fe welir blodau ar y ddaear; fe ddaw amser i'r adar ganu, ac fe glywir llais y durtur yn y wlad. III, Braint deiliaid Crist; sef cael amllder o heddwch tra paro lleuad. 1, Yn ei ddyddiau ef y gwnaed heddwch yn rhinweddol trwy waed ei groes ef, neu trwy yr iawn anfeidrol a roddes ef ar groesbren Calfaria. 2, Yn ei ddyddiau ef y bydd aml gyhoeddi heddwch trwy y byd, yn mysg yr holl Genhedloedd; sef heddwch i bell ac i agos. 3, Yn ei ddyddiau ef caiff miloedd eu dwyn yn weithredol i heddwch â Duw, a'u cydwybodau eu hunain, ac â gorchwyliaethau ei ragluniaeth. 4, Yn nyddiau ei deyrnasiad brenhiniaethol ef yn y mil blynnyddoedd y bydd amllder o heddwch gwladol a chrefyddol trwy yr holl fyd: fe yrir y cleddyfau yn sychau a'r gwaywffyn yn bladuriau; ac ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach, ond bydd heddwch fel yr afon, a chyfiawnder fel tonau'r mor.

Esay xxxiii, 21, *Eithr yr Arglwydd ardderchog fydd yno i ni, yn fangre afonydd a ffrydiau llydain: y rhwyf-long nid â trwyddo, a llong odidawg nid â drosto.* Yma mi sylwaf fel y canlyn: I, Ardderchawgrwydd y Jehofa. II, Ar rai o'r manau y gellir dywedyd fod yr Arglwydd yno i ni. III, Diogelwch yr eglwys: Rhwyf-long nid â trywddo, a'r llong odidog nid â drosto. I, Ardderchawgrwydd y Jehofa. 1, Mae yn ardderchog yn ei holl briodoliaethau; sef Duw tragwyddol, holl-bresennol, holl-wybodol, ffyddlon, ac anghyfnawidiol, anfeidrol gyfiawn, sanctaidd, galluog, doeth, a da; ac yn llawn cariad a thrugaredd. 2, Y mae yn ardderchog o ran ei enwau; Jehofa-jeire, Ffynon y dyfroedd byw, Haul, a Tharian, &c. *O Arglwydd Ior, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear.* 3, Y mae yn ardderchog yn ei holl weithrediaidau, sef yn ngwaith y greadigaeth, rhagluniaeth, a phrynedigaeth: ardderchawgrwydd a wnaeth efe; sef ordeiniog ei Fab i fod yn Gyfryngwr, ethol miloedd ynddo, rhoi pechodau ei bobl arno, ei ddryllio yn lle'r euog, a derbyn iawn oddiw'rtho; ac hefyd ardderchawgrwydd a wnaeth efe wrth argyhoeddi'r cyndyn: dyma lle mae rhagorol fawredd ei nerth ef yn ymddangos; cyfiawnhau'r euog, sancteiddio, mabwysiadu, cynal gweiniaid, concwero gelynon. Gwnaeth yn rhagorol iawn. 4, Y mae yn ardderchog o ran ei gyflawnderau; sef *mangre afonydd a ffrydiau llydain*; y mae yntdo gyflawnder o ras maddeuol, sancteiddiol, cynorthwyol, a gogoneddol; y mae ynddo ddigon i'rh olechi, ac i dorri dy syched am byth: y mae yn Jehofa, yn Dduw trugarog a graslawn. II, Rhai o'r manau hyny ag y gellir dywedyd fod yr Arglwydd yno i ni. 1, Yn yr arfaeth, yn trefnu Cyfryngwr ac iechydwr iaeth gyflawn. 2, Ar Galfaria, yn dryllio ei Fab, ac yn derbyn iawn oddiw'rtho yn lle'r euog. 3, *Yno i ni*; sef yn ngoruchwiliaeth rhagluniaeth i'n diogelu a'n hamgyn. 4, *Yno i ni*; sef yn ei dŷ, i'n dysgu, i'n unu, ein gwledda, a'n meddyginiaethu. 5, *Yno i ni*; sef wrth orsedd gras, i wrando ein gweddiau, ac i ein beichiau i lawr. 6, *Yno i ni*; sef yn afaon

angau, i ddal ein pen i'r lan uwchlaw y tonau, a'n trosglwyddo yn ddiangol i dir y bywyd. 7, *Yno i ni*; sef yn y farn, i'n harddel; ac yn y nefoedd, i fod yn wrth-ddrych ac yn ffynon dedwyddwch i ni byth. III, Diogelwch yr eglwys. 1, Y mae fel dinas, ac afonydd, a ffrydiau llydain o'i hamgylch i'w diogelu. 2, Y mae fel ynys gadarn, a'r môr o'i hamgylch: *Dinas gadarn sydd i ni, Duw a esyd iechydwrïaeth yn gaerau ac yn rhagfur. Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?*

Dan xii, 1, *Ac yn yr amser hwnw y saif Michael y tywysog mawr, yr hwn sydd yn sefyll dros feibion dy bobl; yma y bydd amser blinder, y cyfryw ni bu er pan yw cenedl hyd yr amser hwnw: ac yn yr amser hwnw y gwaredir dy holl bobl. y rhai a gaffer yn ysgrifenedig yn y llyfr.* Crist a feddylir yma wrth Michael y tywysog mawr. Ystyr y gair Michael yw, Pwy fel Duw; neu Pwy sydd debyg i Dduw. 1, Pwy fel Duw o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb? 2, Pwy fel Duw yn holl-bresennol, holl-wybodol, a holl-alluog? 3, Pwy fel Duw mewn doethineb, cyfiawnder, a sancteiddrwydd? 4, Pwy fel Duw mewn cariad, daioni, a thru-garedd? 5, Pwy fel Duw mewn ffyddlondeb ac anghyfnawidoldeb? 6, Pwy fel Duw mewn gweithredoedd, dedwyddwch, a gogoniant? Ond mi sylwaf I, Ar y titl a roddir i Grist, y Tywysog mawr. II, Ei waith; sefyll dros ei bobl. III, Y canlyniad; gwaredu ei holl bobl, y rhai a gaffer yn ysgrifenedig yn y llyfr. I. Y titl Tywysog mawr. 1, Fel Tywysog y mae wedi derbyn ei swydd a'i awdurdod gan y Tad, fel Pen-llywodraethwr. 2, Fel Tywysog y mae yn ynyll ac yn plygu dymion i fod yn filwyr iddo. 3, Fel Tywysog y mae yn rhoi gorchymynion i'w filwyr. 4, Fel Tywysog y mae ganddo elynion. 5, Fel Tywysog da y mae yn cynnyg amodau heddwch eyn taro. 6, Fel Tywysog, os bydd yr heddwch yn cael ei ddiystyru, fe ladd yn ddirugaredd. Y mae yn cael ei alw yn Dywysog y bywyd, yn Dywysog iechydwrïaeth, yn Dywysog y tangnefedd; yma y mae yn cael ei alw yn Dywysog mawr. 1, Y mae yn fawr o ran ei berson. 2, Y mae yn fawr o ran ei gariad; *Cariad mwy na*

hwn nid oes gan neb, sef bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion. 3, Y mae yn fawr o ran ei fuddngoliaethau; Concweroedd angau, uffern, a'r bedd. 4, Mae yn fawr o ran ei amynedd at wrthryfelwyr. 5, Mae yn fawr o ran haeddiant ei aberth a'i gyfraniadau i'w filwyr: *Ac efe a rana'r yspail gyda'r cedyrn.* Ac hefyd o ran ei ogoniant. II, Ei waith; sefyll dros feibion ei bobl. 1; Safodd drostynt yn yr arfaeth fel meichiau; fe'u derbyniodd oll i'w ofal, ac ymrwymodd i dalu eu holl ddyled. 2, Fe safodd drostynt ar Galfaria, i ymladd â'u gelynion, i dalu eu dyled, ac i dderbyn y felldith a'r digofaint ag oeddent hwy yn eu haeddu. 3, Mae yn sefyll drostynt yn ei ragluniaeth i'w diogeli. 4, Mae yn sefyll drostynt fel Eiriolwr yn y nefoedd. 5, Saf drostynt yn angeua'r farn. III, Y canlyniad, gwaredu ei holl bobl, 1, Oddiwrth euogrwydd. 2, Oddiwrth arglwyddiaeth pechod. 3, Oddiwrth ddigofaint. 4, Oddiwrth holl effeithiau pechod i gyd. Byddwn yn fyddlon iddo, cryned ei elynion, gorfoledded y saint. Amen.

Holiad. A fydd dynion yn oleu, yn wybodus, ac yn hyddysg iawn yn yr Ysgrythurau yn y Mil Blynedd-oedd?

Atteb. Byddant yn sicr. Dan. xii, 4, *Llawer a gynniweiriant, a gwybodaeth a amlheir.* 1, Byddant yn wybodus ac yn hyddysg iawn yn hanesion y gair. 2, Yn athrawiaeth y gair. 3, Yn ngorchymynion a chyfarwyddiadau y gair. 4, Yn addewidion a bygythion y gair. 5, Byddant yn deall sylwedd y eysgodau a'r proffwydoliaethau yn dra eglur yr amser hyny. 6, Byddant yn hyddysg a gwybodus iawn yn nghyffelybiaethau a damegion yr Ysgrythurau.

Ioan. Enwch i mi rai o Ddamegion Crist.

Luc. I, Dameg yr hauwr, Mat. xiii, 1—10. 2, Dameg efrau'r maes, Mat. xiii, 24—31. 3, Yr had yn tyfu, Marc iv, 26—30. 4, Yr had mwstard, Mat. xiii, 31, 32. 5, Dameg y surdoes, Mat. xiii, 33—36. 6, Y trysor wedi ei guddio mewn' maes, Mat. xiii, 44. 7, Dameg y perl gwerthfawr, Mat. xiii, 45, 46. 8, Y hwyd a fwrwyd i'r môr, Mat. xiii, 47—53. 9, Y ddau

ddyledwr, Luc vii, 41; 42. 10, Y gwas anrhugarog, Mat. xviii, 23—35. 11, Y Samaritan-trugarog, Luc x, 30—38. 12, Y gwr goludog ynfyd, Luc xii, 16—22. 13, Y ffigysbren diffrwyth, Luc xiii, 6—11. 14, Y ddafad gyfrgolledig, Luc xv, 3—8. 15, Y dryll arian, Luc xv, 8—11. 16, Y mab afradlon, Luc xv, 11—32. 17, Dameg y goruchwyliwr anonest, Luc xvi, 1—13. 18, Y gwr goludog a Lazarus, Luc xvi, 19—31. 19, Y barnwr anghyfiawn, Luc xviii, 1—8. 20, Y Pharis-ead a'r Publican, Luc xviii, 9—15. 21, Cyflogi gweith-wyr i'r winllan, Mat. xx, 1—17. 22, Dameg y punnoedd, Luc xix, 11—28. 23, Dameg y winllan, Mat. xxi, 33—42. 24, Gwledd y briodas, Mat. xxii, 1—15. 25, Dameg y deng morwyn, Mat. xxv, 1—14. 26, Dameg y tafentau, Mat. xxv, 14—31.

Y mae dameg yr hauwr yn gosod allan y gwahanol effaith y mae y gair yn gael ar ddyinion. Y mae dameg yr efrâu yn dangos fod rhagrithwyr a du-wiolion yn yr eglwys. Dameg yr had yn tyfu sydd yn dangos graddol lwyddiant yr efengyl, a chynnydd gras yn yr enaid. Y mae dameg yr hâd mward yn gosod allan lwyddiant yr efengyl, cynnydd yr eglwys, a chynnydd gras yn y Cristion. Mae dameg y surdoes yn dangos fod yr efengyl a'r anian newydd yn gweithio yn taddol, yn ddirelaidd, ac yn anwrthwynebol. Mae dameg y trysor a'r perl gwerthfawr yn dangos fod tuedd mewn dyn i ymofyn am ddedwyddwch, a bod pechadur teimladwy yn foddlon ymadael â phob peth er mwyn Crist. Mae dameg y rhwyd a fwrwyd i'r môr yn gosod allan fod yr efengyl yn cael ei phre-gethu i luddewon a Chenhedloedd, a bod duwionion a rhagrithwyr yn yr eglwys isod; ond cânt eu didoli yn y farn. Mae dameg y ddau ddyledwr yn dangos fod pawb wedi mayned i'r un pwl o duedd, a bod Duw yn madden yn had i'r ediferiol. Mae dameg y gwas anrhugarog yn dangos y dylai dynion faddeu i'w cyd-greaduriaid. Mae dameg y gwr goludog yn dangos nad bes dim gwir ddedwyddwch mewn mwymant daearol, a bod em bywyd yn hynod o anserfenol. Mae dameg y ffigysbren diffrwyth yn gosod allan ddiffwrwythdra y

genedl Iuddewig yn amser Crist, a bod barn Duw yn barod i ddisgyn arnynt. Mae dameg y Samaritan trugarog yn dangos pwy sydd i'w ystyried yn gymydog da. Mae dameg y ddafad gyfrgolledig, y dryll arian, a'r mab afradlon yn dangos fod galwad y Cenhedloedd a dychweliad pechaduriaid yn hyfrydwch gan Dduw ac yn llawenydd i'r angylion, er fod yr Iuddewon a dynion hunan-gyfiawn yn grwgnach ac yn tramgwyddo. Mae dameg y goruchwyliwr anghyfiawn yn dangos y dylem ni iawn ddefnyddio cyfoeth a thrysorau daear trwy fod yn elusengar. Mae dameg y gwr goludog a Lazarus yn dangos y dylem ni iawn ddefnyddio y datguddiad dwyfol, ac nid disgwyl am un gennadwri arall. Mae dameg y barnwr anghyfiawn yn dangos y dylem ni ddyfal barhau mewn gweddi, a bod yn daer iawn wrth yr orsedd. Mae dameg y Pharisead a'r Publican yn dangos y dylem weddio yn ostyngedig, a than gyfaddef ein beiau, ac yn deimladwy o'n hangen. Mae dameg cyflogi gweithwyr i'r winllan yn dangos nad yw Duw ddim yn ddyledwr i neb, ac y gall wneud a fyno a'i eiddo ei hun, ac y cai y Cenhedloedd fwynhau yr un breintiau a'r Iuddewon. Mae dameg gwledd y briodas yn dangos fod yr Iuddewon yn gwrthod yr efengyl a'r Cenhedloedd yn ei derbyn, a bod rhagrithwyr yn yr eglwys yn mhob oes. Amcan dameg y deng morwyn yw anog dynion i wyllo a bod yn barod bob amser. Amcan dameg y talentau yw anog dynion i fod yn ffyddlon a diwyd yn y mwynhad o'u breintiau.

Ioan. Pa beth oedd rhai o wyrthiau Crist?

Luc. 1, Troi y dwfr yn win, *Ioan* ii, 1—12. 2, Iachau mab pendefig, *Ioan* iv, 47—54. 3, Yr helfa bysgod, *Luc* v, 1. 4, Bwrw'r diafol allan, *Marc* i, 22—28. 5, Iachau chwegr Pedr a llawer o rai clesion eraill, *Marc* i, 30—45. 6, Iachau gwas y canwriad, *Mat.* viii, 5—14. 7, Cyfodi mab y weddw o Nain, *Luc* vii, 11. 8, Rhodio ar y môr a thawelu yr ystorm, *Mat.* xiv, 25, a *Marc* vi, 48, 49. 9, Iachau y rhai diefig, *Luc* viii, 43. 10, Iachau y claf o'r parlys, *Mat.* ix, 1. 11, Bywhau merch Jairus, *Mat.* ix, 18. 12, Iachau y

wraig a'r diferlif, Luc viii, 43. 13, Rhoddi golwg i ddau ddeillion, Mat. ix, 27. 14, Iachau y mud, Mat. ix, 32. 15, Iachau y claf wrth lyn Bethesda, Ioan v, 1. 16, Bwrw allan gythraul, Mat. xii, 22. 17, Porthi pum' mil, Mat. xiv, 15. 18, Iachau merch y wraig o Ganaan, Mat. xv, 22. 19, Iachau'r mud a'r byddar, Marc vii, 31. 20, Porthi pedair mil, Mat. xv, 32. 21, Roddi golwg i'r dall, Marc viii, 22, 22, Bwrw cythraul o fachgen, Mat. xvii, 14. 23, Rhoddi golwg i un a aned yn ddall, Ioan ix, 1. 24, Iachau gwraig a fu mewn gwendid ddeunaw mlynedd, Luc xiii, 11. 25, Iachau un o'r dropsi, Luc xiv, 1. 26, Glanhau deg o rai gwahanglwyfus, Luc xvii, 11. 27, Cyfodi Lazarus, Ioan xi, 43. 28, Rhoddi golwg i ddau ddeillion, Mat. xx, 30. 29, Crino'r ffigysbren, Mat. xxi, 18. 30, Iachau clust Malchus, Luc xxii, 50. 31, Helfa wyrthiol o bysgod, yn ol iddo adgyfodi o feirw, Ioan xxi, 6.

Ioan. Gwnewch ychydig o sylwiadau byrion ar yr ysgrhythrau a'r pethau canlynol.

Luc. Gwnaf, ond mewn modd byr iawn; oblegid nad oes amser i helaethu ond ychydig iawn yn bresennol. Gen. iv, 15, *A'r Arglwydd a osododd nod ar Cain, rhag i'r neb a'i caffai ei ladd ef.* Fe ddywed rhai iddo gael ei droi yn ddu, neu ryw nod ar ei dalcen, neu fod rhyw fath o gryndod yn ei holl gorph; ond fe ddichon fod Duw wedi rhoddi iddo arwydd boddlonol na chai neb ei ladd. Gen. v, 27, *A holl ddyddiau Methusalem oedd naw mlynedd a thrugain, a naw can mlynedd, ac efe a fu farw.* Fe ddichon fod y cyn-dduliwiaid yn byw yn hir oblegid eu bod yn byw yn gymhedrol, ac yn ymborthi ar bethau ag oedd yn gytunol â natur, a Duw hefyd yn trefnu i hysy fod, i drosglwyddo ymarferiadau crefyddol i'r oes oedd yn canlyn, pryd nad oedd datguddiad dwyfol yn ysgrifenedig. Gen. x, 9, *Am hyny y dywedir. Fel Nimrod, heliwr cadarn ger bron yr Arglwydd.* Yr oedd Nimrod wedi gwneyd ei hun yn enwog trwy hela a lladd creaduriaid gwylltion; ac efe a sylfaenodd frenhiniaeth, ac fe aeth yn ormeswr creulon, ac hefyd efe aeth yn wrthryfelwr yn erbyn Duw, ac yf

ddrygionus yn ei olwg. Exod. xxiii, 19. *Na ferwa
fynn yn llaeth ei fam.* Mae Duw yn gwahardd hyn,
am ei bod yn ddefod eulun-addolgar. Yr oedd rhat o'r
Cenhedloedd yn berwi'r oen blaen-firwyth yn llaeth ei
fam, ac yna yn taenellu'r llaeth ar hyd y coed ag oedd
yn eu gwinllanoedd a'u perllanau, gan feddwl y byddent
yn fwy firwythlon y flwyddyn ganlynol. Deut. xi, 10,
*Nid fel tir yr Aipht y mae, yr hwn y daethoch allan o
hono, lle yr heuaist dy had, ac y dyfrheuaist â' th. droed,
fel gardd lysiau.* Gwlad sych iawn oedd yr Aipht, ac
yr oedd ganddynt fath o beirianau i godi dwfr o'r ddaear i
ddyfrhau eu tir a'u gerddi, ac yr oeddynt yn gweithio ac
yn troi y peirianau hyn a'u traed. Barn. ix, 13, *A
ymadawaf fi â'm metyswin, yr hwn sydd yn llawenhau
Duw a dyn?* Dylai'r gair Duw yma gael ei gyfieithu,
Y duwiau, gan arwyddo tywysogion a llywodraethwyr
gwladol; a'r meddwl yw fod gwin yn fuddiol i loni ac
adfywio pob sefyllfa o ddyinion, sef y brenhinoedd a'r
cyffredin bobl. 2 Bren, vi, 25, *Ac yr oedd newyn mawr
yn Samaria: ac wele, yr oeddent hwy yn gwarchae arni
hi, nes bod pen asyn er pedwar ugain sicl o arian, a
phedwaredd ran cab o dom colomennod er pum sicl o
arian.* Wrth y dom colomennod ag oedd yn cael ei
werthu yn Samaria yn amser y newyn, y mae i ni ddeall
rhyw fath o ffacbys, neu lasur gwael, neu y gwêhilion;
yr oedd point o hono yn werth pumtheg swllt o'n harian
ni. O mor drwm oedd y newyn! 2 Bren. v, 17, *A
Naaman a ddynwedodd; Oni roddir yn awr i' th was
lwyth cropl o fulod o ddaear?* Mae'n debyg mai codi
allor i Dduw oedd Naaman yn feddwl wneyd a'r ddaear
ag oedd efe yn ei geisio gan Eliseus. Job xxviii, 7, *Y
mae lhybr nid adnabu aderyn, ac ni chanfu llygad
barcud.* Mae yn sicr fod llawer o bethau gwerthfawr
mewn natur, a llawer o drysorau cuddiedig yn y
ddaear heb eu canfod etto; mae Duw yn eu cadw i'r oes-
oedd sydd yn dyfod: y mae hefyd lawer o bethau
mewn rhagluniaeth a gras heb eu datguddio yn eglur
etto; ond ni a gawn wybod ar ol hyn. Diar xxvi, 4,
*Na atteb ynfyd yn ol ei ynfydrwydd, rhag dy fod yn
guffelyb iddo.* Nis dylem ei atteb ef pan y byddo yn

llawn o dymherau drwg, rhag i hyny fod yn achos o ymryson, ac ymladd, a thywallt gwaed: y mae amser i dewi ac amser i ddywedyd. Nis dylem ei ateb mewn dull o ymfrost, fel y bydd ef yn ymfrostio am dano ei hun, ond distawrwydd dirmygus fydd oreu tu ag at ladd ei falchder, a'i gywilyddio am ei eiriau chwyddedig a'i ymfrost gwag. *Diar. xxvi, 5, Atteb yr ynfyd yn ol ei ynfydrwydd, rhag iddo fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun.* Os bydd yn hoani gwybodaeth fawr am ryw bethau mewn cyfeillach, dylid ei ateb, a dangos iddo ei anwybodaeth, neu os bydd yn cyhoeddi cyfeiliornadau; fe ddylid ei ateb a'i wrthwynebu, rhag iddo dwyllo ereill, a thybied ei hun ar yr iawn ffordd. *Diar. xxx, 15, I'r gele y mae dwy ferch yn llefain, Moes, moes: Creulondeb a chybydd-dod; y mae creulondeb yn llefain am fwy o waed, y chybydd-dod yn llefain am fwy o gyfoeth.* *Preg. i, 4, Ond y ddaear a saif byth.* Mae hyn yn arwyddo, er fod un genhedlaeth yn myned heibio, a dynion yn marw, fod y ddaear yn para o oes i oes i fod yn breswylfod i'r cenedlaethau sydd etto i ddyfod. *Preg. vii, 16, Na fydd ry gyfiawn, ac na chymer arnat fod yn rhy ddoeth.* Hyny yw, na fydd hunan-gyfiawn, ac yn hunan-dybus, ac yn meddwl dy fod yn well, yn gyfiawnach, ac yn ddoethach na neb arall. *Preg. viii, 10, Ac felly mi a welais gladdu y rhai annuwiol, y rhai a ddaethent ac a aethent o le y Sanctaidd; a hwy a ebargofiwyd yn y ddinas lle y gwnaethent felly.* Wrth le y Sanctaidd yma y mae i ni ddeall llysoedd gwladol, lle y byddai dynion yn arferol o dyngu a derbyn llwon ger bron y Duw sanctaidd, ac wrth y rhai annuwiol yma y meddylir y barnwyr anghyfiawn, ac yn ol iddynt farw byddai eu coffadwriaeth yn darfod, a'u henwau yn pydru mewn-angof. *Preg. ix, 2, Yr un peth a ddamwain i'r cyfiawn a'r annuwiol.* Nid yw'r gwr doeth yma yn crybwyll am eu sefyllfa dragywyddol, ond y mae yn dangos fod pawb yn agored i ofidiau, gorthrymderau, cystuddiau, a marwolaeth naturiol. *Preg. xi, 4, Y neb a ddalio ar y gwynt, ni haw; a'r neb a edrycho ar y cymylau, ni feda.* Y mae y gwr doeth yn ein hannog i beidio a gadael i bob

rhwystrau ymddangosiadol ein hattal i gyflawni ein dyledswyddau, yn neillduol rhoi elusenau i'r tylodion, a chyfranu at achos Duw. Esay vii, 15, *Ymenyn a mel a fwytty efe; fel y medro ymurthod â'r drwg, ac ethol y da.* Y mae'r geiriau yn brophwydoliaethol am Grist, ac yn dangos er iddo gael ei genhedlu mewn modd goruwchnaturiol, etto ei fod yn cael ei fagu a'i feithrin, ac yn cynnyddu fel plant eraill, ac yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr. Esay xxiv, 5. *Canys fy nghledyfa drochir yn y nefoedd: wele, ar Edom y disgyn i farn, ac ar y bobl a ysgymunais.* Yr oedd yn arferiad gynt i drochi cleddyfau mewn rhyw beth i'w gwneyd yn fwy miniog, ac hefyd i wneyd yr archollion yn farwol; ond y mae cleddyf cyfiawnder wedi cael ei drochi mewn digofaint i'r annuwiol, sef y rhai sydd yn cael eu hysgymuno gan Dduw. Esay xliii, 24, *Ni phrynaist im galamus ag arian, ac ni'm llenwaist â brasder dy ebyrth.* Yr oedd llawer o'r Iuddewon yn gwario eu harian ar eu melus chwantau, ac yn offrymu eu pethau gwaelaf, megis y cloff a'r dall i Dduw. Esay xlii, 19, *Pwy mor ddall a'r perffaith, a dall fel gwas yr Arglwydd?* Yr oedd y Phariseaid a'r offeiriaid Iuddewig yn weision i Dduw trwy broffes, ac yn berffeithiach na neb yn eu golwg eu hunain, ond yn cau eu llygaid yn erbyn goleuni yr efengyl, a hwedi cael eu rhoddi i fynu i dywyllwch barnedigaethol. Esay liii, 8, *Aphwy a draetha ei oes ef?* Y mae'r prophwyd yma yn prophwydo am Grist a'i ddiodeffadau. Pwy a draetha rinweddau ei fywyd yma yn y byd, ac a ddadleu o'i blaid yn wyneb y barnwyr anghyfiawn? Pwy a draetha rhifedi a gogoniant ei genhedlaeth, neu ei wir ganlynwyr, neu ogoniant a defnyddioldeb, a pharhad ei fywyd cyfryngol yn y nef. Jer. vii, 18, *Y plant sy yn casglu cynnud, a'r tadau yn cynneu tân, a'r gwragedd yn tylino toes, i wneuthur teisenau i frenhines y nef.* Y mae y geiriau yn cynnwys fod yr eulun-addolwyr yn ddiwyd iawn wrth y gwaith o addoli'r lleuad, trwy rwdelw oedd ganddynt; ac y mae y Papistiaid yn addoli y forwyn Fair, yr hon y maent yn ei galw, Brenhines y nef. Ezeec. xx, 25, *Minau hefyd a roddais iddynt*

ddeddfau nid oeddynt dda, a barnedigaethau ni byddent fyw ynddynt. Y mae yn sicr fod y ddeddf foesol a'r ddeddf seremoniol, a'r gyfraith farnol, wedi cael eu rhoddi gan Dduw da, i ddybenion da, ond yr oedd wedi rhoddi y bobl hyn i fynu mewn ffordd farnedigaethol, i ddilyn rheolau a defodau gwag yr eulun-addolwyr. Ond nid âf i ychwanegu.

O agor fy llygaid i weled dirgêlwch dy arfaeth a'th air,
Mae'n well i mi gyfraith dy enau na miloedd o arian ac aur;
A'r ddaear ar dân a'i thrysorau, ond geiriau fy Nuw saif yr un,
Y bywyd trag'wyddol yw 'nabod fy Mhrynwr sy'n Dduw ac yn ddy.

Dat. xxii, 1, *Ac efe a ddangosodd i mi afon bur o ddwfr y bywyd disglaer fel grisial, yn dyfod allan o orsedd-fainc Duw a'r Oen.* Mi sylwaf fel y canlyn; I, Y desgrifiad a roddir yma o'r efengyl a'r iechydwriaeth; sef afon bur o ddwfr y bywyd. II, Ei tharddiad, sef o orsedd-fainc Duw a'r Oen. III, Fod yr iechydwriaeth hon yn cael ei dangos i bechaduriaid; *Efe a ddangosodd i mi afon bur o ddwfr y bywyd.* I, Y desgrifiad a roir yma o'r iechydwriaeth, afon bur o ddwfr y bywyd. 1, Afon ar gyfrif ei chyflawnder, sef cyflawnder o heddwch a matdeuant, goleuni a meddyginiaeth. 2, Afon ar gyfrif ei defnyddioldeb, sef i firwythloni, i olchi, i ddi-sychedu, ac i gario trysorau i mewn i'r ddinas, ac i ddiffodd tân o lygredd ac euogrwydd yn y saint. 3, Afon ar gyfrif ei rhadlonrwydd: Wedi ein cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef trwy'r prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu; yn rhad yr etholwyd yn yr arfaeth foreu, yn rhad y mae yn galw, yn sancteiddio, yn cynal ei bobl ar y rhiwiau serth, ac yn eu dychwelyd o'u gwrthgiliadau. 4, Afon, ar gyfrif ei bod yn rhedeg yn anwrthwynebof: nis gall mynyddoedd o eulun-addoliaeth, na bryniau o falchder, na chreigiau o anghrediniaeth, nac anialwch o baganiaeth, na muriau o rag-farn, ddim ei rhwystro i fyned yn mlaen. Mae yn cael ei galw yn afon bur, i ddangos fod yr efengyl yn ddigymysg â dychymygion dynol, ac i ddangos fod rhinwedd yn yr iechydwriaeth i buru, i lanhau, a sancteiddio pechaduriaid. Dwfr y bywyd: nid cronfa farw, ond dwfr buwiol ydyw; ac

hefyd y mae yn rhoddi bywyd i bechaduriaid meirw, sef bywyd cyfiawnhaol, sancteiddiol, cysurol, a gogoneddol. *Disglaer fel grisial*; maen goleu, disglaer, tambaid ydyw. Y mae rhinwedd yn yr iechydwrriaeth i oleuo dynion i weled drwg pechod, gwerth crefydd, a gogoniant Crist, a'r cyflawnder sydd ynddo i bechaduriaid. II, Ei tharddiad, sef o orsedd-fainc Duw a'r Oen. Mae hyn yn arwyddo tri pheth; 1, Fod yr iechydwrriaeth yn tarddu o ben-arglwyddiaeth Duw, ac yn ol ei gyngor a'i ddoethineb, 2, Yn unol â gogoniant Duw. 3, Trwy aberth Crist, Oen Duw. III, Fod Duw yn dangos yr iechydwrriaeth hon i bechaduriaid; *Ese a ddangosodd i mi afon bur o ddwfr y bywyd*. 1, Y mae efe yn dangos i bechaduriaid ffynon yr iechydwrriaeth, sef cariad rhad pen-arglwyddiaethol y Jehofa. 2, Y mae efe yn dangos i bechaduriaid yr angenrheidrwydd o iechydwrriaeth. 3, Mae efe yn dangos addasrwydd yr iechydwrriaeth ar gyfer eu hangen. 4, Mae efe yn dangos dedwyddwch etifeddion yr iechydwrriaeth. 5; Mae yn dangos y perygl mawr o esgeuluso yr iechydwrriaeth. Pa fodd y diangwn ni os esgeuluswn iechydwrriaeth gymaint? O! dyger ni oll i afael yr iechydwrriaeth. *Amen*.

Dat. xxii, 2, *Ynghanol ei heol hi, ac o ddau tu'r afon, yr oedd pren y bywyd, yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth, bob mis yn rhoddi ei ffrwyth; a dail y pren oedd i iachau y cenhedloedd*. Yma mi sylwaf, I, Ar yr enw a roddir yma i Grist y Cyfryngwr, Pren y bywyd. II, Ar y cyflawnder o ffrwythau sydd arno. III, Rhinweddau ei ddail, sef iachau y cenhedloedd. 1, Yr enw a roddir yma i Grist y Cyfryngwr, Pren y bywyd; pren i ddangos ei fod yn gadarn, yn llawn nodd, yn cynnyddu o ran ei ogoniant manegol a helaethrwydd ei deyrnas, yn gysgod-fawr ac yn llawn ffrwythau, ac y mae adar yr arfaeth yn nythu yn ei ganghenau ef: Pren y bywyd; efe yw sylwedd pren y bywyd ag oedd gynt yn y baradwys ddaearol; y mae yn ffynon bywyd ynddo ei hun, yn rhoi bywyd i bechaduriaid, yn cynnal yn perffeithio bywyd ei bobl. II, Y cyflawnder o ffrwythau sydd arno: yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth,

1, Cyfiawrhad i'r euog. 2, Maddeuant i drosoddwyr. 3, Mabwysiad i estroniaid. 4, Sancteiddiad i'r aflan. 5, Heddwch â Duw, a heddwch cydwybod. 6, Cysur a gorfoledd mewn gorthrymderau. 7, Cymdeithas â Duw fel Drindod. 8, Iawn i gyfiawnder. 9, Anrhydedd i'r gyfraith. 10, Nerth yn ol y dydd. 11, Buddugoliaeth ar bob gelyn. 12, Gogoniant diddiweddedd ar dawel fryniau purdeb. Y mae cyfiawnder yn Nghrist ar gyfer ei blant bob tymor, digon yn yr haf poeth o brofedigaethau, a digon yn y gauaf o henaint, a'r mis du o gystuddiau. III, Rhinweddau ei ddail, sef iachau'r cenhedloedd. Mae pechaduriaid yn llawn o glwyfau ac afiechyd pechod; y mae'r pen oll yn glwyfus, a'r galon yn llesg: y mae afiechyd pechod wedi amddifadu dyn o'i harddwch gwreiddiol, ac yn ei analluogi i wneyd dim drosto ei hus, ac yn ei chwyddo mewn balchder, ac yn ei wneyd yn sychedig am y byd a'i wagedd; ac y mae afiechyd pechod yn sior o ladd, os na cheir meddyginiaeth yn fuan, ond y mae dail y pren yn iachau y cenhedloedd, sef ei gyfryngol swyddau, ei waeddyd haeddedigaethau, ei ordeinhadau, a'i addewidion; y mae'r feddyginiaeth sydd yn Nghrist yn addas, yn rhad, yn gyflawn, ac yn feddyginiaeth dragywyddol. O cyswlyser hi attom ni oll. Amen.

Dat. iv, 1, Ar ol y pethau hyn yr edrychais; ac wele, ddros wedi ei agoryd yn y nef: a'r llais cyntaf a glywas bedd fel llais adgorn yn ymddiddau a mi; gan ddwywedyd, Dring i fynu yma, a mi a ddangosaf i ti y pethau sydd raid eu bod ar ol hyn. Da yw i ni edrych ar ol y pethau hyn; nid ar y pethau a welir, ond ar y pethau nis gwelir; y mae yr annuwiolion yn edrych yn awr yn flagurog, yn ben-uchel, yn llawen, ac yn llwyddiannus; ond edrychwch arnynt ar ol y pethau hyn, chwi gewch eu gweled mewn tristwch, todi, carchar, ac mewn cadwynau tragywyddol: y mae y dawiol yn awr mewn rhyfel; mewn adfyd, a than y groes, ond edrychwch arno ar ol y pethau hyn, chwi gewch ei weled yn mwynbau cyflawnder heb ddiffyg, heddwch heb ryfel, coron heb groes, a gogoniant heb warth. Y mae egiwys Dduw yn edrych yn wael a dilewytch ha llwydd-

iant yn bresennol; ond edrychwch ar ol hyn, chwi gewch ei gweled yn enwog ac yn glodfawr yn holl dir ei gwarth, wedi ei gwisgo â'r haul, ac ar ei phen goron o ddenddeg seren, ac yn bur fel yr haul, ac yn ofnadwy fel llu banerog: ond mi sylwaf fel y canlyn: I, Yr hyn a welodd Ioan, sef drws wedi ei agoryd yn y nef. II, Llais Duw tu ag atto, Dring i fynu yma. III, Addewid Duw iddo, sef dangos iddo y pethau sydd raid eu bod ar ol hyn. I, Yr hyn a welodd Ioan, sef drws wedi ei agoryd yn y nef. 1, Mae bod drws wedi ei agoryd yn y nef yn arwyddo fod rhyw ddirgeledigaethau newydd i gael eu datguddio; fe gafodd olwg newydd ar ogoniant y Mawrhydi dwyfol, yn debyg i faen jaspis, sardin, a smaragdus. Jaspis, maen o liw gwyn, i arwyddo y Todyn ei burdeb a'i sancteiddrwydd. Sardin, maen o liw coch, i arwyddo Crist yn ei ddiodefïadau. Smaragdus, maen o liw gwyrdd, i arwyddo yr Ysbryd Glân yn ei fendithion ffrwythlonol, i ireiddio, ac i lasu ei eglwys. 2, Drws wedi ei agoryd yn y nef, yn arwyddo fod gan Dduw ryw beth i ddywedyd wrth bechaduriaid, sef mewn ffordd o orchymyn, mewn ffordd o addewid, mewn ffordd o gysur ac o gerydd; y mae ganddo air i ddywedyd wrth y duwiol, wrth yr annuwiol, wrth y rhagrithiwr, ac hefyd wrth y gwrthgiliwr. 3, Mae bod drws wedi ei agoryd yn y nef yn arwyddo fod ffordd i fendithion ddyfod i lawr o'r nef i'r ddaear, a ffordd i'n gweddïau a'n personau ninau fyned o'r ddaear i'r nef; y mae drws y nef yn agored. 4, Y mae bod drws y nef yn agored yn arwyddo fod dydd gras yn para, ac fod yn hoff gan Dduw achub pechaduriaid; a'r porth ni chaur hyd yr hwyr. 5, Mae fod drws y nef yn agored yn arwyddo fod y saint heb dd'od adref i gyd etto: pan elo'r saint i mewn gydag ef i'r briodas, fe gauir y drws. 6, Mae bod drws y nef yn agored yn dangos fod i'r Cristion sail cysur. Pan fyddo pob drws yn cael ei gau yn ei erbyn yn y byd, y mae drws y nef yn agored. Dywedodd Stephan, pan oedd pob drws yn cael ei gau yn ei erbyn yma ar y ddaear, Mi welaf y nef yn agored, a'r Iesu yn sefyll er ddeheu-law y Tad. II, Llais Duw at Ioan, Dring i fynu yma;

y mae hyn yn cynnwys y pethau canlynol. 1, Mae'r gair Dring i fynu yma yn cynnwys fod tuedd mewn dynion i aros gormod mewn rhyw wastadedd anghyfreithlon; sef mewn gwastadedd o gwmmi yr annuwiol, a chydymffurfiad â'r byd hwn; mewn gwastadedd o ddirfwrch enawdol, o ddifaterwch am achos Duw, ac mewn gwastadedd o wag-escusodion, ac o ddyledswyddau allanol, dynol-ddysgeidiaeth, a thymerau a serchiadau naturiol mewn crefydd. 2, Mae'r gair Dring i fynu yma yn cynnwys mai nid gwaith hawdd yw myned tua'r nef, ond gwaith gorchestol ydyw. Llauer a geisiant fyned i mewn, ond nis gallant; y mae yn rhaid croeshoelio y enawd, a thynu y llygad dehau o bechodau anwylaf, ac y mae yn rhaid ymdrechu ymdrech deg, a chadw'r ffydd. 3, Mae'r gair Dring i fynu yma, yn cynnwys fod mynyddau o anhawoderau ar y ffordd; sef mynydd o dywyllwch yn y deall, mynydd o gnawdolrwydd a daearoldeb yn y serchiadau, a mynydd o euogrwydd yn y gydwybod; ie, mynydd tywyll o ofnau ac amheuan, ac o wng rhagluniaeth, a mynydd tanllyd o brofedigaethau a themtasiynau y gelyn diafol, a mynydd sych Gilboa yn y profiad yn aml. 4, Mae y gair Dring i fynu yma yn cynnwys fod rhyw beth ar y rhiwiau serth i'r pererinion i ymallyd pan byddont bron a cholli eu hanadl, sef addewidion cadarn yr efengyl. 5, Mae'r gair Dring yn cynnwys eu bod yn meddu ar fywyd, ac fod nôd o'u blaen i gyrru atto. Yr ydwyf yn cyrru at y nod am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu. III, Addewid Duw i'r dringwyr, sef dangos iddynt y pethau sydd raid eu bod ar ol hyn: y mae Duw yn dangos llawer o bethau iddynt. 1, Y mae yn dangos y gyfraith yn ei manyldra iddynt. 2, Mae yn dangos pechod yn ei ffeiddra iddynt. 3, Mae yn dangos Crist yn ei rinweddau a'i ogoniant iddynt. 4, Mae yn dangos y byd yn ei dwyll a'i wagedd iddynt. 5, Mae yn dangos crefydd yn ei gwerth a'i dymunoldeb iddynt. 6, Mae yn dangos y nefoedd yn ei daioni a'i helaethrwydd iddynt. 7, Mae yn dangos iddynt y pethau sydd raid eu bod ar ol hyn. Clywch, y mae'n rhaid i ryw bethau fod ar ol

hyn. 1, Mae'n rhaid i'r ofengyl gael ei phregethu trwy yr holl fyd. 2, Mae yn rhaid i enlun-addoliaeth a phaganiaeth ddiffamu. 3, Mae'n rhaid i goelgrefydd ddarfod, a Babilon fawr i ddyfod i lawr. 4, Mae yn rhaid i'r Iuddewon ddyfod i gredu, a chyflawnder y Cenhedloedd i ddyfod i mewn, a Sion i fyned yn bea rhofiant ar y ddaear. O bobl, cofiwch yn nghanol eich llwyddiant a'ch iechyd am y pethau sydd raid eu bod ar ol hyn; rhaid marw ar ol hyn, rhaid myned i'r farn ar ol hyn, rhaid byw yn nhragwyddoldeb ar ol hyn. Addysg 1, Rhyfeddwn fod drws y nef yn agored, a Duw yn galw ar ol pechaduriaid. 2, Peidiwn glynu gormod wrth y ddaear, a Duw yn ein galw tua'r nef. 3, Cadwn ein gofng yn aml ar y pethau sydd ar ol hyn, ac ymaslwn yn yr addewidion ar y fhrisiau nerth, a glynwn yn ein proses. Amen.

Dat. iv, 6, *Ac o flaen yr orsedd-fainc yr ydoedd môr o wydr, yn debyg i grystal: ac yn nghanol yr orsedd-fainc, ac yn nghylch yr orsedd-fainc, yr oedd pedwar anifeil yn llawn o lygaid o'r tu blaen ac o'r tu ol.* Nid gorsedd barn ond gorsedd gras sydd i ddeall yma. Wrth orsedd gras y mae ini tithall trefn a llywybr Duw i gymodi â phechaduriaid, ac i gyfrannu bendithion trwy aberth ac iawn Crist: ond mi sylwaffel y canlyn: I, Ar yr orsedd-fainc. II, Yr hyn sydd o flaen yr orsedd-fainc, sef môr o wydr, tebyg i grystal. III, Y rhai sydd o nghylch yr orsedd-fainc, sef pedwar anifeil yn llawn o lygaid o'r tu ol ac o'r tu blaen. I, Mi sylwaf ar yr orsedd-fainc hon, sef gorsedd-fainc y gras. Y mae pedwar peth yn perthyn i orsedd-fainc, neu i'r hwn sydd yn eistedd arni. 1, Mawredd; felly y mae anifeidrol fawredd yn perthyn i'r Duw tragwyddol; y mae mawredd yn ei enw, y mae yn Frenin y brenhaeoedd, ac yn Arglwydd yr argtwyddi; y mae mawredd yn ei lais, daw a'r deillion i weled, a'r mudaniaid i lesaru, a'r byddariaid i glywed, a'r cloffion i famu, a'r meirwon yn fyw; hefyd y mae mawredd yn ei roddion. Yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant. 2, Mae awdurdod yn perthyn i orsedd-fainc; neu i'r hwn a fyddo yn eistedd arni; felly y mae anifeidrol awdurdod yn perthyn

i Dduw; y mae ganddo awdurdod i blygu y peb y myno, i gyfranu ei roddion i'r neb y myno, ac i faddeu i'r neb y gwelo efe fod yn dda; yn ol ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu y nef ac â thriGolion y ddaear. 3, Y mae cyfiawnder yn perthyn i'r orsedd-faine hon: Cyfiawnder a barn yw trigfa dy orsedd-faine. Mewn cyfiawnder y mae yn maddeu yn achub, ac yn gogoneddu, y mae grâs yn teyrnasu trwy gyfiawnder i fywyd tragywyddol. 4, Y mae gogoniant yn perthyn i orsedd-faine; felly y mae holl briddoliaethau Duw yn tywynu yn eu disglair ogoniant ar orsedd gras, wrth achub pechaduriaid: yma y mae yn ymddangos yn Dduw cyfiawn, yn llawn cariad a thrugaredd, ac yn Dduw parod i faddeu, ac y mae yn cyhoeddi maddeuant i'r euog, rhyddid i'r caethion, cyfoeth i ddiolion, a bywyd i'r condemniedig oddiar orsedd gras. II, Yr hyn sydd o flaen yr orsedd-faine hon, sef môr o wydr, tabyg i grystal: môr pres oedd gynt yn y deml, ond môr o wydr sydd yma yn y Jerusalem newydd; sef addoliad pur a digymysg â dynol draddodiadau, neu oruchwyliaeth ddisglair yr efengyl, neu gyfiawnder a gwaed Crist. Fe ellir cyfelybu gwaed Crist i fôr ar yr ystyr-iaethau canlynol: 1, Môr, ar gyfrif ei gyfiawnderau; er i holl lestri thrugaredd godi o hono, y mae yn para yr un o ran ei gyfiawnder; er i'r nentydd o gysonon daerol sychu, ni sycha moroedd gras; y mae gwaed Crist yn anchwiliadwy. 2, Môr, ar gyfrif ei gyson- ysgogiadau, fel cyfrwng cymundeb rhwng y saint a Duw. Y mae Crist yn byw bob amser i ariol drostynt hwy. 3, Môr, ar gyfrif ei uchel swniadau; se swnia y môr weithiau nes dystewi lleisiau oreill; felly se swnia gwaed Crist yn y weinidogaeth, nes dystewi tarpan Sina, a swn y byd, a llais cydwybod euog yn nghyffwrdd llawer; ie, nes dystewi caniadau gwag y Cenhedloedd i'r gau-dduwiau trwy yr holl fyd: A'i lais sydd fel swn llawer o ddyfroedd. 4, Môr, ar gyfrif ei ddefnyddiol rinweddau; y mae yn ddefnyddiol i olehi, i buro, a meddyginiaethu, ac hefyd i drosglwyddo perllau gwell na'r byd i bechaduriaid; sef heddwoh, maddauant, a chymdeithas â Duw, a phob bendith ysbrydol. 5,

Môr, ar gyfrif ei anfeidrol ddyfnderau; y mae yn ddigon dwfn i orchuddio mynyddoedd o bechodau a brynau o euogrwydd damniol; efe a deifl ein holl bechodau i ddyfnder y môr. Gwelwn yma hefyd sefyllfa'r môr hwn, sef o flaen yr orsedd-fainc; y mae hyn yn dangos fod gwaed ac aberth Crist yn werthfawr iawn gan Dduw; y mae o flaen ei orsedd-fainc; ac yn dangos nad oes gan Dduw un ffordd i estyn trugaredd a maddeuant i bechadur ond trwy y gwaed, ac nad oes un ffordd i bechadur nesu at Dduw ond trwy y gwaed. Y mae'r môr oddi amgylch yr orsedd-fainc, ond y mae i ni ryddid i fyned i'r cysegr trwy waed Iesu ar hyd ffordd newydd a bywiol, III, Ar y rhai sydd yn nghanol yr orsedd-fainc, ac o'i hamgylch, sef pedwar anifail a phedwar henuriad ar hugain. Wrth y pedwar henuriad ar hugain y mae i ni ddeall yr holl eglwys fawr i gyd yn cael ei chynnychioli o dan yr Hen Destament gan y deuddeg patriarch, ac yn cael ei chynnychioli o dan y Testament Newydd gan ddeuddeg Apostol yr Oen; ac wrth y pedwar anifail y mae i ni ddeall holl weinidogion yr efengyl, pa rai sydd yn cario ei genadwri i bedwar cwr y byd. Dywedir yma dri pheth am danynt. 1, Eu bod o flaen yr orsedd-fainc; i ddangos mai gan Dduw y maent yn derbyn eu cenadwri, a'u bod yn cael ei gyfrinach mewn modd neillduol, ac yn sefyll rhwng Duw a phechaduriaid, fel geneuau cyhoeddus. 2, Fe ddywedir eu bod yn llawn o lygaid o'r tu ol ac o'r tu blaen, i ddangos eu bod yn edrych yn ol ar gariad tragwyddol y Jehofa, yn myfyrio arno, ac yn ei ryfeddu; maent yn edrych yn mlaen ar y farn dragwyddol ac ar ddedwyddwch y duwiol a phoenau'r annuwiol; ac y maent yn gwylho dros eneidiau, ac yn cadw eu golwg ar y gwan a'r olaf, yn gystal ag ar y cryfaf a'r blaenaf yn y fyddin. 3, Fe'u cyffelybir yma i lew, i ŷch, i ddyrn, ac i eryr yn ehedeg; llew, i ddangos eu bod yn galonog, ac yn ddychrynlyd o ran eu gweinidogaeth i'r annuwiol; ŷch, i ddangos eu bod yn llafurus, yn amyneddgar, a dianwadal; wyneb fel dyn, i ddangos eu bod yn ddoeth, yn serchog, ac yn cydymdeimlo â goraill; eryr, i ddangos eu bod yn ehedeg yn uchel

mewn myfyrdodau nefolaidd, ac yn edrych yn graff i mewn i ddirgelwch y prynedigaeth. Diolchwn i Dduw am ei fod yn para i eistedd ar orsedd gras, a defnyddiwn y môr o waed Crist hyd nes y delom yn berffaith iach. *Amen.*

Dat. i, 16, *A'i wyneb-pryd fel yr haul yn disgleirio yn ei nerth.* Mae Ioan yma yn adrodd un o'r gweledigaethau rhyfedd a welodd ef yn ynys Patmos: sef saith canwyllbren aur, ac un yn' rhodio yn eu canol tebyg i Fab y dyn, a gwisg laes hyd ei draed; sef Crist fel offeiriad, a'i wisgoedd offeiriadol am dano: a gwregys aur yn nghylch ei lwynau, i ddangos ei ffyddlondeb a'i barodrwydd i gyflawnu ei swydd: a'i wallt yn wyn fel gwllân, i ddangos ei fod yn ddoeth, yn anrhydeddus, ac yn deilwng o barch: ei lygaid fel fflam dân, i ddangos ei fod yn holl-wybodol, yn canfod ac yn gwybod pob peth: a'i draed megis pres coeth yn llosgi mewn ffwrn, i ddangos ei fod yn ddigon cadarn i ddal pwysau ei eglwys a sathru ei holl elynion: ond yma, ei wyneb-pryd fel yr haul yn disgleirio yn ei nerth. Wrth wyneb Crist yma y deallir ei bresenoldeb cysurol a diddanol gyda'i bobl yn y weinidogaeth: ond mi sylwaf fel y canlyn; I, Fod gwedd wyneb Crist gyda'i bobl yn cario effeithiau dymunol, fel yr haul yn ei nerth. II, Addysgiadau cymhwysiadol. I, Fod gwedd wyneb Crist, fel yr haul, yn cario effeithiau dymunol. 1, Mae gwedd wyneb Crist gyda'i bobl trwy'r weinidogaeth, fel yr haul, yn ymlid y tywyllwch i ffwrdd o'i flaen; sef tywyllwch paganauidd, Pabyddiaeth, a chyfeiliornadau o bob math, a'r tywyllwch o anwybodaeth o gyflyrau ei bobl; ac fe ymwelir â'r rhai sydd yn eistedd mewn tywyllwch â chodiad haul o'r uchelder, ac fe gaiff y y ddaear ei goleuo gan ei ogoniant. 2, Mae presenoldeb Crist gyda'i bobl yn y weinidogaeth, fel yr haul, yn egluro ac yn dangos pethau yn eglur yn eu hagwedd briodol; sef drwg pechod, gwerth crefydd a duwioldeb, a'r perygl o fyw mewn gau noddffeydd. 3, Mae gwedd wyneb Crist gyda'i bobl trwy'r weinidogaeth, fel yr haul yn ei nerth, yn gwesogi, yn toddi, ac yn meiriofi calonau oerllyd, celyd, a rhewllyd pechadur-

iaid: Onid yw fy ngair i fel tân? medd yr Arglwydd.

4, Mae presenoldeb Crist gyda'r weinidogaeth, fel yr haul, yn adfywio ac yn ffrwythloni'r saint mewn duwioldeb a sancteiddrwydd, ac yn eu haddfedu i'r nefoedd.

5, Mae presenoldeb Crist gyda'r weinidogaeth, fel yr haul, yn crino yr holl lysiau a'r ehwyn drwg ag sydd yn tyfu yn nghyffyrâu y saint; sef y balchder, bydoddrwydd, anghariad, rhagfarn, y llid, y malais, a'r holl efrau drwg ag sydd am godi yn agwinllan eu calonau.

6, Mae presenoldeb Crist, fel yr haul, wrth edrych arno âg wyneb agored, yn dwyn y duwiolion i gollu eu golwg ar y byd ac ar holl ogoniant y ddaear, ac yn eu dwyn i farau yn fwy golud ddirmyg Crist na holl drysorau y byd.

7, Mae presenoldeb neillduol Crist gyda'i bobl yn y weinidogaeth, fel yr haul yn ei nerth, yn dwyn dynion i ymfyn ymguddfa a lle i orphwys ganol dydd; ie, y mae yn dwyn dynion i ymfyn am y babell sydd yn gyagod y dydd rhag y gwres.

8, Mae presenoldeb Crist gyda'i bobl, fel yr haul yn ei nerth, yn tebygoli'r saint iddo eitha mewn disgloirdeb a gogoniant. *Eithr nymi oll ag wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megis mewn drych, a newidir e'r unrhyw ddeitw o ogoniant i ogoniant, megis gan Yspryd yr Arglwydd.*

9, Fel yr haul yn ei nerth, fe sugna'r saint atto ei hun, pa rai sydd yn cael eu cydmaru i wllith yn yr ysgrythurau: pan y tywyno ef ar gymylau'r nef yn y dydd olaf, ni a gupir i fynu yn y tymylau, i gylarfod a'r Arglwydd yn yr awyr: yno y byddwn yn wastadol gyda'r Arglwydd.

II, Addysgiadau: 1, Diolchwn i Dduw am iddo ymweled â ni â chodiad haul o'r uchelder. 2, Gwyliwn rhag y pechodau ag sydd yn achos i'r haul fachludo ganol dydd yn ein profiadau. 3, Neswn at yr haul, i grino ein llygredd, i doddi ein calonau, i adfywio ein grasusau, ac i'n haddfedu i fyned i'r nefoedd. *Amen.*

Dat. xii, 1. *A rhyfeddod mawr a welwyd yn y nef: gwraig wedi ei gwisgo a'r haul, a'r llenad dan ei thraed, ac ar ei phen-goron o ddeuddeg seren. Yma mi sylwaf fel y canlyn: I, Yr esw a roddir yma i'r*

eglwys, sef gwraig. II; Ei sefyllfa, sef yn y nef. III, Ei hagweddi a'i haddurniadau; sef wedi ei gwisgo â'r haul, a'r lleuad dan ei thraed; ac ar ei phen goron o ddenddeg seren. IV, Pod yr eglwys yn rhyfeddod mawr. 1, Yr enw a roddir yma i'r eglwys; sef gwraig. 1, Gwraig, i ddangos ei bod wedi ymbriodi â Christ; sef yn ei berson, ei swyddau, ei groesau, ac yn holl ddibenion ei gyfryngdod. 2; Am er bod yn wan ynddi ei hun; llestr gwan ydyw: y mae yn wan o ran ei ffydd yn anaf, ond y mae yn dyfod i fynu o'r anialwch ac yn pwysu ar ei hanwlyd. 3; Gwraig, i ddangos ei bod yn llawn cariad, a serch at Grist, ei Phriod: y mae yn glaf o gariad atto. 4, Gwraig, am ei bod yn magu ac yn meistrin plant i Dduw; hi ydyw y Jerusalem benuchod, yr hon ydyw ein mam ni oh. II, Ei sefyllfa, sef yn y nef. Wrth y nef yma y meddytir yr oruchwyliaeth efangylaidd. 1, Nef, i ddangos er bod yn fwy goleu na'r hen oruchwyliaeth. 2, Nef, i ddangos ei bod yn fwy esmwyth. 3, Am ei bod yn fwy pur a lisslaer. 4; Yn fwy parhaus a disigl. III, Ei haddurniadau. 1, Wedi ei gwisgo â'r haul; sef addoliad pur, ieu ynteu wedi ei gwisgo yn nghyfiawnder Crist: mae Crist yn cael ei alw yn Haul ar gyfrif ei unigolrwydd, ei ffeithiau, a'i ysgogiadau diffino. 2; A'r lleuad dan ei braed. 1, I ddangos ei bod wedi ymadael â'r serenoniau luddewig. 2, Ei bod yn edrych yn wael ar y byd a'i ogoniant, mewn cyferbyniad i Grist a'i grefydd, *an farnu yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau'r lipht*. 3, Mae bod y lleuad dan ei thraed yn arwyddo ad ydyw yn sefydlu ei dedwyddwch yn y byd, ond yn r Arglwydd, yr hwn a ddichon lenwi holl ddiffygiadau'r enaid. *Pwy sydd genyf yn y nefoedd ond tydi?* 4; Mae bod y lleuad o dan ei thraed yn arwyddo fod ei archeiadau a'i myfyrdodau yn gweithredu ar bethau efol a thragywyddol. Y mae y byd hwn, fel y lleuad, a llawn o frychau, yn gyfnewidiol, ac yn cario llawer effeithiau ar ei feddiannydd. IV; Pod yr eglwys yn rhyfeddod mawr: sef o ran ei genedigiaeth newydd, ei wisgoedd, ei haddurniadau, ei gwleuddoedd a'i dantbion, ei diogelwch, a'i gwaredigaethau; ac hefyd y...

mae yn rhyfedd iawn o ran ei gweinyddwyr, sef yr angylion; o ran ei cherbyd, sef y cyfamod gras; ac o ran ei hetifeddiaeth, sef y nefoedd a'i holl gyflawnderau. Gwelwn yma fraint a gogoniant eglwys Dduw, sef wedi ei gwisgo â'r haul; byddwn byw, o ran ysbryd ein meddwl, uwchlaw'r byd, a rhoddwn ein serch ar y pethau sydd uchod, ac nid ar y pethau sydd ar y ddaear, ac na chyd-ymffurfiwn â'r byd hwn. Fe â eglwys Dduw yn ogoneddus iawn ar y ddaear cyn pen hir, sef yn y mil blynnyddoedd; ond bydd yn llawer mwy gogoneddus yn y nefoedd. O am addfedrwydd i'r annedd-ldonydd. Amen.

Heb. x, 34, *Gan wybod fod genych i chwi eich hunain olud gwell yn y nefoedd, ac un parhaus.* Mi sylwaf fel y canlyn: 1, Fod golud neu gyflawnder yn aros y saint yn y nefoedd; sef 1, Golud o lawenydd a gorfoedd: *Goddiweddant lawenydd a hyfryddech; a chystudd a galar a ffy ymaith. Llawnydd tragnyddol fydd iddynt.* 2, Golud a chyflawnder o heddwch. *Mawr fydd heddwch dy feibion.* A'th heddwch fydd fel yr afon, a chyflawnder fel tonau'r môr. 3, Golud o oleuni. *Yr Arglwydd dy Dduw fydd i ti yn oleuni tragnyddol, a dyddiau dy alar a ddarfyddant.* 4, Golud o sancteiddrwydd: *Nid â dim aflan i mewn yno.* 5, Golud o adnabyddiaeth o bethau ysbrydol. *Yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir.* 6, Golud o gymdeithas â Duw, a mwynhad o hono dros byth; *Gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych, mewn dameg, ond yna wyneb yn wyneb.* II, Fod golud y nef yn well ac yn rhagor, yn mhell ar olud y ddaear. 1, Y mae yn olud gwell am ei fod yn ysbrydol a diniwed o ran ei natur. Y mae llawer o faglau, a phrofedigaethau, a balchder, ac angof o Dduw, yn cydfyned yn aml â golud y ddaear; *Yr hwn sydd yn ewyllysio ymgysfoethogi, sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a nweidiol, y rhai sydd y bodd i dynion i ddinystro a cholledigaeth.* 2, Golud gwell, am y gwna efe gyflawn foddioni yr enaid, a llenwi ei holl ddiffygiadau. *Digonir fi pan ddihunwyf a'th ddeleu di.* 3, Golud gwell, am ei fod yn anchwiliadwy a di-

dreulio: fe ddangosodd Hezeciah ei holl gyfoeth, ond nis gall y Cristion ddangos ei holl gyfoeth byth: fe dreuliodd y mab afradlon y cyfan oll ar a feddai, ond nis gall y Cristion ddim treulio ei etifeddiaeth byth; etifeddiaeth ddiiddiffannedig ydyw. 4, Golud gwell, am ei fod yn olud diogel a pharhaus: nis gall rhwd ei lygru, na lladron ei ladratta, na'r tân ei losgi, na'r môr ei lyngcu: am hyny trysorwn ein trysorau yn y nefoedd. III, Fod gwybod fod i ni olud gwell yn y nefoedd yn fuddiol i ni yma ar y ddaear. 1, Y mae gwybod fod i ni olud gwell yn y nefoedd yn fuddiol i'n cadw rhag cenfigenu wrth lwyddiant a hawddfyd y rhai annuwiol. 2, Y mae gwybod fod i ni olud gwell yn y nefoedd yn foddion i'n cadw yn foddion ac amyneddgar mewn gorthrymderau, gofidiau, a thlodi, ac ystyried mai dros brydaawn yr erys wylofain, erbyn y bore y bydd gorfolodd. 3, Y mae gwybod fod i ni olud gwell yn y nefoedd yn foddion i'n gwneud yn wrol ac yn galonog yn wyneb erlid, dioddefnadau, a merthyrdod. 4, Mae gwybod fod i ni olud gwell yn y nefoedd yn ein dwyn i garu Duw yn fwy gwresog, ac hefyd i felysu dyfroedd chwerau Mara i ni yma yn yr anialwch. 5, Mae gwybod fod i ni olud gwell yn y nefoedd yn foddion i godi ein serch oddiwrth y byd i'r nefoedd, a'n dwyn i hiraethu am fyned adref. Addysg 1, Dysgw'n beidio sefydlu ein cartref yma yn y byd. 2, Byddwn yn ddiwyd i ymofyn am law'n sicrwydd gobaith. 3, Byddwn yn ddiwyd ac yn llafurus i aiferyd a'r moddion sydd yn tueddu at ein gwneuthur yn gyfoethog yn y byd nesaf. O am addfedrwydd i'r aneddle sanctaidd. Amen.

Eph. iv, 13, *Hyd oni ymgysarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at Iesur oedran cyflawnder Crist.* Y mae yr apostol yn dangos yma fod gan Grist waith mawr yn cael ei gario yn mlaen yn y byd presenol, sef donio a danfon gweiniogion i bregethu yr efengyl, galw ac argyhoeddi pechaduriaid, cyflawnhau a sancteiddio, cynal ei blant, a chonewero ei elynion; ac fe wna Crist barhau wrth y gwaith yma nes delo'r saint adref i'r un gymanfa fawr, lle na bydd neb o honyat yn eisiau: hydsonid ym-

gyfarfyddom oll yn undeb fydd a gwybodaeth Mab Duw: ond mi sylwaf fel y canlyn; I, Natur y cyfarfod sydd yn aros y saint ar fryniau gogoniant. II, Rhesymau i brofi y daw'r saint adref i'r un cyfarfod. I, Natur y cyfarfod sydd yn aros y saint ar fryniau gogoniant. 1, Cyfarfod llawn o undeb a thangnefedd: bydd Iuddewon a Chenhedloedd yno mewn undeb perffaith â'u gilydd; bydd Luther, Suinglius, Calvin, a Melancthon, a'r gwahanol enwau crefyddol yno mewn undeb barn a golygiadau:

“Bydd pawb o'r brodyr yno'n un, heb neb yn tynu'n groes, Yn molï'r Duwdod yn y dyn, a chofio angeu loes.”

Yno fe fydd heddwch fel yr afon a chyfiawnder fel tonau'r môr. 2, Cyfarfod llawn o wybodaeth ac adnabyddiaeth sylweddol o bethau ysprydol a thragywyddol: yno ni a fyddwn yn gwybod pa fath ydyw cyrph ysprydol, ac a fyddwn ni yn ymddiddan ac yn cymdeithasu â'n gilydd ai peidio, a pha fath ogoniant a fydd yn perthyn i gorph Crist, *oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae*: ie, ni a fyddwn yn gwybod ai trwy gyfrwng dynoliaeth y Cyfryngwr y byddwn yn gweled ac yn mwynhau y Duwdod ai peidio:—

Y Dŵ'n llewyrchu 'maes, trwy'r dyn, ei bur ogoniant ar bob un.

Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych, mewn dammeg; ond yna, wyneb yn wyneb: yn awr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir. 3, Cyfarfod llawn o berffeithrwydd: fe fu yr eglwys o dan yr hen Destament yn ei babandod, ac y mae fel yn ei hieuenctyd o dan yr oruchwyliaeth efangylaidd; ond yn y nefoedd *yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist*. Fe fydd y saint yno yn berffaith mewn sancteiddrwydd: fe fydd y cof, y deall, yr ewylllys, y serchiadau, a'r gydwylbod yn llawn o sancteiddrwydd. Byddant yr berffaith o ran nerth, ac iechyd, a harddwch corphorol: ni bydd yno wendid babanaidd, na llesgedd na methiant gan henaint; ond *yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist*. Fe fydd pawb mewn cyflawn nerth a maintioli, fel dyn deg ar hugain oed, yn debyg i Adda pan y cafodd ei greu, neu yn debyg i

gorph Crist pan y cafodd ei groeshoelio. 4, Cyfarfod cryno a lluosog, heb neb yn eisiau: fe fydd pawb o'r duwiolion yno, heb neb ar goll na neb ar ddisperod. Pan fyddwyf yn myned i gymanfaoedd a chyfarfodydd mawrion yma ar y llawr, yr ydwyf yn gweled llawer o weision enwog Iesu yn eisiau ynddynt yn bresenol. Pa le y mae yr enwog Mr. D. Davies, o Abertawe, uo o'r areithwyr mwyaf hyfryd a melus a fu yn Nghymru erioed; yr hwn a ddywedai am ogoniant Crist a rhinweddau ei aberth, a chyflawnder a rhadlonrwydd yr iachawdwriaeth, ac am freintiau y duwiolion a gwynfyd y saint yn y nef, hyd nes y byddai calonau cannoedd yn toddi, a lluoedd yn llamu o lawenydd? O, y mae efe yn eisiau yma yn bresenol; ond fe fydd wrth ei waith yn siriol yn y cyfarfod fry. Pa le y mae Mr. B. Jones, o Bwllheli, yr ysgrythurwr cofus hwn, a'r esponiwr call, medrus, ac ardderchog? Y mae wedi myned i'r distaw fedd. Pa le y mae Dr. Lewis, yr athrawiaethwr pwylllog a chadarn, a'r ysgrifenydd defnyddiol? Nid yw efe i'w weled mwy yma mewn gymanfa ar y llawr. Pa le y mae Mr. Abraham Tibbott, yr hwn a osodai allan ogoniant y gyfraith a'r efengyl yn y modd mwyaf goleu, grymus, a chadarn, hyd nes y byddai yr annuwiolion yn crynu, a'r saint yn llawenhan ac yn gorfoleddu; ac fe ddywedai fwy o bethau mawrion yr efengyl mewn ychydig eiriau na neb yn ei oes? Y mae efe wedi myned o fyd y cystudd mawr, ac oddi wrth ei waith at ei wobr. Pa le y mae Mr. Jonathan Powel, yr hwn oedd a'i dafod fel cloch arian, ac a ddywedai yn rhyfedd am blâ calon pechadur, ac am rinweddau gwaed y groes? Y mae efe wedi myned i dangnefedd. Pa le y mae Mr. John Phillips, o Dreyddel, yr hwn oedd, fel mab y daran, yn dywedyd am drueni yr annuwiol yn y modd mwyaf dychrynlyd; ac, fel mab diddanwch, yn dywedyd am rinweddau y gwaed a breintiau y duwiolion, hyd nes y byddai llawer yn canmol ac yn gorfoleddu: ac fe gafodd y fraint o dderbyn un ar bumtheg ar hugain o aelodau i'w eglwys ar yr un waith, ac yr oedd hyny yn rhyfeddod mawr yn yr amser tywyll, clauar hyny? Nid yw ef yma, ond y

mae wedi myned i'r anedde lonydd. Pa le y mae Mr. Davies, o'r Alltwen, yr hwn a ddywedai yn rhyfedd am gadernid y cyfamod gras, cyfiawnder cyfrifol y Meirchiau, ac am yr undeb annattodol sydd rhwng Crist a'i bobl? Y mae wedi myned i'r gymanfa fry. Pa le y mae Hughes, o'r Dinas, un o'r rhai mwyaf duwiol, diwyd, a llafurus yn ei oes: nid oedd yn colli un cyfarfod yma ag oedd o hyd cyrhaedd iddo; ond yn awr yr ydym yn gweled ei eisiau? Pa le y mae Jones, Trawsfynydd, yr hwn a ddywedai yn rhyfedd iawn am brofiad yr eglwys yn ei gwahanol dywydd, ac a ymddygai yn dawl yn mhob man? Y mae efe wedi myned i frymau gogoniant. Pa le y mae Griffiths, Caernarfon, y pregethwr doniol a'r cantwr enwog hwnw? Y mae efe wedi myned i wlad y canu tragwyddol. Pa le y mae Mr. Ebenezer Morris, o Gapel Twr-gwyn, yr hwn a ddi-lynodd y cymanfa oedd yn ddiwyd dros hir flynnyddau, ac a fu yn fab diddanwch i lawer ac yn dangnefeddwr enwog; ac a ddywedai yn gadarn, yn oleu, ysgrythurol, melus, a gwresog am anchwiliadwy olud Crist ac am aberth Calfaria, hyd nes y byddai beichiau cannoedd yn myned i-lawr, a thorfeydd yn myned adref gan orfoleddu? Nid yw efe i'w weled yma mwy, ond y mae efe wrth ei fodd yn canu'r delyn aur yn y gymanfa fry. Pa le y mae yr enwog Mr. Charles, o'r Bala, yr hwn a fu yn un o'r rhai blaenaf i gychwyn y Bibl Gymdeithas, ac i osod yr Ysgolion Sabbothol mewn iawn drefn yn Nghymru, ac a anrhydeddodd y Brutanaid a Geiriadur Ysgrythurol tra rhagorol, yr hwn a fydd yn ddefnyddiol i gannoedd tra parhao yr iaith Omeraeg? Nid yw efe yma; ond y mae yn y gymanfa fry, yn nosio mewn llawenydd pur, ac yn ymhyfrydu i edrych i mewn i ddirgelwch y Drindod yn Undod; ac i drefn yr iachawdwriaeth fawr yr hon a ddylifodd i ni trwy waed calon y Cyfryngwr, fel Immanuel, Duw-dyn. Amser a ballai i mi grybwyll am Evans a Williams, o Drewen, Jones o Horeb, Morris o Ebenezer, Pugh o'r Brithdir, a Davies o Langatwg; pa rai a fu yn ddefnyddiol oll yn eu dydd, ac yn cyd-deithio gyda mi yma yn y byd: y mae arnaf hiraeth am eu cyfeillach, ond yr ydwyf yn

gobeithio cael eu cyfarfod oll yn y gymanfa fry, lle na raid ymadael mwy. 5, Cyfarfod llawn o ryfeddodau fydd y cyfarfod hwnw: gwaith y dyrfa luosog fydd rhyfeddu cariad, doethineb, gallu, a thrugaredd y Jehofa; a rhyfeddu dirgelwch yr undeb personol a gymerodd le rhwng tragywyddol berson y Gair â'n natur ni yn mru y wryf, a rhyfeddu rhinweddau y gwaed a dywalltwyd ar Galfaria. 6, Cyfarfod tragywyddol ac heb ymadael mwy: ni bydd yno neb yn ymadael â'u gilydd nac â'u gwaith, nac yn colli gwedd wyneb Iesu byth ond hyny: yno y byddwn yn wastadol gyda'r Arglwydd. II, Rhesymau i brofi y daw'r saint i gyd adref i'r cyfarfod mawr yma. 1, Am fod Duw wedi parottoi y wledd ar eu cyfer, ac wedi eu rhagluniaethu i fod yr un ffurf a delw ei Fab ef, fel y byddai efe yn gyntaf-anedig yn mhlith brodyr lawer. 2, Am ei fod wedi eu caru â chariad tragywyddol, am hyny hwy a gânt eu tynu â thrugaredd. 3, Am fod Crist wedi rhoddi gwaed ei galon i'w prynu a'u sancteiddio, i'w gosod yn eglwys iddo ei hun, heb arni na brycheuyn, na chrychni, na dim o'r cyfryw. 4, Am fod y Duw digelwyddog wedi addaw y cyfarfod hwn iddynt. *Hon yw yr addewid a addawodd efe i ni, sef bywyd tragywyddol.* 5, Am mai ewylllys Duw yw iddynt gael y cyfarfod hwn, Mat. xviii, 14. 6, Am fod Crist yn eiriol yn y nef ar iddynt gael dyfod i gyd i'r cyfarfod hwn, Ioan xvii, 24. 7, Am fod yr Yspryd Glân yn eu calonau yn ernes o'r cyfarfod hwn. *Yr hwn yw ernes ein heitfeddiaeth ni, hyd bryniad y purcas, i fawl ei ogoniant ef.* Y mae anian yn y saint i dynu tua'r nefoedd, fel y mae tuedd yn y ffynonau bach sydd yn tarddu ar y mynyddoedd i redeg tua'r môr, neu fel y mae tuedd yn y mwg i esgyn i fynu. Addysg 1, Mewn trefn i ni gael cyfarfod yn y nef, ar fynydd Sion, yr oedd yn rhaid i gyfarfod rhyfedd fod yn gyntaf ar fynydd Calfaria: wele y priodoliaethau wedi cyfarfod i gael eu gogoneddu, wele y gyfraith wedi dyfod yno i gael ei hanrhydeddu, ac wele holl bechodau yr eglwys wedi cyfarfod yno ar ben y Meichiau mawr. 2, Chwiliwn am barodrwydd i fyned i'r cyfarfod mawr hwn: y mae

arnom eisiau gwisgoedd a dysgeidiaeth addas, ac ad-
nabyddiaeth o Lywydd y wlad. O am addfedrwydd i'r
eyfarfod hyfryd hwn. *Amen.*

Mae f 'hiraeth am ymddattod, 'fyn'd at fy anwyl frawd,
'R wy'n un o'r etifeddion, ni byddaf mwy yn dlawd,
Ce's ran o'r nefol drysor, mae rhagor etto 'aol,
Caf dreulio trag'wyddoldeb, mewn nndeb, ya ei go'l.

VIII, AM DDIRYWIAD YR EGLWYS YN Y DYDDIAU DIWEDDAF, A GWRTHRYFEL GOG A MAGOG.

Y mae yn eglur mai ail fab Japheth, a brawd Gomer,
ac wy'r Noah, oedd Magog, Gen. x, 2. Ac y mae lle i
ni feddwl mae efe oedd tad y Seythiaid a'r Tartariaid.
Gwlad eang yw Tartari, yn y rhan ogleddol o Asia; ac
y mae yn dra thebyg mai trigolion Tartari, yn yr ystyr
helaethaf o'r gair, a feddylir wrth Magog; ac mai eu
tywysog neu eu brenin oedd Gog. Y mae'r Tartariaid
wedi bod yn elynion rhyfelgar, gwaedlyd, a chreulon
iawn i lawer o drigolion gwledydd y dwyrain y ngwahanol
oesau'r byd, a chwedl gwneyd difrod a dinystr creulon,
ofnadwy, a dychrynlyd ar lawer o deyrnasoedd yn y
rhan ddwyreiniol o'r byd; ac y mae holl Asia yn agos
yn meddiant hiliogaeth Magog yn bresenol. Wrth
Gog a Magog yn Ezeziel xxxviii, 39, y mae i ni ddeall
gwrthwynebwy'r a gelynyon creulon Israel ar ol iddynt
ddychwelyd o gaethiweid Babilon: yr Aiphtiaid, y Sa-
mariaid, y Syriaid, a'r Amoriaid, neu Antiochus brenin
Syria a'i luoedd arfog, yr hwn a wnaeth ddifrod ddych-
rynlyd ar ddinas Jerusalem, ac a ddangosodd greulon-
deb mawr i'r Iuddewon. Neu, fe ddichon wrth Gog a
Magog y deallwn y Tyrciaid, pa rai ag sydd yn gormesu
ac yn aflonyddu'r Groegiaid Cristionogol yn aml. Y
mae Magog yn arwyddo gorchuddiedig neu ddirgel, ar
gair Gog yn arwyddo diorchudd, cyhoedd, neu amlwg;
felty wrth Gog a Magog yn yr ugeinfed benod o'r Dat-
guddiad, y deallwn holl elynion dirgel a chyhoedd
ogtwys Dduw ar ol diwedd y mil blynnyddoedd, ryw

ychydig cyn i Grist ddyfod i farnu'r byd. Y mae lle i feddwl y daw dirywiad mawr ar grefydd, neu ar yr eglwys ar ol i'r oes auraid, neu y mil blynedd, ddarfod; ac fe â dynion yn glauar, yn farwaid, yn ffurfiol, ac yn gysglyd iawn, ac enw o fod yn fyw, ond etto yn farw. Fe ddaw amseroedd enbyd yn y dyddiau diweddfaf. 1, Bydd dynion a'u serch arnynt eu hunain, sef yn gwneyd y cyfan i dderchafu ac anrhydeddu eu hupain. 2, Yn ariangar, sef yn ymroddi i gybydd-dod. 3, Yn ymfrostwyr; sef yn priodoli iddynt eu hunain yr hyn nad ydynt yn ei haeddu, ac yn ymfrostio eu bod yn gymeradwy gan Dduw, er byw yn arian ac yn henrydd. 4, Yn feilchion; byddant yn rhy uchel eu meddwl i dderbyn cyngor na cherydd, ac yn tybied eu hunain yn well na neb arall. 5, Yn gablwyr; sef yn cablu Duw a'r gwirionedd, a'u cydgreaduriad. 6, Yn anuffdd i rieni; sef i'w rhieni naturiol; ac i lywodraethwyr gwladol, ac i wir weinidogion yr efengyl. 7, Yn aniolchgar; sef yn byw yn gwbl anystyriol o ddaioni Duw tu ag atynt. 7, Yn annuwiol; sef yn llawn o ddi-dduwiaeth. 9, Yn angharedig; sef yn gelyd, yn ansiriol, a digyfeillach. 10, Yn torri cyfamod; sef a'r eglwys, ac a'u perthynasau, ac a'u cydgreaduriad, ac yn anhawdd eu cymodi. 11, Yn eallibaid, sef yn camgyhuddo, yn drwg-liwio, ac yn gwrthwynebu ereill. 12, Yn anngbymesur; sef yn llawn awydd i borthi eu blys a'u chwanta'u llygreddig yn mhob dull a modd. 13, Yn anfwyn; sef yn sarug, yn afrywiog, ac yn greulon o ran eu tymherau. 14, Yn ddiserch i'r rhai da; sef yn elyniaethol iawn i'r gwir ddurwiolion. 15, Yn waed-wyllt, yn chwyddedig, yn caru melus-chwant yn fwy nag yn caru Daw. Dyma rai o arwyddion yr amseroedd yn y dyddiau diweddfaf, 2 Tim, iii, 2, 3, 4. Y mae lle i feddwl yr â dynion yn llawn o ddi-dduwiaeth, yn greulon ac yn orledigaethus, ac yn fradwyr dichellgar cyn diwedd y byd; ac fe fydd durwiolion yn anaml iawn, a chrefydd yn lled isel, fel ag yr oedd y byd cyn y diluw, a chyn genedigaeth Crist; felly hefyd y bydd oſe cyn i Grist ddyfod i'r farn: fe fydd i ser y nef syrthio. Nid yn unig fe syrthiodd yr Iudeuwon oddi-

wrth eu breintiau gynt, ac nid yn unig fe syrthiodd gwemidogion Rhufain oddiwrth y gwirionedd, ond fe syrthia miloedd oddiwrth grefydd ar ol y mil blynyddoedd, ac a droant yn elynion hollol i'r wir eglwys. Y gwrthgilwyr hyn fydd Gog a Magog yn y dyddiau diweddaf: byddant yn rhodio yn ol eu chwantau eu hunain, ac yn gwatwar crefydd a duwioldeb, gan ddywedvd, Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef? 2 Pedr iii. 4. Ac yna hwy a godant erledigaeth greulon ar dduwiolion a'r wir eglwys; a phan y byddo'r gwrthgilwyr erledigaethus hyn yn bwriadu i lwyrr ddistrywio crefydd ac eglwys Dduw oddiar y ddaear, fe floeddia yr archangel, fe ddaw Crist gyda'r cymylau, a phob llygad a'i gwel, ac efe a eistedd ar ei orsedd-fainc wen fawr, ac fe gyfodir y meirw, fe elwir pawb i gyfrif, ac fe agorir y llyfrau, ac fe gaiff pawb eu barnu yn ol eu gweithredoedd yn ol y pethau fydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau.

Ioan. I ba bethau y mae'r adgyfodiad yn cael ei gyffelybu yn y gair?

Luc. 1, Mae yn cael ei gydmaru i foreu, Salm xlix, 14, Can. ii, 17. 2, Mae yn cael ei gyffelybu i ddefro o gwsg, Dan. xii, 2. 3, Mae yn cael ei gydmaru i ffarguro, adfywio, a blodeuo, Esay xxvi, 19, a lxvi, 14.

Ioan. Pa fath ddydd fydd dydd y farn?

Luc. 1, Dydd mawr ac anghyymarol. Mae yn cael ei gydmaru i gynhauaf ac i frawdlys manwl, Dat. vi, 17. Mat. xiii, 39; Dat. xx, 11, 12, Esay x, 3. 2, Dydd o daledigaeth i bawb yn ol eu gwaith, Rhuf. ii, 6—10, Dat. xxii, 12. 3, Dydd ofnadwy a dychrynllyd i'r annuwiol, Joel ii, 30, 31. 4, Dydd o ddigter a digofaint mawr i'r anwir, Nah. i, 6. 5, Dydd o gyfnewidiad a dinystr mawr ar waith a dull y byd presenol, 2 Pedr iii, 10, Nah. i, 5. 6, Dydd o ddatguddiad pob dirgelion, Luc xii, 2, Preg. xii, 14. 7, Dydd llawen a gorfoleddus iawn i'r duwiolion, Esay lxvi, 14.

Ioan. Pa fodd y daw dydd y farn?

Luc. 1, Fe ddaw yn ddisymwth, fel gwaedd Hinnos, Mat. xxv, 6. 2, Fel tywyniad mellten, Luc. xii, 55.

24. 3, Yn annisgwyladwy, fe'llleidr yn y nos, 2 Pedr iii, 10. 4, Fel magl am yr waderyn, Luc xxi, 35. 5, Fel gwewyr esgor, 1 The. v, 3. 6, Fel y diluw yn amser Noah, a dinystr Sodom yn amser Lot, Luc xvii, 26—31.

Ioan. Pa beth a allwn ni ddysgu oddiwrth athrawiaeth y farn?

Luc. 1, Dylem ddysgu bod yn effro a diwyd gyda gwaith yr Arglwydd, Luc xii, 37. 2, Dylem gyrchu ac ymestyn at sancteiddrwydd, 2 Pedr iii, 11. 3, Dylem ymgadw oddiwrth arferion llygredig y byd, Luc xxi, 34. 4, Dylem ddysgu bod yn amyneddgar yn mhob gorthrymderau, 1 Pedr i, 7. 5, Dylem fod yn ddiolchgar iawn am noddfa ddiddos erbyn y dydd hwnw, Joel iii, 16.

Ioan. I ba beth y cyffelybir y nefoedd yn y gair?

Luc I, Mae yn cael ei galw yn etfeddiaeth, 1 Pedr i, 4, Eph. i, 14. 2, Teyrnas a gorsedd-fainc, Iago ii, 5, Dat. iv, 4. 3, Gwlad well, Heb. xi, 14, 16. 4, Mae yn cael ei galw yn ddinas, Heb. xi, 16, 11. 5, Ty nid o waith llaw, 2 Cor. v, 1. 6, Mae yn cael ei galw yn orphwysfa, Heb. iv, 9. 7, Tragwyddol ogoniant, 2 Cor. iv, 17, 1 Pedr v, 10. 8, Mae yn cael ei galw yn baradwys, Luc xxiii, 43, Dat. ii, 7. 9, Gotud gwell ac un parhaus, Heb. x, 34. 10, Mae yn cael ei galw yn goron ac yn llawenydd, 2 Tim. iv, 8, Dat. ii, 10, 1 Pedr v, 4, Mat. xxv, 21.

Ioan. Pa fodd y darlunir uffern, neu drueni y damnedigion, yn y gair?


Luc. Mae yn cael ei alw yn llyn o dân a brwmstan, Dat. xx, 10, a xxi, 8, a xix, 20. 2, Mae yn cael ei alw yn garchar, Mat. v, 25, 1 Pedr iii, 19. 3, Mae yn cael ei alw yn bwll diwaelod, Dat. ix, 2, 11, a xvii, 8, a xx, 3. 4, Tywyllwch eithaf, Mat. viii, 12. 5, Poethwynt ystornus, Salm xi, 6. 6, Tophet, ffwrn o dân, a thân annifoddadwy, Esay xxx, 33, Mat. xiii, 43, a iii, 12. O! gwareder ni oll rhag myned i'r lle poenus hwnw, ac addfeder ni oll i'r trigfanau dedwydd ar fryniau gogon-

iant, i gael cyndeithasu â'r Drindod i dragywyddoldeb,
trwy Grist y Cyfrangwyl, Amen ac Amen.

Ffarwel fy anwyl frodyr, sydd yn y frwydyr fawr.
O gwisgwch arfa'u'r nefoedd yn lluoedd ar y llawr;
Gorchfygwch eich gelynlon trwy nerth eich tirion Dad,
'Nol gorphen chiwi gewch ganu a molli am y gwa'd.

CYNNWYSIAD.

Tu dal.	Tu dal.
Aaron yn gysgod o Grist . . .	Cristion o fewn i ychydig . . .
Bod y diafol yn ddinystrydd . . .	Brawd erbyn caledi . . .
Etifeddiaeth y saint . . .	Da y gwnaeth Crist bob peth . . .
Mae'r saint yn weision Duw . . .	Crist, pabell y cyfarfod . . .
Am y cymylau . . .	Bod yr eglwys yn gadarn . . .
Am y goleuni . . .	Fod y saint yn bobl ryddion . . .
Tarth a gwagedd . . .	Fod Duw yn hollalluog . . .
Galar teuluaid . . .	Am ras Duw . . .
Yn erbyn galar anghymedrol . . .	Caniadau'r nefoedd . . .
Am wendid dynion . . .	Goleuni Calfaria . . .
Anmwiolion yn debyg i'r Aiph- iaid . . .	Crist yn meddyginiaethu . . .
Tristwch uffern, a llawenydd y nef . . .	Fod Crist yn feddyg da . . .
Bod Duw yn Dad i'r saint . . .	Duw yw'r hwn sydd yn gweithio . . .
Am dad synwryol . . .	Natur y creadur newydd . . .
Iechydwrïaeth yn debyg i fôr . . .	Fod y duwiol yn ddedwydd . . .
Bod Duw yn Dad rhagorol . . .	Fod yr eglwys yn fyddin gref . . .
Fod Duw yn hollwybodol . . .	Gweinidog yn fab diddanwch . . .
Fod Duw yn gymorth i'r saint . . .	Llonyddwch y duwiol . . .
Am ysbryd mabaidd . . .	Crist yn ffynon agored . . .
Plant yn llawenydd i'w tad . . .	Crist yn briod fab Duw . . .
Fod Duw yn Farnwr . . .	Dylem ddywedyd yn dda am yr Arglwydd . . .
Crist yn rhagori fel Brenin . . .	Tai y gwagedd . . .
Rhad roddion Duw . . .	Bethel, neu dy Dduw . . .
Duw yn Dad y tegwch . . .	Fod yr eglwys yn cael ei galw yn winllan . . .
Duw yr heddweh . . .	Gelyniaeth at Dduw . . .
Am yr iechydwrïaeth . . .	Natur gwledd yr efengyl . . .
Uniondeb y Cristion . . .	Crist, bara'r bywyd . . .
Y saint yn debyg i wllith . . .	Y briodas ysbrydol . . .
Canwyllau yn goleuo . . .	Gweinidogion yn feibion y daran . . .
Ielbul y saint . . .	Bochim, neu le'r wylofain . . .
Achan yn achos o drallod . . .	Chwiliwr dyfal . . .
Dyffrynoedd gofid . . .	Am fynydd Carmel . . .
Ilawer math o gynulleidfa . . .	Cyfrinach â Duw . . .
Ffynonau'r iechydwrïaeth . . .	Cadernid yr Arglwydd . . .
Ilawer o dystion . . .	Cosp yr annuwiol . . .
Gorphwysfa dragywyddol . . .	Duw yn cyflwrdd â'r galon . . .
Bod Duw yn gwa'n . . .	
Y Cristion yn debyg i lew . . .	



Mr. P. P. P. P. P.

Joseph

